# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 08/10/2014

Cynnwys Contents

Datganiad gan y Llywydd
Statement by the Presiding Officer

Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth
Questions to the Minister for Finance and Government Business

Cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
Questions to the Minister for Public Services

Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol
Questions to the Counsel General

Cynnig i Ddiddymu Rheoliadau Addysg (Sefydliadau Ewropeaidd) a Chymorth i Fyfyrwyr (Cymru) (Dirymu) 2014
Motion to Annul the Education (European Institutions) and Student Support (Wales) (Revocation) Regulations 2014

Adroddiad y Pwyllgor Cyllid ynghylch yr Arfer Gorau mewn Prosesau Cyllidol
The Finance Committee's Report on Best Practice Budget Processes

Adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynghylch Gwasanaethau Orthodontig yng Nghymru
The Health and Social Care Committee's Report on Orthodontic Services in Wales

Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Y Grant Amddifadedd Disgyblion
Welsh Liberal Democrats Debate: The Pupil Deprivation Grant

Cyfnod Pleidleisio
Voting Time

Dadl Fer: Adfywio Trefol 2.0—Creu Cymunedau Trefol a Chanol Trefi Cynaliadwy
Short Debate: Urban Regeneration 2.0—Creating Sustainable Urban Communities and Town Centres

*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

13:30

## Datganiad gan y Llywydd

## Statement by the Presiding Officer

Senedd.tv Fideo Video

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

I am sure that Members will be interested to know that today is the one thousandth Plenary meeting of the Assembly since it was established in 1999. There are 19 Members still here today who were present at that first meeting on 12 May 1999. Today's Assembly is a very different institution to the one that met 15 years ago, especially as we have had law-making powers since 2011.

Rwy'n siŵr y bydd o ddiddordeb i Aelodau wybod mai Cyfarfod Llawn y Cynulliad heddiw yw y milfed ers ei sefydlu ym 1999. Mae 19 Aelod yn dal yma heddiw a oedd yn bresennol yn y cyfarfod cyntaf ar 12 Mai, 1999. Mae'r Cynulliad heddiw yn sefydliad gwahanol iawn i'r un a gyfarfu 15 mlynedd yn ôl, yn enwedig gan ein bod wedi cael pwerau deddfu ers 2011.

I personally very much hope that, over the course of the next 1,000 meetings, the Assembly will see many more changes, including a settlement that is clearer and easier to understand, greater control by the Assembly over its own internal affairs and procedures, and an increase in the number of Assembly Members, to reflect the Assembly's enhanced responsibilities.

Yn bersonol gobeithiaf yn fawr y gwêl y Cynulliad yn ystod y 1,000 cyfarfod nesaf lawer mwy o newidiadau, gan gynnwys setliad sy'n gliriach ac yn haws i'w ddeall, rhagor o reolaeth i'r Cynulliad dros ei faterion a'i weithdrefnau mewnol ei hun, a chynnydd yn nifer Aelodau'r Cynulliad, i adlewyrchu cyfrifoldebau ychwanegol y Cynulliad.

So, we now move in to the one thousandth meeting.

Felly, symudwn ymlaen yn awr i'r milfed cyfarfod.

13:31 **Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth** / **Questions to the Minister for Finance and Government Business** Y Senedd.tv [Fideo] [Video]

## Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

The first question is from Suzy Davies.

Mae'r cwestiwn cyntaf oddi wrth Suzy Davies

### Cronfeydd yr Undeb Ewropeaidd / European Union Funds

13:31 **Suzy Davies** [Bywgraffiad] [Biography] Senedd.tv [Fideo] [Video]

Diolch, Lywydd—on such an important day as well.

Diolch, Lywydd—ar ddiwrnod mor bwysig hefyd.

*1. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod cronfeydd yr Undeb Ewropeaidd yn cyrraedd y cymunedau y maent wedi'u bwriadu i'w helpu? OAQ(4)0456(FIN)*

*1. Will the Minister make a statement on how the Welsh Government ensures that European Union funds reach the communities that they were designed to benefit? OAQ(4)0456(FIN)*

13:31 **Jane Hutt** [Bywgraffiad] [Biography] Senedd.tv [Fideo] [Video]

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

We work closely with our partners so that they deliver innovative EU projects, which create jobs, support people and enable businesses and communities to thrive in Wales.

Rydym yn cydweithio'n agos â'n partneriaid er mwyn iddynt gyflwyno prosiectau UE arloesol, sy'n creu swyddi, cefnogi pobl a galluogi busnesau a chymunedau i ffynnu yng Nghymru.

13:31 **Suzy Davies** [Bywgraffiad] [Biography] Senedd.tv [Fideo] [Video]

Thank you for that answer, Minister. Of course, that is what we would all like to see, I am sure. However, I have received a complaint from a constituent that the specification for a particular project that was advertised by open tender had, in fact, been drafted with a particular bidder in mind. The individual concerned was told by a member of the local authority that there was no point in anyone else bidding for that work, for that very reason. The main delivery partner in the successful bid was a new organisation with aims that duplicated existing provision, and which was staffed, apparently, by the local authority's own employees. Are you content that all your monitoring processes for the awarding of these valuable contracts are as robust as they might be?

Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Wrth gwrs, dyna y byddem i gyd yn hoffi ei weld, rwy'n siŵr. Fodd bynnag, rwyf wedi derbyn cwyn gan etholwr y bu i fanyleb ar gyfer prosiect penodol a hysbysebwyd drwy dendr agored gael ei drafftio, mewn gwirionedd, gyda chynigydd penodol mewn golwg. Dywedwyd wrth yr unigolyn dan sylw gan un aelod o'r awdurdod lleol nad oedd unrhyw bwynt i neb arall ymgeisio am y gwaith hwnnw, am yr union reswm. Sefydliad newydd oedd y prif bartner cyflenwi yn y cais llwyddiannus oedd â nodau a oedd yn dyblygu darpariaeth sydd eisoes yn bodoli, ac a gâi ei staffio, mae'n debyg, gan weithwyr yr awdurdod lleol ei hun. A ydych yn fodlon bod eich holl brosesau monitro ar gyfer dyfarnu'r contractau gwerthfawr hyn mor gadarn ag y gallent fod?

13:32 **Jane Hutt** [Bywgraffiad] [Biography] Senedd.tv [Fideo] [Video]

Well, Suzy Davies, I am very clear that we have very strict monitoring processes, and, of course, that starts at the first instance, in terms of any expressions of interest in terms of future projects. However, I would like you to write to me on that matter.

Wel, Suzy Davies, rwy'n glir iawn bod gennym brosesau monitro llym iawn, ac, wrth gwrs, mae hynny'n dechrau yn y lle cyntaf, gydag unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb o ran prosiectau'r dyfodol. Fodd bynnag, hoffwn i chi ysgrifennu ataf ynghylch y mater hwnnw.

13:32 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad] [Biography] Senedd.tv [Fideo] [Video]

Nid yn unig sicrhau bod arian Ewropeaidd yn cyrraedd yw'r nod, wrth gwrs, ond mae eisiau bod yn ofalus iawn ynglŷn â sut mae'r arian hwnnw yn cael ei wario. Er enghraifft, yng Nghaergybi, mae budd amlwg a all ddod o gynlluniau INTERREG, ond mae'r gymuned yno yn pwysleisio'r ffaith ei bod am gael mewnbwn i'r blaenoriaethau ar gyfer gwario'r arian hwnnw. Sut mae sicrhau'r llais cymunedol hwnnw?

Securing European funding is not the only aim, of course; being very careful with regard to how it is spent is also important. For example, in Holyhead, very clear benefits can be derived from INTERREG schemes, but the community there emphasises the fact that it wants to have its say on priorities for spending that money. How can that community voice be heard?

13:33 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

I am grateful for your recognition of the important impact of those European funds. You refer to INTERREG. I know that you are aware of the consultation that we have been undertaking in terms of the new Wales-Ireland funds, which, of course, are going to be important in terms of delivery and development of proposals to your constituents, and to local communities. I look forward to announcing the outcome of that consultation later on next month.

Rwy'n ddiolchgar eich bod yn cydnabod effaith bwysig yr arian Ewropeaidd hynny. Rydych yn cyfeirio at INTERREG. Gwn eich bod yn ymwybodol o'r ymgynghoriad rydym wedi bod yn ei gynnal o ran y cronfeydd Cymru-Iwerddon newydd, sydd, wrth gwrs, yn mynd i fod yn bwysig o ran darparu a datblygu cynigion i'ch etholwyr, ac i gymunedau lleol. Edrychaf ymlaen at gyhoeddi canlyniad yr ymgynghoriad hwnnw yn nes ymlaen y mis nesaf.

Senedd.tv Fideo Video

13:33 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Minister, one community that will be extremely important in boosting Wales's gross value added is the academic community. Can you tell us how the Welsh Government is supporting the academic community in building the kind of pan-European partnerships that will enable them to be successful in bidding for research funding from the European Union?

Weinidog, un gymuned a fydd yn eithriadol bwysig o ran hybu gwerth ychwanegol crynswth Cymru yw y gymuned academaidd. A allwch ddweud wrthym sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r gymuned academaidd wrth adeiladu y math o bartneriaethau pan-Ewropeaidd a fydd yn eu galluogi i fod yn llwyddiannus wrth wneud cais am gyllid ymchwil oddi wrth yr Undeb Ewropeaidd?

Senedd.tv Fideo Video

13:34 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Importantly, Horizon 2020 for the academic community is progressing in terms of the support that we have given, with the unit in the Welsh European Funding Office. That is a unit to promote and to support, particularly, academic and, of course, business partners and trans-national partners, in terms of developing projects. Certainly, I understand that that is progressing well, and will report back to the Assembly in due course.

O'r pwys mwyaf, mae Horizon 2020 ar gyfer y gymuned academaidd yn mynd rhagddo o ran y gefnogaeth rydym wedi'i rhoi, gyda'r uned yn Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Uned yw honno i hyrwyddo a chefnogi, yn arbennig, bartneriaid academaidd a busnes wrth gwrs, a phartneriaid traws-genedlaethol, o ran datblygu prosiectau. Yn sicr, rwy'n deall bod hynny'n mynd rhagddo'n dda, a bydd yn adrodd yn ôl i'r Cynulliad maes o law.

Senedd.tv Fideo Video

## Cyllideb Cymunedau a Threchu Tlodi

## The Communities and Tackling Poverty Budget

13:34 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

*2. A wnaiff y Gweinidog amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru wrth ddyrannu'r gyllideb Cymunedau a Threchu Tlodi? OAQ(4)0459(FIN)*

*2. Will the Minister outline the Welsh Government's priorities when allocating the Communities and Tackling Poverty budget? OAQ(4)0459(FIN)*

Senedd.tv Fideo Video

13:34 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Our focus on tackling poverty, preventative measures, and early intervention has shaped our approach to the draft budget.

Mae ein ffocws ar drechu tlodi, mesurau ataliol, ac ymyrraeth gynnar wedi llywio ein hymagwedd at y gyllideb ddrafft.

Senedd.tv Fideo Video

13:34 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Clearly, the reconfigured Minister's portfolio now includes housing. In the past, whenever the Welsh Government has received Treasury grants moneys to help first-time buyers, it has chosen to use it on other things. Recognising that housing is key to tackling poverty and delivering health and wellbeing, how will you ensure, if at all, that future grant moneys received to help first-time buyers from the Treasury will be used for that purpose?

Yn amlwg, mae portffolio'r Gweinidog wedi'i aildrefnu bellach i gynnwys tai. Yn y gorffennol, pryd bynnag y mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn arian grantiau gan y Trysorlys i helpu prynwyr tro cyntaf, mae wedi dewis ei ddefnyddio ar bethau eraill. Gan gydnabod bod tai yn allweddol i drechu tlodi a darparu iechyd a lles, sut y byddwch yn sicrhau, os o gwbl, y bydd arian grant oddi wrth y Trysorlys a dderbyniwyd i helpu prynwyr tro cyntaf yn cael ei ddefnyddio yn y dyfodol at y diben hwnnw?

Senedd.tv Fideo Video

13:35 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

The ways in which we have invested our funding includes financial transactions to fund Help to Buy-Wales. We also recognise that we need to invest in our social housing grant in order to deliver affordable social housing. In the draft budget last week, we protected the capital budget for the major repairs allowance, which will help achieve quality housing action, at £108 million. We are delivering in terms of addressing demand and supply pressures, investing £5 million financial transactions funding in our home improvement loans scheme, which will achieve the quality housing action programme.

Mae'r ffyrdd rydym wedi buddsoddi ein cyllid yn cynnwys trafodion ariannol i ariannu Cymorth i Brynu-Cymru. Rydym hefyd yn cydnabod bod angen i ni fuddsoddi yn ein grant tai cymdeithasol er mwyn darparu tai cymdeithasol fforddiadwy. Yn y gyllideb ddrafft yr wythnos diwethaf, rydym wedi diogelu'r gyllideb gyfalaf ar gyfer y lwfans atgyweiriadau mawr, a fydd yn helpu i gyflawni camau gweithredu o ansawdd ar dai, gwerth £108 miliwn. Rydym yn cyflawni o ran mynd i'r afael â phwysau yn sgîl y galw am dai a'r cyflenwad, gan fuddsoddi £5 miliwn o gyllid trafodion ariannol yn ein cynllun benthyciadau gwella cartrefi, a fydd yn gwireddu'r rhaglen weithredu ar gyfer tai o ansawdd.

Senedd.tv Fideo Video

13:36 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I call Mike Hedges.

Galwaf ar Mike Hedges.

Senedd.tv Fideo Video

13:36 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Thank you, Presiding Officer. I wish I had been paying attention now.

Diolch i chi, Lywydd. Byddai'n dda gennyf yn awr pe bawn wedi bod yn talu sylw.

Senedd.tv Fideo Video

13:36 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Are you going to ask a question or not?

A ydych yn mynd i ofyn cwestiwn neu beidio?

Senedd.tv Fideo Video

13:36 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Yes, I am.

Ydwyf.

Senedd.tv Fideo Video

13:36 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Thank you. [Laughter]

Diolch. [Chwerthin]

Senedd.tv Fideo Video

13:36 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

The Minister is aware of the success of Communities First and Flying Start, but does she agree that these investments are helping our poorest communities and does she also agree that that is one of the things that differentiates us from the Tories?

Mae'r Gweinidog yn gwybod am lwyddiant Cymunedau yn Gyntaf a Dechrau'n Deg, ond a yw'n cytuno bod y buddsoddiadau hyn yn helpu ein cymunedau tlotaf ac a yw hi hefyd yn cytuno mai dyna un o'r pethau sy'n ein gwahaniaethu oddi wrth y Toriaid?

Senedd.tv Fideo Video

13:36 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Of course, as far as Flying Start is concerned we have sought to extend Flying Start. We have doubled the budget. It is a flagship early years programme. The impact of that, in terms of the additional funding, will mean that we will be able to help 36,000 children compared with 18,000 previously. Those children are in our most disadvantaged communities. That means that, by March 2016, it will benefit 25% of children in Wales under the age of four and their families.

Wrth gwrs, o ran Dechrau'n Deg rydym wedi ceisio ehangu Dechrau'n Deg. Rydym wedi dyblu'r gyllideb. Dyma raglen flaenllaw ar gyfer y blynyddoedd cynnar. Effaith hynny, o ran y cyllid ychwanegol, yw y byddwn yn gallu helpu 36,000 o blant o gymharu â 18,000 yn flaenorol. Mae'r plant hynny yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig. Mae hynny'n golygu, erbyn Mawrth 2016 y bydd yn cynorthwyo 25% o blant dan bedair oed a'u teuluoedd yng Nghymru.

Senedd.tv Fideo Video

13:36 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Un peth na fydd o fantais i'r bobl hynny, wrth gwrs, yw penderfyniad eich plaid chi yn San Steffan i dorri budd-daliadau plant. Onid ydych yn cytuno y byddai hynny yn rhoi hyd yn oed mwy o bwysau ar y gyllideb cymunedau a thaclo tlodi a bod hynny, mewn gwirionedd, yn gamgymeriad?

One thing that will not be of benefit to those people, of course, is your party's decision in Westminster to cut child benefits. Do you not agree that that would put even more pressure on the communities and tackling poverty budget and that it is, in fact, a mistake?

Senedd.tv Fideo Video

13:37 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Clearly, the way in which we are supporting, particularly, our extended investment in Flying Start, shows this Welsh Labour Government's commitment to early years and the important intervention for disadvantaged children and young people. I certainly welcome the announcement by Ed Miliband, the leader of the Labour Party, on raising the minimum wage. That also is going to particularly help low-income families.

Yn amlwg, mae'r ffordd rydym yn eu cefnogi, yn enwedig ein buddsoddiad estynedig yn Dechrau'n Deg, yn dangos ymrwymiad Llywodraeth Lafur Cymru i'r blynyddoedd cynnar ac mae'r ymyriad yn bwysig i blant a phobl ifanc difreintiedig. Rwy'n sicr yn croesawu'r cyhoeddiad gan Ed Miliband, arweinydd y Blaid Lafur, ar godi'r isafswm cyflog. Mae hynny hefyd yn mynd i helpu teuluoedd ar incwm isel yn enwedig.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from Party Spokespeople

13:37 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First this afternoon is the spokesperson for the opposition, Nick Ramsay.

Y cyntaf y prynhawn yma yw llefarydd yr wrthblaid, Nick Ramsay.

13:37 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, the recent budget agreement contains a number of new transport spending commitments, including a commitment to phase 1 of the Cardiff eastern bay link. What cost-benefit analysis has been made of this project?

Weinidog, mae'r cytundeb diweddar ar y gyllideb yn cynnwys nifer o ymrwymiadau gwario newydd ar drafnidiaeth, gan gynnwys ymrwymiad i gam 1 o ffordd gyswllt dwyrain bae Caerdydd. Pa ddadansoddiad cost a budd a wnaed ar gyfer y prosiect hwn?

13:38 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

All business proposals and plans in terms of transport fit into the criteria and the expectations of the national transport plan. That applied to the Cardiff eastern bay link road.

Mae'r holl gynigion busnes a chynlluniau o ran trafnidiaeth yn addas i'r meini prawf a disgwyliadau'r cynllun trafnidiaeth cenedlaethol. Roedd hynny'n gymwys i ffordd gyswllt dwyrain bae Caerdydd.

13:38 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I will tell you: a cost-benefit analysis was undertaken in 2008 on the whole road, but that did not apply for one section of the scheme. Phase 1 will increase congestion on Rover Way and in the south of Cardiff. What funding has been set aside to deal with this congestion and what is the timescale for funding the completion of the whole eastern bay link?

Weinidog, a gaf fi ddweud wrthych: cwblhawyd dadansoddiad cost a budd yn 2008 ar y ffordd gyfan, ond nid oedd hwnnw'n berthnasol i un o adrannau'r cynllun. Bydd Cam 1 yn cynyddu tagfeydd ar Rover Way ac yn ne Caerdydd. Pa gyllid a neilltuwyd i ddatrys y tagfeydd hyn a beth yw'r amserlen ar gyfer ariannu cwblhau ffordd gyswllt ddwyreiniol y bae i gyd?

13:38 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The allocation of £30 million additional capital to ensure that that £57 million Cardiff eastern bay link road starts construction next year has been widely welcomed. It certainly has been welcomed by those not just in business but in our Cardiff enterprise zone and our Cardiff capital programme, because it is clearly going to make a huge difference in terms of jobs and growth.

Mae dyrannu £30 miliwn o gyfalaf ychwanegol er mwyn sicrhau bod gwaith adeiladu gwerth £57 miliwn yn cychwyn ar ffordd gyswllt ddwyreiniol bae Caerdydd y flwyddyn nesaf wedi cael croeso mawr. Yn sicr fe'i croesawyd gan fusnesau yn ogystal â'n hardal fenter yng Nghaerdydd a'n rhaglen gyfalaf yng Nghaerdydd, oherwydd ei bod yn amlwg yn mynd i wneud gwahaniaeth enfawr o ran swyddi a thwf.

13:39 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Of course, it is not, is it? We can safely assume that there has been no effective cost-benefit analysis of phase 1 of the eastern bay link. Apparently, there are no plans to deal with the congestion that will arise on Rover Way and the south of Cardiff and there is no timescale for delivering the whole scheme, which is what businesses in Cardiff really want. This is not a wise spend of taxpayers' money, is it, Minister? It is a road to nowhere.

Fydd hi ddim, wrth gwrs, na fydd hi? Mae'n ddiogel i ni dybio na fu unrhyw ddadansoddiad cost a budd effeithiol o gam 1 o ffordd gyswllt ddwyreiniol y bae. Mae'n debyg, nid oes unrhyw gynlluniau i ddatrys y tagfeydd a fydd yn codi ar Rover Way a de Caerdydd, ac nid oes amserlen ar gyfer cyflawni'r cynllun cyfan, a dyna yw'r hyn y mae busnesau yng Nghaerdydd am ei gael mewn gwirionedd. Nid yw hyn yn wariant doeth o arian trethdalwyr, Weinidog? Mae'n ffordd i unlle.

13:39 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Those who will benefit, including business, from the Cardiff eastern bay link—. It is critical, in terms of opportunities for the capital city of Wales. On the cost-benefit analysis, as I said at the outset that all has to be clearly assessed and agreed as part of the business planning process.

Bydd y rhai a fydd yn elwa, gan gynnwys busnesau, o ffordd gyswllt ddwyreiniol Caerdydd-. Mae'n hanfodol, o ran cyfleoedd ar gyfer prifddinas Cymru. O ran dadansoddiad cost a budd, fel y dywedais ar y dechrau, mae'n rhaid asesu a chytuno'n glir fel rhan o'r broses cynllunio busnes.

13:40 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to the Welsh Liberal Democrat spokesperson, Peter Black.

Symudwn yn awr at lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Peter Black.

13:40 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, will you provide the Assembly with a full list of all of the in-year cuts that have taken place over the last few months?

Weinidog, a wnewch chi roi i'r Cynulliad restr lawn o'r holl doriadau yn ystod y flwyddyn sydd wedi digwydd dros y misoedd diwethaf?

13:40 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

This is a matter for the supplementary budget that I will be reporting on at the usual time in the new year.

Dyma fater ar gyfer y gyllideb atodol y byddaf yn adrodd amdano ar yr amser arferol yn y flwyddyn newydd.

13:40 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, Minister. Under normal circumstances, we would be happy to wait for the supplementary budget in the new year, but of course, these in-year cuts have had a profound impact already on a number of key services, not least the apprenticeship programme, which I understand has lost £7 million. Given the impact of those cuts, do you not think that it would be reasonable for us to have a full list now of those cuts, so that we can assess their full impact on the Welsh economy and on key programmes in education and training?

Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. O dan amgylchiadau arferol, byddem yn hapus i aros am y gyllideb atodol yn y flwyddyn newydd, ond wrth gwrs, mae'r toriadau hyn yn ystod y flwyddyn wedi cael effaith fawr yn barod ar nifer o wasanaethau allweddol, yn enwedig y rhaglen brentisiaeth, sydd, yn ôl a ddeallaf wedi colli £7 miliwn. O ystyried effaith y toriadau hynny, onid ydych yn credu y byddai'n rhesymol i ni gael rhestr lawn nawr o'r toriadau hynny, er mwyn i ni asesu eu heffaith lawn ar economi Cymru ac ar raglenni allweddol mewn addysg a hyfforddiant?

13:41 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As in any year, and as part of our in-year financial management, I am monitoring the budget carefully across the Welsh Government. Those of you who were listening, when I presented my supplementary budget in July, will remember that I made it very clear that we have stark reality in terms of financial challenges, directly as a result of the UK Government's austerity measures. Again, in terms of those demands and pressures, we face tough choices and I believe that we have delivered our priorities. I am sure that you do not deny that the additional £200 million that we are putting into the health service this year has been widely welcomed across Wales.

Fel mewn unrhyw flwyddyn, ac fel rhan o'n rheolaeth ariannol yn ystod y flwyddyn, rwy'n monitro'r gyllideb yn ofalus ar draws Llywodraeth Cymru. Bydd y rhai ohonoch a oedd yn gwrando, pan gyflwynais fy nghyllideb atodol ym mis Gorffennaf, yn cofio imi ei gwneud yn glir iawn bod ein dyfodol yn llwm o ran heriau ariannol, yn uniongyrchol o ganlyniad i fesurau darbodus Llywodraeth y DU. Unwaith eto, o ran y gofynion a'r pwysau hynny, rydym yn wynebu dewisiadau anodd ac rwy'n credu ein bod wedi cyflawni ein blaenoriaethau. Rwy'n siŵr nad ydych yn gwadu bod £200 miliwn ychwanegol rydym yn ei roi i mewn i'r gwasanaeth iechyd eleni wedi cael croeso brwd ledled Cymru.

13:41 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Absolutely, Minister. I accept that the £200 million for health has been welcomed, but I think that the key issue here is how you have raised that money and what the impact will be on your other programmes. Given that you are not prepared to provide that list now, can you tell me, when you made those in-year cuts, what assessment was made of the impact of each of those cuts on the Welsh Government's priorities and, in particular, what assessment was made of the impact of the £7 million cut that you made this year to apprenticeships and how that would impact on your programme of getting people into work in Wales?

Yn hollol, Weinidog. Derbyniaf fod £200 miliwn ar gyfer iechyd wedi'i groesawu, ond credaf mai'r mater allweddol yma yw sut rydych wedi codi'r arian a beth fydd yr effaith ar eich rhaglenni eraill. O ystyried nad ydych yn barod i ddarparu'r rhestr yn awr, a allwch ddweud wrthyf, pan fyddwch yn gwneud rhai toriadau yn ystod y flwyddyn, pa asesiad a wnaed o effaith pob un o'r toriadau hynny ar flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ac, yn arbennig, pa asesiad a wnaed o effaith y £7 miliwn a dorrwyd gennych eleni ar gyfer prentisiaethau a sut y byddai hynny'n effeithio ar eich rhaglen ar gyfer cael pobl i mewn i waith yng Nghymru?

13:42 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Of course, you do not yet know, because we have not reached the end of this financial year, how we are going to manage in terms of meeting the £200 million allocation to the NHS. It was important that we got that funding out. I made the announcement last week so that the health service can benefit from that.

Wrth gwrs, gan ein bod heb gyrraedd diwedd y flwyddyn ariannol hon, nid ydych yn gwybod eto sut rydym yn mynd i ymdopi o ran darparu'r dyraniad o £200 miliwn i'r GIG. Roedd yn bwysig ein bod yn darparu'r arian. Bu i mi gyhoeddi'r wythnos diwethaf er mwyn i'r gwasanaeth iechyd allu elwa ar hynny.

May I just challenge you on apprenticeships, in terms of our commitment to those? You must recognise that just over 28,000 apprentices have started since 2012-13 compared with 17,900 in 2011-12. Indeed, I am very pleased that we are mitigating the impact of cuts by allocating an additional £5 million next year to deliver around 2,500 new apprenticeships.

A gaf fi eich herio ar brentisiaethau, o ran ein hymrwymiad i hynny? Mae'n rhaid i chi gydnabod bod ychydig dros 28,000 o brentisiaid wedi dechrau ers 2012-13 o gymharu â 17,900 yn 2011-12. Yn wir, rwy'n falch iawn ein bod yn lliniaru effaith y toriadau drwy ddyrannu £5 miliwn ychwanegol y flwyddyn nesaf i ddarparu tua 2,500 o brentisiaethau newydd.

13:43 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the Plaid Cymru spokesperson, Alun Ffred Jones.

Galwaf ar lefarydd Plaid Cymru, Alun Ffred Jones.

13:43 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae'r gyllideb ddrafft yn rhoi £225 miliwn yn ychwanegol i'r gwasanaeth iechyd y flwyddyn nesaf. Ar yr un pryd, mae toriad o dros £150 miliwn i grant refeniw cynghorau lleol. Pa werthusiad yr ydych wedi'i wneud i effaith tebygol y cwtogi llym hwn mewn llywodraeth leol ar y galw o fewn y gwasanaeth iechyd?

The draft budget provides an extra £225 million to the health service next year. At the same time, there is a cut of over £150 million in local councils' revenue grant. What assessment have you done of the likely impact of these stringent cuts in local government on demand within the health service?

13:43 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Clearly, it is important that you, again, acknowledge the £225 million that we are allocating to the health service. Of course, we are allocating that on the clear basis of the evidence from the Nuffield Trust, looking at now and the future in terms of the needs of the health service. Of course, it is very clear that the health service is affordable in the long term if we reform and reshape our services, but we need to invest in it, which is why we made the difficult and challenging decision about that allocation of resources. Shortly, this afternoon, you will be hearing from the Minister for Public Services about the local government settlement, but I was very pleased that, last week, I was able to announce £10 million for social services, which will go directly to local government, which has raised the issue about the importance of investment in social services, which helps to integrate health and social care.

Yn amlwg, mae'n bwysig eich bod chi, unwaith eto, yn cydnabod y £225 miliwn rydym yn ei ddyrannu i'r gwasanaeth iechyd. Wrth gwrs, rydym yn dyrannu hynny ar sail glir o'r dystiolaeth gan yr Ymddiriedolaeth Nuffield, gan edrych yn awr ac yn y dyfodol o ran anghenion y gwasanaeth iechyd. Wrth gwrs, mae'n amlwg iawn bod y gwasanaeth iechyd yn fforddiadwy yn y tymor hir os ydym yn diwygio ac yn ail-lunio ein gwasanaethau, ond mae angen buddsoddi ynddo, a dyna pam ein bod wedi gwneud y penderfyniad anodd a heriol ynghylch y dyraniad adnoddau. Yn fuan, y prynhawn yma, byddwch yn clywed oddi wrth y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus am y setliad i lywodraeth leol, ond roeddwn yn falch iawn yr wythnos diwethaf i mi allu cyhoeddi £10 miliwn ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol, a fydd yn mynd yn uniongyrchol i lywodraeth leol, sydd wedi codi'r mater ynghylch pwysigrwydd buddsoddi mewn gwasanaethau cymdeithasol, sy'n helpu i integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol.

13:44

**Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Fy nghwestiwn i oedd: pa effaith fydd y toriadau yn ei gael ar y galw o fewn y gwasanaeth iechyd? Fodd bynnag, gadewch inni symud ymlaen at y gwasanaeth iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Y llynedd, fel cam tuag at well cydweithrediad rhwng y ddau wasanaeth, cyflwynwyd y gronfa gofal canolraddol, yr 'intermediate care fund'. Beth fydd rhagolygon y gronfa hon a sut fydd y newidiadau yn cryfhau'r cydweithio rhwng y gwasanaeth iechyd a gwasanaethau cymdeithasol?

My question was: what impact will the cuts have on demand within the health service? However, let us move on to the health service and social services. Last year, as a step towards better co-operation between the two services, the intermediate care fund was introduced. What are the prospects for this fund and how will the changes strengthen the collaboration between the health service and social services?

13:45

**Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, of course, we are in the year of the agreement that we had to fund an intermediate care fund to help to integrate health and social care and to help to stimulate the integration and the changes that we and they know need to happen, and we are seeing the results of that even though we are still only just over halfway through that year. In terms of the revenue and capital impact of that intermediate care fund, we will be able to assess, as local providers will, the impact of it. It is being closely evaluated. However, I do think that the £10 million that I have announced will help in 2015-16 in terms of the sustainability of the services provided through the intermediate care fund.

Wel, wrth gwrs, dyma ni ym mlwyddyn y cytundeb a oedd gennym i ariannu cronfa gofal canolraddol i helpu i integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol ac i helpu i hybu'r gwaith o integreiddio a hyrwyddo'r newidiadau a oedd eu hangen a oedd yn hysbys i ninnau fel hwythau, ac rydym yn gweld canlyniadau hynny hyd yn oed er mai dim ond ychydig dros hanner y flwyddyn sydd wedi mynd heibio. O ran effaith cyfalaf a refeniw'r gronfa gofal canolraddol honno, byddwn yn gallu asesu, fel y bydd darparwyr lleol, ei effaith. Mae'n cael ei werthuso'n fanwl. Fodd bynnag, rwy'n meddwl y bydd y £10 miliwn yr wyf wedi'i gyhoeddi yn helpu yn 2015-16 o ran cynaladwyedd y gwasanaethau a ddarperir drwy'r gronfa gofal canolraddol.

13:46

**Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Buaswn i'n ei leicio pe bawn yn cael ateb i gwestiwn pan fyddaf wedi ei ofyn. Yr hyn a ofynnais i oedd: beth yw dyfodol yr 'intermediate care fund' a beth fydd effaith hynny ar y berthynas rhwng y ddau wasanaeth?

I wish that I could receive an answer to my question when I ask it. What I asked was: what about the future of the intermediate care fund and what will the impact of that be on the relationship between the two services?

Rydych wedi dweud wrth y Pwyllgor Cyllid eich bod wedi gosod maen prawf i bob rhaglen ac i bob gwasanaeth o ran a yw'r rhaglenni hynny yn gwarchod pobl. Credaf mai 'preventative' oedd y gair y bu ichi ei ddefnyddio. A allwch esbonio sut y mae lleihau cronfa gwarchod pobl yn cyd-fynd â'ch strategaeth chi ac yn cefnogi pobl fregus?

You have told the Finance Committee that you have set a criterion for each programme and each service in terms of whether those programmes safeguard people. I think that 'preventative' was the word that you used. Can you explain how reducing the safeguarding people fund complements your strategy and supports vulnerable people?

13:46

**Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I know that you, perhaps, would not want to be in my position in terms of being the Minister for finance facing a £1.5 billion cut in our budget from the UK Government, and I am sure that you would find it a very difficult place to be, Alun Ffred Jones, in terms of the tough decisions that we have had to make. We have focused on preventative investment and we have focused on early intervention. We have listened to local government and to the health service, and I believe that the £10 million that we are putting into social services and the ways in which we have supported the health service and local government will help to deliver on those expectations.

Gwn na fynnech chi, o bosibl, fod yn fy sefyllfa innau fel Gweinidog cyllid sy'n wynebu toriad gwerth £1.5 biliwn yn ein cyllideb oddi wrth Lywodraeth y DU, ac rwy'n siŵr y byddech yn eich cael eich hun mewn lle anodd iawn, Alun Ffred Jones, o ran y penderfyniadau anodd rydym wedi gorfod eu gwneud. Rydym wedi canolbwyntio ar fuddsoddiad ataliol ac rydym wedi canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar. Rydym wedi gwrando ar lywodraeth leol ac ar y gwasanaeth iechyd, a chredaf fod y £10 miliwn rydym yn ei roi ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a'r ffyrdd rydym wedi cefnogi'r gwasanaeth iechyd a llywodraeth leol yn helpu i gyflawni'r disgwyliadau hynny.

13:47

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move back to the questions on the paper and question 3 is from Bethan Jenkins.

Rydym bellach yn symud yn ôl at y cwestiynau ar y papur a daw cwestiwn 3 oddi wrth Bethan Jenkins.

**Rheoli Grantiau**

**Grants Management**

13:47 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

*3. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod grantiau yn cael eu rheoli'n effeithiol? OAQ(4)0464(FIN)*

*3. How does the Welsh Government ensure effective grants management? OAQ(4)0464(FIN)*

Senedd.tv Fideo Video

13:47 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

A number of measures have been implemented. These include the introduction of a grants centre of excellence, new minimum standards that all grant schemes must adhere to, staff training, the provision of expert advice and guidance for grants officials.

Mae nifer o fesurau wedi cael eu rhoi ar waith. Mae'r rhain yn cynnwys cyflwyno canolfan ragoriaeth grantiau, safonau gofynnol newydd y mae'n rhaid i bob cynllun grant eu bodloni, hyfforddiant staff, darparu cyngor ac arweiniad arbenigol ar gyfer swyddogion grantiau.

Senedd.tv Fideo Video

13:47 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Diolch am yr ateb hwnnw. Yn y gorffennol, rydym wedi gweld problemau gyda nifer o grantiau, er enghraifft, gydag Ymddiriedolaeth Datblygu Cwmni Clydach, sydd eisoes wedi cael ei ddatrys, gydag AWEMA, ac yn awr, mae’r archwilydd cenedlaethol yn ymchwilio i mewn i’r hyn sy’n digwydd o ran Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru. A ydych yn newid y ffordd rydych yn gweithio er mwyn sicrhau bod mwy o atebolrwydd yn y system pan rydych yn rhoi grantiau allan, er mwyn sicrhau nad yw problemau fel hyn yn digwydd yn y dyfodol?

Thank you for that response. In the past, we have seen problems with a number of grants, for example, with the Cwmni Clydach Development Trust, which has already been resolved, with AWEMA, and now the auditor general is carrying out an inquiry into what is happening with National Dance Company Wales. Are you changing the way that you work to provide more accountability in the system when you do provide grants, in order to ensure that these problems do not occur in the future?

Senedd.tv Fideo Video

13:48 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Certainly. Of course, the grant centre of excellence is a key example of that. It not only provides advice, support and guidance on all aspects of grant administration, but also looks at assurance measures to avoid the difficulties that we have faced in terms of some grant-funded organisations.

Yn sicr. Wrth gwrs, mae'r ganolfan rhagoriaeth grant yn enghraifft allweddol o hynny. Nid dim ond darparu cyngor, cymorth ac arweiniad ar bob agwedd ar weinyddu grantiau a wna, ond mae hefyd yn edrych ar fesurau sicrwydd i osgoi'r anawsterau rydym wedi'u hwynebu o ran rhai sefydliadau sy'n cael cyllid grant.

Senedd.tv Fideo Video

13:48 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Minister, it is more than ‘some difficulties’. The Auditor General for Wales has indicated a number of problem areas with grants. The Public Accounts Committee, last year, made 18 recommendations to the Welsh Government to help it to improve the grants management process. You are one year on now, Minister, from those 18 recommendations. How many have been implemented and can you tell me how performance has improved?

Weinidog, mae'n fwy na 'rhai anawsterau'. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi nodi nifer o feysydd lle bu problemau gyda grantiau. Gwnaeth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, y llynedd, 18 o argymhellion i Lywodraeth Cymru i'w helpu i wella'r broses o reoli grantiau. Aeth un flwyddyn heibio erbyn hyn, Weinidog, ers y 18 argymhelliad hynny. Faint sydd wedi cael eu rhoi ar waith ac a allwch ddweud wrthyf sut y mae perfformiad wedi gwella?

Senedd.tv Fideo Video

13:49 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

We agreed with all of those recommendations and report annually on their implementation.

Roeddem yn cytuno â phob un o'r argymhellion hynny ac yn adrodd yn flynyddol ar eu gweithrediad.

Senedd.tv Fideo Video

13:49 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Weinidog, mae cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynglŷn â symud grantiau i mewn i gyllid refeniw y cynghorau. Pa asesiad a ydych yn ei wneud fel Llywodraeth ynglŷn â chynaliadwyedd gwasanaethau wrth i’r grantiau hynny gael eu diddymu ac wrth i’r cyllid gael ei drosglwyddo i’r awdurdodau lleol?

Minister, there is an agreement between the Welsh Government and the Welsh Local Government Association regarding moving grants into the council’s revenue support grant. What assessment do you carry out as a Government as regards the sustainability of services as those grants are abolished and the funding is transferred to local authorities?

Senedd.tv Fideo Video

13:49 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

This is primarily a matter for the Minister for Public Services in terms of the partnership and working relationships with local government, in terms of the expectations to move as many ring-fenced grants into the RSG, but clearly monitoring very carefully in terms of the delivery of our programmes.

Dyma fater i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus o ran y bartneriaeth a'r berthynas waith gyda llywodraeth leol yn bennaf, o ran y disgwyliadau i symud cynifer o grantiau wedi'u neilltuo i mewn i'r grant cynnal refeniw, ond gan fonitro'n ofalus iawn o ran cyflawni'n rhaglenni.

Senedd.tv Fideo Video

### Uno Awdurdodau Lleol

### Local Government Mergers

13:50 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

*4. Pa asesiad ariannol o gynigion arfaethedig i uno awdurdodau lleol a wnaed gan Lywodraeth Cymru wrth lunio'r gyllideb ddrafft? OAQ(4)0461(FIN)*

*4. What financial assessment of possible local government mergers was made by the Welsh Government in formulating the draft budget? OAQ(4)0461(FIN)*

Senedd.tv Fideo Video

13:50 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

We assess all pressures and opportunities in determining our spending proposals.

Rydym yn asesu pob pwysau a chyfleoedd wrth benderfynu ar ein cynigion gwario.

Senedd.tv Fideo Video

13:50 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

I take it from that response that there has not been. With a handful of local authorities already opening up discussions for voluntary mergers and others yet to announce, how can you realistically anticipate or plan that the required sums, within the anticipated time frame, will be there to provide the much-needed financial incentives to enable a successful merger?

Yn sgîl yr ateb hwnnw, rwy’n casglu na chafwyd asesiad. Gyda llond llaw o awdurdodau lleol eisoes yn cychwyn trafodaethau i uno’n wirfoddol ac eraill heb eto gyhoeddi eu bwriad, sut y gallwch mewn difrif ragweld neu gynllunio bod y symiau gofynnol ar gael, o fewn yr amserlen a ragwelir, er mwyn darparu'r cymhellion ariannol sydd yn fawr eu hangen i alluogi uniadau llwyddiannus?

Senedd.tv Fideo Video

13:50 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

The merger prospectus that was issued by the Minister for Public Services asks local authorities to state in their expressions of interest what the likely one-off and recurrent costs and benefits will be, and how soon savings could also be realised.

Mae'r prosbectws uno a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus yn gofyn i awdurdodau lleol nodi yn eu datganiadau o ddiddordeb beth fydd y costau a’r manteision tebygol, a pha mor fuan y gellid gwireddu arbedion.

Senedd.tv Fideo Video

13:51 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

The Williams commission only identified the cost of redundancies and the resultant salary savings. Is the Minister for finance working on those assumptions, or does she accept that there will be other costs such as ICT, the relocation of staff and equal pay claims?

Dim ond nodi cost diswyddiadau ac arbedion cyflog yn sgîl hynny a gafwyd yng nghomisiwn Williams. A yw'r Gweinidog Cyllid yn gweithio ar y tybiaethau hynny, neu a yw’n derbyn y bydd yna gostau eraill megis TGCh, adleoli staff a hawliadau cyflog cyfartal?

Senedd.tv Fideo Video

13:51 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

These are all matters for the Minister for Public Services, but they are matters on which I work closely with him and support him in this task.

Mae'r rhain i gyd yn faterion i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, ond rwy’n gweithio'n agos gydag ef ar y materion hyn ac yn ei gefnogi yn y dasg hon.

Senedd.tv Fideo Video

### Portffolio Addysg a Sgiliau

### The Education and Skills Portfolio

13:51 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

*5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y dyraniad cyffredinol o'r gyllideb i'r portffolio Addysg a Sgiliau? OAQ(4)0463(FIN)*

*5. Will the Minister make a statement on the overall budget allocation to the Education and Skills portfolio? OAQ(4)0463(FIN)*

Senedd.tv Fideo Video

13:51 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

In 2015-16, the draft budget allocation to the education and skills departmental expenditure limit is £1,754.4 million. This represents an increase of over £20 million compared with previously published plans for 2015-16. That is the response to the question. Thank you.

Yn 2015-16, dyraniad y gyllideb ddrafft i derfyn gwariant adrannol addysg a sgiliau yw £1,754.4 miliwn. Mae hyn yn cyfateb i gynnydd o dros £20 miliwn o'i gymharu â chynlluniau a gyhoeddwyd yn flaenorol ar gyfer 2015-16. Dyna'r ateb i'r cwestiwn. Diolch.

Senedd.tv Fideo Video

13:52 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Thank you for that answer. I welcome the decision to protect school funding by 1% above changes to the Welsh budget overall. I note that that includes an extra £12 million to continue the Schools Challenge Cymru initiative. I wonder, Minister, whether you can tell us where the money will be spent. Is it to expand that initiative to more schools, is it to extend the lifetime of the scheme or is it to direct extra resources to already participating schools?

Diolch ichi am yr ateb hwnnw. Croesawaf y penderfyniad i ddiogelu cyllid ysgolion 1% uwchlaw'r newidiadau i gyllideb Cymru yn gyffredinol. Nodaf fod hynny'n cynnwys £12 miliwn yn ychwanegol i barhau â'r fenter Her Ysgolion Cymru. Tybed, Weinidog, a allwch ddweud wrthym ble y bydd yr arian yn cael ei wario. Ai i ehangu'r fenter i ragor o ysgolion, ai i ymestyn oes y cynllun neu ai i gyfeirio adnoddau ychwanegol i ysgolion sydd eisoes yn cymryd rhan?

Senedd.tv Fideo Video

13:52 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

The decision on Schools Challenge Cymru was an important decision about priorities. This draft budget is about priorities and how we can meet those priorities. Schools Challenge Cymru is a preventative approach. It is recognised in our decision to prioritise investment in raising educational attainment. It is important that we sustain this to boost the performance of 40 secondary schools in Wales.

Mae'r penderfyniad ar Her Ysgolion Cymru yn benderfyniad pwysig ynghylch blaenoriaethau. Mae'r gyllideb ddrafft yn ymwneud â blaenoriaethau a sut y gallwn fodloni'r blaenoriaethau hynny. Mae Her Ysgolion Cymru yn ddull ataliol. Mae'n cael ei gydnabod yn ein penderfyniad i roi blaenoriaeth i fuddsoddi mewn codi cyrhaeddiad addysgol. Mae'n bwysig ein bod yn cynnal hyn er mwyn hybu perfformiad 40 o ysgolion uwchradd yng Nghymru.

Senedd.tv Fideo Video

13:53 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Weinidog, o ystyried y toriadau o £56 miliwn yn y gyllideb addysg eleni a'r ffaith bod gwariant anadnabyddadwy ar yr iaith Gymraeg yn dod o'r gyllideb addysg, a yw'r Prif Weinidog wedi gofyn i chi i amddiffyn gwariant ar yr iaith Gymraeg y tu fewn i'r gyllideb addysg?

Minister, given the cuts of £56 million in the education budget this year and the fact that unidentified expenditure on the Welsh language comes from the education budget, has the First Minister asked you to protect expenditure on the Welsh language within the education budget?

Senedd.tv Fideo Video

13:53 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

The draft budget lays out how we have sought to meet the commitments towards the Welsh language, as led by the First Minister.

Mae'r gyllideb ddrafft yn nodi sut rydym wedi ceisio cyflawni ymrwymiadau tuag at yr iaith Gymraeg, yn unol ag arweiniad y Prif Weinidog.

Senedd.tv Fideo Video

13:53 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Minister, how much of a fight did the Minister for education put up when you told him that you would be cutting £15 million from his budget this year, in-year?

Weinidog, i ba raddau y bu i'r Gweinidog addysg frwydro pan ddywedoch wrtho y byddech yn torri £15 miliwn o'i gyllideb eleni, yn ystod y flwyddyn?

Senedd.tv Fideo Video

13:53 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

I think that we have to wait to see as we progress through the year as to the ways in which I am addressing the challenges of meeting in-year pressures and needs. I know that you would welcome the £200 million to the Welsh national health service, Simon Thomas. Difficult decisions have to be made, but do not we forget that we also have a reserve and I will be reporting on that in due course.

Credaf fod yn rhaid inni aros i weld wrth symud ymlaen trwy'r flwyddyn o ran y ffyrdd y byddaf yn mynd i'r afael â'r heriau wrth wynebu pwysau ac anghenion yn ystod y flwyddyn. Gwn y byddech yn croesawu'r £200 miliwn i wasanaeth iechyd gwladol Cymru, Simon Thomas. Rhaid gwneud penderfyniadau anodd, ond ni ddylem anghofio bod cronfa wrth gefn gennym hefyd a byddaf yn adrodd ar hynny maes o law.

Senedd.tv Fideo Video

13:54 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In December last year, the Minister for education argued against cutting PISA targets, saying that it would be wrong to 'limit our ambitions'. Do you agree that your decision to cut £56 million in real terms from the education and skills budget, and the Welsh government's downgrading of PISA targets, clearly demonstrate a lack of ambition when it comes to raising educational standards in Wales?

Ym mis Rhagfyr y llynedd, dadleuodd y Gweinidog addysg yn erbyn targedau torri PISA, gan ddweud y byddai 'cyfyngu ar ein huchelgais' yn gam gwag. A ydych yn cytuno bod eich penderfyniad i dorri £56 miliwn mewn termau real yn y gyllideb addysg a sgiliau, gyda llywodraeth Cymru yn israddio targedau PISA, yn amlwg yn arddangos diffyg uchelgais pan ddaw yn fater o godi safonau addysgol yng Nghymru?

13:55 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Minister for Education and Skills gave a statement on this yesterday in terms of his ambitions for Wales, and I know that that statement was well received. I think that you have to recognise again the way that we are protecting funding to schools in terms of our schools budget; it is 1% above changes to the Wales DEL over this spending review period, which equates to an extra £106 million for schools over the whole period. Of course, in addition, because of the needs of particular schools, we are putting £12.1 million into the draft budget for 2015-16 as well. Of course, that is a key ambition of this Welsh Government in terms of boosting educational attainment.

Rhoddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau ddatganiad ddoe am hyn o ran ei uchelgais Gymru, a gwn i'r datganiad hwnnw gael derbyniad da. Credaf fod yn rhaid i chi gydnabod unwaith eto y modd rydym yn diogelu cyllid i ysgolion o ran ein cyllideb ysgolion; mae 1% uwchlaw'r newidiadau i DEL Cymru yn ystod cyfnod yr adolygiad o wariant, sy'n cyfateb i £106 miliwn ychwanegol ar gyfer ysgolion dros y cyfnod cyfan. Wrth gwrs, ar ben hyn, oherwydd anghenion ysgolion penodol, rydym yn rhoi £12.1 miliwn yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2015-16 hefyd. Wrth gwrs, mae hyn yn uchelgais allweddol i'r Llywodraeth Cymru bresennol o ran hybu cyrhaeddiad addysgol.

### Ariannu drwy Gynyddrannau Treth

### Tax Incremental Financing

13:55 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*6. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sut y mae Llywodraeth Cymru yn ymdrin ag ariannu drwy gynyddrannau treth? OAQ(4)0448(FIN)*

*6. Will the Minister make a statement on the Welsh Government's approach to tax incremental financing? OAQ(4)0448(FIN)*

13:56 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am open to all potential value-for-money opportunities to increase investment in infrastructure to boost growth and support improved public services. So, this year alone, I have announced £1.25 billion of additional innovatively financed investment.

Rwy'n agored i'r holl gyfleoedd posibl o ran gwerth-am-arian er mwyn cynyddu buddsoddiad mewn seilwaith i hybu twf a chefnogi gwell gwasanaethau cyhoeddus. Felly, eleni yn unig, cyhoeddais fuddsoddiad ychwanegol o £1.25 biliwn sydd wedi'i ariannu'n arloesol.

13:56 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, Minister. Your opening sentence was actually the most positive thing that you have said about tax incremental financing for some time—

Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Mewn gwirionedd, eich brawddeg agoriadol am ariannu cynyddran treth oedd y peth mwyaf positif i chi ei ddweud am gryn amser—

13:56 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

And you have been asking.

Ac rydych chi wedi bod yn gofyn.

13:56 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

And I have asked many, many times. May I ask, Minister, are you at a stage where you might be looking at doing some pilots on tax incremental financing in Wales?

Ac rwyf wedi gofyn lawer, lawer gwaith. A gaf fi ofyn, Weinidog, a ydych mewn sefyllfa lle gallech fod yn edrych ar wneud rhai cynlluniau peilot ar ariannu cynyddran treth (TIF) yng Nghymru?

13:56 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that, as Peter Black knows, we have prioritised the development and implementation with local government of the local government borrowing initiative. That is already delivering where we need investment in our communities to boost long-term growth potential. We are not discounting tax incremental financing, as I have already said. We have not actually had a proposal, but it is one of the mechanisms that we are exploring.

Fel y gŵyr Peter Black, credaf y bu i ni flaenoriaethu'r gwaith o ddatblygu a gweithredu menter benthyca llywodraeth leol ymhlith llywodraeth leol. Mae hi eisoes yn cyflawni lle mae angen buddsoddi yn ein cymunedau i hybu potensial twf hirdymor. Nid ydym yn diystyru ariannu cynyddrannol treth, fel y dywedais eisoes. Mewn gwirionedd, ni chawsom gynnig eto, ond mae'n un o'r dulliau rydym yn ei archwilio.

13:57 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If TIF goes ahead in the form that is already suggested, how does the Minister propose to equalise between authorities—those that will grow greatly and those that will not grow quite so much—or will the money not be equalised?

Os bydd TIF yn mynd yn ei flaen yn y ffurf a awgrymir eisoes, sut y mae'r Gweinidog yn bwriadu cydraddoli rhwng yr awdurdodau—rhwng y rhai a fydd yn tyfu llawer a'r rhai na fydd yn tyfu gymaint—neu a fydd yr arian heb ei gydraddoli?

13:57 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I think that these are the challenges we have to face in terms of using this mechanism. I am also very grateful for the work that the business rates task and finish group has undertaken. It recommended that we should monitor carefully the progress of the implementation of TIF in England and Scotland. We are certainly doing that, and of course that will identify some of those issues in terms of risks, as you identify, William Graham.

Wel, rwy'n meddwl bod y rhain yn heriau y mae'n rhaid i ni eu hwynebu wrth ddefnyddio'r mecanwaith hwn. Rwyf hefyd yn ddiolchgar iawn am y gwaith y mae'r grŵp gorchwyl a gorffen ar drethi busnes wedi ei wneud. Argymhellodd y grŵp y dylem fonitro cynnydd gweithredu TIF yn Lloegr a'r Alban yn ofalus. Rydym yn sicr yn gwneud hynny, ac, wrth gwrs, bydd hynny'n nodi rhai o'r materion hynny yn nhermau risgiau, fel y bu ichi eu crybwyll, William Graham.

### Polisi Budd i'r Gymuned

### The Community Benefits Policy

13:57 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*7. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am bolisi Budd i'r Gymuned? OAQ(4)0453(FIN)*

*7. Will the Minister provide an update on the Community Benefits policy? OAQ(4)0453(FIN)*

13:57 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I launched the updated community benefits policy in July. The policy has been widely adopted, having a direct positive impact on the Welsh economy, communities and citizens.

Lansiais y polisi manteision cymunedol wedi ei ddiweddaru ym mis Gorffennaf. Mae'r polisi wedi cael ei fabwysiadu'n eang, mae'n cael effaith gadarnhaol uniongyrchol ar economi, cymunedau a dinasyddion Cymru.

13:58 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

This policy is helping to benefit local businesses and communities, particularly in generating jobs and training opportunities for disadvantaged people across Wales. The Joseph Rowntree Foundation has praised the policy for its effectiveness. So, how, Minister, is the Welsh Government intending to advance and strengthen this work to further benefit local communities and businesses and, as a result, tackle poverty?

Mae'r polisi hwn yn helpu i gynorthwyo busnesau a chymunedau lleol, yn enwedig wrth greu swyddi a chyfleoedd hyfforddiant i bobl dan anfantais ledled Cymru. Mae Sefydliad Joseph Rowntree wedi canmol y polisi am ei effeithiolrwydd. Felly, Weinidog, sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu hyrwyddo a chryfhau'r gwaith hwn er budd cymunedau a busnesau lleol a threchu tlodi yn sgîl hynny?

13:58 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

I thank Sandy Mewies for this question. I was at an event with the Joseph Rowntree Foundation at which it was commenting on our policy. In terms of the research it has done, it recognised that, through our community benefits policy, we were not only tackling poverty and creating jobs and apprenticeships, but benefiting local suppliers in terms of the supply chain. That was the £43 million Penarth learning community. The keys are going to be handed over in the next week or so. The community of practice that we have developed in terms of community benefits is proving that it is delivering for local communities and local businesses.

Hoffwn ddiolch i Sandy Mewies am y cwestiwn hwn. Roeddwn mewn digwyddiad gyda Sefydliad Joseph Rowntree lle'r oedd yn rhoi sylwadau ar ein polisi. O ran y gwaith ymchwil a wnaeth, roedd yn cydnabod, trwy ein polisi sy'n galluogi cymunedau i elwa, ein bod nid yn unig yn trechu tlodi a chreu swyddi a phrentisiaethau, ond ein bod yn hybu cyflenwyr lleol o ran y gadwyn gyflenwi. Dyna oedd cymuned ddysgu Penarth gwerth £43 miliwn. Trosglwyddir yr allweddi yn ystod yr wythnos neu ddwy nesaf. Mae'r gymuned o arferion rydym wedi'i datblygu o ran manteision cymunedol yn profi ei bod yn cyflawni ar gyfer cymunedau lleol a busnesau lleol.

Senedd.tv Fideo Video

13:59 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Minister, community benefit in energy projects is a vital way of helping local communities, and yet the Welsh Government's community benefits register shows that very few projects have voluntarily registered to inform local communities what benefits they might access through the community benefits register. There are none registered in Denbighshire, one in Flintshire, one in Conwy and just three in Anglesey. Given the amount of energy projects that have community benefit funds, what will you be doing to ensure that there is greater uptake and registration, or will you consider making registration compulsory?

Weinidog, mae budd cymunedol mewn prosiectau ynni yn ffordd hanfodol o helpu cymunedau lleol, ac eto mae cofrestr buddion cymunedol Llywodraeth Cymru yn dangos mai ychydig iawn o brosiectau sydd wedi cofrestru yn wirfoddol i roi gwybod i gymunedau lleol pa fuddion y gallent eu cael trwy gofrestr buddion cymunedol. Nid oes dim wedi'u cofrestru yn Sir Ddinbych, un yn Sir y Fflint, un yng Nghonwy a dim ond tri yn Ynys Môn. O ystyried faint o brosiectau ynni sydd â chronfeydd budd cymunedol, beth fyddwch yn ei wneud i sicrhau bod mwy yn cofrestru a'u defnyddio, neu a ydych yn barod i ystyried gwneud cofrestru yn orfodol?

Senedd.tv Fideo Video

13:59 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

It is very important that this is seen and delivered as part of our community benefits and I have certainly seen that for myself in terms of the outcome of the use of community benefits as part of contract compliance. The energy efficiency measures in terms of adopting BREEAM 'excellent' standards, which has to be the case for our twenty-first century schools, are delivering on those energy efficiency responsibilities.

Mae'n bwysig iawn bod hyn yn cael ei weld a'i ddarparu fel rhan o'n buddion cymunedol ac rwy'n sicr wedi gweld hynny fy hun o ran y canlyniad o ddefnyddio buddion cymunedol fel rhan o gydymffurfiaeth contract. Mae'r mesurau effeithlonrwydd ynni yn nhermau mabwysiadu safonau rhagorol BREEAM, a dyma'r achos ar gyfer ein hysgolion yn yr unfed ganrif ar hugain, yn cyflawni'r cyfrifoldebau effeithlonrwydd ynni hynny.

Senedd.tv Fideo Video

14:00 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Minister, given the extremely ill considered enthusiasm of the British Government to exploit the gas beneath our feet, what are you doing to ensure that communities that are fracked derive some benefits from it, please?

Weinidog, o ystyried brwdfrydedd hynod annoeth Llywodraeth Prydain i fanteisio ar y nwy o dan ein traed, beth rydych yn ei wneud i sicrhau bod cymunedau lle mae ffracio'n digwydd yn ennill rhai manteision ohono, os gwelwch yn dda?

Senedd.tv Fideo Video

14:00 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Well, I do not think that that is part of my responsibility, I have to say, Lindsay.

Wel, nid wyf yn credu bod hynny'n rhan o'm cyfrifoldeb, rhaid i mi ddweud, Lindsay.

Senedd.tv Fideo Video

14:00 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Community benefits—

Buddion cymunedol—

Senedd.tv Fideo Video

14:00 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The Minister has answered.

Mae'r Gweinidog wedi ateb.

Senedd.tv Fideo Video

**Cyllideb 2015-16**

**The 2015-16 Budget**

14:00 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

*8. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i ymgynghori â phobl Cymru wrth baratoi ar gyfer cyllideb 2015-16? OAQ(4)0457(FIN)*

*8. What actions has the Welsh Government taken to consult with the people of Wales during preparation for the 2015-16 budget? OAQ(4)0457(FIN)*

Senedd.tv Fideo Video

14:01 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

My end-of-budget-tour report, which I published last month, highlights the visits and meetings I have held across Wales to inform preparations for the draft budget for 2015-16.

Mae fy adroddiad ar ddiwedd taith y gyllideb, a gyhoeddais y mis diwethaf, yn tynnu sylw at yr ymweliadau a chyfarfodydd rwyf wedi eu cynnal ledled Cymru i lywio paratoadau ar gyfer y gyllideb ddrafft ar gyfer 2015-16.

Senedd.tv Fideo Video

14:01 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Thank you, Minister. Obviously, I welcome the measures that you took to ensure that the voices of our communities were heard during your budget tour. However, I am concerned that we need to do more to make sure that the views and opinions of our children and young people across Wales are heard and that, in particular, we engage with the hardest to reach. How can we make sure that these young people are engaged in the processes of determining Welsh Government spending priorities?

Diolch i chi, Weinidog. Yn amlwg, rwy'n croesawu'r camau a gymerwyd gennych i sicrhau bod lleisiau ein cymunedau wedi eu clywed yn ystod eich taith cyllideb. Fodd bynnag, rwy'n pryderu bod angen i ni wneud mwy i sicrhau bod barn a safbwyntiau ein plant a phobl ifanc ledled Cymru yn cael eu clywed a'n bod yn benodol yn ymgysylltu â'r anoddaf i'w cyrraedd. Sut gallwn ni wneud yn siŵr bod y bobl ifanc hyn yn cymryd rhan yn y broses o bennu blaenoriaethau gwario Llywodraeth Cymru?

Senedd.tv Fideo Video

14:01 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

I welcome that question from Christine Chapman. Over the years of this Assembly—and I am pleased that both of us were here at the beginning and this is our thousandth meeting—many Members will be aware of the discussions that we have had about children's budgeting, for example, but also about ways in which we can engage children and young people in these issues. We have a children's draft budget leaflet, which I have used and, in terms of the budget tour, I visited Stacey Primary School and Happy Days Playgroup, and was able to engage with the school council in terms of what its views were for the bigger issues of the draft budget. However, I would also say that this is something where local authorities, through their youth forums and youth cabinets, can play a part.

Rwy'n croesawu'r cwestiwn gan Christine Chapman. Yn ystod oes y Cynulliad-ac rwy'n falch bod y ddau ohonom wedi bod yma ar y dechrau a dyma'n milfed cyfarfod-bydd llawer o Aelodau'n ymwybodol o'r trafodaethau rydym wedi'u cael ynghylch cyllidebu ar gyfer plant, er enghraifft, ond hefyd am ffyrdd y gallwn ymgysylltu â phlant a phobl ifanc yn y materion hyn. Mae gennym daflen gyllideb ddrafft i blant, a ddefnyddiais, ac o ran taith y gyllideb, ymwelais ag Ysgol Gynradd Stacey a Happy Days Playgroup, a gellais ymgysylltu â'r cyngor ysgol ynghylch ei farn ar faterion mwyaf y gyllideb ddrafft. Fodd bynnag, carwn hefyd ddweud bod hyn yn rhywbeth lle gall awdurdodau lleol gymryd rhan, drwy fforwm ieuenctid a chabinet ieuenctid.

Senedd.tv Fideo Video

14:02 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Minister, in response to the consultation on the Welsh Government's draft budget proposals, the Commissioner for Older People in Wales has made it extremely clear that the approach to preventative spending is insufficient. In light of these comments, can you tell us how the Welsh Government is giving a higher level of priority to preventative spending in this year's budget and can you name one thing that you are doing differently compared to last year on this particular issue?

Weinidog, wrth ymateb i'r ymgynghoriad ar gynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru wedi ei gwneud yn hynod glir bod yr ymagwedd tuag at wariant ataliol yn annigonol. Yng ngoleuni'r sylwadau hyn, a allwch ddweud wrthym sut y mae Llywodraeth Cymru yn rhoi lefel uwch o flaenoriaeth i wariant ataliol yn y gyllideb eleni ac a allwch chi enwi un peth rydych yn ei wneud yn wahanol o gymharu â'r llynedd ar y mater penodol hwn?

Senedd.tv Fideo Video

14:03 **Jane Hutt** [Bywgraffiad] [Biography]

Preventative spend is something that is at the core of our draft budget. You will see from our budget documentation that all Ministers have addressed the issue of preventative spend in their expenditure groups. It is important that this is addressed in our strategic integrated impact assessment and we have been guided by the budget advisory group for equality on these issues. So, in terms of the preventative work, perhaps it is building on what works already, in terms of a few areas, but I would say, in terms of the older people's commissioner, that the recognition of the needs of social services had a direct impact on our allocation of this into the local government main expenditure group in terms of support.

Mae gwariant ataliol yn rhywbeth sydd wrth wraidd ein cyllideb ddrafft. Fe welwch o ddogfennau ein cyllideb fod pob Gweinidog wedi mynd i'r afael â mater gwariant ataliol yn eu grwpiau gwariant. Mae'n bwysig bod hyn yn cael sylw yn ein hasesiad effaith integredig strategol a chawsom ein llywio gan y grŵp cynghori ar gydraddoldeb y gyllideb ynglŷn â'r materion hyn. Felly, o ran y gwaith ataliol, efallai ei fod yn adeiladu ar yr hyn sy'n gweithio'n barod, o ran rhai meysydd, ond byddwn yn dweud, o ran y comisiynydd pobl hŷn, bod y gydnabyddiaeth o anghenion y gwasanaethau cymdeithasol wedi cael effaith uniongyrchol ar ein dyraniad o hyn yn y prif grŵp gwariant llywodraeth leol o ran cefnogaeth.

Senedd.tv [Fideo] [Video]

## Cyllid Ewropeaidd

## European Funding

14:04 **Keith Davies** [Bywgraffiad] [Biography]

*9. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar bwysigrwydd cyllid Ewropeaidd i orllewin Cymru? OAQ(4)0462(FIN)*

*9. Will the Minister make a statement on the importance of European funding to west Wales? OAQ(4)0462(FIN)*

Senedd.tv [Fideo] [Video]

14:04 **Jane Hutt** [Bywgraffiad] [Biography]

Worth around £500 million annually, the European structural and investment funds deliver vital economic and social benefits to the people of west Wales.

Mae'r cronfeydd strwythurol a buddsoddi Ewropeaidd sydd werth tua £500 miliwn bob blwyddyn, yn sicrhau manteision economaidd a chymdeithasol hanfodol i bobl gorllewin Cymru.

Senedd.tv [Fideo] [Video]

14:04 **Keith Davies** [Bywgraffiad] [Biography]

Mae Erasmus+, sydd werth £14.7 biliwn, yn rhaglen newydd sy'n cynnwys addysg, hyfforddiant, ieuenctid a chwaraeon, ar gael am y tro cyntaf i blant ysgol. A yw'r Gweinidog yn cytuno bod hwn yn darparu cyfleoedd arbennig i bobl ifanc gorllewin Cymru i fyw, astudio a gwella eu sgiliau mewn gwlad tramor, fydd o gymorth i'r economi trwy wella sgiliau gweithlu'r dyfodol?

Erasmus+, which is worth £14.7 billion, is a new programme that includes education, training, youth and sport, and it is available for the first time to school pupils. Does the Minister agree that this provides excellent opportunities for young people in west Wales to live, study and improve their skills abroad, which will benefit the economy by improving the skills of the workforce for the future?

Senedd.tv [Fideo] [Video]

14:04 **Jane Hutt** [Bywgraffiad] [Biography]

I do agree with Keith Davies on this point and I also very much welcomed the recent committee report that we debated, which particularly looked at the importance of funds such as Erasmus and the importance of promoting them and their opportunities to young people. It is important that we see that these opportunities are for young people going into vocational routes in terms of further education apprenticeships, as well as into the more academic higher education routes in terms of training and learning. I very much welcome the opportunity, again, to promote this. Of course, the British Council is now running this programme from Wales, from Cardiff, and we need to make sure that we get the full benefit of it for our young people.

Rwy'n cytuno â Keith Davies ar y pwynt hwn ac roeddwn hefyd yn croesawu adroddiad diweddar y pwyllgor a drafodwyd gennym, a oedd yn edrych yn benodol ar bwysigrwydd cronfeydd megis Erasmus a phwysigrwydd eu hyrwyddo hwy a'r cyfleoedd hyn i bobl ifanc. Mae'n bwysig ein bod yn gweld bod y cyfleoedd hyn ar gyfer pobl ifanc sy'n dilyn llwybrau galwedigaethol o ran prentisiaethau addysg bellach, yn ogystal ag i mewn i'r llwybrau addysg uwch sy'n fwy academaidd o ran hyfforddiant a dysgu. Croesawaf yn fawr y cyfle, unwaith eto, i hyrwyddo hyn. Wrth gwrs, mae'r Cyngor Prydeinig yn awr yn cynnal y rhaglen hon o Gymru, o Gaerdydd, ac mae angen i ni wneud yn siŵr ein bod yn cael mantais lawn ohono ar gyfer ein pobl ifanc.

Senedd.tv [Fideo] [Video]

14:05 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, data from the Welsh small business survey suggest that only 66% of Welsh small and medium-sized enterprises were successful in accessing some of the finance that they needed, which compares with around 74% across the UK. Given that the new operational programme for European finance in west Wales has within it a project to increase the number of small and medium-sized enterprise start-ups through the provision of information, advice, guidance and support for entrepreneurship, including an amount invested in venture capital and expansion capital, why do you think that it is harder to access finance, especially through European funding, in west Wales than it is in the UK on average, especially given that other areas would not have access to this additional revenue support?

Weinidog, awgryma data o arolwg busnesau bach yng Nghymru mai dim ond 66% o fusnesau bach a chanolig yng Nghymru oedd wedi llwyddo i gael rhywfaint o'r cyllid oedd ei angen arnynt, sy'n cymharu â thua 74% ar draws y DU. O gofio bod gan raglen weithredol newydd ar gyfer cyllid Ewropeaidd yng ngorllewin Cymru brosiect i gynyddu nifer y mentrau bach a chanolig newydd drwy ddarparu gwybodaeth, cyngor, arweiniad a chymorth ar gyfer entrepreneuriaeth, gan gynnwys swm a fuddsoddwyd mewn cyfalaf menter a chyfalaf ehangu, pam rydych yn credu ei bod yn fwy anodd i gael gafael ar gyllid, yn enwedig drwy gyllid Ewropeaidd, yn y gorllewin nag ydyw yn y DU ar gyfartaledd, yn enwedig o ystyried na fyddai ardaloedd eraill yn cael mynediad at y cymorth refeniw ychwanegol?

14:06 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You will not be surprised to hear that I dispute that. In terms of the evidence, it is quite clear that businesses are not only benefiting from the access to the structural funds, but benefiting in your region. If we look at EU projects in south-west Wales, they have created 7,900 jobs and some 2,250 businesses, and helped 21,000 people into work, et cetera, et cetera. This is also about investment in the Llanelli town centre regeneration project, where I met businesses that also saw the importance of the structural funds, and the South West Workways project, assisting 1,200 of those 4,900 people helped into employment. I think that it is an important time for us to stand up for the European Union, and I know that business wants to stand up for the European Union. I was very interested in a recent headline that said:

Ni fydd yn syndod i chi glywed fy mod yn amau hynny. O ran y dystiolaeth, mae'n eithaf amlwg bod busnesau nid yn unig yn elwa ar y mynediad at y cronfeydd strwythurol, ond yn elwa yn eich rhanbarth. Os ydym yn edrych ar brosiectau'r UE yn ne-orllewin Cymru, maent wedi creu 7,900 o swyddi a 2,250 o fusnesau, ac wedi helpu 21,000 o bobl i gael gwaith, ac yn y blaen. Mae hyn hefyd yn ymwneud â buddsoddi ym mhrosiect adfywio canol tref Llanelli, lle y bu i mi gyfarfod â busnesau sydd hefyd yn gweld pwysigrwydd y cronfeydd strwythurol, a phrosiect Gweithffyrdd y De-orllewin, gan gynorthwyo 1,200 o'r 4,900 o bobl a gafodd gymorth i gael gwaith. Rwy'n meddwl ei fod yn amser pwysig i ni i sefyll dros yr Undeb Ewropeaidd, a gwn fod y byd busnes eisiau sefyll dros yr Undeb Ewropeaidd. Roedd gennyf ddiddordeb mawr mewn pennawd diweddar a ddywedodd:

'For business, Britain and Europe really are better together'.

'For business, Britain and Europe really are better together'.

I would certainly go along with that.

Byddwn yn sicr yn cytuno â hynny.

14:07 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Er gwaethaf yr hyn mae'r Gweinidog newydd ei ddweud, mae stori yn y 'Llanelli Star' heddiw yn dweud taw canol tref Llanelli yw'r ail waethaf mas o 500 drwy Brydain gyfan. Mae trafodaethau diddorol iawn mae fy swyddfa i wedi bod yn rhan ohonynt i sefydlu 'business improvent district'—ardal gwella busnes—yn Llanelli. Os yw honno yn mynd ymlaen, a fedr y Gweinidog gadarnhau ei bod y fath o gerbyd ac agoriad i ddenu cyllid Ewropeaidd pellach i ganol y dref?

Despite what the Minister has just said, the 'Llanelli Star' today states that Llanelli is the second worst town centre out of 500 throughout the whole of Britain. My office has been part of very interesting discussions to establish a business improvement district in Llanelli. If that does proceed, can the Minister confirm that that is the kind of vehicle and opening that will attract additional European funding to the town centre?

14:08 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, clearly—. As I said, I visited Llanelli town centre in the summer and was just overwhelmed by the developments: the fantastic Theatr Ffwrnes, the town centre itself, and Llanelly House. None of it would be there without European funding. There is the regeneration of the library, and I could go on. It is a fantastic example of EU regeneration, and I certainly would want to liaise with and support any programme to build on this in the next round of European structural funds.

Gallaf yn amlwg—. Fel y dywedais, ymwelais â chanol tref Llanelli yn yr haf a chefais fy synnu gan y datblygiadau: Theatr arbennig y Ffwrnes, canol y dref ei hun, a Phlas Llanelli. Ni fyddai'r un wedi llwyddo heb gyllid Ewropeaidd. Roedd adfywiad y llyfrgell hefyd, gallwn enwi rhagor. Mae'n enghraifft wych o waith adfywio'r UE, ac rwy'n sicr yn awyddus i gysylltu ag unrhyw raglen sy'n adeiladu ar hyn a'i chefnogi yn y cylch nesaf o gronfeydd strwythurol Ewropeaidd.

14:08 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Minister, one important way in which European funding can be harnessed to maximum benefit in west Wales is surely to enable and facilitate local businesses to seek support through the upcoming rural development plan. In that context, a particular potential project that would be of interest is in Lampeter, where Conti's ice cream emporium plans a development that might make that long-standing business a visitor attraction of regional significance, and I was pleased that your colleague the Deputy Minister for Farming and Food expressed interest in that project just yesterday. In that context, Minister, what are you prepared to do as Minister for finance to promote access for small and medium-sized businesses to funding under the RDP?

Yn sicr Weinidog, un ffordd bwysig y gellir defnyddio arian Ewropeaidd i'w lawn fantais yng ngorllewin Cymru yw galluogi a hwyluso busnesau lleol i ofyn am gymorth drwy'r cynllun datblygu gwledig nesaf. Yn y cyd-destun hwnnw, prosiect posibl penodol a fyddai o ddiddordeb yw yn Llanbedr Pont Steffan, lle mae emporiwm hufen iâ Conti yn cynllunio datblygiad a allai wneud y busnes hir sefydlog hwnnw'n atyniad i ymwelwyr o arwyddocâd rhanbarthol, ac rwy'n falch bod eich cydweithiwr, y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd wedi mynegi diddordeb yn y prosiect hwnnw ddoe ddiwethaf. Yn hynny o beth, Weinidog, beth yr ydych yn barod i wneud fel y Gweinidog cyllid i hyrwyddo mynediad ar gyfer busnesau bach a chanolig i gyllid o dan y Cynllun Datblygu Gwledig?

Senedd.tv Fideo Video

14:09 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

I think that the RDP is exactly the right route and mechanism for that kind of support to SMEs and I am, of course, working closely with the Deputy Minister as we move into the new round for the RDP. I am sure that it is very important to draw attention to projects and businesses of the kind that you have described today in your constituency to show how, in the rural economy, we can use our European structural funds to good effect.

Rwy'n credu mai'r Cynllun Datblygu Gwledig yw'r union lwybr a mecanwaith cywir ar gyfer y math hwnnw o gefnogaeth i fusnesau bach a chanolig ac, wrth gwrs, rwy'n cydweithio'n agos â'r Dirprwy Weinidog wrth i ni symud i mewn i'r cylch newydd ar gyfer y Cynllun Datblygu Gwledig. Rwy'n siŵr ei bod yn bwysig iawn tynnu sylw at brosiectau a busnesau o'r math rydych wedi'u disgrifio heddiw yn eich etholaeth i ddangos sut, yn yr economi wledig, y gallwn ddefnyddio ein cronfeydd strwythurol Ewropeaidd yn effeithiol.

Senedd.tv Fideo Video

## Portffolio Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## The Health and Social Services Portfolio

14:10 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

*10. Pa flaenoriaethau a gaiff eu hystyried gan Lywodraeth Cymru wrth ddyrannu cyllid i'r portffolio Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol? OAQ(4)0465(FIN)*

*10. What priorities are considered by the Welsh Government when allocating funding to the Health and Social Services portfolio? OAQ(4)0465(FIN)*

Senedd.tv Fideo Video

14:10 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

The continued delivery of safe, high-quality healthcare with improving health outcomes for the people of Wales remains our top priority.

Mae parhau i ddarparu gofal iechyd o ansawdd uchel yn ddiogel gan sicrhau gwell canlyniadau iechyd i bobl Cymru yn brif flaenoriaeth i ni.

Senedd.tv Fideo Video

14:10 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

I thank the Minister for that response. Would the Minister consider issuing an alternative budget where she showed how much the health service and social services would receive, dependent on the priorities decided, if there was fair funding for Wales, if we had levels of Scottish funding, or even if we had levels of Northern Ireland funding?

Diolch i'r Gweinidog am yr ymateb hwnnw. A fyddai'r Gweinidog yn ystyried cyhoeddi cyllideb amgen lle dangosodd faint y byddai'r gwasanaeth iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn ei dderbyn, yn dibynnu ar y blaenoriaethau a bennwyd, pe bai ariannu teg i Gymru, pe bai gennym lefelau ariannu'r Alban, neu hyd yn oed pe bai gennym lefelau Gogledd Iwerddon?

Senedd.tv Fideo Video

14:10 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Of course, that is a very pertinent point to make today, as I hope that we all unite in this Chamber for fair funding for Wales. I think that that is the most important point that I would make in response to your question. We are in the toughest time in terms of our budgetary settlements, with a £1.5 billion loss to our public finances. We know that we are underfunded. In terms of the tough decisions that I have had to make in support of health and social services, I have to say that I base that, with the Minister for Health and Social Services, on the independent evidence of the Nuffield Trust report. That is the way that we have to progress in these tough times, but let us all call today for fair funding for Wales. Thank you, Julie Morgan.

Wrth gwrs, mae hynny'n bwynt perthnasol iawn i'w wneud heddiw, gan y gobeithiaf ein bod i gyd yn uno yn y Siambr hon i alw am gyllid teg i Gymru. Rwy'n meddwl mai dyna'r pwynt mwyaf pwysig yr hoffwn ei wneud mewn ymateb i'ch cwestiwn. Rydym yn y cyfnod anoddaf o ran ein setliadau cyllidebol, gyda cholled gwerth £1.5 biliwn i'n cyllid cyhoeddus. Rydym yn gwybod ein bod yn cael ein tanariannu. O ran y penderfyniadau anodd y bu'n rhaid i mi eu gwneud i gefnogi iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, rhaid i mi ddweud i mi seilio hynny, gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ar dystiolaeth annibynnol adroddiad Ymddiriedolaeth Nuffield. Dyna'r ffordd y mae'n rhaid inni symud ymlaen yn y cyfnod anodd hwn, ond gadewch i ni i gyd galw heddiw am gyllid teg i Gymru. Diolch i chi, Julie Morgan.

14:11 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, consultants have raised with me, across north Wales, a basic lack of infrastructure within certain departments. They do feel that, up in north Wales, we do get quite left behind when it comes to funding. They feel that if they had this infrastructure in place they would be better able to deal with patients who, at the moment, find themselves having to go further afield, costing the NHS more. What steps are you taking as the Minister for finance to ensure that moneys provided to the health budget will actually be spent on this much-needed infrastructure, and that we in north Wales are not left behind?

Weinidog, ar draws Gogledd Cymru, mae ymgynghorwyr wedi codi gyda mi bod diffyg seilwaith sylfaenol o fewn rhai adrannau. Maent yn teimlo ein bod yn y gogledd yn cael ein gadael ar ôl pan ddaw'n fater o gyllid. Maent yn teimlo pe bai ganddynt y seilwaith hwn yn ei le y byddent yn gallu ymdrin yn well â chleifion sydd, ar hyn o bryd, yn cael eu hunain yn gorfod teithio ymhell, gan gostio mwy i'r GIG. Pa gamau rydych yn eu cymryd fel y Gweinidog cyllid i sicrhau y bydd arian a ddarperir at y gyllideb iechyd mewn gwirionedd yn cael ei wario ar y seilwaith sydd fawr ei angen, ac nad ydym ni yn y gogledd yn cael ein gadael ar ôl?

14:12 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I do not think that you would deny the fact that the £5 million that I have allocated for Ysbyty Glan Clwyd is precisely targeted because of the needs of that hospital in north Wales as a result of clear capital and business planning through the health board and supported by the Minister for Health and Social Services. I do think that it is important to put the record straight in terms of capital investments across Wales. If you look at the per capita spend in a regional breakdown across Wales, in fact, as far as north Wales is concerned, it is very clear that north Wales is not disadvantaged per person, and I would be very happy to share that information with Members.

Wel, nid wyf yn meddwl y byddech yn gwadu'r ffaith bod y £5 miliwn yr wyf wedi ei ddyrannu ar gyfer Ysbyty Glan Clwyd yn cael ei dargedu'n benodol oherwydd anghenion yr ysbyty hwnnw yn y gogledd o ganlyniad i gyfalaf clir a chynllunio busnes drwy'r bwrdd iechyd a thrwy gefnogaeth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Credaf ei bod yn bwysig egluro'r sefyllfa o ran buddsoddiadau cyfalaf ledled Cymru. Os edrychwch ar y gwariant y pen mewn dadansoddiad rhanbarthol ledled Cymru, mewn gwirionedd, wrth ystyried gogledd Cymru, mae'n amlwg iawn nad yw gwariant y pen yn y gogledd dan anfantais, a byddwn yn barod iawn i rannu'r wybodaeth honno gydag Aelodau.

14:13 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae adroddiad diweddar y BMA ar feddygon teulu yn dangos fod, yn 2005-06, 10.3% o gyllid yr NHS yn mynd ar feddygon teulu. Mae hyn wedi gostwng erbyn hyn i 7.9%, er bod polisi eich Llywodraeth yw rhoi mwy o bwyslais ar wasanaethau meddygon teulu. A ydych o gonsýrn i chi fod byrddau iechyd yn clustnodi canran yn is o'u cyllideb at feddygon teulu na'r hyn y byddai rhywun wedi disgwyl iddynt ei wneud?

The recent BMA report on GPs demonstrates that, in 2005-06, 10.3% of NHS funding was spent on GPs. This has now reduced to 7.9%, although your Government's policy places more emphasis on GP services. Is it of concern to you that health boards are allocating a lower proportion of their budgets to GP services than one would perhaps have expected?

14:13 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Clearly, that is a matter for the Minister for Health and Social Services, I am sure, to put the record straight in terms of investment in our GPs. It is very clear that this Government and the Minister for Health and Social Services are committed to a primary healthcare led national health service in Wales. We are making investment in response to the Nuffield report, which stated that, if you can get it right in terms of how you manage chronic conditions, which, of course, is mainly in the community, you are on foot to a sustainable health service when you have an older population and greater pressures and needs as a result.

Yn amlwg, mae hynny'n fater i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, rwy'n siŵr, er mwyn egluro'r sefyllfa o ran buddsoddi yn ein meddygon teulu. Mae'n amlwg iawn bod y Llywodraeth hon a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ymrwymo i ofal iechyd sylfaenol a arweinir gan y gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru. Rydym yn gwneud buddsoddiad fel ymateb i'r adroddiad Nuffield, a oedd yn dweud, os gallwch drefnu sut rydych yn rheoli cyflyrau cronig yn iawn, sydd, wrth gwrs, yn bennaf yn y gymuned, eich bod ar y ffordd i wasanaeth iechyd cynaliadwy pan fydd gennych boblogaeth hŷn a mwy o bwysau ac anghenion yn ei sgîl.

## Addasu Dyraniadau Adrannol

## Departmental Allocation Adjustments

14:14 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*11. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw addasiadau i'r dyraniad adrannol y mae'n disgwyl eu gwneud yn y flwyddyn ariannol gyfredol? OAQ(4)0449(FIN)*

*11. Will the Minister make a statement on any adjustments to departmental allocation she expects to make in the current financial year? OAQ(4)0449(FIN)*

14:14 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As we detailed in our draft budget, we plan to make an additional £200 million allocation to the Department for Health and Social Services in the current financial year.

Fel y nodwyd gennym yn ein cyllideb ddrafft, rydym yn bwriadu gwneud dyraniad ychwanegol o £200 miliwn i'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn y flwyddyn ariannol gyfredol.

14:14 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that response, Minister. Of course, that additional resource is indeed welcomed by this side of the Chamber. It is something that we have been calling for for some time. However, do you accept that if you make adjustments to budgets in the current financial year, that obviously has an impact on financial planning for those organisations that are affected? Of course, in making the extra £200 million available, there has been a consequential impact on budgets elsewhere, in local authorities and, indeed, for education services. How do you expect those organisations to be able to manage such in-year adjustments to their budgets, and do you accept that planning for these adjustments is not something that many organisations will find very easy, particularly given the approaching end of the financial year?

Diolch i chi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Wrth gwrs, bod adnoddau ychwanegol yn cael ei wir groesawu gan yr ochr hon i'r Siambr. Mae'n rhywbeth rydym wedi bod yn galw amdano ers tro. Fodd bynnag, a ydych yn derbyn, os byddwch yn gwneud addasiadau i gyllidebau yn y flwyddyn ariannol gyfredol, y bydd hynny'n amlwg yn cael effaith ar gynllunio ariannol ar gyfer y sefydliadau hynny sy'n cael eu heffeithio? Wrth gwrs, wrth ryddhau £200 miliwn yn ychwaneg, bu effaith ganlyniadol ar gyllidebau mewn mannau eraill, mewn awdurdodau lleol ac, yn wir, ar gyfer gwasanaethau addysg. Sut rydych yn disgwyl i'r sefydliadau hynny allu rheoli'r cyfryw addasiadau yn ystod y flwyddyn y eu cyllidebau, ac a ydych yn derbyn nad yw cynllunio ar gyfer yr addasiadau hyn yn rhywbeth y bydd llawer o gyrff yn ei gael yn hawdd iawn, yn enwedig o ystyried bod diwedd y flwyddyn ariannol yn nesáu?

14:15 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that I have already responded to a similar question on this, earlier on in this session. As I have said, we are closely monitoring our budgets across the Welsh Government. We also have a reserve, which, of course, we will be drawing on in order to meet the in-year needs. That is why we have a reserve, after all, to meet the kind of pressures and needs that emerge during the year. It is very important that you do use the second supplementary budget as an opportunity to scrutinise what will, by then, be a clear picture of how we have managed this financial year.

Credaf fy mod eisoes wedi ymateb i gwestiwn tebyg am hyn, yn gynharach yn y sesiwn hon. Fel y dywedais, rydym yn monitro ein cyllidebau yn agos ar draws Llywodraeth Cymru. Mae gennym hefyd gronfa wrth gefn, y byddwn, wrth gwrs, yn ei defnyddio er mwyn cwrdd ag anghenion yn ystod y flwyddyn. Dyna pam mae gennym gronfa wrth gefn, wedi'r cyfan, i gwrdd â'r math o bwysau ac anghenion sy'n dod i'r amlwg yn ystod y flwyddyn. Mae'n bwysig iawn eich bod yn defnyddio'r ail gyllideb atodol fel cyfle i graffu ar yr hyn a fydd, erbyn hynny, yn ddarlun clir o sut rydym wedi llwyddo yn y flwyddyn ariannol hon.

However, I have to say that this is about the stark reality of financial challenges. I am glad that you welcome the extra money for the health service, Darren Millar, but we are faced with a £1.5 billion cut in our budget from the UK Government, and you are the ones, on your side of the Chamber, who always say, 'We want more for health, more for education, more for housing'. From where would you pay for it? Where would your cuts be, Darren Millar?

Fodd bynnag, rhaid i mi ddweud bod hyn yn ymwneud â realiti difrifol heriau ariannol. Rwy'n falch eich bod yn croesawu'r arian ychwanegol ar gyfer y gwasanaeth iechyd, Darren Millar, ond rydym yn wynebu toriad gwerth £1.5 biliwn yn ein cyllideb gan Lywodraeth y DU, a chi yw'r rhai ar eich ochr chi o'r Siambr, sydd bob amser yn dweud, 'Rydym am gael mwy ar gyfer iechyd, mwy i addysg, mwy ar gyfer tai'. O ble y byddech yn dod o hyd i'r arian i dalu? Ym mhle y byddai eich toriadau chi, Darren Millar?

14:16 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch i chi, Weinidog.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus

## Questions to the Minister for Public Services

### Craffu o fewn Llywodraeth Leol

### Scrutiny in Local Government

14:17 **Peter Black** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*1. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar rôl y broses graffu o fewn llywodraeth leol? OAQ(4)0460(PS)*

*1. Will the Minister make a statement on the role of scrutiny in local government? OAQ(4)0460(PS)*

14:17 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services*

The role of scrutiny in local government is to provide effective, independent challenge to the executive decision-making body, and to drive transparency and accountability for the decisions made in the delivery of public services.

Rôl craffu mewn llywodraeth leol yw darparu her effeithiol, annibynnol i'r corff gwneud penderfyniadau gweithredol, a hyrwyddo tryloywder ac atebolrwydd am y penderfyniadau a wneir wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

14:17 **Peter Black** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, Minister. I agree absolutely with every word that you said, but you do know, of course, that the quality of scrutiny around Wales is variable and inconsistent in many parts, even within some councils. Can I ask you whether you have plans to try to improve the level of scrutiny in local government in Wales and what those plans are likely to be?

Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Cytunaf yn llwyr â phob gair a ddywedasoch, ond gwyddoch, wrth gwrs, fod ansawdd y craffu ledled Cymru yn amrywiol ac yn anghyson mewn sawl rhan, hyd yn oed o fewn rhai cynghorau. A gaf fi ofyn i chi a oes gennych gynlluniau i geisio gwella lefel y craffu mewn llywodraeth leol yng Nghymru a'r hyn y mae'r cynlluniau hynny yn debygol o fod?

14:17 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

We have actually invested £660,000 over three years in the scrutiny development fund and in the Centre for Public Scrutiny. We support the Centre for Public Scrutiny in providing a programme that offers practical and effective professional support to scrutiny members and officers.

Mewn gwirionedd rydym wedi buddsoddi £660,000 dros dair blynedd yn y gronfa datblygu craffu ac yn y Ganolfan Craffu Cyhoeddus. Rydym yn cefnogi'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus i ddarparu rhaglen sy'n cynnig cymorth proffesiynol ymarferol ac effeithiol i swyddogion ac aelodau craffu.

14:17 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Minister, some constituents have raised concerns about the frequency with which their community councils meet in private session, and the accuracy of the grounds on which they do so. Having been a councillor myself, I am pleased to see members of the public take such an interest in their work and in scrutinising their work, but does your Government collect data on the number of sessions that are held in private, and is existing guidance for community councillors clear enough about the correct use of the in-camera procedure?

Weinidog, mae rhai etholwyr wedi codi pryderon ynghylch pa mor aml y mae eu cynghorau cymuned yn cyfarfod mewn sesiwn breifat, a chywirdeb y sail y maent yn gwneud hynny. Ar ôl bod yn gynghorydd fy hun, rwy'n falch o weld aelodau o'r cyhoedd yn cymryd cymaint o ddiddordeb yn eu gwaith ac wrth graffu ar eu gwaith, ond a yw eich Llywodraeth yn casglu data ar nifer y sesiynau sy'n cael eu cynnal yn breifat, ac a yw'r arweiniad presennol ar gyfer cynghorwyr cymuned yn ddigon clir ynghylch y defnydd cywir o gyfarfod yn y dirgel?

14:18 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I think that the Member will be aware that the Wales Audit Office has done work in the area of town and community councils quite recently. We are looking, of course, at the future of town and committee councils in the context of our proposals for the reform of local government. I may well have more to say in the not-too-distant future.

Wel, rwy’n credu y bydd yr Aelod yn gwybod bod Swyddfa Archwilio Cymru wedi gwneud gwaith ym maes cynghorau tref a chymuned yn eithaf diweddar. Rydym yn edrych, wrth gwrs, ar ddyfodol cynghorau tref a chymuned yng nghyd-destun ein cynigion ar gyfer diwygio llywodraeth leol. Efallai fy bydd gennyf ragor i’w ddweud yn y dyfodol agos.

14:18 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I ba gyfeiriad bynnag y mae’r Llywodraeth yn symud tuag ato rŵan o ran yr agenda o ddarparu gwell gwasanaethau cyhoeddus, a yw’r Gweinidog yn gwerthfawrogi’r gwir bryder yn rhywle fel Ynys Môn ynglŷn â’r perygl o golli democratiaeth leol? A yw’r Gweinidog yn gweld bod angen sicrhau’r ddemocratiaeth leol honno er mwyn sicrhau sgrwtini lleol da?

Whichever direction the Government moves now in terms of the agenda of providing better public services, does the Minister appreciate the genuine concern that there is in somewhere like Anglesey about the risk of losing local democracy? Does the Minister see the need to ensure that that local democracy is in place to ensure proper scrutiny at a local level?

14:19 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I look forward to the local authority on Ynys Môn engaging with our proposals for voluntary merger.

Edrychaf ymlaen at weld awdurdod lleol Ynys Môn yn ymgysylltu â'n cynigion ar gyfer uno gwirfoddol.

### Gwasanaethau Anstatudol

### Non-statutory Services

14:19 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. A yw’r Gweinidog yn bwriadu cyhoeddi unrhyw ganllawiau i awdurdodau lleol ynghylch darparu gwasanaethau anstatudol? OAQ(4)0475(PS)*

*2. Does the Minister plan to issue guidance to local authorities concerning the provision of non-statutory services? OAQ(4)0475(PS)*

14:19 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No.

Nac ydyw.

14:19 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Minister for his answer. The Minister has been most vocal in his comments about the capital reserves of councils. Does he intend to instruct them to use those more profitably?

Diolch i'r Gweinidog am ei ateb. Mae'r Gweinidog wedi bod yn uchel ei gloch gyda’i sylwadau am gronfeydd cyfalaf wrth gefn cynghorau. A yw'n bwriadu dweud wrthynt am eu defnyddio yn fwy proffidiol?

14:19 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I think that we expect local authorities to look at all of the funds available to them as they deliver public services. That will include their looking, of course, at the state of their reserves. These are important issues that we expect local government to address.

Wel, rwy’n meddwl ein bod yn disgwyl i awdurdodau lleol edrych ar yr holl arian sydd ar gael iddynt gan eu bod yn darparu gwasanaethau cyhoeddus. Bydd hynny'n golygu eu bod yn edrych, wrth gwrs, ar gyflwr eu cronfeydd wrth gefn. Mae'r rhain yn faterion pwysig rydym yn disgwyl i lywodraeth leol roi sylw iddynt.

14:19 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Does the Minister agree with me that the best way to improve the nation’s health is to improve lifestyle, and that many of the non-statutory services provided by local authorities help achieve this?

A yw'r Gweinidog yn cytuno â mi mai'r ffordd orau o wella iechyd y genedl yw trwy wella ffordd o fyw, a bod llawer o'r gwasanaethau anstatudol a ddarperir gan awdurdodau lleol yn helpu i gyflawni hyn?

14:20

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Clearly, many non-statutory services have an important role to play in helping people with key lifestyle choices and in improving their health, in particular. Certainly, we welcome the work that local government has undertaken in this area. We have examples of strong collaboration, let me say, between local authorities and the NHS in a number of these initiatives. What we want to ensure is that public services are delivered in a way that allows preventative action to support our health programmes, and I know that local authorities will bear those issues in mind when they make the difficult decisions that they have to make.

Yn amlwg, mae gan lawer o wasanaethau anstatudol ran bwysig i'w chwarae i helpu pobl gyda'u dewisiadau ffordd o fyw allweddol ac o ran gwella eu hiechyd, yn enwedig. Yn sicr, rydym yn croesawu'r gwaith y mae llywodraeth leol wedi ei wneud yn y maes hwn. Mae gennym enghreifftiau o gydweithio cryf, gadewch i mi ddweud, rhwng awdurdodau lleol a'r GIG mewn nifer o'r mentrau hyn. Yr hyn rydym am ei sicrhau yw bod y gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n caniatáu camau ataliol i gefnogi ein rhaglenni iechyd, a gwn y bydd awdurdodau lleol yn cadw'r materion hynny mewn cof wrthwneud y penderfyniadau anodd y mae'n rhaid iddynt eu gwneud.

Senedd.tv
Fideo Video

14:20

## Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography

A ydych chi'n cytuno, Weinidog, â dirprwy arweinydd Cyngor Sir y Fflint, sy'n dweud y bydd y setliad y bydd yr awdurdod yn ei gael yr hoelen olaf yn arch y gwasanaethau anstatudol y mae'n eu darparu?

Do you agree, Minister, with the deputy leader of Flintshire County Council, who said that the authority's settlement will be the final nail in the coffin for the non-statutory services that it provides?

Senedd.tv
Fideo Video

14:21

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

I will be making a statement on the local government settlement later this afternoon.

Byddaf yn gwneud datganiad am y setliad llywodraeth leol yn ddiweddarach y prynhawn yma.

Senedd.tv
Fideo Video

14:21

## Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Weinidog, rwy'n derbyn bod penderfyniadau anodd i'w gwneud o fewn llywodraeth leol, ond mae rhan o'r cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn creu sefyllfa lle mae nifer o grantiau yn cael eu trosglwyddo o'r Llywodraeth i mewn i refeniw. Pa asesiad y mae eich adran yn ei wneud, wrth wneud y penderfyniad hwn, ynghylch a yw'r cynghorau mewn sefyllfa i gynnal gwasanaethau anstatudol?

Minister, I accept that there are difficult decisions to be made within local government, but a part of the agreement between the Welsh Government and the Welsh Local Government Association creates a situation whereby a number of grants are transferred from the Government into revenue. What assessment is your department making, when this decision is being made, of whether the councils are in a position to maintain non-statutory services?

Senedd.tv
Fideo Video

14:21

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

The decisions that we have taken have obviously been to try to move more grants into the revenue support grant. That has been a discussion that I have had with ministerial colleagues, and that my predecessors have had with ministerial colleagues as well. We understand the desire from local government for more of those grants to be moved into the RSG. However, there are certain areas of spending that would not be carried through at a local level were there not dedicated grants in place.

Yn amlwg, y penderfyniadau rydym wedi'u cymryd yw ceisio symud mwy o grantiau i mewn i'r grant cynnal refeniw. Mae hynny wedi bod yn drafodaeth yr wyf wedi'i chael â chyd-Weinidogion, ac a gafodd fy rhagflaenwyr â chyd-Weinidogion hefyd. Rydym yn deall awydd llywodraeth leol am i fwy o'r grantiau hynny gael eu symud i mewn i'r Grant Cynnal Refeniw. Fodd bynnag, mae rhai meysydd gwariant na fyddai'n cael eu dwyn ymlaen ar lefel leol onid oedd grantiau penodol yn eu lle.

Senedd.tv
Fideo Video

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from Party Spokespeople

14:22

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

First this afternoon, we have the opposition spokesperson, Janet Finch-Saunders.

Yn gyntaf y prynhawn yma, dyma lefarydd yr wrthblaid, Janet Finch-Saunders.

Senedd.tv
Fideo Video

14:22 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. Minister, local authorities are now facing unprecedented cuts imposed by your Welsh Government. The WLGA estimates that the savings required by 2018 to be in the region of £990 million across 22 local authorities. How do you envisage that local authorities in their current form will manage these cuts?

Diolch i chi, Lywydd. Weinidog, mae awdurdodau lleol bellach yn wynebu toriadau nas gwelwyd eu tebyg a bennwyd gan eich Llywodraeth yng Nghymru. Mae CLILC yn amcangyfrif y bydd yr arbedion sy'n ofynnol erbyn 2018 tua £990 miliwn ar draws y 22 awdurdod lleol. Sut rydych yn rhagweld y bydd awdurdodau lleol yn eu ffurf bresennol yn rheoli'r toriadau hyn?

14:22 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As I understand it, yesterday, your Prime Minister ruled out a fairer funding settlement for Wales. [Interruption.]

Yn ôl a ddeallaf, ddoe, dyfarnodd eich Prif Weinidog yn erbyn setliad ariannol tecach i Gymru. [Torri ar draws.]

14:22 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Answer the question.

Atebwch y cwestiwn.

14:22 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The reality, of course—

Y realiti, wrth gwrs—

14:22 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. I beg your pardon?

Trefn. Mae'n ddrwg gennyf?

14:22 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

He is not answering the question.

Nid yw'n ateb y cwestiwn.

14:22 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Minister is answering. You may not like his answer, but he is answering. Minister, please continue.

Mae'r Gweinidog yn ateb. Efallai nad ydych yn hoffi ei ateb, ond mae yn ateb. Weinidog, os gwelwch yn dda, ewch ymlaen.

14:22 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The reality is that the Welsh Government’s budget has been cut by £1.5 billion in real terms, as a result of the politics of your Government. [Interruption.] We are seeking to provide a fair settlement across Wales for local government. [Interruption.]

Y realiti yw bod cyllideb Llywodraeth Cymru wedi cael ei thorri gan £1.5 biliwn mewn termau real, o ganlyniad i wleidyddiaeth eich Llywodraeth. [Torri ar draws.] Rydym yn ceisio darparu setliad teg ar draws Cymru i lywodraeth leol. [Torri ar draws.]

14:23 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. I would like to listen to the next question from the oppostition spokesperson. I call on Janet Finch-Saunders.

Trefn. Hoffwn wrando ar y cwestiwn nesaf gan lefarydd yr wrthblaid. Galwaf ar Janet Finch-Saunders.

14:23 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, and thank you for that answer, Minister. Your predecessor stated that local authorities in Wales were well aware that these cuts were forthcoming and inevitable, and that local authorities should have been preparing themselves for this. Do you agree with this opinion, and, if so, are you saying that local authorities will still have the capacity—or should have—to work smarter, and more efficiently and innovatively than at present?

Diolch i chi, a diolch i chi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Dywedodd eich rhagflaenydd fod awdurdodau lleol yng Nghymru yn ymwybodol iawn bod y toriadau hyn ar ddod ac yn anochel, ac y dylai awdurdodau lleol fod wedi bod yn paratoi eu hunain at hyn. A ydych yn cytuno â'r farn hon, ac, os felly, a ydych yn dweud y bydd gan awdurdodau lleol y capasiti o hyd—neu y dylai fod ganddynt—i weithio'n fwy craff, ac yn fwy effeithlon ac arloesol nag ar hyn o bryd?

14:23 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Well, we know that the reality is that local government enjoyed significant real-terms increases in the early part of devolution. We also know, of course, that this Welsh Government, during this current spending settlement, has been able to protect local government in Wales far better than it has been protected across the border in England. In fact, there has been a 3% increase in cash terms, compared with a 7% decrease in cash terms in England.

Wel, rydym yn gwybod mai'r realiti yw bod llywodraeth leol wedi mwynhau cynnydd mewn termau real sylweddol yn nyddiau cynnar datganoli. Rydym hefyd yn gwybod, wrth gwrs, fod Llywodraeth Cymru, yn ystod y setliad gwariant presennol, wedi llwyddo i amddiffyn llywodraeth leol yng Nghymru yn llawer gwell nag y mae wedi ei gwarchod ar draws y ffin yn Lloegr. Yn wir, bu cynnydd o 3% mewn termau arian parod, o gymharu â gostyngiad o 7% mewn termau arian parod yn Lloegr.

Senedd.tv
Fideo Video

14:24 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Minister, there is reportedly £1 billion in reserves held by the 22 local authorities across Wales, often rolled over. In some cases, this equates to a fifth of their own budget. With talk of voluntary mergers and local government reform high on your agenda, are you expecting these reserves to be practically sustainable in the future?

Weinidog, yn ôl y sôn, mae £1 biliwn yn cael eu dal mewn cronfeydd wrth gefn gan y 22 awdurdod lleol ar draws Cymru, sy'n aml yn treiglo ymlaen. Mewn rhai achosion, mae hyn yn cyfateb i un rhan o bump o'i chyllideb ei hun. Gyda sôn am uno gwirfoddol diwygio llywodraeth leol yn uchel ar eich agenda, a ydych yn disgwyl i'r cronfeydd wrth gefn hyn fod yn ymarferol gynaliadwy yn y dyfodol?

Senedd.tv
Fideo Video

14:24 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

As I said earlier, the issue of reserves is a matter that we expect local authorities to engage with. It is certainly the case, as I said in the media just a week or so back, that some local authorities—and I think that I am right in saying that it is seven—have reserves equivalent to 20% of their budget. Some of those will clearly be hypothecated against future spending commitments, and we understand that, but it is important that all local authorities make an appropriate judgment about the use of their reserves.

Fel y dywedais yn gynharach, mater y disgwylir i awdurdodau lleol ei ddatrys yw mater cronfeydd wrth gefn. Fel y dywedais yn y cyfryngau rhyw wythnos neu ddwy yn ôl, mae'n wir fod gan rai awdurdodau lleola chredaf mai saith yw'r rhif cywir-gronfeydd wrth gefn sy'n cyfateb i 20% o'u cyllideb. Bydd rhyw gymaint o'r rheiny yn amlwg yn cael ei glustnodi yn erbyn ymrwymiadau gwario yn y dyfodol, ac rydym yn deall hynny, ond mae'n bwysig bod pob awdurdod lleol yn gwneud penderfyniad priodol ynglŷn â defnyddio eu cronfeydd wrth gefn.

Senedd.tv
Fideo Video

14:25 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to the Plaid Cymru spokesperson, Jocelyn Davies.

Symudwn yn awr at lefarydd Plaid Cymru, Jocelyn Davies.

Senedd.tv
Fideo Video

14:25 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Minister, since the very first Assembly, the Welsh Government has believed that the legal defence of reasonable chastisement should be ended. In 2004, you will remember that you yourself voted on a motion that criticised the UK Government for failing to legislate to end that defence. Will you tell us when the Welsh Government's policy on this changed, and when was the last time the Cabinet discussed it?

Weinidog, ers y Cynulliad cyntaf erioed, mae Llywodraeth Cymru wedi credu y dylai amddiffyniad cyfreithiol o gosb resymol ddod i ben. Yn 2004, byddwch yn cofio i chi eich hun bleidleisio ar gynnig sy'n beirniadu Llywodraeth y DU am fethu â deddfu i roi terfyn ar yr amddiffyniad hwnnw. A wnewch chi ddweud wrthym pryd y newidiodd polisi Llywodraeth Cymru ar hyn, a phryd oedd y tro diwethaf i'r Cabinet ei drafod?

Senedd.tv
Fideo Video

14:25 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

The Welsh Government policy on this matter has not changed. I made a statement last week in committee explaining that we did not intend to bring forward an amendment during the lifetime of this Assembly.

Nid yw polisi Llywodraeth Cymru ar y mater hwn wedi newid. Gwneuthum ddatganiad yr wythnos diwethaf yn y pwyllgor yn egluro nad oeddem yn bwriadu cyflwyno gwelliant yn ystod oes y Cynulliad hwn.

Senedd.tv
Fideo Video

14:25 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Well, the One Wales Government was very clear on this in its official response in 2008 to the UN Committee on the Rights of the Child. It gave an undertaking to work,

'to make physical punishment of children and young people illegal in all situations',

Wel, roedd Llywodraeth Cymru'n Un yn glir iawn ar hyn yn ei hymateb swyddogol yn 2008 i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Rhoddodd addewid i weithio,

'i wneud cosb gorfforol i blant a phobl ifanc yn anghyfreithlon ym mhob sefyllfa',

Senedd.tv
Fideo Video

and to do so as a priority. We now have the powers to do so. Why is this no longer a Welsh Government priority, bearing in mind that every single member of the Cabinet and all the deputies, with the exception of Lesley Griffiths, have voted in favour of outlawing all physical punishment of children in Wales?

ac i wneud hynny fel blaenoriaeth. Erbyn hyn mae gennym y pwerau i wneud hynny. Pam y nad yw hyn bellach yn flaenoriaeth gan Lywodraeth Cymru, gan gofio bod pob un aelod o'r Cabinet a'r holl ddirprwyon, ac eithrio Lesley Griffiths, wedi pleidleisio o blaid gwahardd pob cosb gorfforol i blant yng Nghymru?

14:26

## Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I think that I answered questions on this matter in committee last week, where I explained the position of the Government at the present time. It is not our intention to bring forward an amendment on this issue during the lifetime of this Assembly.

Credaf fy mod wedi ateb cwestiynau ar y mater hwn yn y pwyllgor yr wythnos diwethaf, lle esboniais safbwynt y Llywodraeth ar hyn o bryd. Nid yw'n fwriad gennym gyflwyno gwelliant ar y mater hwn yn ystod oes y Cynulliad hwn.

14:26

## Jocelyn Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I think that my question asked why this was no longer a priority for this Government when it was a stated priority of a previous Government, when the powers were lacking —[Interruption.]

Credaf fod fy nghwestiwn wedi gofyn pam nad oedd hyn yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth hon pan oedd yn flaenoriaeth a nodwyd i Lywodraeth flaenorol, pan nad oedd y pwerau yn ddigonol—[Torri ar draws.]

14:26

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Order. I am sorry, Members, but do stop mumbling.

Trefn. Mae'n ddrwg gennyf, Aelodau, ond a wnewch chi roi'r gorau i fwmian.

14:26

## Jocelyn Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The First Minister said that there would be a cross-party committee to look at a ban on hitting children in Wales. Where are you on those cross-party talks, and when will that committee be set up?

Dywedodd y Prif Weinidog y byddai pwyllgor trawsbleidiol yn edrych ar wahardd taro plant yng Nghymru. Beth yw'r sefyllfa gyda'r sgyrsiau trawsbleidiol hynny, a phryd y bydd y pwyllgor yn cael ei sefydlu?

14:27

## Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I expect to have a conversation with my colleague, the Minister for Finance and Government Business, and indeed with the First Minister, in due course. There are a number of issues that we need to address in those discussions, following which we will take forward what has been said before.

Rwy'n disgwyl cael sgwrs gyda fy nghydweithiwr, y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, ac yn wir gyda'r Prif Weinidog, maes o law. Mae nifer o faterion y mae angen inni roi sylw iddynt yn y trafodaethau hynny, ac yna byddwn yn bwrw ymlaen gyda'r hyn a ddywedwyd o'r blaen.

14:27

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

We now move to the Welsh Liberal Democrats spokesperson, Peter Black.

Symudwn yn awr at lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Peter Black.

14:27

## Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Minister, in your brochure on voluntary mergers, you quite rightly ask that local authorities produce a business case for any proposals that they have to merge prior to a Bill going through in the next Assembly. Can I ask whether, when you come to impose mergers on local authorities in the next Assembly, and certainly in your White Paper to be published next year, you will actually set out the business case local authority by local authority as to how they should merge?

Weinidog, yn eich llyfryn ar uno gwirfoddol, rydych yn gwbl briodol yn gofyn i awdurdodau lleol lunio achos busnes ar gyfer unrhyw gynnig sydd ganddynt i uno cyn i Fil fynd drwy'r Cynulliad nesaf. A gaf fi ofyn, pan ddaw'n amser i orfodi awdurdodau lleol i uno yn y Cynulliad nesaf, ac yn sicr yn eich Papur Gwyn a gyhoeddir y flwyddyn nesaf, i chi nodi'n glir yr achos busnes fesul awdurdod lleol ynghylch sut y dylent uno ?

14:28 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Perhaps I can just clarify a few things for the Member. The prospectus that we launched a couple of weeks ago on voluntary mergers asks local authorities to come forward with their expressions of interest by 28 November. Of course, what we are seeking to do will be to introduce a Bill that will facilitate voluntary mergers during the lifetime of this Assembly. The subsequent draft Bill, of course, in respect of further local government reorganisation, would take effect in the following Assembly, following the appropriate scrutiny processes.

Efallai y caf egluro rhai pethau i'r Aelod. Mae'r prosbectws a lansiwyd ychydig wythnosau'n ôl ar uno gwirfoddol yn gofyn i awdurdodau lleol gyflwyno eu datganiadau o ddiddordeb erbyn 28 Tachwedd. Wrth gwrs, yr hyn rydym yn ceisio ei wneud yw cyflwyno Bil a fydd yn hwyluso uno gwirfoddol yn ystod oes y Cynulliad hwn. Bydd y Bil drafft dilynol, wrth gwrs, mewn perthynas ag ad-drefnu pellach ar lywodraeth leol, yn dod i rym yn y Cynulliad dilynol, ar ôl y prosesau craffu priodol.

14:28 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, Minister. You have also stated that you will be bringing forward a White Paper on the compulsory merger of local authorities, in which you will set out the costs of such mergers and also any further considerations around that. As part of that White Paper process, will you also be requiring a business case for each local authority before those mergers go ahead?

Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Rydych hefyd wedi dweud y byddwch yn cyflwyno Papur Gwyn ar uno gorfodol awdurdodau lleol, lle y byddwch yn nodi costau uno o'r fath a hefyd unrhyw ystyriaethau pellach ynghylch hynny. Fel rhan o'r broses Papur Gwyn, a fyddwch hefyd yn gofyn am achos busnes ar gyfer pob awdurdod lleol cyn i'r uniadau hynny fynd yn eu blaen?

14:29 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The White Paper will be much broader than the subject that the Member has outlined. It will no doubt have things to say about the future of community engagement in local government. It will have things to say about the role of town and community councils. It may have things to say about the role of the cabinet system. Indeed, it may have things to say about the question of whether councillors should be Members of the National Assembly.

Bydd y Papur Gwyn yn llawer ehangach na'r pwnc y mae'r Aelod wedi'i amlinellu. Diau y bydd ganddo bethau i'w dweud am ddyfodol ymgysylltiad y gymuned â llywodraeth leol. Bydd ganddo bethau i'w dweud am rôl cynghorau tref a chymuned. Efallai y bydd ganddo bethau i'w dweud am rôl y system cabinet. Yn wir, efallai y bydd ganddo bethau i'w dweud ynghylch a ddylai cynghorwyr fod yn Aelodau o'r Cynulliad Cenedlaethol.

14:29 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, Minister. No doubt, I will set aside a few days to read that very extensive White Paper. However, the issue that everyone is concerned about, and which needs answers, is the proposal by the Welsh Government to force the merger of local authorities that do not do so voluntarily. The question that I am answering you is this: what process will apply to each of those local authorities in terms of a business case, setting out the costs and preparedness of those local authorities to take forward new authorities that are capable of delivering services of the quality that is expected of them?

Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Heb os, byddaf yn neilltuo ychydig ddyddiau i ddarllen y Papur Gwyn helaeth iawn. Fodd bynnag, y mater y mae pawb yn pryderu amdano, ac sydd angen atebion, yw'r cynnig gan Lywodraeth Cymru i orfodi awdurdodau lleol i uno nad ydynt yn gwneud hynny'n wirfoddol. Y cwestiwn rwy'n ei ateb i chi yw hyn: pa broses a fydd yn berthnasol i bob un o'r awdurdodau lleol hynny o safbwynt achos busnes, gan nodi'r costau a pharodrwydd yr awdurdodau lleol hynny i ddatblygu awdurdodau newydd sy'n gallu darparu gwasanaethau o'r ansawdd sy'n ddisgwyliedig ganddynt?

14:30 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I have great expectations that many local authorities will come forward with voluntary merger proposals and will have undertaken those business planning procedures themselves, which will no doubt help us to reach the conclusions that we need to make.

Wel, mae gen i ddisgwyliadau mawr y bydd llawer o awdurdodau lleol yn cyflwyno cynigion uno gwirfoddol ac y byddant wedi cynnal y gweithdrefnau cynllunio busnes hynny eu hunain, a fydd heb os yn ein helpu i gyrraedd y casgliadau y mae angen inni eu gwneud.

14:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move back to the questions on the paper.

Rydym bellach yn symud yn ôl at y cwestiynau ar y papur.

## Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghaerffili

## Public Services in Caerphilly

14:30 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

*3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gydweithio rhwng gwasanaethau cyhoeddus yng Nghaerffili? OAQ(4)0465(PS)*

*3. Will the Minister make a statement on collaboration between public services in Caerphilly? OAQ(4)0465(PS)*

Senedd.tv Fideo Video

14:30 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

In Caerphilly, and across Wales, we need to embrace new models of delivery for public services and lead the way in sharing power and responsibility with our communities.

Yng Nghaerffili, ac ar draws Cymru, mae angen i ni gofleidio modelau newydd o ddarparu ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus ac arwain y ffordd i rannu grym a chyfrifoldeb gyda'n cymunedau.

Senedd.tv Fideo Video

14:30 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Thank you for that response, Minister. Collaboration, of course, is vital if we are to get value for money from our different public services here in Wales, in times of deep UK Government spending cuts. Minister, there are two good examples of this in my constituency. Working with the Gwent police and crime commissioner, Bargoed Town Council is now able to make use of the old police station in the town, while, in the town of Caerphilly, the Labour-controlled Caerphilly County Borough Council has worked with Gwent Police to set up a police customer service desk in the town’s new library. Do you agree with me, Minister, that these are good examples of the type of collaboration between different public services that we need to see more of in Wales?

Diolch i chi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Mae cydweithredu, wrth gwrs, yn hanfodol os ydym i gael gwerth am arian gan ein hamrywiol wasanaethau cyhoeddus yma yng Nghymru, pan fo toriadau gwariant Llywodraeth y DU mor llym. Weinidog, mae yna ddwy enghraifft dda o hyn yn fy etholaeth. Gan gydweithio â'r heddlu a chomisiynydd troseddu Gwent, mae Cyngor Tref Bargoed erbyn hyn yn gallu defnyddio hen orsaf yr heddlu yn y dref, ac yn nhref Caerffili, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili dan reolaeth Llafur wedi cydweithio â Heddlu Gwent i sefydlu desg gwasanaeth cwsmeriaid yr heddlu yn llyfrgell newydd y dref. A ydych yn cytuno â mi, Weinidog, fod yr enghreifftiau hyn yn esiampl dda o gydweithio rhwng gwahanol wasanaethau cyhoeddus ac y dylem weld mwy ohonynt yng Nghymru?

Senedd.tv Fideo Video

14:31 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

I very much welcome the examples that my colleague, the Member for Caerphilly, has given. I have visited Bargoed myself in the past, with him, to see a number of developments in a number of fields related to regeneration, of course, which will involve collaboration between a number of different agencies. Clearly, it is encouraging to hear of practical examples such as this, and we wish to ensure that we see more examples of shared services and resources between the police, local authorities and, indeed, town and community councils, where they exist.

Croesawaf yn fawr iawn yr enghreifftiau a roddodd fy nghydweithiwr, yr Aelod dros Gaerffili. Rwyf wedi ymweld â Bargoed fy hun yn y gorffennol, gydag ef, er mwyn gweld nifer o ddatblygiadau mewn nifer o feysydd sy'n ymwneud ag adfywio, wrth gwrs, a fydd yn golygu cydweithio rhwng nifer o wahanol asiantaethau. Yn amlwg, mae'n galonogol clywed am enghreifftiau ymarferol fel hyn, ac rydym yn awyddus i sicrhau ein bod yn gweld mwy o enghreifftiau o wasanaethau ac adnoddau a rennir rhwng yr heddlu, awdurdodau lleol ac, yn wir, cynghorau tref a chymuned, lle maent yn bodoli.

Senedd.tv Fideo Video

14:31 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Minister, in view of the huge real-terms cut to the local government budget that was recently announced, do you agree that councils in Wales should encourage greater collaboration between public services in order to deliver economies? Do you agree that Caerphilly council should reconsider its abandoned plan to merge its social services department with that of Blaenau Gwent?

Weinidog, o ystyried y toriadau enfawr mewn termau real i gyllideb llywodraeth leol a gyhoeddwyd yn ddiweddar, a ydych yn cytuno y dylai cynghorau yng Nghymru annog mwy o gydweithio rhwng gwasanaethau cyhoeddus er mwyn cyflawni arbedion? A ydych yn cytuno y dylai cyngor Caerffili ailystyried y cynllun a ddilëwyd ganddynt i gyfuno ei adran gwasanaethau cymdeithasol â’r adran ym Mlaenau Gwent?

Senedd.tv Fideo Video

14:32 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

These are decisions that local authorities must look at realistically for themselves. However, clearly, we have now published a prospectus for voluntary mergers. We hope to see expressions of interest from local authorities by 28 November, so that we can move to the development of full business cases, and I hope that all local authorities will be giving appropriate consideration to that approach.

Dyma benderfyniadau y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu hystyried yn realistig ar eu cyfer eu hunain. Fodd bynnag, yn amlwg, rydym bellach wedi cyhoeddi prosbectws ar gyfer uno gwirfoddol. Gobeithiwn weld datganiadau o ddiddordeb gan awdurdodau lleol erbyn 28 Tachwedd, fel y gallwn symud at ddatblygu achosion busnes llawn, ac rwy’n gobeithio y bydd pob awdurdod lleol yn rhoi ystyriaeth briodol i'r dull hwnnw.

Senedd.tv Fideo Video

14:32 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Minister, in your view, how successful then has the Caerphilly local service board been in enabling effective collaboration across public bodies in Caerphilly, and what reports do you get from the civil servants who attend those local service boards?

Weinidog, yn eich barn chi, pa mor llwyddiannus y bu bwrdd gwasanaethau lleol Caerffili o ran galluogi cydweithio effeithiol ar draws cyrff cyhoeddus yng Nghaerffili, a pha adroddiadau yr ydych chi'n eu cael oddi wrth y gweision sifil sy'n mynychu byrddau'r gwasanaethau lleol hynny?

14:33 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Well, I had a meeting just this morning, in fact, to discuss the work of local service boards and the potential within the new future generations Bill for the development of the public service board model. I think that my colleague, the Member for Caerphilly, earlier gave two very good examples of collaboration between the police and Caerphilly County Borough Council, and I look to him and others to supply further examples.

Wel, cefais gyfarfod y bore yma ddiwethaf, mewn gwirionedd, i drafod gwaith y byrddau gwasanaethau lleol a'r potensial o fewn y Bil cenedlaethau'r dyfodol newydd ar gyfer datblygu model bwrdd gwasanaeth cyhoeddus. Credaf fod fy nghydweithiwr, yr Aelod dros Gaerffili, eisoes wedi rhoi dwy enghraifft dda iawn o gydweithio rhwng yr heddlu a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, a disgwyliaf iddo ef ac eraill ddarparu enghreifftiau pellach.

### Uno Gwirfoddol

### Voluntary Mergers

14:33 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*4. Faint o awdurdodau lleol sydd wedi dangos parodrwydd i archwilio'r syniad o uno gwirfoddol? OAQ(4)0473(PS)*

*4. How many local authorities have so far indicated a willingness to explore voluntary mergers? OAQ(4)0473(PS)*

14:33 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Well, as my colleague, the Member for Cardiff Central, is aware, last month I issued the invitation to local authorities to put themselves forward for voluntary merger. I look forward to receiving many expressions of interest by 28 November.

Wel, fel y gŵyr fy nghydweithiwr, yr Aelod dros Ganol Caerdydd, y mis diwethaf, rhoddais wahoddiad i awdurdodau lleol gynnig eu hunain ar gyfer uno gwirfoddol. Edrychaf ymlaen at dderbyn llawer o ddatganiadau o ddiddordeb erbyn 28 Tachwedd.

14:33 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you. Of course, we are reading some of these ideas in the press, and that is absolutely excellent. I am sure that you may be aware that Cardiff—the largest local authority in Wales—has indicated that it is happy to speak to any willing partner. I just wondered what might happen if none of the adjacent authorities wishes to amalgamate with Cardiff. Would it be allowed to stand alone?

Diolch. Wrth gwrs, rydym yn darllen rhai o'r syniadau hyn yn y wasg, ac mae hynny'n hollol wych. Rwy'n siŵr eich bod o bosibl yn gwybod bod Caerdydd—yr awdurdod lleol mwyaf yng Nghymru—wedi dweud ei fod yn barod i siarad ag unrhyw bartner parod. Gofynnais y cwestiwn tybed beth allai ddigwydd os nad oes un o'r awdurdodau cyfagos yn dymuno uno â Chaerdydd. A fyddai'n cael caniatâd i sefyll ar ei ben ei hun?

14:34 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Well, Cardiff, of course, is not alone in making such declarations. Rhondda Cynon Taf County Borough Council has also made it clear that it is willing to talk to neighbouring authorities about merger. I think that, in the prospectus that we published in September, we set out what we expect from those local authorities, and now the ball is firmly in their court.

Wel, wrth gwrs, nid yw Caerdydd ar ei ben ei hun o ran gwneud datganiadau o'r fath. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf hefyd wedi ei gwneud yn glir ei fod yn barod i siarad ag awdurdodau cyfagos am uno. Credaf, yn y prosbectws a gyhoeddwyd gennym ym mis Medi, ein bod yn nodi'r hyn rydym yn ei ddisgwyl gan yr awdurdodau lleol hynny, ac yn awr eu tro nhw sydd nesaf.

14:34 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, you will be aware that Powys County Council is working on merging some functions with the local health board. I note that your recent statement did not make any specific reference to the situation in Powys. However, may I ask what financial incentives will be available to Powys council and, indeed, the health board, and will the local government elections in Powys be delayed until 2018?

Weinidog, byddwch yn ymwybodol bod Cyngor Sir Powys yn gweithio ar uno rhai swyddogaethau gyda'r bwrdd iechyd lleol. Sylwaf nad oedd eich datganiad diweddar yn gwneud unrhyw gyfeiriad penodol at y sefyllfa ym Mhowys. Fodd bynnag, a gaf fi ofyn pa gymhellion ariannol a fydd ar gael i gyngor Powys ac, yn wir, i'r bwrdd iechyd, ac a fydd etholiadau llywodraeth leol ym Mhowys yn cael eu gohirio tan 2018?

14:35 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It is a little too early to say whether the local elections, in which the Member may or may not feature, of course, will be delayed. However, I discussed the situation in Powys this morning with the Minister for health, and officials from his department and my department met with officers of the local authority in Powys and of the health board just last week to seek opportunities for greater integration of services.

Mae ychydig yn rhy gynnar i ddweud a fydd angen gohirio'r etholiadau lleol, a fydd o bosibl yn cynnwys yr Aelod neu beidio, wrth gwrs. Fodd bynnag, trafodais y sefyllfa ym Mhowys, y bore yma gyda'r Gweinidog iechyd, a swyddogion o'i adran a chyfarfu fy adran â swyddogion awdurdod lleol Powys a'r bwrdd iechyd wythnos diwethaf i chwilio am gyfleoedd ar gyfer mwy o integreiddio gwasanaethau.

14:35 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, mae'n debyg bod Cyngor Sir Penfro wedi sefydlu pwyllgor i asesu uno gwirfoddol gyda Chyngor Sir Ceredigion. Nid yw yn fy synnu bod cyngor fel Penfro yn awyddus i uno gyda chyngor mor llwyddiannus â Cheredigion, a hynny yn ôl un o adroddiadau canmoliaethus diweddar y swyddfa archwilio ac Estyn. Yng nghyd-destun Ceredigion, mae'n wir dweud bod 'small' yn biwtiffwl, ac mae Cyngor Sir Ceredigion wedi dweud ei fod am barhau felly. A oes perygl, Weinidog, i ardal fel yr un rwyf i'n ei chynrychioli i weld dirywiad mewn gwasanaethau cyhoeddus os bydd ad-drefnu llywodraeth leol yn arwain at gynghorau sir mwy o faint?

Minister, it appears that Pembrokeshire County Council has established a committee to look at a voluntary merger with Ceredigion County Council. It does not surprise me that counties such as Pembrokeshire would want to merge with a very successful local authority such as Ceredigion, as noted by Estyn and the auditor general in their complimentary reports. It is true that small is beautiful, and Ceredigion has said that it want to continue as it is. Is there a risk, Minister, for an area such as the one that I represent, that it will see a decline in public services if a reorganisation of local government leads to larger county councils?

14:36 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will pay tribute to the council in Ceredigion for the achievements that it has reached in both education and more broadly in its corporate services. I would have great confidence in its ability to spread its best practice. [Laughter].

Talaf deyrnged i'r cyngor yng Ngheredigion am y llwyddiannau a gyflawnwyd ganddo o ran addysg ac yn ehangach yn ei wasanaethau corfforaethol. Byddwn yn hyderus iawn yn ei allu i ledaenu ei arfer gorau. [Chwerthin].

### Y Papur Gwyn ar Ddiwygio Llywodraeth Leol

### The Reforming Local Government White Paper

14:36 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Papur Gwyn ar ddiwygio llywodraeth leol? OAQ(4)0477(PS)*

*5. Will the Minister provide an update on the Reforming Local Government White Paper? OAQ(4)0477(PS)*

**John Griffiths** Bywgraffiad Biography

*7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddiwygio llywodraeth leol yn dilyn adroddiad Comisiwn Williams? OAQ(4)0472(PS)*

*7. Will the Minister make a statement on local government reform following the Williams Commission report? OAQ(4)0472(PS)*

14:36 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Presiding Officer, I understand that you have given your permission for questions 5 and 7 to be grouped. I made an oral statement on 23 September regarding local government reform. Since then, the consultation on the White Paper has closed, and we will be considering the responses with a view to publishing the main local government White Paper in the new year.

Lywydd, rwy’n deall eich bod wedi rhoi eich caniatâd i roi cwestiynau 5 a 7 mewn grŵp. Gwneuthum ddatganiad llafar ar 23 Medi ynghylch diwygio llywodraeth leol. Ers hynny, death yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn i ben, a byddwn yn ystyried yr ymatebion gyda'r bwriad o gyhoeddi'r prif Bapur Gwyn ar lywodraeth leol yn y flwyddyn newydd.

Senedd.tv Fideo Video

14:37 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Thank you for that answer. Going back to a previous answer, it seems difficult to set out clear timetables for local elections until we know where we are with voluntary mergers. However, will you confirm that elections to existing local authorities will take place in May 2017 and that those authorities who merge voluntarily will have their elections in May 2018? Are you confident that local representatives and voters are equally clear about that?

Diolch ichi am yr ateb hwnnw. A gawn ni droi yn ôl at ateb blaenorol. Mae'n ymddangos yn anodd pennu amserlenni clir ar gyfer etholiadau lleol tan i ni wybod y sefyllfa o ran uno gwirfoddol. Fodd bynnag, a wnewch chi gadarnhau y bydd etholiadau awdurdodau lleol presennol yn digwydd ym mis Mai 2017 ac y bydd yr awdurdodau hynny sy'n uno’n wirfoddol yn cael eu hetholiadau ym mis Mai 2018? A ydych yn hyderus bod cynrychiolwyr a phleidleiswyr lleol yr un mor glir ynghylch hynny?

Senedd.tv Fideo Video

14:37 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

The Member is right, and the onus is on local authorities to indicate whether they are going to come forward with voluntary merger proposals. The reforming local government White Paper set out the timelines. Voluntary merged councils will not have elections in 2017; unmerged councils will. Voluntary merged councils will vest in April 2018, having been set up in shadow form in April 2017, and they will have elections in May 2018. The first elections for the remaining new authorities will be in May 2019, with shadow authorities and shadow councils established and vesting day for those new authorities would then be in April 2020. In May 2022, full local government elections for all authorities would be held.

Mae'r Aelod yn iawn, ac mae'r cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol i roi gwybod a ydynt yn mynd i gyflwyno cynigion uno gwirfoddol. Mae'r Papur Gwyn ar gyfer diwygio llywodraeth leol yn nodi'r llinellau amser. Ni fydd cynghorau uno gwirfoddol yn cael etholiadau yn 2017; bydd etholiadau gan gynghorau nad ydynt yn uno. Bydd cynghorau uno gwirfoddol yn cael eu hawdurdodi ym mis Ebrill 2018, ar ôl cael eu sefydlu ar ffurf gysgodol ym mis Ebrill 2017, a byddant yn cael etholiadau ym mis Mai 2018. Bydd yr etholiadau cyntaf ar gyfer gweddill yr awdurdodau newydd ym mis Mai 2019, gydag awdurdodau cysgodol a chynghorau cysgodol yn cael eu sefydlu a’u hawdurdodi wedyn ym mis Ebrill 2020. Ym mis Mai 2022, cynhelir etholiadau llywodraeth leol llawn ar gyfer pob awdurdod.

Senedd.tv Fideo Video

14:38 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Minister, one suggestion for the future configuration of Newport City Council is that it incorporates those parts of Monmouthshire County Council that are currently in the Newport East Assembly constituency. Could you confirm that the Williams report allows for such a future configuration?

Weinidog, un awgrym ar gyfer cyfluniad Cyngor Dinas Casnewydd yn y dyfodol yw ei fod yn cynnwys y rhannau hynny o Gyngor Sir Fynwy sydd ar hyn o bryd yn etholaeth Dwyrain Casnewydd y Cynulliad. A allech gadarnhau bod yr adroddiad Williams yn caniatáu ar gyfer cyfluniad o’r fath yn y dyfodol?

Senedd.tv Fideo Video

14:38 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

I would not, at this stage, want to move away from the Williams footprint, as it were, when we look at the overall boundaries. However, there may be sensible proposals that come forward and we would certainly want to seek the views of the boundary commission and others on some of these as new proposals are developed. It may be that through the proposals, for example, around voluntary mergers, proposals might come forward that we will want to look at which would require some minor boundary adjustments. I would look at those in due course.

Ni fyddwn, ar hyn o bryd, yn awyddus i symud i ffwrdd oddi wrth ôl-troed Williams, fel petai, wrth edrych ar y ffiniau cyffredinol. Fodd bynnag, efallai y cyflwynir cynigion synhwyrol a byddem yn sicr yn awyddus i gael barn y comisiwn ffiniau ac eraill ar rai ohonynt wrth ddatblygu cynigion newydd. Efallai y daw cynigion gerbron drwy'r cynigion, er enghraifft, o ran uno gwirfoddol, y byddwn am edrych arnynt lle byddai angen rhai mân addasiadau i’r ffin. Byddwn yn edrych ar y rheiny maes o law.

Senedd.tv Fideo Video

14:39 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A fyddai'r Gweinidog yn ymuno â mi i longyfarch y Cynghorydd Dilwyn Roberts yng Nghonwy, lle rwyf yn digwydd byw, a'r cynghorydd Dyfed Edwards yng Ngwynedd, y ddau ohonynt yn arweinwyr disglair o Blaid Cymru, ar yr arweiniad y maent wedi'i ddangos yn y gogledd o ran yr angen am i gynghorau gydweithio? A fyddai'n ymuno â mi i alw ar weddill Aelodau'r Cynulliad yn y gogledd i ymddwyn yn yr un modd adeiladol?

Would the Minister join me in congratulating Councillor Dilwyn Roberts in Conwy, where I happen to reside, and Councillor Dyfed Edwards in Gwynedd, both of whom are excellent leaders from Plaid Cymru, on the leadership that they have shown in north Wales on the need for councils to collaborate? Would he join me in calling on the rest of the north Wales Assembly Members to behave in the same constructive manner?

14:40 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

May I say to the Member that I have heard, particularly Councillor Edwards, on a number of occasions talking about the need for collaboration, the need for merger and the need for more fundamental local government reorganisation? I am pleased that it is likely that his own authority and, as he suggests, Conwy, will be coming forward with proposals. We hope that we will see proposals for mergers from other authorities in north Wales. I know that the leader in Flintshire has been talking in such a way as well. I think that it would be helpful to the communities within north Wales and to the staff of all local authorities in north Wales if we saw an early indication of proposals for voluntary merger from local authority leaders.

A gaf fi ddweud wrth yr Aelod fy mod wedi clywed, yn enwedig y Cynghorydd Edwards, ar nifer o achlysuron yn siarad am yr angen am gydweithredu, yr angen i uno a'r angen am ad-drefnu llywodraeth leol yn fwy sylfaenol? Rwy'n falch ei bod yn debygol y bydd ei awdurdod ei hun ac, fel y mae'n ei awgrymu, Conwy, yn cyflwyno cynigion. Rydym yn gobeithio y byddwn yn gweld cynigion ar gyfer uno awdurdodau eraill yng ngogledd Cymru. Gwn fod yr arweinydd yn Sir y Fflint wedi bod yn siarad yn y fath fodd hefyd. Credaf y byddai o gymorth i'r cymunedau yng ngogledd Cymru ac i staff pob awdurdod lleol yn y gogledd pe baem yn gweld arwydd cynnar o gynigion ar gyfer uno gwirfoddol gan arweinwyr awdurdodau lleol.

14:41 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, the reforms, as outlined, look unlikely to be implemented before the end of the Assembly term. Recent headlines, however, suggest that Caerphilly Labour councillors will not select Assembly candidates who back the proposed mergers. With this kind of dissent within Labour Party ranks, will this not have a negative impact on your own priorities for local government reform before the next Assembly elections?

Weinidog, mae'r diwygiadau, fel yr amlinellwyd, yn edrych yn annhebygol o gael eu rhoi ar waith cyn diwedd tymor y Cynulliad. Roedd penawdau diweddar, fodd bynnag, yn awgrymu na fydd cynghorwyr Llafur Caerffili yn dethol ymgeiswyr ar gyfer y Cynulliad sy'n cefnogi'r uno arfaethedig. Gyda'r math hwn o anghytuno o fewn rhengoedd y Blaid Lafur, oni fydd hyn yn cael effaith negyddol ar eich blaenoriaethau eich hunain ar gyfer diwygio llywodraeth leol cyn etholiadau nesaf y Cynulliad?

14:41 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have read press reports about dissent in all political parties at different stages. I am sure that we will see a number of proposals being brought forward by authorities that are controlled by the Labour Party, just as I hope we may see a proposal brought forward by the authority controlled by the Conservative Party and, indeed, by other parties as well and by independents. I think that basing proposals for the future on press speculation is probably unwise for anyone.

Rwyf wedi darllen adroddiadau yn y wasg am yr anghytuno yn yr holl bleidiau gwleidyddol ar wahanol gyfnodau. Rwy'n siŵr y byddwn yn gweld nifer o gynigion yn cael eu cyflwyno gan awdurdodau sy'n cael eu rheoli gan y Blaid Lafur, yn union fel rwy'n gobeithio y byddwn o bosibl yn gweld cynnig yn cael ei gyflwyno gan awdurdod a reolir gan y Blaid Geidwadol ac, yn wir, gan bartïon eraill yn ogystal â chan yr annibynwyr. Credaf ei bod yn annoeth seilio cynigion ar gyfer y dyfodol ar dybiaethau'r wasg.

14:42 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yr oedd ad-drefnu 1995-96 yn llanast llwyr ac yn un o'r camgymeriadau mwyaf yn hanes diweddar Cymru. Mae'r ad-drefnu hwn yn bygwth bod yn llawn gymaint o lanast yn ôl yr amserlen yr ydych newydd ei hamlinellu. Er mwyn hwyluso'r broses, a fydd unrhyw gefnogaeth ariannol yn cael ei chynnig i'r awdurdodau lleol, gan gofio bod ad-drefnu 1995-96 wedi bod yn eithriadol o gostus?

The reorganisation in 1995-96 was a complete shambles and one of the greatest political errors in the recent history of Wales. This reorganisation threatens to be just as much of a mess according to the timetable that you have just outlined. In order to facilitate the process, will any financial support be offered to local authorities, bearing in mind that the 1995-96 reorganisation was extremely expensive?

14:42 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

I obviously would agree with him about the outcome of the 1995-96 local government reorganisation, but I tend to the more positive view expressed by his successor as the councillor for the Penygroes ward, Councillor Dyfed Edwards, in respect of the possibilities of voluntary mergers in the future. We have said ourselves, of course, that we would expect to be able to provide resources to facilitate voluntary mergers, but we will need to look at the business cases as they develop.

Byddwn yn amlwg yn cytuno ag ef ynglŷn â chanlyniad yr 1995-96 ad-drefnu llywodraeth leol, ond rwy'n tueddu i fod yn fwy cadarnhaol fy marn am yr hyn a fynegwyd gan ei olynydd fel cynghorydd ar gyfer ward Penygroes, y Cynghorydd Dyfed Edwards, o ran y posibiliadau o uno gwirfoddol yn y dyfodol. Rydym wedi dweud ein hunain, wrth gwrs, y byddem yn disgwyl gallu darparu adnoddau i hwyluso uniadau gwirfoddol, ond bydd angen i ni edrych ar yr achosion busnes wrth iddynt ddatblygu.

Senedd.tv Fideo Video

14:43 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

The author of the previous local government review commissioned by the Welsh Government, Joe Simpson, told the Communities, Equality and Local Government Committee that there is not a right size for everything and that reorganisation was not the answer and that you cannot just do it by prescription. Cardiff Business School told us that there is no simple answer to the local-government-sized conundrum because you have hundreds of different cost curves all behaving differently. What will you do if those local authorities that are currently examining the potential for voluntary merger and undertaking due diligence accordingly, find that the costs of those mergers would make the mergers prohibitive and unsustainable because of deficits that might be created at a time of wider budget pressure?

Dywedodd Joe Simpson, awdur adolygiad blaenorol ar lywodraeth leol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, wrth y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol nad oes yr un maint cywir ar gyfer popeth ac nid ad-drefnu oedd yr ateb ac na allwch chi ei wneud i gyd trwy bresgripsiwn. Dywedodd Ysgol Fusnes Caerdydd wrthym nad oes unrhyw ateb syml i'r maint delfrydol ar gyfer llywodraeth leol am fod cannoedd o gromliniau cost gwahanol a'r cyfan yn ymddwyn yn wahanol. Beth fyddwch chi'n ei wneud os bydd yr awdurdodau lleol hynny sydd ar hyn o bryd yn edrych ar y potensial o uno gwirfoddol ac yn cynnal diwydrwydd dyladwy yn unol â hynny, yn canfod y byddai costau'r uno yn afresymol ac anghynaladwy oherwydd y diffygion a allai ddigwydd mewn cyfnod o bwysau ehangach ar y gyllideb?

Senedd.tv Fideo Video

14:44 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

I was a member of the committee when those two witnesses gave evidence, so perhaps I had better check on what I said at the time. [Laughter.] I think that the whole issue of controlling deficit is one, of course, that we would want to look at in the Bill that we would bring forward once we have the detail on the voluntary merger prospectus. Clearly, we would not expect local authorities that are seeking to merge to enter into unwise, long-term financial commitments, for example, That would be something that we would need to address with powers in that Bill, and, subsequently, we would extend a similar approach when we move to wider local government reorganisation.

Roeddwn yn aelod o'r pwyllgor pan roddodd y ddau dyst dan sylw dystiolaeth, felly efallai byddai'n well imi wirio'r hyn a ddywedais ar y pryd. [Chwerthin.] Credaf fod rheoli diffyg yn fater, wrth gwrs, y byddem am ei ystyried yn y Mesur y byddem yn ei gyflwyno ar ôl inni gael y manylion ar y prosbectws uno gwirfoddol. Yn amlwg, ni fyddem yn disgwyl i awdurdodau lleol sy'n ceisio uno ymgymryd ag ymrwymiadau ariannol annoeth, yn yr hirdymor, er enghraifft. Byddai hynny'n rhywbeth y byddai'n rhaid i ni fynd i'r afael ag ef yn y Bil hwnnw, ac, yn dilyn hynny, byddem yn cyflwyno dull tebyg wrth symud tuag at ad-drefnu llywodraeth leol ehangach.

Senedd.tv Fideo Video

## Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus

## Reforming Public Services

14:44 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

*6. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gynlluniau Llywodraeth Cymru i ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru? OAQ(4)0462(PS)*

*6. Will the Minister make a statement on the Welsh Government's plans for reforming public services in Wales? OAQ(4)0462(PS)*

Senedd.tv Fideo Video

14:44 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

We published our plans for reforming public services on 8 July.

Cyhoeddasom ein cynlluniau ar gyfer diwygio gwasanaethau cyhoeddus ar 8 Gorffennaf.

Senedd.tv Fideo Video

14:45 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I have to return to the reform of local government. The average council tax per household is significantly less in Caerphilly than in some neighbouring authorities, such as Blaenau Gwent, where a band D property costs around £400 more per year and, in Torfaen, it is about £90 more per year. If you are set on merging local authorities, what will you do about the big discrepancies that exist regarding what people currently pay for services, or, indeed, in council tax? I can tell you that Torfaen and Blaenau Gwent outsource their leisure services, while Caerphilly does not; Torfaen and Blaenau Gwent have no housing stock, while Caerphilly does. As for equal pay, Torfaen and Blaenau Gwent do not operate this, but Caerphilly does. Have you not got this wrong, Minister? Are you going about it correctly? You are alienating a lot of local government councillors and officers whose future is uncertain. I really think that you need to return to the drawing board.

Weinidog, rhaid imi ddychwelyd at ddiwygio llywodraeth leol. Mae'r dreth gyngor gyfartalog fesul cartref yn sylweddol llai yng Nghaerffili nag mewn rhai awdurdodau cyfagos, megis Blaenau Gwent, lle mae costau eiddo band D tua £400 yn fwy y flwyddyn ac, yn Nhorfaen, mae oddeutu £90 yn fwy y flwyddyn. Os ydych yn benderfynol o uno awdurdodau lleol, beth fyddwch yn ei wneud am yr anghysonderau mawr sy'n bodoli ynghylch yr hyn y mae pobl ar hyn o bryd yn ei dalu am wasanaethau, neu, yn wir, am y dreth gyngor? Gallaf ddweud wrthych fod Torfaen a Blaenau Gwent yn allanoli eu gwasanaethau hamdden, er nad yw Caerffili yn gwneud hynny; nid oes gan Dorfaen a Blaenau Gwent stoc dai, yn wahanol i Gaerffili. O ran cyflog cyfartal, nid yw Torfaen a Blaenau Gwent yn gweithredu hyn, ond dyna yw'r drefn yng Nghaerffili. Onid ydych chi wedi drysu yn hyn o beth, Weinidog? A ydych yn dewis y ffordd gywir? Rydych yn troi yn eich erbyn lawer o gynghorwyr a swyddogion llywodraeth leol y mae eu dyfodol yn ansicr. Yn wir, credaf y dylech fynd ati o'r newydd i ail-feddwl.

14:46 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am a little confused now as to the position of his party on this. His colleague the Member for Dwyfor Meirionnydd has been extolling the virtues of local authority leaders who are putting forward the case for voluntary merger, whereas he takes a more negative view of the whole process. There are some real issues about council tax levels, and those are, to some extent, a legacy of the previous reorganisation in the mid 1990s, which his other colleague the Member for Arfon described earlier on as 'a shambles'. I have not heard anybody during the course of this Assembly say that they believe that the current model of 22 local authorities is the optimum model for Wales post-devolution.

Rwyf braidd yn ddryslyd yn awr ynghylch safbwynt ei blaid ar hyn. Mae ei gydweithiwr yr Aelod dros Ddwyfor Meirionnydd wedi bod yn canu clodydd rhinweddau arweinwyr awdurdodau lleol sy'n pledio'r achos o blaid uno gwirfoddol, tra ei fod ef yn edrych yn fwy negyddol ar y broses gyfan. Mae rhai materion dilys ynghylch lefelau'r dreth gyngor, ac mae hynny, i ryw raddau, wedi'u hetifeddu o'r ad-drefnu blaenorol yng nghanol y 1990au, a ddisgrifiwyd yn gynharach gan ei gyd-aelod arall, yr Aelod dros Arfon fel 'traed moch'. Nid wyf wedi clywed unrhyw un yn ystod y Cynulliad hwn yn dweud eu bod yn credu mai'r model presennol o 22 awdurdod lleol yw'r model gorau posibl i Gymru ar ôl datganoli.

14:47 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, a number of our authorities very much value the local authorities deprivation grant, which is aimed at those authorities that have the highest levels of deprivation. Is this a grant that you aim to make a statement on as to whether you think it should continue or not?

Weinidog, mae nifer o'n hawdurdodau yn gwerthfawrogi'n fawr iawn y grant amddifadedd i awdurdodau lleol, sydd ar gyfer yr awdurdodau hynny sydd â'r lefelau uchaf o amddifadedd. A yw'r grant hwn yn un yr ydych yn bwriadu gwneud datganiad yn ei gylch o ran a ddylai barhau ai peidio?

14:47 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank my colleague the Member for Pontypridd for that question. Clearly, we do place value on the deprivation grant and we continue to provide £22 million in respect of that grant, which is distributed to local authorities on a notional basis, and does not change from year to year. It is distributed, of course, on the basis of a formula that has been agreed in partnership with local authorities through the distribution sub-group.

Diolch i fy nghydweithiwr yr Aelod dros Bontypridd am y cwestiwn hwnnw. Yn amlwg, rydym yn rhoi cryn werth ar y grant amddifadedd ac rydym yn parhau i ddarparu £22 miliwn ar gyfer y grant hwnnw, sy'n cael ei ddosbarthu i awdurdodau lleol ar sail dybiannol, ac nid yw'n newid o flwyddyn i flwyddyn. Mae'n cael ei ddosbarthu, wrth gwrs, ar sail fformiwla y cytunwyd arno mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol drwy is-grŵp dosbarthu.

14:47 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Senedd.tv Fideo Video

Minister, the issue of local government reorganisation is obviously dominating many people’s thinking, in particular the many thousands of people who work within those local authorities. In a previous life, when you were the Minister for Education and Skills, you made commitments in relation to university campuses if mergers took place. However, a little over 12 months after the one merger that did take place, Caerleon campus shut. It is vital that people have confidence that the commitments that you give, alongside those given by local political leaders, can be carried forward and are not torn up within 12 or 18 months, or two years, of any agreements being put in place. How can you reassure people that, given your track record on university mergers, the promises that you make as a Minister would be carried through and met in local communities?

Weinidog, mae pwnc ad-drefnu llywodraeth leol yn amlwg yn tra-arglwyddiaethu ar feddyliau llawer o bobl, yn enwedig y miloedd lawer o bobl sy'n gweithio i’r awdurdodau lleol hynny. Mewn oes a fu, pan oeddech yn Weinidog Addysg a Sgiliau, bu i chi wneud ymrwymiadau ynghylch campysau prifysgolion pe bai uno yn digwydd. Fodd bynnag, prin 12 mis ar ôl un uniad a ddigwyddodd, caewyd campws Caerllion. Mae'n hanfodol bod gan bobl hyder bod yr ymrwymiadau rydych yn eu gwneud, ochr yn ochr â'r rhai a wneir gan arweinwyr gwleidyddol lleol, yn cael eu gweithredu ac nid eu dileu cyn pen 12 neu 18 mis, neu ddwy flynedd, i unrhyw gytundebau gael eu rhoi ar waith. Sut y gallwch roi sicrwydd i bobl, o ystyried eich hanes ym maes uno prifysgolion, y caiff yr addewidion rydych yn eu gwneud fel Gweinidog eu cadw a’u gweithredu mewn cymunedau lleol?

14:48 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I delivered on my commitment in terms of higher education mergers and I intend to deliver on the commitment in respect of local authority mergers. My understanding is that the University of South Wales has said itself that the decisions made on the Caerleon campus were not a consequence of the merger.

Cyflawnais fy ymrwymiadau o ran uno ym maes addysg uwch ac rwy'n bwriadu cyflawni'r ymrwymiad mewn perthynas ag uno awdurdodau lleol. Fy nealltwriaeth i yw bod Prifysgol De Cymru ei hun wedi dweud nad oedd y penderfyniadau a wnaed ar gampws Caerllion o ganlyniad i'r uno.

14:48 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, in looking at local government reorganisation, we are looking to move down to 10 or 12 authorities. The Minister said that he did not think that 22 was the right number; does he think that 10 or 12 is the right number?

Weinidog, wrth edrych ar ad-drefnu llywodraeth leol, rydym yn gobeithio lleihau’r nifer i 10 neu 12 awdurdod. Dywedodd y Gweinidog nad oedd yn credu mai 22 oedd y nifer cywir; a yw’n credu mai 10 neu 12 yw'r nifer cywir?

14:49 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

There has been a consultation, which closed on 1 October, and there has been a further consultation within our own political party, which has looked at these issues. I have heard senior figures in my own party suggest that a number of six or seven might be appropriate, as I told the Welsh Local Government Association council just the other day. We have set out our proposals based on what the Williams commission has recommended. Some of those reforms will require legislation around the local authority mergers, others may not. We look forward to seeing the outcome of proposals for voluntary mergers that may or may not come forward.

Bu ymgynghoriad, a ddaeth i ben ar 1 Hydref, a bu ymgynghori pellach o fewn ein plaid wleidyddol ein hun, sydd wedi edrych ar y materion hyn. Rwyf wedi clywed uwch swyddogion o’m plaid fy hun yn awgrymu y gallai cymaint â chwech neu saith fod yn briodol, fel y dywedais wrth gyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y diwrnod o'r blaen. Rydym wedi gosod allan ein cynigion yn seiliedig ar yr hyn y mae'r comisiwn Williams wedi argymell. Bydd rhai o'r diwygiadau hynny yn gofyn am ddeddfwriaeth ynghylch uno awdurdodau lleol, hwyrach na fydd hyn yn wir am eraill. Edrychwn ymlaen at weld canlyniad y cynigion ar gyfer uno gwirfoddol a ddaw i’r fei neu fel arall.

14:49 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

Senedd.tv Fideo Video

Minister, over the weekend, there was a serious house fire in my home town of Penygraig in the Rhondda. Thankfully, there was a fire tender from Porth that was able to respond promptly. Due to other local crews responding to a fire at the Fram filters factory in Llantrisant, the next appliance was not available for another 13 minutes. The time lag was described to me as 'life threatening', and you will be aware that a decision has recently been taken to close Porth fire station. Minister, given that you are responsible in your new role for the fire and rescue service, including community fire safety, can you give assurances that you are keeping an eye on the developing situation in the Rhondda, and that you would be prepared to use your powers to intervene—constituency conflicts aside, of course; once bitten, twice shy—if you fear that public safety is being compromised?

Weinidog, dros y penwythnos, bu tân difrifol mewn tŷ yn fy nhref enedigol, Penygraig yn y Rhondda. Diolch byth, death gweithiwr tân o'r Porth a oedd yn gallu ymateb yn brydlon. Oherwydd bod criwiau lleol eraill yn ymateb i dân yn ffatri hidlwyr Fram yn Llantrisant, nid oedd y peiriant nesaf ar gael am 13 munud arall. Disgrifiwyd y bwlch amser i mi fel un a oedd yn 'bygwth bywyd', a byddwch yn gwybod y gwnaed penderfyniad yn ddiweddar i gau gorsaf dân y Porth. Weinidog, o gofio eich bod yn gyfrifol yn eich rôl newydd am y gwasanaeth tân ac achub, gan gynnwys diogelwch tân cymunedol, a allwch roi sicrwydd eich bod yn cadw llygad ar y sefyllfa sy'n datblygu yn y Rhondda, ac y byddech yn barod i ddefnyddio eich pwerau i ymyrryd—gan roi gwrthdaro o ran etholaeth o'r neilltu, wrth gwrs; a losgodd ei fysedd a ochel y tân—os ydych yn ofni bod diogelwch y cyhoedd yn cael ei beryglu?

14:50 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Ministers have no powers in respect of those decisions on the closure of individual fire stations. As the Assembly Member for the Rhondda, I have taken up the issue over many months, when I was a backbencher. I am well aware of the issues that have arisen, and I think that the fire crew in Porth is well aware of the views that I have expressed as well.

Nid oes gan weinidogion unrhyw bwerau mewn perthynas â'r penderfyniadau hynny ar gau'r gorsafoedd tân unigol. Fel Aelod Cynulliad dros y Rhondda, rwyf wedi mynd i'r afael â'r mater hwn dros nifer o fisoedd, pan oeddwn yn aelod o'r meinciau cefn. Rwy'n ymwybodol o'r materion sydd wedi codi, ac rwy'n meddwl bod y criw tân yn y Porth yn ymwybodol iawn o'r safbwyntiau yr wyf wedi'u mynegi hefyd.

**Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod**

**Female Genital Mutilation**

14:51 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Moving away from local government reform for a moment —

Gan symud i ffwrdd o ddiwygio llywodraeth leol am funud —

14:51 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Please ask the question on the agenda.

A wnewch chi ofyn y cwestiwn ar yr agenda os gwelwch yn dda.

14:51 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*8. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i ddiogelu merched rhag anffurfio organau cenhedlu benywod? OAQ(4)0474(PS)*

*8. What measures are being taken by the Welsh Government to protect girls from female genital mutilation? OAQ(4)0474(PS)*

14:51 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Tackling female genital mutilation is a core part of our aim to end violence against women in Wales. We are working collaboratively with partners across Wales to tackle FGM by training key individuals in public services and working with communities to raise awareness.

Mae mynd i'r afael ag anffurfio organau rhywiol merched yn rhan greiddiol o'n nod i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod yng Nghymru. Rydym yn gweithio ar y cyd â phartneriaid ar draws Cymru i fynd i'r afael â FGM trwy hyfforddi unigolion allweddol mewn gwasanaethau cyhoeddus a chydweithio â chymunedau i godi ymwybyddiaeth.

14:51 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Minister, the UK Border Force had a major campaign over the summer to prevent girls from being taken abroad to be mutilated. It is now alerting us to the worrying evidence that the cutters are now coming to Britain to carry out these appalling assaults on girls, rather than the girls being taken abroad. What can be done to ensure that British girls are safeguarded against this criminal practice taking place in the UK?

Weinidog, roedd gan Lu Ffiniau'r DU ymgyrch fawr dros yr haf i atal merched rhag cael eu cymryd dramor i gael eu hanffurfio. Bellach, maent yn ein rhybuddio ynghylch y dystiolaeth boenus fod yr anffurfwyr yn awr yn dod i Brydain i gyflawni'r trais ofnadwy hyn ar ferched, yn hytrach na bod y merched yn cael eu cymryd dramor. Beth y gellir ei wneud i sicrhau bod merched Prydain yn cael eu diogelu yn erbyn cynnal yr arfer troseddol hwn yn y DU?

Senedd.tv
Fideo Video

14:52 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

My colleague the Member for Cardiff Central is absolutely right to raise this issue. This is a criminal offence and it is a matter, in that regard, for the Home Office. I know that the Home Office launched Operation Limelight at UK airports in May of this year, surveying inbound and outbound flights to countries of prevalence for female genital mutilation. This was escalated to include surveying potential cutters arriving and leaving the UK at airports. UK Border Force officers, flight attendants and other air crew have been trained to spot potential victims of female genital mutilation as well as cutters.

Mae fy nghydweithiwr yr Aelod dros Ganol Caerdydd yn hollol gywir i godi'r mater hwn. Mae hyn yn drosedd ac o ran hynny yn fater i'r Swyddfa Gartref. Gwn y bu i'r Swyddfa Gartref lansio Ymgyrch Limelight ym meysydd awyr y DU ym mis Mai eleni, gan arolygu teithiau hedfan i mewn ac allan o wledydd lle mae'r arfer o anffurfio organau rhywiol merched yn gyffredin. Cynyddwyd yr ymgyrch i gynnwys arolygu anffurfwyr posibl mewn meysydd awyr wrth iddynt gyrraedd a gadael y DU. Hyfforddwyd swyddogion Llu Ffiniau'r DU, cynorthwywyr hedfan ac aelodau eraill o'r criw i adnabod marched oedd yn dioddef ar ôl triniaeth anffurfio yn ogystal â'r anffurfwyr eu hunain.

Senedd.tv
Fideo Video

14:52 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Minister, it has been illegal to take girls abroad for the purpose of female genital mutilation since 2003, yet in the UK, and that includes Wales, there has not been a single criminal prosecution in respect of female genital mutilation. Will you undertake, Minister, to have discussions with the four police and crime commissioners to identify why it is that no prosecutions have been brought? Will you also consider setting up a register similar to the one in England, where health professionals record when they see children who have had the procedure done, so that they might identify evidence that relates to female genital mutilation?

Weinidog, mae cymryd merched dramor at ddibenion anffurfio organau rhywiol merched wedi bod yn anghyfreithlon ers 2003, ac eto yn y DU, gan gynnwys yng Nghymru, ni fu'r un erlyniad troseddol am anffurfio organau rhywiol merched. Weinidog, a wnewch chi ymrwymo i drafod gyda'r heddluoedd a'r comisiynwyr troseddau yng Nghymru i ganfod pam nad oes unrhyw erlyniadau wedi eu dwyn? A wnewch chi hefyd ystyried sefydlu cofrestr debyg i'r un yn Lloegr, lle mae gweithwyr iechyd proffesiynol yn cofnodi pan fyddant yn gweld plant sydd wedi cael y driniaeth, er mwyn iddynt o bosibl ganfod tystiolaeth sy'n ymwneud ag anffurfio organau rhywiol merched?

Senedd.tv
Fideo Video

14:53 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

I am certainly willing to take up the first suggestion by the Member in respect of the police and crime commissioners when I next meet them. In respect of the second suggestion, it is a conversation that I would be prepared to have with my colleague the Minister for Health and Social Services. Let me be absolutely clear: the Welsh Government will not tolerate female genital mutilation; it is child abuse and a violation of human rights.

Rwy'n sicr yn barod i fanteisio ar yr awgrym cyntaf gan yr Aelod mewn perthynas â'r heddluoedd a'r comisiynwyr troseddau pan fyddaf yn cwrdd â hwy nesaf. O ran yr ail awgrym, mae'n sgwrs y byddwn yn barod i'w chael gyda'm cydweithiwr, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Gadewch imi fod yn gwbl glir: nid yw Llywodraeth Cymru yn goddef anffurfio organau rhywiol merched; mae'n gyfystyr â cham-drin plant ac yn ymyrryd â hawliau dynol.

Senedd.tv
Fideo Video

14:54 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Minister, you will be aware that, following the border work, the UK Government hosted a girls summit in July of this year, where a number of new actions were committed to. Some of those actions are UK-wide, such as new guidance for police on how to handle cases of FGM, but there are other actions which are England-only. What discussions have you had with the UK Government to ensure that the whole-UK actions that have been committed to under that programme support and work alongside the Welsh Government's actions, and the proposed actions under the Gender-based Violence, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Bill?

Weinidog, byddwch yn ymwybodol, yn dilyn y gwaith ar y ffin, y cynhaliodd Llywodraeth y DU uwchgynhadledd i ferched ym mis Gorffennaf eleni, lle'r ymrwymwyd i nifer o gamau gweithredu newydd. Mae rhai o'r camau gweithredu hynny yn berthnasol i'r DU gyfan, megis y canllawiau newydd ar gyfer yr heddlu ar sut i drin achosion o FGM, ond mae camau eraill ar gyfer Lloegr yn unig. Pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod y camau i'r DU gyfan yr ymrwymwyd iddynt o dan y rhaglen honno yn cefnogi ac yn gweithio ochr yn ochr â chamau gweithredu Llywodraeth Cymru, a'r camau gweithredu arfaethedig o dan y Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)?

Senedd.tv Fideo Video

14:54 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

The Welsh Government has taken a series of actions in respect of this. My predecessor, for example, held a conference in Cardiff on International Day of Zero Tolerance to Female Genital Mutilation, which was the only conference in the UK on that day. My predecessor and the Minister for Education and Skills also wrote jointly to all headteachers in Wales before the summer to raise awareness of their role in identifying potential FGM victims. So, I think that these are issues that we have taken very seriously indeed. We will continue to work both within Wales and with UK Government departments on these issues.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd cyfres o gamau gweithredu mewn perthynas â hyn. Bu i'm rhagflaenydd, er enghraifft, gynnal cynhadledd yng Nghaerdydd ar Ddiwrnod Rhyngwladol Dim Goddefgarwch i Anffurfio Organau Rhywiol Merched, sef yr unig gynhadledd yn y DU ar y diwrnod hwnnw. Ysgrifennodd fy rhagflaenydd ynghyd â'r Gweinidog Addysg a Sgiliau hefyd at bob pennaeth ysgol yng Nghymru cyn yr haf i godi ymwybyddiaeth o'u rôl o ran adnabod dioddefwyr posibl FGM. Felly, rwy'n meddwl bod y rhain yn faterion rydym wedi'u cymryd yn ddifrifol iawn yn wir. Byddwn yn parhau i weithio yng Nghymru a chydag adrannau Llywodraeth y DU ar y materion hyn.

Senedd.tv Fideo Video

### Cam-drin Domestig

### Domestic Abuse

14:55 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

*9. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gynlluniau Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â cham-drin domestig ymysg cymunedau lleiafrifol yng Nghymru? OAQ(4)0461(PS)*

*9. Will the Minister make a statement on Welsh Government plans to tackle domestic abuse amongst minority communities in Wales? OAQ(4)0461(PS)*

Senedd.tv Fideo Video

14:55 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

The Gender-based Violence, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Bill applies to all, regardless of gender, ethnicity or age.

Mae'r Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) yn berthnasol i bawb, beth bynnag fo'u rhyw, ethnigrwydd neu oed.

Senedd.tv Fideo Video

14:55 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Research by Cardiff University suggests that there is a significant level of domestic abuse within the Gypsy/Traveller community but that there are strong cultural barriers that prevent victims leaving violent relationships. What can the Welsh Government do to break down these barriers and to make victims of such abuse in our Gypsy and Traveller communities aware of the support available in Wales?

Mae ymchwil gan Brifysgol Caerdydd yn awgrymu bod lefel sylweddol o gam-drin domestig o fewn y gymuned SipsiwnTeithwyr, ond fod rhwystrau diwylliannol cryf sy'n atal dioddefwyr rhag gadael perthynas dreisgar. Beth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i chwalu'r rhwystrau hyn ac i wneud dioddefwyr camdriniaeth o'r fath yn ein cymunedau Sipsiwn a Theithwyr yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael yng Nghymru?

Senedd.tv Fideo Video

14:56 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that the Member raises an important issue, but clearly these are issues on which we have been working with a number of third sector organisations in Wales that have expertise in the field. The Bill will give us wider powers to ensure that there are duties on local authorities to take whatever steps are necessary within their strategies to develop the right levels of programmes of education and services within their own communities that may be directly relevant to their own communities. We would want to see that approached in that context.

Rwy’n meddwl bod yr Aelod yn codi mater pwysig, ond yn amlwg mae'r rhain yn faterion y bu i ni weithio arnynt gyda nifer o fudiadau trydydd sector yng Nghymru sydd ag arbenigedd yn y maes. Bydd y Bil yn rhoi pwerau ehangach i ni i sicrhau bod dyletswyddau ar awdurdodau lleol i gymryd pa bynnag gamau sydd eu hangen o fewn eu strategaethau i ddatblygu lefelau cywir o raglenni addysg a gwasanaethau o fewn eu cymunedau eu hunain a all fod yn uniongyrchol berthnasol i'w cymunedau eu hunain. Byddem am weld yr agwedd honno yn y cyd-destun hwnnw.

14:56 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, in communities within my constituency of Cynon Valley, rates of domestic abuse remain high, with 3 out of 10 wards having the highest rates in Rhondda Cynon Taf as a whole. Those are figures from South Wales Police. Minister, do you agree with me that it is essential that victims get access to the services they need, that we need to strengthen the work being done on prevention and that we must make certain that the landmark Gender-based Violence, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Bill delivers real change for victims and families in Wales?

Weinidog, mewn cymunedau yn fy etholaeth i, sef Cwm Cynon, mae cyfraddau cam-drin domestig yn dal yn uchel, gyda 3 ward o bob 10 â'r cyfraddau uchaf yn Rhondda Cynon Taf gyfan. Dyma ffigurau Heddlu De Cymru. Weinidog, a ydych yn cytuno â mi ei bod yn hanfodol bod dioddefwyr yn cael mynediad at y gwasanaethau sydd eu hangen, bod angen inni gryfhau'r gwaith a wneir ar atal a bod yn rhaid inni sicrhau bod y Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) newydd yn sicrhau newid gwirioneddol i ddioddefwyr a theuluoedd yng Nghymru?

14:57 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As my colleague will be aware in her role as Chair of the committee that is currently examining that Bill, the Bill is the first of its kind in the UK and forms part of a comprehensive package of measures that will deliver real change for victims. I was pleased to announce in committee that we will introduce a new section that will focus on violence against women and girls specifically. I think that what we are doing here is producing groundbreaking legislation within the United Kingdom, and I hope that others will follow the lead that we are taking.

Fel y gŵyr fy nghyd-Aelod yn ei rôl fel Cadeirydd y pwyllgor sy’n archwilio’r Bil hwnnw ar hyn o bryd, y Bil hwn yw’r cyntaf o'i fath yn y DU ac mae’n rhan o becyn cynhwysfawr o fesurau a fydd yn sicrhau gwir newid ar gyfer dioddefwyr. Roeddwn yn falch o gyhoeddi yn y pwyllgor y byddwn yn cyflwyno adran newydd a fydd yn canolbwyntio ar drais yn erbyn menywod a merched yn benodol. Rwy’n meddwl mai’r hyn rydym yn ei wneud yma yw cynhyrchu deddfwriaeth arloesol yn y Deyrnas Unedig, ac rwy’n gobeithio y bydd eraill yn dilyn y trywydd rydym ni yn ei gymryd.

### Uno Cynghorau

### Council Mergers

14:58 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*10. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynglŷn a thrafodaethau diweddar y mae wedi'u cynnal ynghylch uno cynghorau? OAQ(4)0471(PS)*

*10. Will the Minister make a statement on recent discussions that he has held regarding the merging of councils? OAQ(4)0471(PS)*

14:58 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Ers cychwyn y rôl y mis diwethaf, rwyf wedi cynnal nifer o drafodaethau ar ddiwygio llywodraeth leol. Mae’r rhain yn cynnwys cyfarfodydd gydag arweinwyr awdurdodau lleol a chyfarfod cynghorau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Since taking up post last month, I have had a number of discussions on reforming local government. These have included meetings with local authority leaders and the Welsh Local Government Association’s council meeting.

14:58 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Fel rydych eisoes wedi crybwyll, mae cytundeb yn gyffredinol bod angen diwygio llywodraeth leol i ymateb i fodolaeth Llywodraeth genedlaethol a'r angen i gynllunio gwasanaethau cyhoeddus yn rhanbarthol. Serch hynny, mae nifer ohonom yn teimlo nad yw'r patrwm a awgrymwyd yn Williams yn ateb tymor hir, gan boeni bod yr hyn sydd gennych ar y gweill yn awr—uno gwirfoddol i rai cynghorau ac uno gorfodol, maes o law, i gynghorau eraill—yn golygu rhywbeth fel pum mlynedd o droi yn ein hunfan cyn penderfynu ar ffurf derfynol llywodraeth leol. A oes modd i chi, fel Gweinidog newydd, gymryd agwedd mwy radical tuag at y mater hwn?

As you have already mentioned, there is general agreement that we need to reform local government to respond to the existence of national Government and the need for regional planning for public services. However, many of us feel that the pattern suggested in Williams is not a long-term solution, and are concerned that what you have in the pipeline—voluntary mergers for some councils and enforced mergers for others, in due course—will mean around five years of standing still without deciding on the final form of local government. As a new Minister, can you take a more radical view on this issue?

14:59 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

May I first of all welcome his support for the reform of local government? I look forward to him gaining the support of all of his colleagues in this Chamber in favour of local government reform. He makes an important point, let me say, in that I would not want to see any voluntary mergers produce a map of Wales that was inappropriate, shall we say, for the delivery of public services. Therefore, we will obviously weigh the voluntary merger proposals that come forward to us to ensure that they look to us to be sustainable in the long term.

Yn gyntaf oll, a gaf fi groesawu ei gefnogaeth ar gyfer diwygio llywodraeth leol? Edrychaf ymlaen at iddo ennill cefnogaeth ei holl gyd-aelodau yn y Siambr hon o blaid diwygio llywodraeth leol. Carwn ddweud ei fod yn gwneud pwynt pwysig, yn y ffaith na fyddwn am weld unrhyw uniadau gwirfoddol yn creu map o Gymru a oedd fel petai'n amhriodol ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus. Felly, byddwn yn amlwg yn pwyso a mesur y cynigion ar gyfer uno gwirfoddol a gyflwynir i ni er mwyn sicrhau eu bod yn ymddangos i ni eu bod yn gynaliadwy yn y tymor hir.

14:59 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

With your voluntary mergers suggestion, Minister, is it possible that there will be certain isolated authorities in various parts of Wales?

Gyda'ch awgrym ar gyfer uno gwirfoddol, Weinidog, a yw'n bosibl y bydd rhai awdurdodau yn cael eu hynysu mewn gwahanol rannau o Gymru?

15:00 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that some people might suggest that there are isolated local authorities in certain parts of Wales already. What we are clearly seeking to do is to ensure that we have a footprint for local government for the future that is sustainable and produces viable authorities that can deliver strong public services. We will, therefore, appraise any voluntary merger proposals that come forward to us in that light.

Rwy'n meddwl y gallai rhai pobl awgrymu bod rhai awdurdodau lleol eisoes wedi'u hynysu mewn rhai rhannau o Gymru. Yr hyn rydym yn amlwg yn ceisio ei wneud yw sicrhau bod gennym ôl-troed ar gyfer llywodraeth leol ar gyfer y dyfodol sy'n gynaliadwy ac sy'n cynhyrchu awdurdodau hyfyw sy'n gallu darparu gwasanaethau cyhoeddus cryf. Byddwn, felly, yn gwerthuso unrhyw gynigion ar gyfer uno gwirfoddol a ddaw gerbron yn y goleuni hwnnw.

15:00 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch i chi, Weinidog.

## Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol

## Questions to the Counsel General

### Awdurdodaeth ar Wahân i Gymru

### A Separate Welsh Jurisdiction

15:00 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol wneud datganiad ar drafodaethau ynghylch creu awdurdodaeth ar wahân i Gymru? OAQ(4)0068(CG)*

*1. Will the Counsel General make a statement on discussions regarding creating a separate Welsh jurisdiction? OAQ(4)0068(CG)*

15:00

## Theodore Huckle

*Y Cwnsler Cyffredinol / The Counsel General*

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Good afternoon, everyone. I have had no such discussions myself recently. The case for establishing a separate legal jurisdiction may in any event be connected with the developing constitutional debate in the UK. The First Minister is pressing the case for Wales to play its full part in this debate.

Prynhawn da, bawb. Ni chefais unrhyw drafodaethau o'r fath fy hun yn ddiweddar. Gall yr achos o blaid sefydlu awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân beth bynnag fod yn gysylltiedig â'r ddadl gyfansoddiadol sy'n datblygu yn y DU. Mae'r Prif Weinidog yn pwyso am i Gymru gael chwarae rhan lawn yn y ddadl hon.

15:01

## Simon Thomas [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Yn wir, Gwnsler Cyffredinol, dyna'r pwynt. A oes modd cael ymreolaeth—'home rule'— heb awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân?

Indeed, Counsel General, that is the point. Could we have home rule without a separate legal jurisdiction?

15:01

## Theodore Huckle

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Tempting as it is to enter into a discussion within the two or three minutes available to me today, I do not think that I should try to do that.

Er ei bod yn demtasiwn imi gychwyn trafod hyn yn y ddau neu dri munud sydd ar gael i mi heddiw, nid wyf yn meddwl y dylwn i geisio gwneud hynny.

### Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014

### The Agricultural Sector (Wales) Act 2014

15:01

## Simon Thomas [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

*2. Pa drafodaethau mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi cynnal ynglŷn â goblygiadau dyfarniad y Goruchaf Lys ynglŷn â Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014? OAQ(4)0069(CG)*

*2. What discussions has the Counsel General held on the implications of the Supreme Court Judgement on the Agricultural Sector (Wales) Act 2014? OAQ(4)0069(CG)*

15:01

## Theodore Huckle

Senedd.tv [Fideo] [Video]

The judgment in the agricultural sector Bill reference, while most welcome, clearly shows that the current devolution settlement lacks the necessary clarity regarding the powers and remit of the National Assembly. The implications of the judgment will form part of the ongoing discussion on future devolution in Wales.

Er bod y dyfarniad ar y Bil Sector Amaethyddol i'w groesawu'n fawr, dengys yn glir fod y setliad datganoli cyfredol yn brin o'r eglurder sy'n angenrheidiol ynghylch y pwerau a chylch gwaith y Cynulliad Cenedlaethol. Bydd goblygiadau'r dyfarniad yn rhan o'r drafodaeth barhaus ar ddatganoli yng Nghymru yn y dyfodol.

15:02

## Simon Thomas [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Unwaith eto, rydym mewn maes cwbl newydd yn awr gyda phenderfyniad refferendwm yr Alban a'r trafodaethau cyfansoddiadol sy'n digwydd, sy'n taflu goleuni newydd, rwy'n meddwl, ar yr hyn sydd gennym ger bron yn Nhŷ'r Arglwyddi ar hyn o bryd yn Neddf Cymru. Mae fy mhlaid i, Plaid Cymru, wedi gosod gwelliannau ynglŷn â symud tuag at y model o bwerau a gedwir, fel y mae'n cael ei alw. Mae'n bosibl, wrth gwrs, bod goblygiadau penderfyniad y Goruchaf Lys hyd yn oed y tu hwnt i'r model hwnnw, felly, sut mae unioni hyn bellach gan y Llywodraeth i sicrhau bod gennym gyfansoddiad i Gynulliad Cymru a Llywodraeth Cymru sy'n addas ac yn ffit ar gyfer y datblygiadau newydd sy'n digwydd ar lefel Brydeinig?

Once again, we are in entirely new territory given the decision taken in the Scottish referendum and the constitutional negotiations that are happening, which shed new light, I think, on what we have in the House of Lords currently in the Wales Bill. My own party, Plaid Cymru, has tabled amendments on shifting towards a reserved powers model, as it is described. It is possible, of course, that the implications of the Supreme Court ruling go beyond even that model, so, how can we square that now within Government to ensure that we have a constitution for the National Assembly for Wales and the Welsh Government that is appropriate and fit for purpose for the new developments happening at the UK level?

15:02

## Theodore Huckle

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I think it suffices for me to reiterate that, as the Member well knows, it is the combined position of the Silk commission, as I understand it of this Assembly, and certainly of Welsh Government that the devolution settlement should be amended and changed to reflect more, or to be, of the reserved-model type. Again, I am not sure that I can say much more about it at this stage.

Rwy'n credu mai digon yw i mi ailadrodd, fel y gŵyr yr Aelod yn dda, yn ôl a ddeallaf ynghylch y Cynulliad hwn, mai barn y comisiwn Silk ac yn sicr Lywodraeth Cymru fel ei gilydd yw y dylid diwygio'r setliad datganoli a'i newid i fod yn debycach i'r model cadw pwerau. Unwaith eto, nid wyf yn siŵr y gallaf ddweud llawer mwy am y peth ar hyn o bryd.

15:03 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Would the Counsel General agree that this ruling does open the door for many more bits of legislation in Wales? Would he agree that the Supreme Court ruling, for example, would have enabled the Welsh Government to consider moving ahead with the control of dogs Bill, which would have brought in dog control notices? Previously, the Home Office claimed that dangerous dogs came under anti-social behaviour Home Office legislation, rather than under the devolved law-making powers on animal welfare and protection of children, for example. Does this ruling make that any clearer?

A fyddai'r Cwnsler Cyffredinol yn cytuno bod y dyfarniad hwn yn agor y drws i lawer mwy o ddarnau o ddeddfwriaeth yng Nghymru? A fyddai'n cytuno bod dyfarniad y Goruchaf Lys, er enghraifft, a fyddai wedi galluogi i Lywodraeth Cymru ystyried symud ymlaen gyda'r Bil rheoli cŵn, a fyddai wedi cyflwyno hysbysiadau rheoli cŵn? Yn y gorffennol, honnodd y Swyddfa Gartref fod cŵn peryglus yn dod o dan ddeddfwriaeth ymddygiad gwrthgymdeithasol y Swyddfa Gartref, yn hytrach nag o dan y pwerau deddfu datganoledig ar les anifeiliaid a diogelwch plant, er enghraifft. A yw'r dyfarniad hwn yn gwneud hynny'n gliriach o gwbl?

15:03 **Theodore Huckle**

Senedd.tv Fideo Video

It would be dangerous for me to try to give any advice to this Assembly on specific matters, but I think that it is right, probably, to say that the argument about that turns on the breadth of an exception in Schedule 7, rather than the more general question that arose in the agricultural sector reference, as to whether there were what we might call ‘unsaid subjects’ or ‘unsaid exceptions’ that were either not devolved or were implied exceptions to the settlement.

Byddai'n beryglus i mi geisio rhoi unrhyw gyngor i'r Cynulliad hwn ar faterion penodol, ond rwy’n meddwl ei bod, yn ôl pob tebyg, yn iawn i ddweud bod y ddadl am hynny yn troi ar ehangder eithriad yn Atodlen 7, yn hytrach na'r cwestiwn mwy cyffredinol a gododd yn y cyfeirnod sector amaethyddol, ynghylch a oedd yr hyn y gallwn eu galw’n 'bynciau diyngan' neu’n 'eithriadau diyngan' a oedd naill ai heb eu datganoli neu a oedd yn eithriadau ymhlyg i'r setliad.

Therefore, this decision makes it clear that one must look at the provisions of the Government of Wales Act 2006 to find what is devolved and what is not. One must not speculate about things—in this case, employment terms and conditions and employment law—that are to be assumed, or were to be assumed in the case of the Attorney General, to be not devolved. That is not the way it is to be done. One looks at the subjects, one sees whether the provisions in question relate to the subjects and one sees whether there are any express exceptions and so on. It is a very simple process, applying the very straightforward words, but some complex concepts, embodied in Schedule 7.

Felly, mae'r penderfyniad hwn yn ei gwneud yn glir y dylid edrych ar ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Cymru 2006 er mwyn canfod yr hyn sydd wedi, ac sydd heb ei ddatganoli. Ni ddylid dyfalu ynghylch pethau—yn yr achos hwn, ynghylch telerau ac amodau cyflogaeth a chyfraith cyflogaeth—y tybir eu bod, neu y tybiwyd yn achos y Twrnai Cyffredinol, eu bod heb eu datganoli. Nid dyna'r ffordd o wneud pethau. Dylid edrych ar y pynciau, gweld a yw’r’ darpariaethau dan sylw yn ymwneud â’r pynciau a gweld a oes unrhyw eithriadau penodol ac yn y blaen. Mae hi'n broses syml iawn sef cymhwyso'r geiriau syml iawn, a ymgorfforir yn Atodlen 7 ond bod rhai cysyniadau’n gymhleth.

15:05 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

There are no more speakers. Thank you very much, Counsel General.

Nid oes rhagor o siaradwyr. Diolch yn fawr iawn, Gwnsler Cyffredinol.

15:05

## Cynnig i Ddiddymu Rheoliadau Addysg (Sefydliadau Ewropeaidd) a Chymorth i Fyfyrwyr (Cymru) (Dirymu) 2014

## Motion to Annul the Education (European Institutions) and Student Support (Wales) (Revocation) Regulations 2014

Senedd.tv Fideo Video

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I call on Simon Thomas to move the motion.

Galwaf ar Simon Thomas i gyflwyno’r cynnig.

Cynnig NNDM5582 Simon Thomas

Motion NNDM5582 Simon Thomas

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.2:

To propose that the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order 27.2:

Yn cytuno bod Rheoliadau Addysg (Sefydliadau Ewropeaidd) a Chymorth i Fyfyrwyr (Cymru) (Dirymu) 2014, a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 18 Gorffennaf, yn cael eu dirymu.

Agrees that The Education (European Institutions) and Student Support (Wales) (Revocation) Regulations 2014, laid before the Assembly on 18 July 2014, be annulled.

15:05 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cynigiaf y cynnig.

I move the motion.

Rwyf am esbonio pam rwyf wedi dod a galw'r rheoliadau'r hyn mewn i'r Cynulliad heddiw ar gyfer ystyried eu diddymu. Dyma'r rheoliadau sydd yn gynsail deddfwriaethol i arfau sydd wedi bod gan Lywodraeth Cymru ers dros ddegawd bellach i ariannu myfyriwr i astudio yng Ngholeg Ewrop yn Bruges ac, yn aml iawn, mwy nac un y flwyddyn hefyd. Roedd hwn yn batrwm a oedd, yn fy marn i, yn fuddiol i Gymru gan ei fod yn golygu bod rhai o'n myfyrwyr gorau ni, sydd yn ymddiddori mewn materion Ewropeaidd, yn cael astudio ar lefel uwch yng Ngholeg Ewrop, sydd yn golygu hefyd bod drysau yn cael eu hagor iddyn nhw tu fewn i sefydliadau Ewropeaidd ac yn benodol tu fewn i'r Comisiwn.

I wish to explain why I have called these regulations into the Assembly today to consider their annulment. These regulations are the legislative precedent for tools that have been at the Welsh Government's disposal for over a decade now to fund a student to study at the College of Europe in Bruges and, very often, more than one student per annum. This was a pattern that was, in my opinion, beneficial for Wales as it meant that some of our brightest students who took an interest in European issues could study at a higher level at the College of Europe, which also meant that doors were opened to them within European institutions and particularly within the European Commission.

Rwy'n cyfeirio'r Cynulliad at adroddiad diweddar y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a oedd yn dweud y dylai Llywodraeth Cymru ymarfer mwy o'r hyn a oedd yn cael ei alw yn yr adroddiad hwnnw yn ddiplomyddiaeth 'feddal'. Er enghraifft, roedd adroddiad y pwyllgor yn tynnu sylw at y ffaith bod Llywodraeth yr Alban yn secondio llawer mwy o staff i'r Comisiwn nag yr oedd Llywodraeth Cymru yn ei wneud. Roedd y llwybr hwn, felly, yn un o'r dulliau hynny yn fy marn i a oedd yn caniatáu i bobl ifanc o Gymru a oedd yn ymddiddori mewn materion Ewropeaidd astudio ar lefel uwch mewn sefydliad Ewropeaidd, ac wedyn byddai gennym ni bobl o Gymru yn y sefydliadau hynny a fyddai'n gwybod ein hanes a'n gwleidyddiaeth ni ac a fyddai mewn lle, efallai, i ddylanwadu yn feddal ar rai o benderfyniadau'r Comisiwn, achos nid ydym yn aelod-wladwriaeth a rwy'n derbyn hynny.

I refer the Assembly to a recent report by the Constitutional and Legislative Affairs Committee that stated that the Welsh Government should be exercising more of what was described in that report as 'soft' diplomacy. For example, the committee report highlighted the fact that the Scottish Government was seconding far more staff to the Commission than was the case in the Welsh Government. This pathway, therefore, was one of those methods that, in my opinion, allowed young people from Wales who took an interest in European issues to study at a higher level within a European institution, and then we would have people from Wales within those establishments who would know our history and understand our politics and would be in a position, possibly, to bring soft influence to bear on some of the Commission's decisions, because we are not a member state and I accept that.

Penderfynodd y Gweinidog newid y polisi i beidio ag ariannu person i astudio yn y fan honno. Fe wnes i ganfod hynny gan fod rhywun wedi cysylltu yn uniongyrchol â fi, sef rhywun a oedd wedi derbyn lle yn y coleg, wedi ceisio am ysgoloriaeth, wedi gwneud pob dim yn academaidd i ennill ysgoloriaeth, ac wedyn wedi canfod bod penderfyniad polisi wedi digwydd, bod y Gweinidog wedi tynnu'r polisi yn ôl a bod dim arian ar gael. Fe wnes i holi cwestiynau i'r Gweinidog ynglŷn â hynny. Fel arfer, nid ydym yn cael newid penderfyniadau polisi, ond yn yr achos hwn roedd cynsail cyfreithiol statudol i'r polisi ac rwyf felly wedi manteisio ar y cyfle i alw hwn i mewn er mwyn clywed gan y Gweinidog beth oedd y rheswm dros newid y polisi hwn, ac er mwyn i'r Cynulliad gael penderfynu ym mha ffordd bellach y dylem ni gefnogi rhai o'n myfyrwyr ni yn eu hymwneud â sefydliadau Ewropeaidd.

The Minister decided to change the policy and not to fund study by an individual at that college. I found that out because someone contacted me directly, someone who had gained a place at the college, had applied for a scholarship, had done everything possible academically to gain that scholarship, and had then found that there had been a policy change, that the Minister had withdrawn the policy and that the funding was no longer available. I did ask questions of the Minister on that point. Usually, we do not get the chance to change policy decisions, but in this case there was a statutory legal precedent for the policy and therefore I have taken the opportunity to call this in in order to hear from the Minister his rationale for this policy change, and in order for the Assembly to decide how we should now support some of our students in relation to European institutions.

15:08 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have no other speakers. I call on the Minister.

Nid oes gennyf unrhyw siaradwyr eraill. Galwaf ar y Gweinidog.

15:08

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

Senedd.tv
Fideo Video

Presiding Officer, the Education (European Institutions) and Student Support (Wales) (Revocation) Regulations 2014 revoked regulations made in 2013 that provided support for postgraduate study at the College of Europe in Bruges or the Johns Hopkins University School of Advanced International Studies in Bologna. This support was limited to one student per academic year at one or other of those two institutions.

Lywydd, bu i Reoliadau Addysg (Sefydliadau Ewropeaidd) a Chymorth i Fyfyrwyr (Cymru) (Dirymu) 2014 ddirymu rheoliadau a wnaed yn 2013 a oedd yn darparu cymorth ar gyfer astudiaeth ôl-radd yng Ngholeg Ewrop yn Bruges neu yn Ysgol Uwch Astudiaethau Rhyngwladol Prifysgol Johns Hopkins yn Bologna. Roedd y cymorth hwn wedi'i gyfyngu i un myfyriwr ym mhob blwyddyn academaidd yn y naill sefydliad neu'r llall.

The decision to revoke the 2013 regulations and to discontinue support for students was taken after consideration of legal advice. Our view is that the provision of student support to a very limited number of specific institutions is incompatible with European Community law. The explanatory memorandum set out that the revocation regulations aimed to ensure that Welsh Ministers are not acting in a way that is contrary to section 80(8) of the Government of Wales Act 2006. As Members know, the Welsh Ministers have no power to make subordinate legislation where it is incompatible with Community law. I was, therefore, surprised to see this motion.

Penderfynwyd diddymu rheoliadau 2013 a rhoi'r gorau i gynnig cefnogaeth i fyfyrwyr ar ôl ystyried cyngor cyfreithiol. Ein barn ni yw bod darparu cymorth i fyfyrwyr i nifer gyfyngedig iawn o sefydliadau penodol yn anghydnaws â chyfraith y Gymuned Ewropeaidd. Mae'r memorandwm esboniadol yn datgan mai nod y rheoliadau dirymu yw sicrhau nad yw Gweinidogion Cymru yn gweithredu mewn ffordd sy'n groes i adran 80 (8) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Fel y gŵyr Aelodau, nid oes gan Weinidogion Cymru unrhyw bŵer i wneud is-ddeddfwriaeth os yw'n anghydnaws â chyfraith y Gymuned. Synnais, felly, wrth weld y cynnig hwn.

Students who have expressed an interest in this funding are graduates and, in some cases, already hold postgraduate degrees. They are likely to have already had access to student support when taking their undergraduate degrees. When we consider providing additional financial support to graduates or postgraduates for study at these institutions at that kind of level, we have to take into account the public support that already has been extended to people in that situation. Despite that, following the decision to revoke the 2013 regulations, I propose to maintain postgraduate support to study in a particular European institution.

Mae myfyrwyr sydd wedi mynegi diddordeb yn yr arian hwn yn raddedigion ac, mewn rhai achosion, eisoes wedi ennill graddau ôl-raddedig. Maent yn debygol o fod wedi cael mynediad at gymorth i fyfyrwyr wrth gymryd eu graddau israddedig eisoes. Wrth ystyried darparu cymorth ariannol ychwanegol i raddedigion neu ôl-raddedigion ar gyfer astudio yn y sefydliadau hyn ar lefel o'r fath, mae'n rhaid i ni ystyried y gefnogaeth gyhoeddus a roddwyd eisoes i bobl yn y sefyllfa honno. Er gwaethaf hynny, yn dilyn y penderfyniad i ddiddymu rheoliadau 2013, bwriadaf gynnal cefnogaeth ôl-radd i astudio mewn sefydliad Ewropeaidd penodol.

I expect regulations to be laid before the Assembly that will provide for an increase in the number of persons who can benefit from financial support to study at the European University Institute in Florence. In this way, I intend to ensure that the number of students who will be able to obtain postgraduate support from the Welsh Ministers to study in Europe will actually be unchanged overall. The position in relation to the European University Institute is different to the situation that pertains in Bologna and Bruges, in that the UK is under a treaty of obligation to contribute towards the European University Institute's expenditure and to encourage awards to support our nationals attending it.

Disgwyliaf i reoliadau gael eu gosod gerbron y Cynulliad a fydd yn darparu ar gyfer cynnydd yn nifer y bobl a all gael budd o gymorth ariannol i astudio yn yr Athrofa Brifysgol Ewropeaidd yn Fflorens. Yn y modd hwn, rwy'n bwriadu sicrhau y bydd nifer y myfyrwyr a fydd yn gallu cael cefnogaeth ôl-radd oddi wrth Weinidogion Cymru i astudio yn Ewrop mewn gwirionedd yn parhau'r un fath. Mae'r sefyllfa o ran yr Athrofa Brifysgol Ewropeaidd yn wahanol i'r sefyllfa sy'n gysylltiedig â Bologna a Bruges, gan fod y DU yn rhwym i gytundeb i gyfrannu tuag at wariant yr Athrofa Brifysgol Ewropeaidd ac i annog dyfarniadau i gefnogi ein dinasyddion i'w mynychu.

Therefore, the situation remains that revoking the 2013 regulations was necessary, and I urge Members to vote against this motion, particularly given that the overall package of support that I proposed, and put on the table, albeit at a different institution, essentially maintains the opportunity for young people to take advantage of these rather specialised opportunities.

Felly, mae'r sefyllfa'n parhau o ran y bu'n angenrheidiol dirymu rheoliadau 2013, ac rwy'n annog yr Aelodau i bleidleisio yn erbyn y cynnig hwn, yn enwedig o ystyried bod y pecyn cyffredinol o gefnogaeth a gynigais, ac a roddais gerbron, er bod hynny mewn sefydliad gwahanol, yn y bôn yn cynnal y cyfle i bobl ifanc fanteisio ar y cyfleoedd hynod arbenigol hyn.

15:11

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call Simon Thomas to reply.

Galwaf ar Simon Thomas i ymateb.

15:11 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I found that quite fascinating, actually. This is the reason why we do these things, on occasion: to better understand the thinking of Ministers, but also to understand and perhaps have a little influence on ministerial decisions. I find it a little strange that the Minister criticises me for calling in regulations that he says are illegal, because he himself made the regulations illegally a year ago in the first place. It is also slightly surprising as my understanding is that Northern Ireland and Scotland are continuing with this set of regulations, and continuing to support students who study at these particular institutions and do not find any legal problems there. Nevertheless, by calling this in, and having a further understanding of what the Minister has to say—and further, indeed, to his reply to my written questions to him—it now seems that there will be continuing support for some of our students, at least, to engage at a postgraduate level in some of our European institutions. On that basis, I would seek guidance from the Presiding Officer and the Assembly as to whether it is possible therefore to allow the motion not to go forward today, in order that we can see further details from the Minister about his new regulations.

Gwelais hyn yn eithaf diddorol, mewn gwirionedd. Dyma'r rheswm pam rydym yn gwneud y pethau hyn, o bryd i'w gilydd: er mwyn deall meddylfryd y Gweinidogion yn well a hefyd deall ac o bosibl cael ychydig o ddylanwad ar benderfyniadau gweinidogol. Rwy'n ei chael hi braidd yn rhyfedd fod y Gweinidog yn fy meirniadu i am alw rheoliadau i mewn y mae ef ei hun yn dweud eu bod yn anghyfreithlon, oherwydd ef ei hun wnaeth y rheoliadau yn anghyfreithlon flwyddyn yn ôl yn y lle cyntaf. Rwyf braidd yn syn hefyd gan fy mod i ar ddeall fod Gogledd Iwerddon a'r Alban yn parhau gyda'r gyfres hon o reoliadau, ac yn parhau i gefnogi myfyrwyr sy'n astudio yn y sefydliadau penodol hyn a heb weld unrhyw broblemau cyfreithiol yn hynny o beth. Serch hynny, trwy alw hyn i mewn, a chael gwell dealltwriaeth o'r hyn sydd gan y Gweinidog i'w ddweud-ac yn wir, yn dilyn ei ateb i'm cwestiynau ysgrifenedig ato-ymddengys yn awr y bydd cymorth parhaus i rai o'n myfyrwyr, o leiaf, i ymgysylltu ar lefel ôl-raddedig mewn rhai o'n sefydliadau Ewropeaidd. Ar y sail honno, felly, gofynnaf am arweiniad gan y Llywydd a'r Cynulliad ynghylch a oes modd caniatáu i'r cynnig beidio â mynd yn ei flaen heddiw, er mwyn i ni allu gweld manylion pellach gan y Gweinidog am ei reoliadau newydd.

15:13 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Therefore, you are asking the permission of the Assembly to withdraw.

Felly, rydych yn gofyn caniatâd y Cynulliad i dynnu'n ôl.

15:13 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Indeed.

Yn wir.

15:13 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Does any Member object? There are no objections. Therefore, there is nothing before us.

A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes yr un gwrthwynebiad. Felly, nid oes dim ger ein bron.

*Tynnwyd y cynnig yn ôl gyda chaniatâd y Cynulliad.*

*Motion withdrawn by leave of the Assembly.*

15:13

## Adroddiad y Pwyllgor Cyllid ynghylch yr Arfer Gorau mewn Prosesau Cyllidol

## The Finance Committee’s Report on Best Practice Budget Processes

Senedd.tv Fideo Video

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move on to the debate on the Finance Committee’s report on best budget practice—. It is the report on best practice budget processes. I am sure that the Chair will explain it. Therefore, I call on the Chair of the Finance Committee, Jocelyn Davies, to move the motion.

Rydym bellach yn symud ymlaen at y ddadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar arferion gorau o ran y gyllideb—. Dyma'r adroddiad ar arferion gorau prosesau cyllidebol. Rwy’n siŵr y bydd y Cadeirydd yn ei egluro. Felly, galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, Jocelyn Davies, i gyflwyno’r cynnig.

Cynnig NDM5591 Jocelyn Davies

Motion NDM5591 Jocelyn Davies

Yn cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar ei ymchwiliad i arferion gorau o ran y gyllideb, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Gorffennaf 2014.

Notes the report of the Finance Committee on its inquiry into Best Practice Budget Processes, which was laid in the Table Office on 24 July 2014.

15:13 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move the motion.

Cyflwynaf y cynnig.

It is not the snappiest title, I agree, but I think that you get the point, really. It is best practice budget processes.

Nid dyma'r teitl sioncaf yn y byd efallai ond credaf eich bod yn deall y pwynt, mewn gwirionedd, sef arferion gorau ar gyfer prosesau'r gyllideb.

Following the introduction of the Wales Bill, the Finance Committee conducted an inquiry to look at the financial procedures of the National Assembly because the Wales Bill presents a significant opportunity for the Assembly. If passed, it will give us competence to legislate on our own budgetary procedures. I think that this is an exciting development; some of you may disagree with that. However, I think that it is very important that we take this opportunity to ensure that we have appropriate procedures here.

Ar ôl cyflwyno Bil Cymru, cynhaliodd y Pwyllgor Cyllid ymchwiliad i edrych ar weithdrefnau ariannol y Cynulliad Cenedlaethol gan fod Bil Cymru yn gyfle arwyddocaol i'r Cynulliad. Os caiff ei basio, bydd gennym gymhwysedd i ddeddfu ar ein gweithdrefnau cyllidebol ein hunain. Credaf fod hwn yn ddatblygiad cyffrous; efallai y bydd rhai ohonoch yn anghytuno â hynny. Fodd bynnag, credaf ei bod yn bwysig iawn ein bod yn achub ar y cyfle hwn i sicrhau bod gennym weithdrefnau priodol yma.

The inquiry is being conducted in two parts. Today, we are debating part 1 of the inquiry, which focused on high-level strategic best practice procedures. Part 2 of the inquiry will look at specific details and the application of financial procedures in Wales. I look forward to debating that with you in the future.

Cynhelir yr ymchwiliad mewn dwy ran. Heddiw, rydym yn trafod rhan 1 yr ymchwiliad, a oedd yn canolbwyntio ar weithdrefnau arfer gorau strategol lefel-uchel. Bydd rhan 2 yr ymchwiliad yn edrych ar y manylion penodol a chymhwyso gweithdrefnau ariannol yng Nghymru. Edrychaf ymlaen at drafod hynny gyda chi yn y dyfodol.

During the inquiry we looked at international best practice, and the majority of the evidence that we received referred to the Organisation for Economic Co-operation and Development principles of best practice for budget transparency. Considering these principles, three key points were clear. The first was that fiscal policy should be managed within clear, credible and predictable limits, the second that budgets should be aligned with Government policies, and the third that budgets should be open, transparent and accessible. The committee concluded that, where appropriate, the new budget process should adhere to the 10 principles of budgetary governance published by the Organisation for Economic Co-operation and Development.

Yn ystod yr ymchwiliad bu i ni edrych ar arferion gorau rhyngwladol, ac mae'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth a gawsom yn cyfeirio at egwyddorion arferion gorau ar gyfer tryloywder y gyllideb y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd. Wrth ystyried yr egwyddorion hyn, roedd tri phwynt allweddol yn glir. Y cyntaf oedd y dylid rheoli polisi cyllidol o fewn terfynau clir, credadwy a rhagweladwy; yr ail y dylid alinio cyllidebau â pholisïau Llywodraeth; a'r trydydd y dylid sicrhau bod cyllidebau yn agored, tryloyw a hygyrch. Daeth y pwyllgor i'r casgliad, lle bo hynny'n briodol, y dylai'r broses gyllideb newydd lynu wrth y 10 egwyddor llywodraethu cyllidebol a gyhoeddwyd gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd.

The inquiry also examined the strengths and limitations of annual controls on budgets, and, while annual budget cycles are important mechanisms for managing public finances, it was apparent that they also have their limitations. The Wales Bill is an opportunity to see improvement in this area. The committee agreed that it would like to give further consideration as to whether longer-term annual financial planning can be incorporated into the Assembly's statutory process for authorising resources.

Archwiliodd yr ymchwiliad hefyd gryfderau a chyfyngiadau rheolaethau blynyddol ar gyllidebau, ac, er bod cylchoedd cyllideb blynyddol yn fecanweithiau pwysig ar gyfer rheoli cyllid cyhoeddus, roedd yn amlwg bod ganddynt hwythau hefyd yn eu cyfyngiadau. Mae Bil Cymru yn gyfle i weld gwelliant yn y maes hwn. Cytunodd y pwyllgor y byddai'n hoffi ystyried ymhellach sut y gellir cynnwys cynllunio ariannol blynyddol yn y tymor hwy ym mhroses statudol y Cynulliad ar gyfer awdurdodi adnoddau.

The committee identified the importance of the relationship between us, that is, the Assembly and the Finance Committee, and the Government. During her evidence to us, the Minister for finance expressed her commitment to working closely with the committee to ensure that any budgetary procedures that are developed are the most appropriate for Wales. We welcome this commitment and look forward to working with her to that end.

Nododd y pwyllgor bwysigrwydd y berthynas rhyngom, hynny yw, rhwng y Pwyllgor Cyllid, y Cynulliad, a'r Llywodraeth. Wrth gyflwyno ei thystiolaeth i ni, mynegodd y Gweinidog cyllid ei hymrwymiad i gydweithio'n agos â'r pwyllgor gan sicrhau wrth ddatblygu unrhyw weithdrefnau cyllidebol y byddant y rhai mwyaf priodol ar gyfer Cymru. Rydym yn croesawu'r ymrwymiad hwn ac yn edrych ymlaen at weithio gyda hi i'r perwyl hwnnw.

Rather than making firm recommendations, the report draws 15 conclusions, which we will take forward into part 2 of this inquiry. Those conclusions include linking budget processes to multi-year strategic plans and longer-term financial forecasts, replacing the current arrangement of simple allocations to ministerial portfolios with a more detailed table that authorises resource to specific outputs linked to longer-term outcomes, increasing the time available for budget scrutiny, and the authorisation of taxation and expenditure into a single budget Act. I am pleased to have received a positive response to these conclusions from the Minister.

Yn hytrach na gwneud argymhellion cadarn, daeth yr adroddiad i 15 o gasgliadau, y byddwn yn eu datblygu wrth fwrw ymlaen â rhan 2 yr ymchwiliad hwn. Mae'r casgliadau hynny yn cynnwys cysylltu prosesau cyllidebol i gynlluniau strategol aml-flwyddyn a rhagolygon ariannol tymor hwy, gan ddisodli'r drefn bresennol o ddyraniadau syml i bortffolios gweinidogion gyda bwrdd mwy manwl sy'n awdurdodi adnoddau i allbynnau penodol yn gysylltiedig â chanlyniadau tymor hwy, gan gynyddu'r amser sydd ar gael ar gyfer craffu ar y gyllideb, ac awdurdodi trethi a gwariant i mewn i un Ddeddf cyllideb. Rwy'n falch o fod wedi derbyn ymateb cadarnhaol i'r casgliadau hyn gan y Gweinidog.

It should be noted that the Wales Bill will not only present change to the Welsh Government but also to the Assembly Commission. The committee's report has made a specific recommendation to the Commission, and it is likely that further recommendations will result from part 2 of this inquiry.

Dylid nodi y bydd Mesur Cymru nid yn unig yn creu newid i Lywodraeth Cymru, ond hefyd i Gomisiwn y Cynulliad. Mae adroddiad y pwyllgor wedi gwneud argymhelliad penodol i'r Comisiwn, ac mae'n debygol y bydd argymhellion pellach yn deillio o ran 2 yr ymchwiliad hwn.

The committee's view is that there are unlikely to be easy answers to many of the issues when considering the best budgetary procedures to meet the requirements of both the Government and the Assembly, and the Minister has endorsed this view. However, while challenges lie ahead, as a committee we look forward to continuing to work with the Minister to ensure that budgetary arrangements are holistic, best practice and suitable for us here in Wales.

Ym marn y pwyllgor, mae'n annhebygol y bydd atebion hawdd ar gael i lawer o'r materion wrth ystyried y gweithdrefnau cyllidebol gorau i fodloni gofynion y Llywodraeth a'r Cynulliad, ac mae'r Gweinidog wedi cymeradwyo'r farn hon. Fodd bynnag, er bod heriau o'n blaenau, fel pwyllgor rydym yn edrych ymlaen at barhau i weithio gyda'r Gweinidog er mwyn sicrhau bod trefniadau cyllidebol yn gyfannol, yn dilyn arferion gorau ac yn addas i ni yma yng Nghymru.

15:17

## Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I thank Jocelyn Davies for the way she chaired the committee. I also want to thank the witnesses who came to give evidence. We spoke to people from across Europe, although we did not make the trip to New Zealand.

Diolchaf i Jocelyn Davies am y ffordd y bu iddi gadeirio'r pwyllgor. Yr wyf hefyd am ddiolch i'r tystion a ddaeth i roi tystiolaeth. Bu i ni siarad â phobl o bob cwr o Ewrop, er na deithiasom ni i Seland Newydd.

I will start off by saying that what I am about to say is observational and is not meant to be a criticism of any individual or political party, but is based on the evidence we received in the committee.

Dechreuaf drwy ddweud bod yr hyn yr wyf ar fin ei ddweud yn arsylwadol ac nid yw'n fwriad iddo fod yn feirniadaeth ar unrhyw blaid unigol neu wleidyddol, ond mae'n seiliedig ar y dystiolaeth a gawsom yn y pwyllgor.

I want to talk about inputs, outputs and outcomes. Our budget process here is based upon inputs. Additional expenditure is, in itself, good. The prediction for this year is that the Government will promote additional expenditure in the health service, the Lib Dems will promote the budget agreement for the pupil deprivation grant, the Conservatives will say that there is not enough additional money for health, and Plaid Cymru will say that we need to spend more money to boost our economy—to be repeated next year.

Rwyf am siarad am fewnbynnau, allbynnau a chanlyniadau. Mae ein proses cyllidebol yma yn seiliedig ar fewnbynnau. Mae gwariant ychwanegol, ynddo'i hun, yn dda. Y rhagolwg ar gyfer eleni yw y bydd y Llywodraeth yn hyrwyddo gwariant ychwanegol yn y gwasanaeth iechyd, bydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn hyrwyddo'r cytundeb cyllidebol ar gyfer y grant amddifadedd disgyblion, bydd y Ceidwadwyr yn dweud nad oes digon o arian ychwanegol ar gyfer iechyd, a bydd Plaid Cymru'n dweud bod angen inni wario mwy o arian i roi hwb i'n heconomi—i'w ailadrodd y flwyddyn nesaf.

Each of those is inputs into the system. What is the output and, more precisely, what is the outcome? I will look at three schemes. First is a scheme that I personally very strongly support, Designed to Smile. The input is expenditure on the scheme, the output is the number of children brushing their teeth each day, and the outcome is reduced tooth decay. The input and output are measurable on an annual basis. The outcome may take several years to become apparent, although when I have an 11-year-old girl in a school that has Flying Start attached to it asking, 'What is a filling?', I think there is some level of success there. Then the scheme would appear to be working in terms of dental care. There are other questions on this. Are there other factors causing a reduction? Are children eating less chocolate and drinking fewer fizzy drinks? The answer to that from published figures is definitely 'no'. Are we seeing a reduction in childhood tooth decay? We know that the answer to that is 'yes'. How does such expenditure on prevention help to reduce the dental budget in the short to medium term? The bad news is that it does not. More people will be able to access NHS dentists due to reducing numbers of children needing to be dealt with. That is a good thing, but it may actually cost more because it will mean that more older people with more advanced tooth decay will actually have access to dental care through the NHS. I think that we are all very pleased about that, but, in purely budgetary terms, that would be disadvantageous.

Dyna'r holl fewnbynnau i'r system. Beth yw'r allbwn ac, yn fwy penodol, beth yw'r canlyniad? Byddaf yn edrych ar dri chynllun. Yn gyntaf, mae'r cynllun yr wyf fi'n bersonol yn ei gefnogi'n gryf. Cynllun Gwên. Y mewnbwn yw'r gwariant ar y cynllun, yr allbwn yw nifer y plant sy'n brwsio'u dannedd bob dydd, a'r canlyniad yw lleihau pydredd dannedd. Mae'r mewnbwn a'r allbwn yn fesuradwy bob blwyddyn. Efallai y bydd sawl blwyddyn wedi mynd heibio cyn y daw'r canlyniad yn amlwg, ond pan fyddaf yn cael merch 11oed mewn ysgol sy'n gysylltiedig â Dechrau'n Deg yn gofyn, 'Beth yw llenwad?', credaf fod hynny'n rhyw arwydd o lwyddiant. Byddai'r cynllun, wedyn, fel petai'n gweithio yn nhermau gofal deintyddol. Mae cwestiynau eraill ar hyn. A oes yna ffactorau eraill sy'n achosi gostyngiad? A yw plant yn bwyta llai o siocled ac yn yfed llai o ddiodydd pefriog? Yr ateb i hynny o'r ffigurau a gyhoeddwyd yn bendant yw 'na'. A ydym yn gweld llai o bydredd dannedd ymhlith plant? Gwyddom mai'r ateb i hynny yw 'ydym'. Sut y mae gwariant o'r fath ar gamau ataliol yn helpu i leihau'r gyllideb ddeintyddol yn y tymor byr i'r tymor canolig? Y newyddion drwg yw nad yw'n gwneud hynny. Bydd mwy o bobl yn gallu cael mynediad at ddeintyddion y GIG o ganlyniad i leihau nifer y plant sydd angen eu trin. Mae hynny'n beth da, ond mewn gwirionedd gall gostio mwy oherwydd bydd yn golygu y bydd mwy o bobl hŷn sydd â phydredd dannedd mwy datblygedig mewn gwirionedd yn cael mynediad at ofal deintyddol drwy'r GIG. Credaf ein bod i gyd yn falch iawn ynglŷn â hynny, ond, mewn termau cyllidebol yn unig, byddai hynny'n anfanteisiol.

The second area that I wish to discuss is education expenditure in general, and the pupil deprivation grant in particular. First, if there was a direct correlation between expenditure and outcomes, we would be much higher up the PISA rankings. Secondly, while the output of smaller class sizes is one that I am sure virtually everyone in this room would be very pleased with, research done in the USA and other places shows that there is no relationship with outcomes over a fairly large range of class sizes. On the pupil deprivation grant, which I am very pleased about—schools in my constituency are among the biggest recipients in Wales—it fails to reflect the fact that, in some areas, there is a very small income difference between those who are on free school meals and those who are not. What is the output expected, what is the outcome expected and when, or are we just pleased that we are putting more money in? On Flying Start, we know the input, in terms of income, and we know the output, in terms of children attending. The outcome will be better key stage results, but when will that occur?

Yr ail faes yr hoffwn drafod yw gwariant addysg yn gyffredinol, a'r grant amddifadedd disgyblion yn arbennig. Yn gyntaf, os oedd cydberthynas uniongyrchol rhwng gwariant a chanlyniadau, byddem yn llawer uwch yn y rhestr PISA. Yn ail, er bod allbwn dosbarthiadau llai yn un rwy'n siŵr y byddai bron pawb yn yr ystafell hon yn falch iawn ohono, mae ymchwil a wnaed yn yr Unol Daleithiau ac mewn mannau eraill yn dangos nad oes perthynas â chanlyniadau dros ystod eithaf mawr o faint dosbarthiadau. O ran y grant amddifadedd disgyblion, sy'n rhywbeth rwyf yn falch iawn ohono—mae ysgolion yn fy etholaeth i ymhlith y rhai sy'n derbyn fwyaf yng Nghymru—ni all ddangos y ffaith, mewn rhai ardaloedd, mai gwahaniaeth incwm bach iawn sydd rhwng y rhai sy'n llwyddo i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai sy'n methu. Beth yw'r allbwn disgwyliedig, beth yw'r canlyniad disgwyliedig a phryd, neu yn syml, ai'r hyn sy'n ein plesio yw ein bod yn rhoi mwy o arian i mewn? O ran Dechrau'n Deg, gwyddom y mewnbwn, o ran incwm, a gwyddom yr allbwn, o ran plant sy'n mynychu. Y canlyniad fydd gwell canlyniadau yn y cyfnodau allweddol, ond pryd y bydd hynny'n digwydd?

Finally, I wish to address two other points in the report. First, when we as an Assembly raise income—have borrowing powers as well as spending powers—then we will need income estimates and debt charges, as well as departmental expenditure. The second point is that, if the intention is to be able to scrutinise the budget, we need more detail. We need expenditure on main headings, such as sport or transport. Otherwise, when ministerial responsibilities change, as they often do, what we see is that it is very difficult to follow the money and to know what is going where. Also, we need, at the very least, a split in health expenditure by board and then between primary care and hospitals. Otherwise, as the budget is developing, in about 2060, our budget will be one line: health.

Yn olaf, rwyf am ymdrin â dau bwynt arall yn yr adroddiad. Yn gyntaf, pan fyddwn fel Cynulliad yn codi incwm-pan fydd gennym bwerau benthyca yn ogystal â phwerau gwariant-bydd angen i ni gael amcangyfrifon incwm a chostau dyledion, yn ogystal â gwariant adrannol. Yr ail bwynt yw, os mai'r bwriad yw gallu craffu ar y gyllideb, rhaid cael mwy o fanylion. Rhaid cael y gwariant ar brif benawdau, fel chwaraeon neu gludiant. Fel arall, wrth i gyfrifoldebau gweinidogol newid, fel sy'n digwydd yn aml, yr hyn a welwn yw ei bod yn anodd iawn dilyn yr arian a gwybod beth sy'n mynd ble. Hefyd, bydd angen rhaniad, o leiaf, yn y gwariant ar iechyd fesul bwrdd, ac yna yn ôl gofal sylfaenol ac ysbytai. Fel arall, wrth i'r gyllideb ddatblygu, erbyn tua 2060, dim ond un llinell fydd i'n cyllideb: iechyd.

15:21 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I welcome the opportunity to contribute in the debate today, and I thank the committee for its deliberations in this very important field, and in particular for splitting the work into two areas to examine. I think what is important, as the committee has acknowledged, is the transfer of further powers to this place, in particular around the taxation issues. I especially welcome conclusion 15, at the end, which is about how it is going to look specifically at the work of the Office for Budget Responsibility and how that could impact on financial information here in Wales. It is an important piece of work to note what is best practice on the international stage. Conclusion 7, in particular, talks about the work of the OECD and minimum prescribing standards, in particular. It is good to see that, hopefully—I think the Minister was acknowledging that in her reply—the Government has accepted that conclusion.

It was interesting to listen to Mike Hedges talk about how, thorough the political process, we all aspire to fulfil our political ambitions by pumping money into projects. However, very often, we need to understand what the outcomes will be as well. It is not just about piling money into projects without fully understanding the outcomes. The Assembly has come a very long way from its early inception, when the Government, as was, was part of the whole Assembly, and Ministers sat on the committees. The process that we now have is one where the Government has to work co-operatively, or so I would hope, and, this Minister for finance, in fairness, has taken steps during her tenure as a Minister to work with the Finance Committee to increase levels of budget scrutiny and understanding of how the Welsh Government is tabling its budget. Obviously, while it is entirely appropriate that the Government sets its priorities, it is vital for our role as the legislature here that we fully scrutinise the budget and the outcomes that taxpayers are getting for the money that they are putting in. I look at conclusion 13, which talks about the alignment exercise that should be carried out, similar to the one that Westminster undertakes, to ensure that the Welsh Government accounts use the same boundaries for the budget presented to the Assembly as those used by the Treasury in order to control public expenditure. I would be grateful to hear what the Minister's view is on such an exercise, which ultimately would create —I would suggest—greater transparency in the process of understanding how the Welsh pound delivers services here in Wales.

Ultimately, the work of the Finance Committee at this juncture is of critical importance, so that Members can have confidence that the services and provisions are matched, from our perspective, as best as they can be. It is quite right to point out that, obviously, there is a shortfall of money. In nearly every politician's dream, there is always an extra demand that we could suddenly find money to fulfil. From a Conservative point of view, we would prefer to make sure that the money stays with individuals rather than with the Government of the day.

Croesawaf y cyfle i gyfrannu yn y ddadl heddiw, ac rwy'n diolch i'r pwyllgor am ei drafodaethau yn y maes hynod bwysig hwn, ac yn arbennig am rannu'r gwaith yn ddau faes i'w harchwilio. Rwy'n credu mai'r hyn sy'n bwysig, fel y cydnabu'r pwyllgor, yw trosglwyddo rhagor o bwerau i'r lle hwn, yn enwedig ynghylch materion trethiant. Rwy'n croesawu'n arbennig gasgliad 15, ar y diwedd, sy'n ymwneud â sut y mae'n mynd i edrych yn benodol ar waith y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a sut y gallai hynny effeithio ar wybodaeth ariannol yma yng Nghymru. Mae'n ddarn pwysig o waith i nodi beth yw arferion gorau ar y llwyfan rhyngwladol. Mae casgliad 7, yn arbennig, yn siarad am waith yr OECD a'r safonau rhagnodi gofynnol, yn benodol. Mae'n dda gweld—a chredaf fod y Gweinidog yn cydnabod hynny yn ei hateb—fod y Llywodraeth, gobeithio, wedi derbyn y casgliad hwnnw.

Yr oedd yn ddiddorol gwrando ar Mike Hedges yn siarad am y ffordd, drwy'r broses wleidyddol, rydym i gyd yn ceisio cyflawni ein huchelgeisiau gwleidyddol trwy sicrhau arian ar gyfer prosiectau. Fodd bynnag, yn aml iawn, mae angen i ni ddeall beth fydd y canlyniadau hefyd. Nid dim ond taflu arian at brosiectau heb ddeall yn llawn y canlyniadau yw'r broses. Mae'r Cynulliad wedi dod yn bell iawn ers ei ddyddiau cynnar, pan oedd y Llywodraeth yn arfer bod yn rhan o'r Cynulliad cyfan, ac y byddai Gweinidogion yn eistedd ar y pwyllgorau. Y broses sydd gennym yn awr yw un lle mae'n rhaid i'r Llywodraeth weithio ar y cyd, neu felly y byddwn yn ei obeithio, ac, mae'r Gweinidog cyllid presennol, a bod yn deg, wedi cymryd camau yn ystod ei chyfnod fel Gweinidog i weithio gyda'r Pwyllgor Cyllid i gynyddu lefelau craffu ar y gyllideb a'r ddealltwriaeth o sut y mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno ei chyllideb. Yn amlwg, er ei bod yn gwbl briodol i'r Llywodraeth bennu ei blaenoriaethau, mae'n hanfodol i'n rôl fel y ddeddfwrfa hone in bod yn llwyr graffu ar y gyllideb a'r canlyniadau y mae trethdalwyr yn eu cael am yr arian y maent yn ei roi i mewn. Rwy'n edrych ar gasgliad 13, sy'n sôn am yr ymarfer alinio y dylid ei gynnal, yn debyg i'r un a wneir gan San Steffan, er mwyn sicrhau bod cyfrifon Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r un ffiniau ar gyfer y gyllideb a gyflwynwyd i'r Cynulliad â'r rhai a ddefnyddir gan y Trysorlys er mwyn rheoli gwariant cyhoeddus. Hoffwn glywed barn y Gweinidog ar ymarferiad o'r fath, a fyddai yn y pen draw yn creu—yn fy marn i—mwy o dryloywder yn y broses o ddeall sut y mae'r bunt Gymreig yn darparu gwasanaethau yma yng Nghymru.

Yn y pen draw, mae gwaith y Pwyllgor Cyllid yn y fan hon yn hanfodol bwysig, fel y gall Aelodau fod yn hyderus bod y gwasanaethau a'r darpariaethau yn cael eu cyfateb, o'n safbwynt ni, i'r graddau gorau posibl. Yn amlwg, mae'n gwbl gywir tynnu sylw at ddiffyg ariannol. Ym mreuddwyd pob gwleidydd bron bydd galw ychwanegol bob amser y gallem yn sydyn ddod o hyd i arian i'w gwireddu. O safbwynt Ceidwadol, byddai'n well gennym wneud yn siŵr bod yr arian yn aros gydag unigolion yn hytrach na gyda Llywodraeth y dydd.

The Government spent prolifically—we would say—in the early days of the Assembly, and it now really falls on politicians to make sure that, where the challenges lie, we work co-operatively with our partners in local government, and with the health service providers, to make sure that there is an understanding that, where the need is, we will try to resource that need within the overall financial settlement. The Finance Committee in particular has a key role in working with the Welsh Government to make sure that that is clearly understood. I believe that there is great scope, especially with the new powers that will come via Silk part 1, to develop a budgetary role here that could be second to none and held up as an exemplar of best practice. However, I do believe that there is a clear role for an independent body, such as the Office for Budget Responsibility, to work with the Government and the legislature to endorse, or to offer impartial criticism and advice on, the figures that the governing party of the day has presented. That would create a far more mature process in the budget round. I look forward to seeing the report that will come before us in the second stage of the committee's work.

Gwariodd y Llywodraeth yn doreithiog—yn ein barn ni—yn nyddiau cynnar y Cynulliad, ac mae bellach yn gyfrifoldeb ar wleidyddion i wneud yn siŵr, pan fo heriau, ein bod yn cydweithredu â'n partneriaid mewn llywodraeth leol, a chyda darparwyr gwasanaethau iechyd, er mwyn sicrhau bod dealltwriaeth, lle bo angen, y byddwn yn ceisio diwallu'r angen hwnnw o fewn y setliad ariannol cyffredinol. Mae gan y Pwyllgor Cyllid yn arbennig rôl allweddol wrth weithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod hynny'n cael ei ddeall yn glir. Rwy'n credu bod yna gyfle mawr, yn enwedig gyda'r pwerau newydd a fydd yn dod drwy Silk rhan 1, i ddatblygu rôl gyllidebol heb ei hail yma y gellid ei hystyried yn enghraifft o arfer gorau. Fodd bynnag, credaf fod rôl glir ar gyfer corff annibynnol, megis y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, i gydweithio â'r Llywodraeth a'r ddeddfwrfa i gymeradwyo, neu i gynnig beirniadaeth a chyngor diduedd ar, y ffigurau y mae'r blaid sy'n llywodraethu ar y pryd wedi eu cyflwyno. Byddai hynny'n creu proses llawer aeddfetach yn y cylch cyllideb. Edrychaf ymlaen at weld yr adroddiad a ddaw ger ein bron yn ail gyfnod gwaith y pwyllgor.

15:26

## Alun Ffred Jones [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Diolch yn fawr am y cyfle i ddweud gair byr fel rhan o'r drafodaeth hon. Mae'r adroddiad ar arfer gorau yn y broses gyllido yn sôn am dryloywder, ac mae'r tystion—yr holl dystion, a dweud y gwir—wedi dweud am yr angen i gysylltu gwariant ar raglenni Llywodraeth â chanlyniadau. Fodd bynnag, mae amryw o'r tystion hefyd yn rhybuddio bod perygl mewn gosod nod neu amcanion rhy gyffredinol ac aruchel. Er enghraifft, os ydych yn rhoi nod i wella iechyd pobl Cymru, yna mae'n anodd iawn profi'r cyswllt rhwng y gwariant a'r canlyniad.

Thank you very much for the opportunity to say a brief word as part of this debate. The report on best practice in the budgetary process talks about transparency, and the witnesses—all the witnesses, in truth—have stated the need to link expenditure on Government programmes with outcomes. However, various witnesses also warn that there is a risk in setting aims or objectives that are too general in nature. For example, if you set an objective of improving the health of people in Wales, then it is very difficult to prove the link between the expenditure and the outcome.

Yr un pryd, mae rhybudd hefyd bod gosod gormod o fân dargedau'n gallu bod yr un mor wrthgynhyrchiol, sy'n ein gadael ni â chwestiynau ynglŷn â pha fath o amcanion y dylid eu gosod. Fodd bynnag, mae pawb yn gytûn bod angen mesur effeithiolrwydd pob rhaglen wariant a bod angen gosod meincnod ar gyfer y rhaglenni hynny. Nid yw hynny'n digwydd ar hyn o bryd—neu, o leiaf, nid yw'n digwydd yn ddigon cyson.

At the same time, there is also a warning that setting too many minor targets can be just as counterproductive, which leaves us with questions as to what kind of objectives should be set. However, everyone is agreed that we need to measure the effectiveness of all spending programmes and that we need to be able to benchmark those programmes. That does not happen currently—or, at least, it does not happen on a consistent enough basis.

Mae'r enghraifft yr oeddwn am dynnu sylw ati heddiw'n enghraifft loyw o arfer da a ddaeth gerbron y pwyllgor. Mae'n enghraifft, rwy'n credu, a all wneud gwahaniaeth yn y tymor hir—ac yr wyf yn pwysleisio mai yn y tymor hir y byddai hyn. Hynny yw'r CPB, sef yr hyn rwy'n credu yw enw'r corff yn yr Iseldiroedd—y 'central planning bureau', neu fiwro cynllunio canolog. Mae gan y biwro 100 o staff ac mae'n gwerthuso canlyniadau polisïau'r Llywodraeth. Mae'n gorff annibynnol o ran ei raglen waith, gyda phwyllgor rheoli annibynnol. Mae hyd yn oed yn gwerthuso maniffestos y gwrthbleidiau—os ydynt yn dymuno hynny—cyn etholiadau, sy'n wasanaeth rhyfeddol i ni ac yn 'concept' rhyfeddol i ni yn y gwledydd hyn. Fodd bynnag, yr hyn y mae'r corff hwn yn gallu ei wneud yw gwerthuso rhaglenni'r Llywodraeth wrth iddynt fynd yn eu blaenau. Mae hyd yn oed yn gwerthuso'r polisïau y mae Llywodraeth newydd yn eu cynnig ymlaen llaw, gan roi rhagolwg o'r hyn y mae'n tybio y bydd y canlyniadau. Dyna yw tryloywder mewn gwirionedd.

The example that I want to highlight this afternoon is an excellent example of good practice that came before the committee. It is an example, I believe, that could make a difference in the long term—and I emphasise that we are looking at the long term here. This is the CPB, which is, I believe, the name of the body in the Netherlands—the central planning bureau. The bureau has 100 staff and it evaluates the outcomes of Government policy. It is an independent body in terms of its work programme, with an independent management committee. It even evaluates the manifestos of opposition parties—if they so wish—before elections, which is an incredible service to us, and an incredible concept for us in these nations. However, what this body can do is to evaluate Government programmes as they proceed. It can even evaluate policies that a new Government is proposing in advance, giving a forecast of what it believes the outcomes will be. That is real transparency.

Mae'r gwerthusiad gwrthrychol hwn o holl waith y Llywodraeth, a'r gwaith monitro o bolisïau newydd, fel yr oeddwn yn dweud, yn gwneud byd o wahaniaeth. Rwy'n credu y byddai'n gwneud byd o wahaniaeth i'r gwasanaeth sifil o ran ei berfformiad. Byddai'n peri i wleidyddion feddwl yn ofalus iawn cyn rhuthro i greu strategaethau a deddfwriaeth, ac mi fyddai'n codi ansawdd maniffestos y gwrthbleidiau. Yn bwysicach na hynny, yn fy marn i, mi fyddai'n rhoi arf cryf yn nwylo'r etholwyr. Mi fyddai'n fodd i'r etholwyr gael rhyw fath o syniad o sut y mae Llywodraeth yn gweithredu a pha mor effeithiol y mae'n gwario'r arian. Byddai, fel yr wyf yn dweud, hefyd yn gosod her i bawb ohonom sy'n ymwneud â chreu polisi cyhoeddus. Nid wyf yn disgwyl i'r Gweinidog ddweud ei bod yn mynd i sefydlu corff tebyg yn ystod y flwyddyn nesaf, na'r blynyddoedd nesaf, ond rwy'n credu, fel nod ac amcan tymor hir, ei fod yn gorff y dylem ni yng Nghymru ei efelychu os ydym o ddifrif am greu trefn ddemocrataidd agored a thryloyw yma yng Nghymru.

This objective evaluation of all Government activity, and the monitoring work of new policies, as I have mentioned, makes a world of difference. I think it would make a world of difference to the performance of the civil service. It would mean that politicians would have to think very carefully before rushing to create strategies and legislation, and it would improve the quality of opposition party manifestos. More importantly, in my view, it would put a strong weapon in the hands of the electorate. It would allow the electorate to have some sort of idea of how the Government is working and how effectively it is spending its budget. It would also, as I say, set a challenge for all of us involved in creating public policy. I do not expect the Minister to say that she is going to establish such a body in the next year, or the next few years, but I believe that, as a long-term aim and objective, it is a body that we in Wales should emulate if we are serious about creating an open and transparent democracy here in Wales.

15:30

## Julie Morgan Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I certainly agree with the last comments that were made, and with how important and good it would be if we could have that sort of system here in Wales. I know that the Office for Budget Responsibility, in Westminster, if this issue were discussed there, would be open to working with opposition parties, but that was actually rejected by the Government at Westminster.

Rwy'n sicr yn cytuno â'r sylwadau diwethaf a wnaed, a chytunaf pa mor bwysig a da fyddai cael system o'r fath yma yng Nghymru. Gwn y byddai'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, yn San Steffan, pe bai'r mater hwn yn cael ei drafod yno, yn barod i gydweithio â'r gwrthbleidiau, ond gwrthodwyd hynny mewn gwirionedd gan y Llywodraeth yn San Steffan.

So, it is obviously a very important time for us on the Finance Committee to have had this inquiry, at a time of great potential change as to how we are going to be dealing with finances here in the National Assembly, and the Government in Wales. As the Chair has said, we already have the Wales Bill actually going through Westminster at the moment, where some taxes will be devolved, and, obviously, borrowing powers have been agreed.

Felly, mae'n amlwg yn amser pwysig iawn i ni ar y Pwyllgor Cyllid fod wedi cael yr ymchwiliad hwn, ar adeg o newid mawr posibl o ran sut rydym yn mynd i ymdrin â materion ariannol yma yn y Cynulliad Cenedlaethol, ac yn Llywodraeth Cymru. Fel y dywedodd y Cadeirydd, eisoes mae gennym Fil Cymru ar ei ffordd drwy San Steffan ar hyn o bryd, lle bydd rhai trethi yn cael eu datganoli, ac, yn amlwg, mae pwerau benthyca wedi eu cytuno.

One of the key points made during the discussions at the committee was that all public finance management should really be considered as a whole. Although this report is looking at best practice for the budget process, there really should be a whole-system approach, right from the beginning, when there is consultation with the stakeholders, and then to the final outcomes, which have already been debated here today—how important, I think, we felt it was to link outcomes with the sums of money that are going in.

Un o'r pwyntiau allweddol a wnaed yn ystod y trafodaethau yn y pwyllgor oedd y dylid ystyried pob rheolaeth ar gyllid cyhoeddus mewn gwirionedd yn ei gyfanrwydd. Er bod yr adroddiad hwn yn edrych ar arferion gorau ar gyfer prosesau'r gyllideb, mewn gwirionedd dylid cael ymagwedd system-gyfan, o'r cychwyn cyntaf, pan fo ymgynghori â'r rhanddeiliaid, ac yna yn y canlyniadau terfynol, sydd eisoes wedi eu trafod yma heddiw—pa mor bwysig, rwy'n meddwl, y teimlem oedd cysylltu canlyniadau â'r cyfanswm arian sy'n cael ei wario.

It is obviously a time of change, but it just feels today that there is less change than we expected. I think that it is difficult to have this debate without referring to the fact that we did think that, after the Scottish referendum, there would be a big move towards listening, with respect to the devolved bodies, and that there would be a move towards giving more powers to them and responding to what they wanted. So, in the context of this committee report, I think that it is very disappointing that the Prime Minister yesterday appeared to make a complete u-turn, and said that he would not consider reforming the Barnett formula. I think that that means that we have uncertainty again now in the future, and that is very much the context in which this Finance Committee report is being discussed now.

Mae'n amlwg yn gyfnod o newid, ond mae'n teimlo heddiw bod llai o newid na'r disgwyl. Credaf ei bod yn anodd i ni gael y ddadl hon heb gyfeirio at y ffaith ein bod wedi meddwl, ar ôl refferendwm yr Alban, y byddai cam mawr tuag at wrando, o ran y cyrff datganoledig, ac y byddai symud tuag at roi rhagor o bwerau iddynt ac ymateb i'r hyn roeddent ei eisiau. Felly, yng nghyd-destun yr adroddiad pwyllgor hwn, rwy'n meddwl ei bod yn siomedig iawn i'r Prif Weinidog ddoe wneud tro pedol cyfan, fel petai, gan ddweud na fyddai'n ystyried diwygio fformiwla Barnett. Credaf fod hynny'n golygu bod gennym ansicrwydd eto yn awr yn y dyfodol, a dyna'r union gyd-destun sydd gennym ar gyfer trafod yr adroddiad hwn gan y Pwyllgor Cyllid yn awr.

15:32 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Will the Member give way?

A wnaiff yr Aelod ildio?

15:32 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Yes, certainly.

Gwnaf, yn sicr.

15:32 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

No, I am sorry, but you cannot take part in this debate. You were not here at the beginning.

Na, mae'n ddrwg gennyf, ond ni allwch gymryd rhan yn y ddadl hon. Nid oeddech chi yma ar y dechrau.

15:32 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I am happy to give way.

Rwy'n hapus i ildio.

15:32 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

No, because he was not here at the beginning of the debate. Sorry.

Na, oherwydd nid oedd yma ar ddechrau'r ddadl. Mae'n ddrwg gennym.

15:32 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Okay, right. Thank you.

Iawn, felly. Diolch.

I know that the Cabinet committee on devolution is still looking at constitutional issues, but it does seem to be very much a move backwards. So, I do feel that the position of finances in Wales is very fluid, and it is in this context that the Finance Committee's report was carried out.

Gwn fod pwyllgor y Cabinet ar ddatganoli yn dal i edrych ar faterion cyfansoddiadol, ond ymddengys yn wir fel cam tuag yn ôl. Felly, teimlaf fod y sefyllfa ariannol yng Nghymru yn gyfnewidiol iawn, ac yn y cyd-destun hwnnw y cyflawnwyd adroddiad y Pwyllgor Cyllid.

One of the most important parts of the inquiry, I think, was the international comparisons, and looking at the principles of the 'OECD Best Practices for Budget Transparency'. There were 10 of those principles. The third of those was that the budget should be closely aligned with Government-wide strategic priorities. We have discussed linking outcomes, and Mike Hedges has given some very good examples of where you can link outcomes with the money that is put in.

Un o rannau pwysicaf yr ymchwiliad, rwy'n meddwl, oedd y cymariaethau rhyngwladol, ac edrych ar egwyddorion Arferion Gorau Tryloywder Cyllidebol y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD). Roedd 10 o'r egwyddorion hynny. Roedd traean ohonynt yn nodi y dylai'r gyllideb gael ei halinio'n agos yn erbyn blaenoriaethau strategol ledled y Llywodraeth. Rydym wedi trafod canlyniadau cysylltu, a rhoddwyd rhai enghreifftiau da iawn gan Mike Hedges o gysylltu canlyniadau â'r arian a werir.

The sixth principle is that the budget process should be inclusive, participative, and realistic. We did have some discussion earlier today, during questions to the Minister, about how children and young people could be included in the budget consultation. I would like to make that point again today. I do think that there is some effort made to do that here in Wales, but I do think that it could go much further. I know that there is a children's draft budget leaflet, but I think that, in order to make the budget process clear, and the importance of the whole proceedings, it is very important to try to reach out to children, and particularly to disadvantaged children—another point that was made earlier today.

Y chweched egwyddor yw y dylai'r broses gyllidebol fod yn gynhwysol, cyfranogol, a realistig. Cawsom rywfaint o drafodaeth yn gynharach heddiw, yn ystod y cwestiynau i'r Gweinidog, ynglŷn â sut y gallai plant a phobl ifanc gael eu cynnwys yn y gwaith ymgynghori ar y gyllideb. Hoffwn wneud y pwynt hwnnw eto heddiw. Credaf fod rhywfaint o ymdrech i wneud hynny yma yng Nghymru, ond rwy'n credu y gallai fynd yn llawer pellach. Gwn fod taflen gyllideb ddrafft i blant, ond rwy'n meddwl, er mwyn gwneud y broses gyllidebol yn glir, a phwysigrwydd y sefyllfa gyfan, mae'n bwysig iawn ceisio estyn allan at blant, yn enwedig plant dan anfantais—pwynt arall a wnaed yn gynharach heddiw.

The other group that I think we should make great efforts to reach are women. I think that we all know that women have suffered disproportionately as a result of the cuts that have been imposed over the last few years. It is important for women to put their voices into the budget process, to see whether they can influence the way that decisions are made. I know that we all pay lip service to this, but I think that, to actually do it, is very important. We know that there are some good examples. South Africa and New Zealand were given as highlights of good practice, but as my colleague, Mike Hedges, said. we were not able to go there to see what they did.

Y grŵp arall y credaf y dylem wneud ymdrechu i'w cyrraedd yw menywod. Credaf ein bod i gyd yn gwybod bod menywod wedi dioddef yn anghymesur o ganlyniad i'r toriadau sydd wedi cael eu gosod yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'n bwysig i fenywod leisio barn ym mhroses y gyllideb, i weld a allant ddylanwadu ar y ffordd y gwneir penderfyniadau. Gwn ein bod i gyd yn esgus cefnogi hyn, ond credaf fod gwneud hynny mewn gwirionedd yn bwysig iawn. Rydym yn gwybod bod rhai enghreifftiau da. Enwyd De Affrica a Seland Newydd fel enghreifftiau ardderchog o arfer da, ond fel y dywedodd fy nghydaelod, Mike Hedges, ni fu'n bosibl i ni fynd yno i weld yr hyn y maent yn ei wneud.

15:35

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister, Jane Hutt, to speak on behalf of the Government.

Galwaf ar y Gweinidog, Jane Hutt, i siarad ar ran y Llywodraeth.

15:35

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

First, I would like to thank the Chair of the Finance Committee, Jocelyn Davies, and all the members of the Finance Committee for their report. It is the first part of their inquiry into best practice budget processes, and the Welsh Government has welcomed the ongoing work of the committee in this area, and supports the motion.

Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, Jocelyn Davies, a holl aelodau'r Pwyllgor Cyllid am eu hadroddiad. Dyma ran gyntaf eu hymchwiliad i arferion gorau prosesau cyllidebol, ac mae Llywodraeth Cymru wedi croesawu gwaith parhaus y pwyllgor yn y maes hwn, ac yn cefnogi'r cynnig.

As the Wales Bill nears the end of its passage through the UK Parliament, we will soon gain further financial powers, including the ability to borrow to fund investment, to introduce new Welsh taxes to replace UK stamp duty land tax and landfill tax. This change to our fiscal responsibilities means that we will need to develop and implement a budgetary procedure that is fit for purpose. The Wales Bill provides the Assembly with the ability, as the Chair of the committee has said, to set its own budgetary procedures, so we must carefully consider how we implement these new powers to ensure that the way in which we agree the budget in Wales is appropriate to reflect our new fiscal responsibilities. However, we also recognise that this will be an area in which our powers may well continue to evolve. So, the committee's inquiry into best budget practice is very welcome. I recognise that you have gathered evidence from a number of different countries and experts on the operation of their budgetary procedures. You set out in your first stage report some of the key issues that we will need to focus on and address during this process. I am particularly pleased to note the committee's focus on devising new budgetary procedures that are holistic, that match best practice, and that are suitable for Wales and acceptable to the Welsh Government as well as to the Assembly as a whole. I firmly support this and, as I have always said and continue to say, I am committed to working jointly with the committee to develop a budgetary procedure on which we can all agree.

Gan fod Bil Cymru yn tynnu at ddiwedd ei daith drwy Senedd y DU, byddwn yn fuan yn ennill pwerau ariannol pellach, gan gynnwys y gallu i fenthyca er mwyn ariannu buddsoddiad, cyflwyno trethi Cymreig newydd i gymryd lle treth dir y dreth stamp yn y DU a threth tirlenwi. Mae hyn yn newid i'n cyfrifoldebau cyllidol sy'n golygu y bydd angen i ni ddatblygu a gweithredu gweithdrefn gyllidebol sy'n addas at y diben. Mae Bil Cymru yn rhoi i'r Cynulliad y gallu, fel y dywedodd Cadeirydd y pwyllgor, i osod ei gweithdrefnau cyllidebol ei hun, felly mae'n rhaid i ni ystyried yn ofalus sut rydym yn gweithredu'r pwerau newydd hyn i sicrhau bod y ffordd rydym yn cytuno ar y gyllideb yng Nghymru yn briodol er mwyn adlewyrchu ein cyfrifoldebau cyllidol newydd. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod y bydd hyn yn faes lle y gallai'n pwerau barhau i esblygu. Felly, mae croeso mawr i ymchwiliad y pwyllgor i arferion cyllidebol gorau. Rwy'n cydnabod eich bod wedi casglu tystiolaeth o nifer o wahanol wledydd ac arbenigwyr ar weithrediad eu gweithdrefnau cyllidebol. Rydych yn nodi yng ngham cyntaf eich adroddiad rai o'r materion allweddol y bydd angen i ni ganolbwyntio arnynt a mynd i'r afael â hwy yn ystod y broses hon. Rwy'n arbennig o falch o nodi ffocws y pwyllgor ar lunio gweithdrefnau cyllidebol newydd sy'n gyfannol, sy'n cyd-fynd ag arferion gorau, ac sy'n addas i Gymru ac yn dderbyniol i Lywodraeth Cymru yn ogystal ag i'r Cynulliad yn ei gyfanrwydd. Rwy'n llwyr gefnogi hyn ac, fel y dywedais erioed ac y dywedaf o hyd, rwyf wedi ymrwymo i gydweithio â'r pwyllgor i ddatblygu gweithdrefn gyllidebol y gallwn i gyd gytuno arni.

We have been committed as a Welsh Government to improving our approach to budgets and to the presentation of budget information. Of course, we could go deeper and we could go further, as Mike Hedges has raised, particularly when there is a reshuffle and a change in budgetary responsibilities, to show where that fits into the action lines. We have made significant progress through close collaboration with the committee. The powers in the Wales Bill give us fresh opportunities and the scope for more fundamental consideration.

Rydym wedi bod yn ymrwymo fel Llywodraeth Cymru i wella ein hymagwedd tuag at gyllidebau a'r dull o gyflwyno gwybodaeth am y gyllideb. Wrth gwrs, gallem fynd yn ddyfnach a gallem fynd ymhellach, fel y nododd Mike Hedges, yn enwedig pan fo ad-drefnu a newid mewn cyfrifoldebau cyllidebol, er mwyn dangos hynny yn y llinellau gweithredu. Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol drwy gydweithio'n agos â'r pwyllgor. Mae'r pwerau ym Mil Cymru yn rhoi cyfleoedd newydd i ni a chyfle i ystyried y sefyllfa'n fwy sylfaenol.

This recurring theme about outcomes and how we can ensure that we enable not just Assembly Members but the wider world and partners to understand the impact of our spend is fundamental. Mike Hedges drew attention to the inputs, outputs and outcomes in terms of Designed to Smile. This is something on which we have taken a number of steps over the past three years to build the budget process around our programme for government, on which, of course, we have to be held to account. There are challenges associated with this. We are building our understanding, with the committee, about how we can allocate the objectives of spend and link them to the outcomes. However, we have a shared objective in building this understanding, as Julie Morgan has recognised. The report acknowledges the challenges involved in doing so, and it is not least because of the complexity of the Welsh Government and the long-term nature of the policy issues that we face.

Mae'r thema gyson am ganlyniadau a sut y gallwn sicrhau ein bod yn galluogi nid yn unig Aelodau'r Cynulliad, ond y byd ehangach a phartneriaid i ddeall bod effaith ein gwariant yn sylfaenol. Tynnodd Mike Hedges sylw at fewnbynnau, allbynnau a chanlyniadau o ran y Cynllun Gwên. Dyma rywbeth y bu i ni gymryd nifer o gamau yn y tair blynedd diwethaf er mwyn datblygu proses gyllidebu o amgylch ein rhaglen lywodraethu, sy'n rhywbeth y disgwylir i ni, wrth gwrs, gael ein dwyn i gyfrif amdani. Mae heriau yn gysylltiedig â hyn. Rydym yn datblygu ein dealltwriaeth, ynghyd â'r pwyllgor, ynghylch sut y gallwn ddyrannu amcanion gwariant a'u cysylltu â chanlyniadau. Fodd bynnag, mae gennym amcan a rennir wrth ddatblygu'r ddealltwriaeth hon, fel y cydnabu Julie Morgan. Mae'r adroddiad yn cydnabod yr heriau sy'n gysylltiedig â gwneud hynny, sydd i raddau helaeth yn ymwneud â chymhlethdod Llywodraeth Cymru a natur hirdymor y materion polisi sy'n ein hwynebu.

It is true, as Julie Morgan says, that we need to look at this in terms of the public finances of Wales, for the people of Wales and our partners to understand and engage in. It is particularly challenging when we have reducing budgets, but I would say, as your Minister for finance, that this is a time when scrutiny is ever more important. Clearly, it must be robust in terms of the difficult decisions that we are making in-year and in the draft budget. It is about scrutinising us on our decisions and priorities. We can extend this to engaging with wider groups and wider population, which I did during my budget tour. The last meeting that I had was with a representative group from Chwarae Teg, who brought together women for a soapbox event. I am not sure whether I was on the soapbox, but they certainly were in terms of addressing any concerns or questions that they had about budgetary decisions.

Mae'n wir, fel y dywed Julie Morgan, y dylem edrych ar hyn yn nhermau cyllid cyhoeddus Cymru, i bobl Cymru a'n partneriaid ddeall ac ymgysylltu ag ef. Mae hyn yn gryn her, yn enwedig pan fo cyllidebau'n crebachu, ond carwn ddweud, fel eich Gweinidog cyllid, fod hwn yn gyfnod pan fydd craffu yn fwyfwy pwysig. Yn amlwg, mae'n rhaid iddo fod yn gadarn o ran y penderfyniadau anodd rydym yn eu gwneud yn ystod y flwyddyn ac yn y gyllideb ddrafft. Mae'n ymwneud â chraffu ein penderfyniadau a'n blaenoriaethau. Gallwn ymestyn hyn i gynnwys grwpiau ehangach a'r boblogaeth ehangach, sy'n rhywbeth y bu i mi ei wneud yn ystod fy nhaith gyllideb. Y cyfarfod diwethaf a gefais oedd gyda grŵp cynrychioliadol o Chwarae Teg, lle daeth menywod at ei gilydd ar gyfer digwyddiad bocs sebon. Nid wyf yn siŵr a oeddwn i ar y bocs sebon, ond roeddent hwy yn sicr o ran mynd i'r afael ag unrhyw bryderon neu gwestiynau a oedd ganddynt am benderfyniadau cyllidebol.

Also, I think that we could do a lot more in terms of engaging with children and young people. We need to make sure that the strategic, integrated impact assessment is robust.

Hefyd, rwy'n meddwl y gallem wneud llawer mwy o ran ymgysylltu â phlant a phobl ifanc. Mae angen i ni wneud yn siŵr bod yr asesiad effaith strategol, integredig yn gadarn.

15:40

## Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I am grateful to the Minister for taking an intervention. You say that we can do more with children. It was a straight budgetary decision that withdrew the money from Funky Dragon. Do you regret that type of process, when, halfway through a financial year, that type of support is withdrawn? A better impact at the start, and engagement with stakeholders at the start of the budgetary round might avoid such in-year cuts.

Rwy'n ddiolchgar i'r Gweinidog am dderbyn ymyriad. Rydych yn dweud y gallwn wneud mwy gyda phlant. Penderfyniad cyllidebol uniongyrchol oedd dileu'r arian ar gyfer y Ddraig Ffynci. A ydych yn gresynu at y math hwnnw o broses, pan fo'r math hwnnw o gefnogaeth yn cael ei dynnu'n ôl hanner ffordd drwy'r flwyddyn ariannol? Gallai sicrhau gwell effaith ar y dechrau, ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ar ddechrau'r cylch cyllidebol osgoi toriadau o'r fath yn ystod y flwyddyn.

15:40 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I understand that the Minister for Communities and Tackling Poverty is addressing this, following the recent debate, in terms of the involvement of, and engagement with, children in Wales, who have now got that grant allocation, engaging as well with the Presiding Officer in terms of all leaders across the Assembly signing up to ensuring that we take youth participation and the voice of young people forward, and acknowledging the important role that has been played by organisations like Funky Dragon. What we must do is build on that experience and move forward in a way that I hope the Minister has described.

Deallaf fod y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi'n mynd i'r afael â hyn, yn dilyn y ddadl ddiweddar, o ran cynnwys, ac ymgysylltu â phlant yng Nghymru, sydd erbyn hyn wedi cael y dyraniad grant hwnnw, gan ymgysylltu hefyd â'r Llywydd o ran cael yr holl arweinwyr ar draws y Cynulliad i ymrwymo i sicrhau ein bod yn hyrwyddo cyfranogiad ieuenctid a llais pobl ifanc, a chydnabod y rôl bwysig a gyflawnwyd gan sefydliadau fel y Ddraig Ffynci. Yr hyn sy'n rhaid i ni ei wneud yw adeiladu ar y profiad hwnnw a symud ymlaen mewn ffordd rwy'n gobeithio y mae'r Gweinidog wedi'i disgrifio.

Just moving on, Llywydd, we have got to consider how we can—and I have talked about the importance of scrutiny—balance that with providing early certainty to our delivery partners, and how we can look to working with the committee to design a procedure that is proportionate and effective. I think that the best practice that has been gained by the committee is very important. Alun Ffred Jones referred to a bureau in the Netherlands, which sounds very interesting, and I am sure that that is something that we could explore. I have been reviewing international budget procedures that have ranked highly on the international budget partnership open government survey, and that includes New Zealand and the OECD's principles of budgetary governance. I will be building on that for our budgetary procedure.

Gan symud ymlaen, Lywydd, mae'n rhaid i ni ystyried sut y gallwn—ac rwyf wedi siarad am bwysigrwydd craffu—gydbwyso hynny â darparu sicrwydd cynnar i'n partneriaid cyflawni, a sut y gallwn fynd ati i weithio gyda'r pwyllgor i lunio gweithdrefn sy'n gymesur ac yn effeithiol. Credaf fod yr arfer gorau a sicrhawyd gan y pwyllgor yn bwysig iawn. Cyfeiriodd Alun Ffred Jones at ganolfan yn yr Iseldiroedd, sy'n swnio'n ddiddorol iawn, ac rwy'n siŵr bod hynny'n rhywbeth y gallem ei ystyried. Rwyf wedi bod yn adolygu gweithdrefnau cyllidebol rhyngwladol sydd wedi sgorio'n uchel yn yr arolwg llywodraeth agored partneriaeth gyllidebol ryngwladol, ac mae hynny'n cynnwys Seland Newydd ac egwyddorion yr OECD o lywodraethu cyllidebol. Byddaf yn adeiladu ar hynny ar gyfer ein gweithdrefn gyllidebol.

I want to finally say that we are talking about now moving into the devolution of taxes and a new dimension to planning and modelling. That will require us to develop new forecasting and modelling procedures. We also recognise that the bulk of our funding will still come from the UK Government along with the Welsh block grant. So, we have to acknowledge the constraints of its processes and timescales. However, I will make this point about alignment—and Andrew R.T. Davies mentioned this. I do support the committee's conclusion for an alignment exercise to be carried out, to ensure that the Welsh Government's accounts use the same boundary for the budget as that used by the Treasury for the control of public expenditure. I will look at the timing of this in the context of the wider budgetary reform process.

Yn olaf, carwn ddweud ein bod yn siarad yn awr am symud at ddatganoli trethi a dimensiwn newydd i gynllunio a modelu. Bydd hynny'n ei gwneud yn ofynnol i ni ddatblygu gweithdrefnau modelu a rhagfynegi newydd. Rydym hefyd yn cydnabod y bydd y rhan fwyaf o'n cyllid yn dal i ddod oddi wrth Lywodraeth y DU ynghyd â'r grant bloc Cymru. Felly, mae'n rhaid i ni gydnabod cyfyngiadau ei phrosesau ac amserlenni. Fodd bynnag, carwn wneud y pwynt ynghylch alinio—a grybwyllwyd gan Andrew R. T. Davies. Rwyf yn cefnogi casgliad y pwyllgor ar gyfer gwneud ymarfer alinio, er mwyn sicrhau bod cyfrifon Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r un ffiniau ar gyfer y gyllideb â'r hyn a ddefnyddir gan y Trysorlys ar gyfer rheoli gwariant cyhoeddus. Byddaf yn edrych ar amseriad hyn yng nghyd-destun y broses ehangach o ddiwygio cyllidebol.

I just want to finally say, on a Welsh treasury, that building these functions is crucial—tax policy, tax administration and the production of forecasts. Both the committee and I had the opportunity to meet with Robert Chote from the OBR, which of course will help us in terms of his role in forecasting Welsh taxes. I believe that we have got the capacity in place to take this forward. I have a tax advisory policy group, but I look forward very much to the second part of the committee's inquiry.

I orffen, a gaf fi ddweud, o ran trysorlys Cymreig, bod datblygu'r swyddogaethau hyn yn hanfodol—polisi treth, gweinyddu'r dreth a chynhyrchu rhagolygon. Roedd gan y pwyllgor a minnau hefyd y cyfle gyfarfod â Robert Chote o'r OBR, a fydd wrth gwrs yn ein helpu o ran ei rôl yn rhagfynegi trethi Cymru. Credaf fod gennym y capasiti ar waith i fwrw ymlaen â hyn. Mae gen i grŵp polisi ymgynghorol ar drethi, ond rwy'n edrych ymlaen yn fawr at ail ran o ymchwiliad y pwyllgor.

15:44 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call on the Chair of the Finance Committee, Jocelyn Davies, to reply to the debate.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, Jocelyn Davies, i ymateb i'r ddadl.

15:44 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

We started off the debate with Mike Hedges, who reminded us of the difference between inputs, outputs and outcomes and cited the Designed to Smile programme as an illustration of those differences. I am grateful to him for putting those on the record. However, he also told us about the need for us to be perhaps a little bit more sophisticated when we assess the outcomes of public money spent here in Wales. Of course, he is correct that the current detail in the budget may not be suitable in all circumstances, and health, of course, is a very good example of that.

Dechreuasom y drafodaeth gyda Mike Hedges, a chawsom ein hatgoffa o'r gwahaniaeth rhwng mewnbynnau, allbynnau a chanlyniadau a ddyfynnwyd yn rhaglen Cynllun Gwên i ddangos y gwahaniaethau hynny. Rwy'n ddiolchgar iddo am roi'r rheiny ar y cofnod. Fodd bynnag, bu iddo sôn hefyd am yr angen i ni fod efallai ychydig yn fwy soffistigedig wrth asesu canlyniadau arian cyhoeddus a werir yma yng Nghymru. Wrth gwrs, mae'n dweud y gwir nad yw manylion cyfredol y gyllideb yn addas yn yr holl amgylchiadau, ac mae iechyd, wrth gwrs, yn enghraifft dda iawn o hynny.

It is nice that Andrew R.T. Davies contributed to our debate because it is always nice for a non-committee member to take an interest, even if it is at the very last moment. However, this does demonstrate how important budget scrutiny should be to all of us, and not just to those on the Finance Committee. I thank him for his support for our work on this. Of course, he is quite right to say that reducing budgets present an opportunity for us to think carefully about what our priorities ought to be.

Mae'n braf bod Andrew R. T. Davies wedi cyfrannu at ein dadl oherwydd mae bob amser yn braf bod aelod nad yw ar y pwyllgor yn cymryd diddordeb, hyd yn oed os yw ar y funud olaf un. Fodd bynnag, mae hyn yn dangos pa mor bwysig y dylai craffu ar y gyllideb fod i bob un ohonom, ac nid yn unig i'r rhai sydd ar y Pwyllgor Cyllid. Rwy'n diolch iddo am ei gefnogaeth i'n gwaith ar hyn. Wrth gwrs, mae'n gwbl gywir i ddweud bod cyllidebau sy'n crebachu yn gyfle i ni feddwl yn ofalus am yr hyn ddylai ein blaenoriaethau fod.

Alun Ffred Jones reminded us that witnesses did warn us about outcomes that might be too vague to be measurable, but also that you do not want targets that are too detailed, as that is not always helpful either. He also cited the examples of the independent evaluation of Government policies and programmes, and we all found that very interesting and very useful, as the Minister has just mentioned. We certainly need to think carefully about how that can be achieved, because, over time, it would enhance our democracy in Wales.

Cawsom ein hatgoffa gan Alun Ffred Jones fod tystion wedi ein rhybuddio am ganlyniadau a allai fod yn rhy niwlog i fod yn fesuradwy, ond hefyd nad ydych am dargedau sy'n rhy fanwl, gan nad yw hynny bob amser o gymorth ychwaith. Dyfynnodd hefyd enghreifftiau o'r gwerthusiad annibynnol o bolisïau a rhaglenni Llywodraeth, a oedd yn dra diddorol a defnyddiol i ni i gyd, fel y mae'r Gweinidog newydd ei grybwyll. Yn sicr mae angen i ni feddwl yn ofalus am sut y gellir cyflawni hynny, oherwydd, dros gyfnod o amser, byddai'n gwella ein democratiaeth yng Nghymru.

Julie Morgan said that a whole-system approach is desirable, and the evidence that we received certainly supported that. Julie, I did hear your views on the disappointment on the turn of events since the referendum result in Scotland. As Chair, I will simply note those, but I am sure that you will know how I personally feel about that matter.

Dywedodd Julie Morgan bod dull system gyfan yn ddymunol, ac mae'r dystiolaeth a gawsom yn sicr yn cefnogi hynny. Julie, clywais eich barn ar y siom yn y tro pedol ers canlyniad y refferendwm yn yr Alban. Fel Cadeirydd, byddaf yn syml yn eu nodi, ond rwy'n siŵr y byddwch yn gwybod sut rwyf finnau'n bersonol yn teimlo ynglŷn â hynny.

We did not visit New Zealand, which is an example of best practice that is often cited, and perhaps we will be able to do that for phase 2, and perhaps the Minister would agree to come with us. We ought to aspire to best practice, because £15 billion of public money every single year is not to be sniffed at, and it is our responsibility to spend it well and wisely, and for us to hold the Government to account as best we can.

Nid aethom i ymweld â Seland Newydd, sy'n enghraifft a ddyfynnir yn aml o arfer gorau, ac efallai y gallwn wneud hynny ar gyfer cam 2, ac efallai y byddai'r Gweinidog yn cytuno i ddod gyda ni. Dylem anelu at arferion gorau, gan fod £15 biliwn o arian cyhoeddus bob blwyddyn unigol yn swm gwerth chweil, a'n cyfrifoldeb ni yw ei wario'n dda ac yn ddoeth, gan ddal y Llywodraeth i gyfrif hyd eithaf ein gallu.

I was pleased that the Minister accepted our conclusions and has, once again, committed on the record to working jointly with us. Obviously, her mind is not closed to enhancing transparency for the future, but it is not easy to achieve that overnight, and we understand that that is something that has to be worked towards. Therefore, we must not underestimate the challenges, because scrutiny would be different and, as the leader of the Conservatives said earlier, we would need to be more mature about it. We all need to accept that. I hope that our work will assist the Assembly to raise its game.

Roeddwn yn falch bod y Gweinidog wedi derbyn ein casgliadau ac unwaith eto, mae wedi ymrwymo yn y cofnod i gydweithio â ni. Yn amlwg, nid yw wedi cau ei meddwl i wella tryloywder yn y dyfodol, ond nid yw'n hawdd cyflawni hynny dros nos, ac rydym yn deall bod hynny'n rhywbeth y mae'n rhaid gweithio tuag ato. Felly, rhaid inni beidio â diystyru'r heriau, gan y byddai craffu yn wahanol ac, fel y dywedodd arweinydd y Ceidwadwyr yn gynharach, byddai angen i ni gael agwedd aeddfetach tuag ato. Mae angen i bob un ohonom dderbyn hynny. Gobeithiaf y bydd ein gwaith yn gymorth i'r Cynulliad anelu'n uwch.

I would like to thank everyone who has spoken in the debate today. It is clear that the passing of the Wales Bill will be a landmark moment that will significantly change the nature of the Assembly, and the committee hopes that this inquiry will contribute to ensuring that future budgetary processes for Wales are, in fact, fit for purpose. As I said, this will not be an easy task and it will bring its challenges, but it is our responsibility to assist with this development, and we look forward to doing that.

Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi siarad yn y ddadl heddiw. Mae'n amlwg y bydd pasio Bil Cymru yn foment arwyddocaol a fydd yn newid natur y Cynulliad yn sylweddol, ac mae'r pwyllgor yn gobeithio y bydd yr ymchwiliad hwn yn cyfrannu at sicrhau bod prosesau cyllidebol Cymru yn y dyfodol mewn gwirionedd yn addas at y diben. Fel y dywedais, ni fydd hon yn dasg hawdd a bydd yn gryn her, ond ein cyfrifoldeb yw cynorthwyo gyda'r datblygiad hwn, ac edrychwn ymlaen at wneud hynny.

Therefore, on behalf of the committee, I would like to thank all of those who gave evidence to the inquiry. Their contributions were vital in helping us to reach our conclusions, and I would also like to thank the members and everybody who supported the committee in its work. We are pleased with the positive response from the Government and we look forward to working with the Minister as we undertake part 2 of our inquiry.

Felly, ar ran y pwyllgor, hoffwn ddiolch i bawb a roddodd dystiolaeth i'r ymchwiliad. Roedd eu cyfraniadau yn hanfodol i'n helpu i gyrraedd ein casgliadau, a hoffwn hefyd ddiolch i'r aelodau a phawb a gefnogodd y pwyllgor yn ei waith. Rydym yn falch o ymateb cadarnhaol y Llywodraeth ac rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda'r Gweinidog wrth i ni ymgymryd â rhan 2 o'n hymchwiliad.

15:48

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to note the Finance Committee's report. Does any Member object? I see that there is no objection. Therefore, it is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw nodi adroddiad y Pwyllgor Cyllid. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes gwrthwynebiad. Felly, fe'i derbynnir yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 15:48.*

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 15:48.*

15:48

# Adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynghylch Gwasanaethau Orthodontig yng Nghymru

# The Health and Social Care Committee's Report on Orthodontic Services in Wales

Y

Senedd.tv Fideo Video

## Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

I call on the Chair of the Health and Social Care Committee, David Rees, to move the motion.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, David Rees, i gyflwyno'r cynnig.

Cynnig NDM5590 David Rees

Motion NDM5590 David Rees

Yn cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar wasanaethau orthodontig yng Nghymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Gorffennaf 2014.

Notes the report by the Health and Social Care Committee on orthodontic services in Wales, which was laid in the Table Office on 15 July 2014.

15:48

## David Rees Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. I move the motion.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Cyflwynaf y cynnig.

I am pleased this afternoon to open this debate on the Health and Social Care Committee's report on orthodontic services in Wales. However, before I discuss our report in more detail, I would like to put some thanks on the record. I would like to thank those who gave their time to give evidence to our inquiry. I would also like to extend my thanks to my colleagues in the committee and the Minister for the very constructive and collaborative manner in which all have approached this inquiry. I want to place on record our thanks to the committee clerk and her team for the professionalism and dedication always given to the committee. My final thanks are to the third Assembly's Health, Wellbeing and Local Government Committee—while no member of that committee is in the Chamber at this time, Ann Jones and Nick Ramsay were both members of that committee—as the recommendations of that committee provided a firm basis for our inquiry.

Mae'n bleser gen i y prynhawn hwn agor y ddadl hon ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar wasanaethau orthodontig yng Nghymru. Fodd bynnag, cyn i mi drafod ein hadroddiad yn fanylach, hoffwn roi rhai diolchiadau ar y cofnod. Hoffwn ddiolch i'r rhai a roddodd o'u hamser i roi tystiolaeth i'n hymchwiliad. Hoffwn hefyd estyn fy niolch i'm cydweithwyr yn y pwyllgor a'r Gweinidog am y modd adeiladol a chydweithredol iawn y bu i bawb fynd ati gyda'r ymchwiliad hwn. Rwyf am gofnodi ein diolch i glerc y pwyllgor a'i thîm am y proffesiynoldeb a'r ymroddiad bob amser a roddwyd i'r pwyllgor. Hoffwn ddiolch yn olaf i drydydd Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol y Cynulliad Lleol Bwyllgor-er nad oes yr un aelod o'r pwyllgor hwnnw yn y Siambr ar hyn o bryd, roedd Ann Jones a Nick Ramsay fel ei gilydd yn aelodau-gan fod argymhellion y pwyllgor hwnnw wedi rhoi sylfaen gadarn ar gyfer ein hymchwiliad.

Our report makes six recommendations. I do not intend to cover them in detail, but if you wish to do so, the report is there for you to read. However, we do intend to try to maintain the positive direction of travel in the delivery of orthodontic services in Wales since 2011. I am pleased that the Minister, in his written response to our report, accepted all six recommendations.

Mae ein hadroddiad yn gwneud chwe argymhelliad. Nid wyf yn bwriadu ymdrin â hwy yn fanwl, ond os ydych yn dymuno gwneud hynny, mae'r adroddiad ar gael i chi ei ddarllen. Fodd bynnag, rydym yn bwriadu ceisio parhau â'r cyfeiriad teithio cadarnhaol wrth ddarparu gwasanaethau orthodontig yng Nghymru ers 2011. Rwy'n falch fod y Gweinidog, yn ei ymateb ysgrifenedig i'n hadroddiad, wedi derbyn pob un o'r chwe argymhelliad.

The evidence that we heard during our inquiry demonstrated that progress has been made since our predecessor committee reported. One important development has been the establishment in 2011 of the three regional managed clinical networks, in north, south-east and south-west Wales. We heard during our inquiry that these networks have improved relationships, facilitated more robust data collection and provided a mechanism for the sharing of best practice.

Mae'r dystiolaeth a glywsom yn ystod ein hymchwiliad yn dangos bod cynnydd wedi ei wneud ers adroddiad y pwyllgor a'n rhagflaenodd. Un datblygiad pwysig oedd sefydlu tri rhwydwaith clinigol yn 2011 wedi'u rheoli'n rhanbarthol, yn y gogledd, y de-ddwyrain a de-orllewin Cymru. Clywsom yn ystod ein hymchwiliad bod y rhwydweithiau hyn wedi gwella cysylltiadau, hwyluso dull cadarnach o gasglu data a darparu mecanwaith ar gyfer rhannu arfer gorau.

In his written response to our report, the Minister indicated that he anticipates that the role of the managed clinical networks will develop and support the achievement of greater efficiencies. As a committee, we would like to see this role include working with health boards and with the Minister in order to make sure that there are robust monitoring arrangements in place to ensure compliance with treatment outcome reporting requirements, and to improve the appropriateness of referrals for orthodontic treatment by identifying patterns and delivering suitably targeted interventions.

Yn ei ymateb ysgrifenedig i'n hadroddiad, nododd y Gweinidog ei fod yn rhagweld y bydd rôl y rhwydweithiau clinigol a reolir yn datblygu c yn hybu'r gwaith o gyflawni mwy o effeithlonrwydd. Fel pwyllgor, hoffem weld y rôl hon yn cynnwys gweithio gyda byrddau iechyd a chyda'r Gweinidog er mwyn gwneud yn siŵr bod trefniadau monitro cadarn ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion adrodd ar ganlyniadau triniaeth, a gwella priodoldeb atgyfeiriadau ar gyfer triniaeth orthodontig drwy nodi patrymau a darparu ymyriadau wedi'u targedu'n addas.

Also in his response to our report, the Minister acknowledged the evidence that we heard about the variability of waiting times across Wales in relation to primary and secondary orthodontic care. In some parts of Wales, patients may wait two to three years before receiving treatment. This can have consequences for the effectiveness of treatment as children experience delays in being transferred to secondary care, or pass the optimum age for treatment. While some of those who gave evidence to our inquiry advocated a one-off waiting list initiative to reduce waiting times for those currently awaiting orthodontic services, others took the view that a more suitable approach would be to improve the appropriateness of referrals and increase efficiencies within the system.

Hefyd yn ei ymateb i'n hadroddiad, cydnabu'r Gweinidog y dystiolaeth a glywsom am yr amrywiadau o amseroedd aros ledled Cymru mewn perthynas â gofal orthodontig sylfaenol ac eilaidd. Mewn rhai rhannau o Gymru, gall cleifion aros dwy i dair blynedd cyn derbyn triniaeth. Gall hyn effeithio ar effeithiolrwydd y driniaeth fel plant yn profi oedi wrth gael eu trosglwyddo i ofal eilaidd, neu basio'r oedran gorau posibl ar gyfer triniaeth. Er bod rhai o'r rhai a roddodd dystiolaeth i'n hymchwiliad wedi argymell menter rhestr aros unwaith ac am byth er mwyn lleihau amseroedd aros ar gyfer y rhai sy'n aros ar hyn o bryd am wasanaeth orthodontig, roedd eraill o'r farn y byddai gwella priodoldeb atgyfeiriadau a chynyddu effeithlonrwydd o fewn y system yn ddull mwy addas.

I welcome the Minister’s commitment to provide new guidance to health boards on managing orthodontic waiting lists. However, if we are to be sure that the actions suggested in this guidance are effective in improving waiting times, it is important that their impact is monitored. I would be grateful if the Minister would set out the mechanisms by which he intends to monitor the effectiveness of the new guidance on reducing waiting times.

Rwy’n croesawu ymrwymiad y Gweinidog i ddarparu canllawiau newydd ar reoli rhestrau aros orthodontig i fyrddau iechyd. Fodd bynnag, os ydym am fod yn siŵr bod y camau gweithredu a awgrymir yn y canllawiau hyn yn effeithiol wrth wella amseroedd aros, mae'n bwysig bod eu heffaith yn cael ei fonitro. Byddwn yn ddiolchgar pe byddai'r Gweinidog yn nodi’r dulliau y mae'n bwriadu eu defnyddio i fonitro effeithiolrwydd y canllawiau newydd ar leihau amseroedd aros.

Another impact on waiting lists could be the current thresholds for NHS orthodontic services. We heard mixed views about whether they remain appropriate. At present, only those patients assessed at levels 4 or 5 on the index of orthodontic treatment need are eligible to receive treatment, although those at level 3 could be considered eligible if there was a high aesthetic component included. Health boards recognised the psychological and oral hygiene benefits of orthodontics, but they also told us about the benefits of preventative schemes such as Designed to Smile. As a committee, we agree that access to NHS orthodontic services should be based on health need, not on purely cosmetic demand, and that the prioritisation of investment in oral health should take into account the health impact at a population level as well as an individual level. To that end, we expect that the Minister will keep his priorities under the national oral health plan for Wales under review to ensure that the actions delivered through the strategy achieve the intended outcomes and represent value for money.

Effaith arall ar restrau aros o bosibl yw’r trothwyon presennol ar gyfer gwasanaethau orthodontig y GIG. Clywsom farn gymysg ynghylch a ydynt yn parhau i fod yn briodol. Ar hyn o bryd, dim ond y cleifion hynny a aseswyd ar lefelau 4 neu 5 ar fynegai angen triniaeth orthodontig sy’n gymwys i dderbyn triniaeth, er y gellid ystyried rhai sydd ar lefel 3 yn gymwys pe cynhwysid elfen esthetig uchel. Cydnabu byrddau iechyd fanteision orthodonteg ar sail seicolegol a hylendid y geg, ond soniwyd wrthym hefyd am fanteision cynlluniau ataliol fel Cynllun Gwên. Fel pwyllgor, rydym yn cytuno y dylai mynediad i wasanaethau orthodontig y GIG fod yn seiliedig ar anghenion iechyd, nid ar alw cosmetig yn unig, ac y dylai blaenoriaethu buddsoddiad mewn iechyd y geg ystyried yr effaith ar iechyd ar lefel y boblogaeth yn ogystal ag ar lefel yr unigolyn. I'r perwyl hwnnw, rydym yn disgwyl y bydd y Gweinidog yn parhau i adolygu ei flaenoriaethau o dan gynllun iechyd y geg cenedlaethol ar gyfer Cymru er mwyn sicrhau bod y camau a ddarperir drwy'r strategaeth yn cyflawni'r canlyniadau a fwriedir ac yn cynrychioli gwerth am arian.

Orthodontic services are increasingly being delivered through more innovative models to respond to local needs. More orthodontic services are being delivered by dentists with special interests or by orthodontic therapists, which is releasing capacity among specialist orthodontists to deliver more specialised services. Those new models of delivery can play in an important role, such as continuing the decrease in the number of assessments undertaken that do not lead to treatment— once a significant problem. We have seen that decrease happening.

Mae gwasanaethau orthodontig yn cael eu darparu fwyfwy drwy fodelau mwy arloesol i ymateb i anghenion lleol. Mae mwy o wasanaethau orthodontig yn cael eu darparu gan ddeintyddion sydd â diddordebau arbennig neu gan therapyddion orthodontig, sy'n rhyddhau capasiti ymhlith orthodeintyddion arbenigol i ddarparu gwasanaethau mwy arbenigol. Gall y modelau darparu newydd chwarae rhan bwysig, megis parhau i leihau nifer yr asesiadau a gynhelir nad ydynt yn arwain at driniaeth— a oedd unwaith yn broblem sylweddol. Gwelsom y lleihad hwnnw’n digwydd.

However, while it is clear that the direction of travel is going in the right way, we believe that there is still further to go. We heard evidence during our inquiry that elements of the 2006 general dental contract are creating barriers to the ongoing development of flexible, innovative and cost-effective orthodontic services in Wales. We are aware that work has begun on an England-and-Wales basis to review the contract. We expect that, as a minimum, the Minister will ensure that the review results in contractual arrangements that provide sufficient flexibility for health boards to be innovative in the way that they commission services, and to reflect new service delivery models in the funding of services.

Fodd bynnag, er ei bod yn amlwg ein bod ar y trywydd iawn, credwn fod llawer pellach i fynd. Clywsom dystiolaeth yn ystod ein hymchwiliad fod elfennau o gontract deintyddol cyffredinol 2006 yn creu rhwystrau i ddatblygiad parhaus gwasanaethau orthodontig hyblyg, arloesol a chost-effeithiol yng Nghymru. Rydym yn ymwybodol bod y gwaith wedi dechrau ar sail Cymru a Lloegr i adolygu'r contract. Rydym yn disgwyl y bydd y Gweinidog o leiaf yn sicrhau bod yr adolygiad yn esgor ar drefniadau cytundebol sy'n rhoi digon o hyblygrwydd i fyrddau iechyd i fod yn arloesol yn y ffordd y maent yn comisiynu gwasanaethau, ac yn adlewyrchu modelau darparu gwasanaethau newydd wrth ariannu gwasanaethau.

When entering into contracts for the provision of orthodontic services, we believe as a committee that service quality is paramount. Contractual arrangements are a matter for individual health boards but, when commissioning services and entering into contracts, they must take account of appropriate contract lengths, robust performance and quality monitoring arrangements, protections against the selling on of contracts, and contract exit arrangements. I welcome the Minister’s acknowledgement in his response of the need for flexibility in contract length and of the importance of linking contract length to performance and delivery of quality outcomes. I look forward to hearing how he will ensure that health boards have sufficient guidance to support them in entering into contracts for orthodontic services that meet local needs.

Wrth ymrwymo i gontractau ar gyfer darparu gwasanaethau orthodontig, credwn fel pwyllgor fod ansawdd y gwasanaeth yn hollbwysig. Mae trefniadau cytundebol yn fater i fyrddau iechyd unigol, ond, wrth gomisiynu gwasanaethau a llunio contractau, rhaid iddynt ystyried hyd priodol contract, perfformiad cadarn a threfniadau monitro ansawdd, camau gwarchod rhag gwerthu contractau, a threfniadau gadael contract. Rwy’n croesawu i’r Gweinidog yn ei ymateb gydnabod yr angen am hyblygrwydd o ran hyd y contract a phwysigrwydd cysylltu hyd y contract â pherfformiad a chyflawni canlyniadau o ansawdd. Edrychaf ymlaen at glywed sut y bydd yn sicrhau bod byrddau iechyd yn cael digon o arweiniad i'w helpu i ymrwymo i gontractau ar gyfer gwasanaethau orthodontig sy'n diwallu anghenion lleol.

One particular aspect of the contractual arrangements that caused concern was the current payment arrangements, under which orthodontists are awarded units of orthodontic activity for each course of treatment at the outset of that treatment. In other words, they are paid upfront for the full course of treatment for a patient even if the patient does not complete the treatment. This could result in health boards paying twice if a patient changes service provider during the course of their treatment. So, if a patient starts the treatment with one orthodontist but then goes to another orthodontist to finish the treatment, it is the same course of treatment but it will be paid for twice because of the way we work. We welcome the Minister’s commitment to consider changes to regulations to address this by linking a proportion of payment to the receipt of evidence that treatment has been completed. It is to be hoped that, in addition to preventing double payments, such a change might also increase focus on service quality.

Un agwedd benodol ar y trefniadau cytundebol a oedd yn achosi pryder oedd y trefniadau talu presennol, lle dyfarnwyd i orthodeintyddion unedau gweithgarwch orthodontig am bob cwrs o driniaeth ar ddechrau'r driniaeth honno. Mewn geiriau eraill, maent yn cael eu talu ymlaen llaw am gwrs llawn o driniaeth i glaf hyd yn oed os nad yw'r claf yn cwblhau'r driniaeth. Gallai hyn arwain at fyrddau iechyd yn talu ddwywaith os yw claf yn newid darparwr gwasanaeth yn ystod ei driniaeth. Felly, os yw claf yn dechrau ar driniaeth gydag un orthodeintydd ond wedyn yn mynd at orthodeintydd arall i orffen y driniaeth, un cwrs o driniaeth yw hynny, ond telir amdano ddwywaith oherwydd y ffordd rydym yn gweithio. Rydym yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i ystyried newidiadau i reoliadau er mwyn mynd i'r afael â hyn drwy gysylltu cyfran o daliad â thystiolaeth a ddaw i law sy’n dangos bod y driniaeth wedi cael ei chwblhau. Dylid gobeithio yn ogystal ag atal taliadau dwbl, y gallai newid o'r fath hefyd wella’r ffocws ar ansawdd gwasanaeth.

In conclusion, as a committee we are pleased to see that, since the report of our predecessor committee, progress has been made to improve the delivery of orthodontic services in Wales. We hope that our recommendations will assist in maintaining and driving this progress and that should we or our successor committee in the fifth Assembly revisit the subject of orthodontics in future, we would hear that everybody across Wales has equitable access to effective, efficient, high-quality orthodontic services.

I gloi, fel pwyllgor rydym yn falch o weld, ers adroddiad y pwyllgor a'n rhagflaenodd, y cafwyd cynnydd o ran y ffordd y darperir gwasanaethau orthodontig yng Nghymru. Rydym yn gobeithio y bydd ein hargymhellion yn helpu i gynnal a hybu’r cynnydd hwn ac os daw cyfle i ni neu ein pwyllgor olynol yn y pumed Cynulliad edrych eto ar faterion orthodonteg yn y dyfodol, y byddem yn clywed bod pawb ar draws Cymru yn cael mynediad cyfartal at wasanaethau orthodontig effeithiol, effeithlon, o ansawdd uchel.

15:56

## Darren Millar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

As the Chair has already outlined, this was a matter that was considered by an inquiry in the third Assembly by the then health committee, which I was pleased to be able to chair at that time. Indeed, it was pleasing to note that there has been some progress on this issue here in Wales, although of course the pace of progress has not been perhaps as fast as everybody would have hoped. However, I do want to put on record my thanks to the committee Chair and, indeed, to the witnesses and the clerks of the committee for the effort that they put into making sure that our inquiry was of value.

Fel yr amlinellwyd eisoes gan y Cadeirydd, dyma fater a gafodd ei ystyried gan ymchwiliad yn y trydydd Cynulliad gan y pwyllgor iechyd, ymchwiliad yr oeddwn yn falch o allu bod yn gadeirydd arno ar y pryd. Yn wir, yr oedd yn bleser nodi y bu rhywfaint o gynnydd ar y mater yma yng Nghymru, er na fu’r cynnydd o bosibl mor gyflym wrth gwrs ag y byddai pawb wedi gobeithio. Fodd bynnag, rwyf am gofnodi fy niolch i Gadeirydd y pwyllgor ac, yn wir, i'r tystion a chlercod y pwyllgor am yr ymdrech a wnaed ganddynt i sicrhau bod ein hymchwiliad yn werth chweil.

There were a number of issues that caught my attention during the inquiry. The biggest one is this whole debate about the threshold at which people ought to be entitled to orthodontic treatment and whether everybody deserves, by right, to have a Hollywood smile in Wales or whether there ought to be perhaps a different approach to those levels of orthodontic need that the Chair referred to in his opening remarks. It appears, certainly on the face of it, that we have to do one of two things in terms of our orthodontic services in Wales: either increase the capacity of the orthodontic services to be able to cope with the number of people who want and need access to treatment, or restrict access in some way to make sure that it is more focused and targeted on those people in greatest need. That is not to say that there are not people who are inappropriately referred for treatment, and we did hear that there are some general dental practitioners who are referring 40% or more of patients who do not actually meet the threshold. It was very clear to me that there needed to be much more training and education of general dental practitioners to assist them in being able to determine whether somebody needed to be referred into the system for orthodontics. Of course, if you refer too many people, it is very difficult to tailor the capacity to meet the real demand out there for services.

Tynnodd nifer o faterion fy sylw yn ystod yr ymchwiliad. Y mater mwyaf yw'r ddadl gyfan ynghylch y trothwy lle dylai pobl gael yr hawl i driniaeth orthodontig ac a yw pawb yn haeddu, ac yn gallu hawlio yng Nghymru y wên berffaith Hollywoodaidd, neu a ddylai fod ymagwedd wahanol o bosibl i'r lefelau hynny o angen orthodontig y cyfeiriodd y Cadeirydd ato yn ei sylwadau agoriadol. Ymddengys, yn sicr ar yr olwg gyntaf, fod yn rhaid inni wneud un o ddau beth o ran ein gwasanaethau orthodontig yng Nghymru: naill ai rhaid cynyddu cynhwysedd y gwasanaethau orthodontig i allu ymdopi â'r nifer sydd am gael ac sydd angen mynediad i driniaeth, neu gyfyngu mynediad mewn rhyw fodd gan sicrhau triniaeth gyda mwy o ffocws sydd yn targedu'r sawl sydd â'r angen mwyaf. Nid yw hynny'n dweud nad oes pobl sy'n cael eu hatgyfeirio yn amhriodol i gael triniaeth, a chlywsom fod rhai ymarferwyr deintyddol cyffredinol sy'n cyfeirio 40% neu fwy o gleifion nad ydynt mewn gwirionedd yn cyrraedd y trothwy. Roedd yn amlwg iawn i mi bod angen llawer mwy o hyfforddiant ac addysg ar ymarferwyr deintyddol cyffredinol i'w cynorthwyo i allu penderfynu a oedd angen atgyfeirio rhywun i mewn i'r system ar gyfer orthodonteg. Wrth gwrs, os ydych yn atgyfeirio gormod o bobl, mae'n anodd iawn teilwra'r capasiti i ateb y galw gwirioneddol sy'n bodoli ar gyfer y gwasanaethau.

The waiting times, regrettably, are still too long here in Wales for access to orthodontic treatment, and that in itself is feeding a frenzy of referrals that are too early, because dentists feel that the patient may not quite be of an age when it is appropriate to refer but, because they know that the waiting times are long, they refer them anyway just to get them into the system so that they can have access. There is also the problem of multiple referrals sometimes from individual dentists to a number of secondary care providers on the basis that they are not sure which one has the shortest waiting time.

Mae'r amseroedd aros, yn anffodus, yn dal yn rhy hir yma yng Nghymru i gael mynediad at driniaeth orthodontig, ac mae hynny ynddo'i hun yn hyrwyddo tryblith o atgyfeiriadau sy'n rhy gynnar, gan fod deintyddion yn teimlo na fydd y claf yn yr oed cywir pan fo'n briodol atgyfeirio, ond, oherwydd eu bod yn gwybod bod yr amseroedd aros yn hir, maent yn eu hatgyfeirio beth bynnag dim ond er mwyn iddynt gael mynediad i'r system. Mae enghreifftiau hefyd o atgyfeiriadau lluosog weithiau gan ddeintyddion unigol at nifer o ddarparwyr gofal eilaidd ar y sail nad ydynt yn siŵr pa un sydd â'r amser aros byrraf.

So, I think the big task that we need to undertake—and to be fair to the Minister, he responded very positively to this—is that we need one central referral system, or some way of making sure that duplicate referrals are knocked out of the system and that there is an emphasis on appropriate referrals from general dental practitioners. I know that the Minister outlined to the committee that he was taking some action on that front and I would be interested to know what progress has been made since the update that he provided.

Felly, credaf mai'r dasg fawr sydd angen ein sylw—ac i fod yn deg â'r Gweinidog, bu iddo ymateb yn gadarnhaol iawn i hyn—yw bod angen un system atgyfeirio ganolog, neu ryw ffordd o wneud yn siŵr bod atgyfeiriadau dyblyg yn cael eu bwrw allan o'r system a bod pwyslais ar atgyfeiriadau priodol gan ymarferwyr deintyddol cyffredinol. Gwn fod y Gweinidog wedi dweud wrth y pwyllgor ei fod yn cymryd rhai camau yn y maes hwnnw a byddai gennyf ddiddordeb i wybod pa gynnydd sydd wedi'i wneud ers y diweddariad a ddarparwyd ganddo.

The Chair also quite rightly made reference to the contracts. It was bizarre, really, that not much progress has been made in this area, because I think that there is a very quick win to be had in many respects by changing the way in which the payments are made under contract by the commissioners of these services and local health boards. It is clearly inappropriate to pay people upfront for a course of treatment that may or may not be delivered. The phenomenon of the NHS picking up the tab twice or even three times for uncompleted courses of treatment is something of a concern. Again, perhaps the Minister can underscore his commitment to address that in his response today.

Mae'r Cadeirydd hefyd yn gwbl briodol yn cyfeirio at y contractau. Yr oedd yn rhyfedd, mewn gwirionedd, na wnaed llawer o gynnydd yn y maes hwn, oherwydd credaf fod enillion cyflym iawn i'w cael mewn sawl ffordd drwy newid y ffordd y mae'r taliadau yn cael eu gwneud o dan gontract gan gomisiynwyr y gwasanaethau hyn a byrddau iechyd lleol. Mae talu pobl ymlaen llaw am gwrs o driniaeth fydd o bosibl yn cael ei gyflawni neu fel arall yn amlwg yn amhriodol. Mae'n peri pryder bod ffenomen yn bodoli lle gall y GIG fod yn talu'r gost ddwywaith neu hyd yn oed dair gwaith am gyrsiau o driniaeth sydd heb eu cwblhau. Unwaith eto, efallai y gall y Gweinidog danlinellu ei ymrwymiad i fynd i'r afael â hynny yn ei ymateb heddiw.

Finally, I have two very quick points. The Minister also gave a very concrete commitment to continuing to ensure that nobody loses out if they relocate from one part of Wales to another, or indeed from another part of the UK into Wales, when they have already been referred into what may be a long waiting time, but may not have been able to access treatment. There will be no restarting of the clock in that respect. That was very welcome, as indeed, was the confirmation from the Minister that under-18s would not be disadvantaged by the rules in the system if they are over 18 by the time they are able to see an orthodontist. So, perhaps, Minister, you could re-emphasise your commitment on those fronts in your response today. Thank you very much to everyone who contributed to this inquiry. It was a fascinating one and I was very pleased to see that there has been some progress made.

Yn olaf, mae gennyf ddau bwynt cyflym iawn. Rhoddodd y Gweinidog ymrwymiad pendant iawn hefyd i barhau i sicrhau nad oes neb yn colli allan os ydynt yn symud o un rhan o Gymru i'r llall, neu yn wir o ran arall o'r DU i Gymru, pan maent eisoes wedi cael eu hatgyfeirio i mewn i'r hyn a allai fod yn amser aros hir, ond efallai nad ydynt wedi gallu cychwyn ar driniaeth. Ni fydd unrhyw ailgychwyn y cloc yn y cyswllt hwnnw. Yr oedd hynny i'w groesawu'n fawr, fel yn wir, oedd y cadarnhad gan y Gweinidog na fyddai pobl a oedd o dan 18 oed o dan anfantais gan y rheolau pan fyddont dros 18 oed erbyn iddynt allu gweld orthodeintydd. Felly, efallai, Weinidog, y gallech chi ail-bwysleisio eich ymrwymiad yn y meysydd hynny yn eich ymateb heddiw. Diolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd at yr ymchwiliad hwn. Roedd yn un hynod ddiddorol ac roeddwn yn falch iawn o weld bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud.

16:02

## Elin Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Wrth feddwl am gyfraniad i'r ddadl y prynhawn yma, edrychais yn ôl dros rai o'r e-byst diweddar rwyf wedi eu derbyn gan rieni—etholwyr—yn sôn am eu pryder ynglŷn â rhestrau aros ar gyfer gwasanaeth orthodonteg i gleifion yn ardal Hywel Dda. Mae'n rhaid imi ddweud ein bod, dros y blynyddoedd, wedi cael mwy o gwynion gan rieni am ofal orthodonteg o fewn yr NHS nag unrhyw wasanaeth NHS arall ynglŷn â gofal plant. I ryw raddau, mae hynny'n adlewyrchiad da o'r NHS, os taw ar wasanaeth orthodonteg mae'r nifer mwyaf o gwynion yn dod oddi wrth rieni. Nid yw hynny i ddibrisio pwysigrwydd y gwasanaeth orthodonteg i blant a phobl ifanc, ond mae'n wir i ddweud bod cwynion sylweddol yn adlewyrchu rhestrau aros hir yr ydym yn eu gweld mewn ambell i fwrdd iechyd.

In thinking about a contribution for the debate this afternoon, I looked back over some of the recent e-mails that I have received from parents—constituents—talking about their concern about waiting lists for orthodontic service for patients in the Hywel Dda area. I have to say that, over the years, we have received more complaints from parents about orthodontic care within the NHS than any other NHS service for children. To some extent, that is a good reflection of the NHS, if the greatest number of complaints from parents is on orthodontic services. That is not to downplay the importance of the orthodontic service for children and young people, but it is true to say that significant complaints reflect the long waiting lists that we see in some of health boards.

Un o rwystredigaethau pennaf yr etholwyr sy'n cysylltu â fi, yn ogystal â hyd y rhestr aros, yw'r pellter i wasanaeth—pobl o ardal Aberystwyth yn teithio i Gaerfyrddin ac ymhellach na hynny am apwyntiadau orthodonteg. Y broblem yng nghyd-destun gwasanaeth plant yw bod plant yn eu harddegau yn cael eu cymryd allan o'r ysgol am gyfnodau hir a chyson dros gyfnod o ddwy flynedd ar gyfer yr apwyntiadau hyn—yn aml yn gorfod cymryd o leiaf ddiwrnod bant i fynd i apwyntiadau.

One of the biggest frustrations of constituents who contacted me, as well as the length of the waiting list, is the distance to services—people from the Aberystwyth area travelling to Carmarthen and further than that for orthodontic appointments. The problem in the context of a children's service is that teenagers are taken out of school for consistently long periods over a period of two years for these appointments—often they have to take at least a day off to attend appointments.

Rwy'n credu bod y ffaith bod y pwyllgor yn ein hargymhellion, a'r Gweinidog yn ei ymateb, yn gweld bod angen symud tuag at gyfundrefn orthodonteg sy'n fwy hyblyg ac sy'n adlewyrchu anghenion pobl a chymunedau'n well trwy greu, er enghraifft, ddeintyddion gydag arbenigeddau, yn fodd o gwrdd â gofynion cymunedau ac, o bosibl, i greu gwasanaeth sy'n agosach at y cleifion, yn enwedig lle mae'r gwasanaeth yn llai arbenigol. Rwy'n gweld hyn fel modd o gwrdd â'r problemau mewn ardaloedd gwledig yn arbennig yng nghyd-destun y gwasanaeth orthodonteg. Felly, mae'n bwysig bod y cytundebau orthodonteg a deintyddol newydd yn fwy hyblyg i gwrdd ag anghenion cymunedau yn hytrach na rhoi'r flaenoriaeth, efallai, i gwrdd ag anghenion y ddau broffesiwn yn y maes hwn.

I think that the fact that the committee in our recommendations, and the Minister in his response, see the need to move towards an orthodontic system that is more flexible and better reflects the needs of people and communities by creating, for example, specialist dentists, is a means to meet the requirements of communities and, possibly, to create a service that is closer to the patients, particularly where the service is less specialised. I see this as a means of meeting the problems in rural areas in particular in the context of the orthodontic service. Therefore, it is important that the new dental and orthodontics contracts are more flexible to meet the needs of communities rather than giving priority, perhaps, to meeting the needs of the two professions in this field.

Ar y rhestrau aros hir, gwelsom o'r dystiolaeth fod perfformiad bwrdd iechyd fel Hywel Dda gyda'r gwaethaf a'r amseroedd aros ar eu hiraf yng Nghymru—mae bron i ddwy flynedd a hanner o aros am ofal sylfaenol yn ardal Hywel Dda. Felly, yn fy marn i, dylai'r Llywodraeth roi mwy o ystyriaeth a blaenoriaeth i raglen benodol i leihau'r rhestrau aros yn y byrddau iechyd hynny lle maen nhw ar eu hiraf. Rwy'n ymwybodol bod y Gweinidog wedi dweud nad yw'n gweld hynny fel blaenoriaeth, ond byddwn i'n hoffi gweld sut mae'r Gweinidog yn credu y gellid cysoni'r rhestrau aros hyn yn well rhwng gwahanol fyrddau iechyd.

On the long waiting lists, we saw from the evidence that Hywel Dda health board has among the worst and longest waiting times in Wales—waits of nearly two and a half years for primary care in Hywel Dda. Therefore, in my view, the Government should give more consideration and priority to a programme specifically to reduce waiting lists in health boards where they are at their longest. I am aware that the Minister has said that he does not see that as a priority, but I would like to see how the Minister believes that waiting lists could be made consistent between different health boards.

Rwy'n credu, o edrych ar y rhestrau aros a'r data a'r ystadegau a welsom, fod yr ystadegau a'r data ar y rhestrau aros eu hunain yn ddiffygiol, ac nad ydynt yn rhoi pictiwr clir i ni o beth yw'r broblem tu ôl i'r rhestrau aros hir hynny. Felly rwy'n croesawu'n fawr fwriad y Gweinidog a'r byrddau iechyd i symud tuag at system atgyfeirio electronig, ac i wneud hynny, gobeithio, cyn gynted â phosibl. Byddai system electronig o'r fath yn rhoi data safonol a 'real time' i ni fedru cymharu perfformiad byrddau iechyd yn well, a hefyd yn galluogi'r byrddau iechyd a'r Llywodraeth i fedru dadansoddi o ddifrif beth yw cynnwys y rhestrau aros hynny—rhai o'r problemau y cyfeiriwyd atynt eisoes yn y ddadl hon. Er enghraifft, a yw rhai deintyddion yn cyfeirio yn ormodol ac yn rhy gynnar? A yw unigolion ar y rhestrau aros hynny yn cwblhau eu triniaeth o fewn y gwasanaeth othrodonteg, ynteu a ydynt ond yn aros ar y rhestr aros heb gwblhau'r driniaeth?

I think, looking at the waiting lists and the data and statistics that we have seen, that the statistics and data on the waiting lists are deficient, and do not give us a clear picture of what the problem is behind those long waiting lists. Therefore, I very much welcome intention of the Minister and the health boards to move towards an electronic referral system, and to do that, hopefully, as soon as possible. Such an electronic system would provide standard data and real time data for us to be able to better compare the performance of health boards, and also enable health boards and the Government to genuinely evaluate the reasons behind those waiting lists—some of the problems that have already been mentioned in this debate. For example, do some dentists refer too heavily and too early? Do individuals on waiting lists complete their treatment within the orthodontic service, or do they remain on the waiting list without completing the treatment?

Felly, mae lot o waith i'w wneud eto i wella'r gwasanaeth orthodonteg. Mae hynny'n glir o'n hadroddiad ni, ond rwy'n credu bod yr adroddiad yn ein symud i'r cyfeiriad cywir.

Therefore, there is a lot of work to be done to improve the orthodontic service. That is clear from our report, but I believe that the report moves us in the right direction.

16:07

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

May I begin by reiterating the thanks expressed at the beginning of the debate by the Chair to those people who contributed to the work of the committee and, indeed, extend that thanks to the Chair for his leadership during this inquiry? For me, the report is a positive one, and the Government's response is also positive, but I think that we need to go back to basic principles. There were times during the committee's inquiry when I was concerned that the issue of orthodontics was seen to be less urgent, or perhaps less needed, than more general dental services. The question kept arising as to whether spending money on orthodontics was the right thing to do. I appreciate that, in a time of difficult health budgets, orthodontistry might seem like a service that we can afford to live without. I very strongly feel that it is a core dental service that should be available to all.

A gaf fi ddechrau drwy ailadrodd y diolch a fynegwyd ar ddechrau'r ddadl gan y Cadeirydd i'r sawl a gyfrannodd at waith y pwyllgor gan estyn yr un diolch, yn wir, i'r Cadeirydd am ei arweiniad yn ystod yr ymchwiliad hwn? I mi, mae'r adroddiad yn un cadarnhaol, ac mae ymateb y Llywodraeth hefyd yn gadarnhaol, ond credaf fod angen i ni fynd yn ôl at yr egwyddorion sylfaenol. Roedd adegau yn ystod ymchwiliad y pwyllgor pan oeddwn yn pryderu bod orthodonteg yn fater a gâi ei ystyried yn llai brys, neu efallai yn llai angenrheidiol, na'r gwasanaethau deintyddol mwy cyffredinol. Y cwestiwn a oedd yn parhau i godi oedd a yw hi'n iawn gwario arian ar orthodonteg. Rwy'n derbyn, pan fo cyllidebau iechyd yn anodd, fod orthodonteg o bosibl yn ymddangos yn wasanaeth y gallem ymdopi hebddo. Rwy'n teimlo'n gryf iawn ei fod yn wasanaeth deintyddol craidd a ddylai fod ar gael i bawb.

While it should be based on health needs, there is sometimes a very difficult and, maybe, grey area about what constitutes a health need within orthodontistry. Of course, for somebody with issues that prevent them from eating properly or have quite a significant impact on how they look, there is a health need. However, I am also aware of children who, through no fault of their own, have been born with missing adult teeth; they simply have not been there. Living your life with a missing tooth is not the end of the world, and it certainly does not have an obvious health impact, but for the young people whom I have spoken to, the psychological impact of being concerned about how their teeth look is massive on their self-esteem and self-worth. I think that sometimes we need to bear that in mind. Just because it is not an obvious health impact, it does not mean that it is something that can be ignored and treated less seriously.

Er y dylai fod yn seiliedig ar anghenion iechyd, weithiau mae'n faes anodd iawn ac, efallai, yn aneglur o ran beth sy'n gyfystyr ag anghenion iechyd ym maes orthodonteg. Wrth gwrs, i rywun â phroblemau sy'n eu hatal rhag bwyta'n iawn neu sy'n cael cryn effaith ar sut y maent yn edrych, mae hyn yn gyfystyr ag angen iechyd. Fodd bynnag, rwyf hefyd yn ymwybodol o blant a anwyd gyda'u dannedd oedolion ar goll a hynny heb fod unrhyw fai arnynt hwy; yn syml, nid oedd dannedd oedolion ganddynt hwy. Nid yw byw eich bywyd heb ddant yn ddiwedd y byd, ac yn sicr nid yw'n cael effaith amlwg ar iechyd, ond i'r bobl ifanc y bu i mi siarad â hwy, mae'r effaith seicolegol o fod yn poeni am sut y mae eu dannedd yn edrych yn dylanwadu'n enfawr ar eu hunan-barch a'u hunanwerth. Rwy'n meddwl weithiau fod angen inni gadw hynny mewn cof. Nid yw'r ffaith nad yw'n cael effaith amlwg ar iechyd, o reidrwydd yn golygu ei fod yn rhywbeth y gellir ei anwybyddu a'i drin yn llai difrifol.

Like Elin's, my constituency postbag is full of cases of parents who are concerned about the length of time that their teenage sons and daughters are waiting to see an orthodontist, and also the distance that they have to travel to receive those services. Sometimes, with those distances being travelled—often, people come down to the very good dental school in Cardiff—they do that in order avoid the longer waiting times for being treated locally. That means that we are in danger of creating a two-tier system: a system for those people who can afford the cost of travelling to Cardiff, as opposed to perhaps those families that have to wait longer because they simply do not have the financial resources to enable them to avail themselves of an NHS service elsewhere. I would like to have some confidence from the Minister in his response to the committee report today that the measures that he is committed to, particularly the managed clinical networks and the innovative treatment models of hub and spoke that we are beginning to see developed, will address these fundamental issues of asking people to wait a reasonable length of time before they can be seen, ensuring that there is as much equality of access throughout Wales as is possible, reaffirming his commitment to NHS orthodontistry for young people in Wales and recognising the important part that that service has to play in a comprehensive dental service for Wales.

Fel Elin, mae bag post fy etholaeth yn llawn o achosion o rieni yn poeni am yr amser sy'n rhaid i'w meibion a'u merched sydd yn eu harddegau aros i weld orthodeintydd, a hefyd y pellter y mae'n rhaid iddynt deithio i dderbyn y gwasanaethau hynny. Weithiau, o ran y pellter y mae rhai yn ei deithio—yn aml, daw pobl i'r ysgol ddeintyddol dda iawn yng Nghaerdydd—dyma y maent yn ei wneud er mwyn osgoi'r amseroedd aros hwy ar gyfer cael eu trin yn lleol. Mae hynny'n golygu ein bod mewn perygl o greu system dwy haen: system ar gyfer y sawl sy'n gallu fforddio'r gost o deithio i Gaerdydd, o gymharu â'r teuluoedd hynny o bosibl sy'n gorfod aros yn hirach am nad oes ganddynt yn ddigon y syml yr adnoddau ariannol i'w galluogi i fanteisio ar wasanaeth y GIG yn rhywle arall. Hoffwn gael rhywfaint o hyder gan y Gweinidog yn ei ymateb i adroddiad y pwyllgor heddiw y bydd y mesurau y mae wedi ymrwymo iddynt, yn enwedig y rhwydweithiau clinigol a reolir a'r modelau trin arloesol ar ffurf 'canolfannau a lloerennau' rydym yn dechrau gweld eu datblygu, yn mynd i'r afael â'r materion sylfaenol hyn o ofyn i bobl aros am gyfnod rhesymol o amser cyn y gellir eu gweld, gan sicrhau bod cymaint o fynediad cyfartal ledled Cymru ag sy'n bosibl, a chan ailddatgan ei ymrwymiad i orthodonteg y GIG ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru a chydnabod y rhan bwysig sydd gan y gwasanaeth hwnnw i'w chwarae wrth ddarparu gwasanaeth deintyddol cynhwysfawr i Gymru.

16:11 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I call the Minister for Health and Social Services, Mark Drakeford, to respond.

Galwaf ar y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Mark Drakeford, i ymateb.

16:11 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Rwy'n croesawu adroddiad y pwyllgor ar ei ymchwiliad i wasanaethau orthodonteg yng Nghymru. Mae'r ymchwiliad hwn yn dilyn yr adolygiad annibynnol o wasanaethau orthodonteg yn 2010 gan yr Athro Stephen Richmond, athro orthodonteg yn Ysgol Ddeintyddiaeth Prifysgol Caerdydd, a'r ymchwiliad gan y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol, dan arweiniad Darren Millar ar y pryd, yn 2011. Mae'r Llywodraeth yn derbyn y chwe argymhelliad gan y pwyllgor ac rwy'n falch o weld bod y pwyllgor yn cydnabod y cynnydd sylweddol a wnaed hyd yma ac yn cefnogi'r cyfeiriad teithio positif.

I welcome the committee's report on its inquiry into orthodontic services in Wales. This inquiry follows the independent review of orthodontic services carried out in 2010 by Professor Stephen Richmond, professor of orthodontics at the Cardiff University School of Dentistry, and the subsequent inquiry by the Health, Wellbeing and Local Government Committee, led at the time by Darren Millar, in 2011. The Government accepts each of the six recommendations made by the committee, and I am pleased to see that the committee recognises the significant progress made to date, and supports the positive direction of travel.

I intend to refer to all six of the recommendations made by the committee, and very briefly say something about the Government's response to them. The first recommendation of the committee related to the Welsh Government health boards and managed clinical networks—MCNs—working together to develop robust monitoring arrangements to ensure consistent compliance with treatment outcomes. MCNs are advisory bodies. They bring health boards and clinicians together. They have been established right across Wales, as you have heard. Those MCNs are working with health boards to establish the best clinical pathways delivered by the best-suited clinicians. Where there is an unmet need for orthodontic care, the health boards, in conjunction with the local clinical network, are testing the use of the best skill mix to assess needs and priorities for care.

Rwy'n bwriadu cyfeirio at bob un o'r chwe argymhelliad a wnaed gan y pwyllgor, a dweud rhywbeth yn fyr iawn am ymateb y Llywodraeth iddynt. Mae argymhelliad cyntaf y pwyllgor yn ymwneud â byrddau iechyd Llywodraeth Cymru a rhwydweithiau clinigol a reolir-MCN-yn cydweithio i ddatblygu trefniadau monitro cadarn er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyson â chanlyniadau triniaeth. Cyrff ymgynghorol yw'r MCN. Maent yn dod â byrddau iechyd a chlinigwyr at ei gilydd. Fe'u sefydlwyd ledled Cymru, fel y clywsoch. Mae'r MCN hynny'n cydweithio â byrddau iechyd i sefydlu'r llwybrau clinigol gorau a gyflwynir gan y clinigwyr mwyaf addas. Pan fo anghenion gofal orthodontig sydd heb eu diwallu, mae'r byrddau iechyd, ar y cyd â'r rhwydwaith clinigol lleol, yn treialu'r broses o ddefnyddio'r gymysgedd orau o sgiliau i asesu anghenion a blaenoriaethau ar gyfer gofal.

The Welsh Government issued guidance in March 2011. Following additional work, which Professor Richmond is currently undertaking, we anticipate the distribution of further guidance, consistent with the committee's recommendation.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ym mis Mawrth 2011. Yn dilyn gwaith ychwanegol, sy'n cael ei gyflawni gan yr Athro Richmond ar hyn o bryd, rydym yn rhagweld y bydd canllawiau pellach yn cael eu dosbarthu, sy'n gyson ag argymhelliad y pwyllgor.

The second recommendation of the report deals with the introduction of an electronic referral system to improve the efficiency and effectiveness of the current orthodontic referral system. Elin Jones mentioned this in her contribution, and the £700,000 funding from the health technologies and telehealth fund, which was announced this year, will support the connection of dental practices to the NHS Wales network. This funding will allow the NHS to develop and roll out e-referral services, which will improve the effectiveness of the orthodontic referral pathway.

Mae ail argymhelliad yr adroddiad yn ymdrin â chyflwyno system atgyfeirio electronig i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y system gyfeirio orthodontig gyfredol. Soniodd Elin Jones am hyn yn ei chyfraniad, a bydd cyllid gwerth £700,000 oddi wrth gronfa teleiechyd a thechnolegau iechyd, a gyhoeddwyd eleni, yn cefnogi'r broses o gysylltu practisau deintyddol â rhwydwaith GIG Cymru. Bydd y cyllid hwn yn galluogi'r GIG i ddatblygu a chyflwyno gwasanaethau e-gyfeirio, a fydd yn gwella effeithiolrwydd y llwybr atgyfeirio orthodontig.

As the committee suggests in its report, ensuring the standardisation of waiting time data sets, alongside the use of a centralised referral management system, will have a positive effect on waiting times. The initial phase of the project is due to complete in March 2015.

Fel yr awgryma'r pwyllgor yn ei adroddiad, bydd sicrhau safoni setiau data amseroedd aros, ochr yn ochr â defnyddio system ganolog i reoli atgyfeiriadau yn cael effaith gadarnhaol ar amseroedd aros. Dylai cam cychwynnol y prosiect fod wedi'i gwblhau erbyn mis Mawrth 2015.

The third recommendation in the report concerns the need for improvements to waiting times and the monitoring arrangements required to help to make this happen. As I explained in my evidence to the committee, and as we have heard in the Chamber this afternoon, there are complexities involved in the variation in waiting times. There is no doubt that, in some instances, list sizes are inflated through early and duplicate or inappropriate referrals. Health boards are now using data to identify those patients who have been referred to more than one orthodontist, or referred ahead of need. We know that this will free up capacity because the action that has followed Professor Richmond's original report shows that that has been able to be achieved.

Mae'r trydydd argymhelliad yn yr adroddiad yn ymwneud â'r angen am welliannau i amseroedd aros a'r trefniadau monitro sydd eu hangen i helpu i wneud i hyn ddigwydd. Fel yr esboniais yn fy nhystiolaeth i'r pwyllgor, ac fel rydym wedi clywed yn y Siambr y prynhawn yma, mae cymhlethdodau ynghlwm wrth yr amrywiad mewn amseroedd aros. Nid oes amheuaeth, mewn rhai achosion, fod maint rhestrau yn cael ei chwyddo yn sgîl atgyfeiriadau cynnar a dyblyg neu atgyfeiriadau amhriodol. Mae byrddau iechyd bellach yn defnyddio data i nodi'r cleifion hynny a atgyfeiriwyd at fwy nag un orthodeintydd, neu eu hatgyfeirio'n cyn pryd. Gwyddom y bydd hyn yn rhyddhau capasiti oherwydd dengys y camau a gymerwyd ar ôl adroddiad gwreiddiol yr Athro Richmond y llwyddwyd i gyflawni hynny.

We have no proposals to change the thresholds for orthodontic treatment. Darren Millar suggested that there were only two choices in orthodontics: do more or do less. Well, I think that there is a third alternative, which is to do better. There are things—

Nid oes gennym unrhyw gynigion i newid y trothwyon ar gyfer triniaeth orthodontig. Awgrymodd Darren Millar mai dim ond dau ddewis sydd ar gyfer orthodonteg: gwneud rhagor neu wneud llai. Wel, rwy'n meddwl bod trydydd dewis hefyd, sef gwneud yn well. Mae pethau—

16:15 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I do not accept your analysis of what I was saying. I said that you either increase capacity or you reduce demand in some way. I also suggested a third leg of action and that was to make sure that you are actually able to measure demand correctly based on accurate referrals.

Nid wyf yn derbyn eich dadansoddiad o'r hyn yr oeddwn yn ei ddweud. Dywedais eich bod naill ai'n cynyddu capasiti neu'n lleihau'r galw mewn rhyw ffordd. Awgrymais hefyd drydydd cymal gweithredu sef sicrhau eich bod mewn gwirionedd yn gallu mesur y galw yn gywir yn seiliedig ar atgyfeiriadau cywir.

16:15 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I accept that, having said that you could either do more or do better, Darren Millar did go on to suggest ways in which you could do better in the future. Here is one example of what I mean: in Hywel Dda, picking up some of the points that Elin Jones made, since November 2013 there has been a local assessment service, which means that children only have to travel for the treatment itself. The assessment is done much closer to home. In the first year of that service, 30% of all patients called to the service have failed to attend their appointment. So, there are things that we can do better. We can do better in the service to make sure that we call people in the best possible way, and then there are responsibilities that individuals have to meet in terms of the service that is being offered to them. However, 2,288 young people have already been assessed in that first year at the Aberystwyth service. That is 2,288, and very large numbers of those young people were found eligible for orthodontic treatment. This is why I am perfectly able to do what Kirsty Williams asked me to do, which is to confirm the place that orthodontics has in the service we provide. Of all expenditure on child oral health in Wales, 37.5% goes on orthodontics already. It clearly is a very significant part of what we provide and we can do better in the future.

Rwy'n derbyn, ar ôl iddo ddweud y gallech naill ai wneud mwy neu wneud yn well, y bu i Darren Millar fynd yn ei flaen i awgrymu ffyrdd y gallech wneud yn well yn y dyfodol. Dyma un enghraifft o'r hyn rwy'n ei olygu: yn Hywel Dda, fel y nododd Elin Jones yn rhai o'r pwyntiau a wnaeth, ers mis Tachwedd 2013, cafwyd gwasanaeth asesu lleol, sy'n golygu mai dim ond ar gyfer y driniaeth ei hun y mae'n rhaid i blant deithio. Gwneir yr asesiad yn llawer nes at adref. Ym mlwyddyn gyntaf y gwasanaeth hwnnw, roedd 30% o'r holl gleifion a alwyd i'r gwasanaeth wedi methu â mynychu eu hapwyntiad. Felly, mae pethau y gallwn eu gwneud yn well. Gallwn wneud yn well yn y gwasanaeth er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn galw pobl yn y ffordd orau bosibl, ac mae cyfrifoldebau sy'n rhaid i unigolion eu hysgwyddo o ran defnyddio'r gwasanaeth sy'n cael ei gynnig iddynt. Fodd bynnag, mae 2,288 o bobl ifanc eisoes wedi cael eu hasesu ym mlwyddyn gyntaf y gwasanaeth yn Aberystwyth. Hynny yw 2,288, gyda llawer iawn o'r bobl ifanc hyn yn gymwys am driniaeth orthodontig. Dyma pam rwy'n berffaith abl i wneud yr hyn y gofynnodd Kirsty Williams i mi ei wneud, sef cadarnhau'r lle a roddir i orthodonteg yn y gwasanaeth a ddarparwn. O'r holl wariant ar iechyd y geg ymhlith plant yng Nghymru, mae 37.5% eisoes yn cael ei wario ar orthodonteg. Mae'n amlwg yn rhan bwysig iawn o'r hyn rydym yn ei ddarparu a gallwn wneud yn well yn y dyfodol.

Recommendation 4 looks for best practice and consistent standards and that is very important. I listened to the debate that was held in the last session this afternoon on the need to focus not simply on inputs and outputs, but on impacts and outcomes as well. It is important to have some grasp of outputs, because that is how we know the number of treatments that are not completed and, therefore, how we know to bear down on that, but the committee's recommendation is helpful in pointing us clearly in the direction of health outcomes for all the investment that we make in orthodontics.

Mae argymhelliad 4 yn edrych am arferion gorau a safonau cyson ac mae hynny'n bwysig iawn. Gwrandewais ar y ddadl a gynhaliwyd yn y sesiwn olaf y prynhawn yma ar yr angen i ganolbwyntio nid yn unig ar fewnbynnau ac allbynnau, ond ar effeithiau a chanlyniadau yn ogystal. Mae'n bwysig cael rhywfaint o afael ar allbynnau, oherwydd dyna sut rydym yn gwybod faint o driniaethau sydd heb eu cwblhau ac o ganlyniad yn gwybod y dylem ganolbwyntio ar hynny, ond mae argymhelliad y pwyllgor yn ddefnyddiol o ran ein cyfeirio'n glir at ganlyniadau iechyd ar gyfer yr holl fuddsoddiad a wnawn ym maes orthodonteg.

I believe, as do others around the Chamber, that a course of treatment where there is no measurement of clinical outcomes does not represent value for money and hampers budgetary control. We know that the way that the contract currently works, with all the payment upfront, whether the course of treatment is completed or not, has some significant limitations and, as Government, we are committed to addressing that issue. That is there in the fifth recommendation of the report.

Fel eraill yn y Siambr, credaf na ellir sicrhau gwerth am arian na rheoli cyllideb os yw cwrs o driniaeth yn cael ei ddarparu heb fesur ei ganlyniadau clinigol. Gwyddom fod y ffordd y mae'r contract yn gweithio ar hyn o bryd, gyda'r holl daliad yn cael ei wneud ymlaen llaw, waeth a oedd y cwrs wedi ei gwblhau ai peidio, yn gwbl annigonol ac rydym, fel Llywodraeth, wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r mater hwnnw. Mae hynny ym mhumed argymhelliad yr adroddiad.

Recommendation 6 proposes a review of guidance available to support quality contracts, management and monitoring. The 2006 regulations provide the necessary legal framework for LHBs to enter into contracts to provide orthodontic services. There is a need for some flexibility in contract length, but the duration of any contract should be linked to performance and the quality of the outcomes that a service provides. While the review of the orthodontic contract goes wider than Wales, and is in its infancy, the committee's recommendations will assist in shaping our thinking in this area.

Mae argymhelliad 6 yn cynnig adolygu'r canllawiau sydd ar gael i gefnogi ansawdd contractau, rheoli a monitro. Mae rheoliadau 2006 yn darparu'r fframwaith cyfreithiol angenrheidiol i Fyrddau Iechyd Lleol ymrwymo i gontractau er mwyn darparu gwasanaethau orthodontig. Mae angen rhywfaint o hyblygrwydd o ran hyd y contract, ond dylai hyd unrhyw gontract fod yn gysylltiedig â pherfformiad ac ansawdd y canlyniadau a ddarperir gan y gwasanaeth. Er bod adolygiad y contract orthodontig yn mynd y tu hwnt i Gymru ac yn ei ddyddiau cynnar, bydd argymhellion y pwyllgor yn helpu i lywio ein ffordd o feddwl yn y maes hwn.

Much of what is currently possible can already be taken forward through the managed clinical networks. They have already created a much more efficient referral management process and driven forward improvements in quality and outcomes. This has seen as a substantial reduction of 59% in the number of cases that are simply seen to be assessed and reviewed. That has allowed us to create a 6% increase in the number of children actually receiving orthodontic treatment, and all for the same level of resource.

Gellir mabwysiadu llawer o'r hyn sy'n bosibl yn barod trwy'r rhwydweithiau clinigol a reolir. Maent eisoes wedi creu proses rheoli atgyfeiriadau llawer mwy effeithlon a hyrwyddo gwelliannau o ran ansawdd a chanlyniadau. Gwelwyd gostyngiad sylweddol o 59% yn nifer yr achosion sy'n cael eu gweld dim ond i gael eu hasesu a'u hadolygu. Mae hynny wedi ein galluogi i greu cynnydd o 6% yn nifer y plant sydd mewn gwirionedd yn derbyn triniaeth orthodontig, a'r cyfan gyda'r un lefel o adnoddau.

Dirprwy Lywydd, I will close by thanking the Chair of the committee and committee members for the very constructive report that they have provided. It will be of material assistance to us in creating a better orthodontic service in Wales for the future.

Ddirprwy Lywydd, i orffen carwn ddiolch i Gadeirydd y pwyllgor ac aelodau'r pwyllgor am yr adroddiad adeiladol iawn a ddarparwyd ganddynt. Bydd o gymorth perthnasol i ni wrth greu gwell gwasanaethau orthodontig yng Nghymru ar gyfer y dyfodol.

16:20

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I now call on the committee Chair to reply—David Rees.

Galwaf yn awr ar Gadeirydd y pwyllgor i ymateb—David Rees.

16:20

## David Rees Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank all Members for their contributions and I reiterate my thanks for their co-operation and support during the inquiry. Darren highlighted a couple of points, and he mentioned one important thing: the multiple referrals that we heard about, and the problems that that caused on our waiting lists. You mentioned the central system. You did not mention an electronic system, but you mentioned a central system; it is the same principle. It is important that we get that central system to avoid this type of situation arising, so that we end up with a single referral that is not inappropriate. We also need dental practitioners that are trained to ensure that those referrals are appropriate and that they use the systems. Elin supported that business about electronic records. They provide the robust data that we want to be able to use to provide the measurements and equality that we all want in these services from the commissioners. I think that that is important.

Diolchaf i'r holl Aelodau am eu cyfraniadau ac a gaf fi ailadrodd fy niolch am eu cydweithrediad a'u cefnogaeth yn ystod yr ymchwiliad. Amlygodd Darren un neu ddau o bwyntiau, a soniodd am un peth pwysig: yr atgyfeiriadau lluosog y clywsom amdanynt, a'r problemau yr oedd hynny'n eu hachosi ar ein rhestrau aros. Soniasoch am y system ganolog. Ni soniasoch am system electronig, ond yn hytrach am system ganolog; yr un egwyddor sy'n perthyn i'r ddau. Mae'n bwysig ein bod yn cael y system ganolog honno er mwyn atal sefyllfa o'r fath rhag codi, fel bod gennym yn y pen draw un atgyfeiriad sengl nad yw'n amhriodol. Hefyd, mae arnom angen ymarferwyr deintyddol sy'n cael eu hyfforddi i sicrhau bod yr atgyfeiriadau hynny yn briodol a'u bod yn defnyddio'r systemau. Roedd Elin yn cefnogi'r mater hwnnw ynghylch cofnodion electronig. Maent yn darparu data cadarn rydym am allu eu defnyddio i ddarparu'r mesuriadau a'r cydraddoldeb rydym i gyd am eu cael yn y gwasanaethau hyn gan y comisiynwyr. Credaf fod hynny'n bwysig.

Elin and Kirsty also highlighted the variability across Wales that we experienced during our inquiry. The rurality issues were clearly a major point that came out through the inquiry. They have to be addressed, and I am pleased that when the Minister—I will come back to you in a second, Minister—responded to those points, he spoke about some of the actions that are being taken to look at addressing some issues on a local basis to ensure that there is a minimum number of individuals who have to travel further distances.

Nododd Elin a Kirsty hefyd yr amrywiaeth a welsom ar draws Cymru yn ystod ein hymchwiliad. Roedd problemau'r ardaloedd gwledig yn amlwg yn bwynt pwysig a ddaeth i'n sylw drwy gydol yr ymchwiliad. Mae'n rhaid rhoi sylw i hynny, ac rwy'n falch pan fu i'r Gweinidog ymateb—dof yn ôl atoch mewn eiliad, Weinidog—i'r pwyntiau hynny, y bu iddo siarad am rai o'r camau gweithredu sy'n cael eu cymryd er mwyn rhoi sylw i rai materion yn lleol i sicrhau mai lleiafswm o unigolion sy'n gorfod teithio pellteroedd pellach.

Kirsty also highlighted—and I think that it is quite right, and it is a point that we discussed—the question of what is a health need. The psychological impact on young people is huge. We cannot underestimate that impact. It is important to be aware that a child who has a difficulty and who is embarrassed and uncomfortable is therefore not going to communicate with people. He may not talk very freely with people. This is an issue, and it is a very grey area. I think that we all recognise that very grey area of what a health need is in these circumstances. Therefore, I think that that is important. It is not just purely cosmetic. It is about the consequences to the individual, whether it be the fact that they may not be able to eat properly, or whether it be that they do not have social skills because they are afraid to involve themselves as a consequence of some other issues. It is something that we clearly need to address. She also pointed to the concerns about the two-tier system: those who are able to afford something and those who are unable to do that, particularly in terms of travelling distances. I think that that is an important area that we highlighted.

Hefyd, bu i Kirsty amlygu'r cwestiwn—a chredaf ei bod yn gwbl gywir, ac mae'n bwynt y bu i ni ei drafod—sef beth yw angen iechyd. Mae'r effaith seicolegol ar bobl ifanc yn enfawr. Ni allwn danbrisio'r effaith honno. Mae'n bwysig bod yn ymwybodol nad yw plentyn sydd ag anhawster ac sydd mewn embaras ac yn anghyfforddus yn mynd i gyfathrebu â phobl. Efallai na fydd yn siarad yn rhwydd iawn gyda phobl. Mae hyn yn broblem, ac mae'n faes aneglur iawn. Credaf ein bod i gyd yn cydnabod yr ardal niwlog iawn hon wrth ystyried beth yw angen iechyd yn yr amgylchiadau hyn. Felly, rwy'n meddwl fod hynny'n bwysig. Nid dim ond ystyriaethau cosmetig sydd yma. Mae'n ymwneud â'r canlyniadau i'r unigolyn, boed a yw am y ffaith na allant fwyta'n iawn, neu nad oes ganddynt sgiliau cymdeithasol am eu bod yn ofni cynnwys eu hunain o ganlyniad i broblemau eraill. Mae'n amlwg yn rhywbeth y dylem ei ddatrys. Tynnodd sylw hefyd at y pryderon ynghylch y system ddwy-haen: y rhai sy'n gallu fforddio rhywbeth a'r rhai nad ydynt yn gallu gwneud hynny, yn enwedig o ran pellteroedd teithio. Credaf fod hynny yn faes pwysig y bu i ni ei amlygu.

Minister, it is very pleasing to be the Chair to respond when someone responds positively to all of the recommendations that we make in a report. Professor Richmond came to committee and gave evidence, so we had some of that input. I am very pleased that you have provided some dates for the system that we talked about. Our understanding is that the system is wide-ranging. It is not just about the quality of data that we collect. It is not just about the reduction of multiple referrals. It is also about the ability to ensure that the contracts are appropriately addressed and that payments are appropriately addressed. It is about the whole picture that the system provides. Yes, we want things done better. I am pleased that you are in that process and pleased about the efforts you have made at a local level to address assessments, where the need for specialists who may be further afield is important in addressing some of the points relating to the rurality issue.

Weinidog, braf iawn yw bod yn Gadeirydd sy'n ymateb pan fydd rhywun yn ymateb yn gadarnhaol i bob un o'r argymhellion a wnawn mewn adroddiad. Daeth yr Athro Richmond i'r pwyllgor a rhoddodd dystiolaeth, felly roedd gennym rywfaint o'r mewnbwn hwnnw. Rwy'n falch iawn eich bod wedi darparu rhai dyddiadau ar gyfer y system y bu i ni sôn amdani. Deallwn fod y system yn bellgyrhaeddol. Mae'n ymwneud â mwy na dim ond ansawdd y data a gesglir gennym ac â mwy na dim ond lleihau atgyfeiriadau lluosog. Mae hefyd yn ymwneud â'r gallu i sicrhau bod y contractau yn cael sylw priodol bod taliadau yn cael sylw priodol. Mae'n ymwneud â'r darlun cyfan y mae'r system yn ei ddarparu. Ydym, rydym eisiau i bethau gael eu gwneud yn well. Rwy'n falch eich bod yn rhan o'r broses honno ac yn falch o'r ymdrechion rydych wedi'u gwneud ar lefel leol i fynd i'r afael ag asesiadau, lle mae'r angen am arbenigwyr a all fod ymhellach i ffwrdd yn bwysig wrth fynd i'r afael â rhai o'r pwyntiau sy'n ymwneud â phroblemau'r ardaloedd gwledig.

Mike Hedges talked very much about outcomes in his speech earlier. I think that it is important that we have health outcomes identified for the investment. You have answered Kirsty very clearly, I think: there is recognition that orthodontic services are a major part of the NHS dentistry system. You have identified that 35% of expenditure goes on that. It is clearly, in your mind, important, and I am very happy about that. I would like to thank all Members for their contributions, and I thank the Minister for his response. I look forward to seeing progress being made. I do not get as many issues as Elin and Kirsty, but I also see some of the people on the ground and the needs that they have. It is important that those services are there for those people who need them.

Bu i Mike Hedges siarad cryn dipyn am ganlyniadau yn ei araith yn gynharach. Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig inni gael canlyniadau iechyd wedi'u nodi ar gyfer y buddsoddiad. Rydych wedi ateb Kirsty yn glir iawn, rwy'n meddwl: cafwyd cydnabyddiaeth bod gwasanaethau orthodonteg yn rhan bwysig o system ddeintyddiaeth y GIG. Rydych wedi nodi bod 35% o'r gwariant yn mynd ar hynny. Mae'n amlwg, eich bod yn meddwl, ei fod yn bwysig, ac rwy'n hapus iawn am hynny. Hoffwn ddiolch i'r holl Aelodau am eu cyfraniadau, a diolch i'r Gweinidog am ei ymateb. Edrychaf ymlaen at weld y cynnydd sy'n cael ei wneud. Nid wyf fi'n gweld cymaint o broblemau ag Elin a Kirsty, ond rwyf hefyd yn gweld rhai o'r bobl ar lawr gwlad a'r anghenion sydd ganddynt. Mae'n bwysig bod y gwasanaethau hynny ar gael i'r bobl hynny sydd eu hangen.

16:24

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The proposal is to note the Health and Social Care Committee's report. Does any Member object? There are no objections. The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw nodi adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes yr un gwrthwynebiad. Felly, derbynnir y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36*

## Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Y Grant Amddifadedd Disgyblion

*The following amendments have been selected: amendment 1 in the name of Elin Jones, and amendment 2 in the name of Paul Davies.*

## Welsh Liberal Democrats Debate: The Pupil Deprivation Grant

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw Elin Jones, a gwelliant 2 yn enw Paul Davies.*

16:24

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Eluned Parrott to move the motion.

Galwaf ar Eluned Parrott i gyflwyno'r cynnig.

Cynnig NDM5593 Aled Roberts

Motion NDM5593 Aled Roberts

Yn cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn croesawu bod Llywodraeth Cymru, ynghyd â Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, wedi sicrhau £95 miliwn o gyllid ychwanegol dros ddwy flynedd ar gyfer y Grant Amddifadedd Disgyblion yn y gyllideb newydd.

1. Welcomes that the Welsh Government, together with the Welsh Liberal Democrats, have secured an additional £95m of funding over two years in the new budget for the Pupil Deprivation Grant.

2. Yn croesawu bod cyllid hefyd wedi cael ei ymestyn i gynnwys Premiwm Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer plant o dan 5 oed.

2. Welcomes that funding has also been extended to include the Early Years Pupil Premium for children under the age of 5.

3. Yn cydnabod bod y cytundeb cyllidebol dwy flynedd yn helpu i fynd i'r afael â'r pryderon a fynegwyd gan ysgolion ym mlynyddoedd blaenorol y cynllun o ran sicrhau bod cyllid yn parhau.

3. Recognises that the two year budget deal helps address concerns expressed by schools in previous years of the scheme regarding the continuity of funding.

4. Yn cydnabod pwysigrwydd y ddau gynllun o ran helpu i dorri'r cysylltiad rhwng tlodi a thangyflawni addysgol ac o ran cau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion o gefndiroedd difreintiedig a chefndiroedd mwy breintiedig.

4. Recognises the importance of both schemes in helping break the link between poverty and educational under-achievement, and in closing the attainment gap between pupils from disadvantaged and more advantaged backgrounds.

16:24

### Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

The pupil deprivation grant has now been in place since 2012 here in Wales and has been having a positive impact on the school life of thousands of disadvantaged pupils in that time. We have spoken before in this Chamber about the successes of the scheme in ensuring that pupils from disadvantaged backgrounds have access to the same educational opportunities as those young people from more affluent backgrounds. Not only is this obviously a flagship policy of my party, and one that we are very proud of, it is also very much in line with the Welsh Government's tackling poverty action plan, which includes a target to improve the attainment of children on free school meals by 10%.

Mae'r grant amddifadedd disgyblion wedi bod ar waith ers 2012 yma yng Nghymru ac mae wedi bod yn cael effaith gadarnhaol ar fywyd ysgol miloedd o ddisgyblion difreintiedig yn yr amser hwnnw. Rydym wedi siarad o'r blaen yn y Siambr hon am lwyddiannau'r cynllun wrth sicrhau bod disgyblion o gefndiroedd difreintiedig yn cael mynediad at yr un cyfleoedd addysgol â phobl ifanc o gefndiroedd mwy cefnog. Nid yn unig y mae hwn yn amlwg yn un o bolisïau blaenllaw fy mhlaid, ac yn un rydym yn falch iawn ohono, mae hefyd yn cyd-fynd i raddau helaeth â chynllun gweithredu ar gyfer trechu tlodi Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys targed i wella cyrhaeddiad plant sy'n cael prydau ysgol am ddim gan 10%.

Now, while I think that, across this Chamber, there would be really very broad support for that kind of aspiration for young people from those more deprived backgrounds, we have always had some differences of opinion in terms of how, in policy terms, we would achieve such a thing. However, I am delighted that, together with the Welsh Government, we were able to extend the funding for this scheme for a further two years. I very much welcome the Government's continued commitment to tackling the attainment gap between disadvantaged children and their peers.

Yn awr, er fy mod yn meddwl y byddai cefnogaeth eang iawn ar draws y Siambr hon i'r math hwnnw o uchelgais ar gyfer pobl ifanc o gefndiroedd mwy difreintiedig, mae rhai gwahaniaethau barn wedi codi bob amser ynglŷn â sut, o safbwynt polisi, y byddem yn cyflawni hyn. Fodd bynnag, rwyf wrth fy modd ein bod, ar y cyd â Llywodraeth Cymru, yn gallu ymestyn y cyllid ar gyfer y cynllun hwn am ddwy flynedd arall. Croesawaf yn fawr ymrwymiad parhaus y Llywodraeth i fynd i'r afael â'r bwlch cyrhaeddiad rhwng plant difreintiedig a'u cyfoedion.

We discussed in a previous debate on this subject the feedback that we as a party had received from schools, that the certainty and duration of funding was key to the effectiveness of the scheme, enabling schools to get the most out of the funding that has been awarded to them. Clearly, if there is uncertainty and discontinuity in the provision, then there will be a tendency for schools to be overcautious with the finding that they have received. Certainty over funding is therefore crucial to enable the kind of longer term strategic planning, and the stronger focus on priorities and outcomes that takes a little time to plan for, that we would wish our schools to be aiming for. Several of the schools that we surveyed also said that the uncertainty surrounding the duration of funding had made it impossible for them to instigate any long-term projects, and that it affected their ability to set any strategic targets for tackling poverty and reducing the attainment gap.

Buom yn trafod mewn dadl flaenorol ar y pwnc hwn yr adborth a gawsom fel plaid gan ysgolion, a nododd fod sicrwydd a chyfnod y cyllid yn allweddol i effeithiolrwydd y cynllun, gan alluogi ysgolion i fanteisio'n llawn ar y cyllid sydd wedi'i ddyfarnu iddynt. Yn amlwg, os oes ansicrwydd a diffyg parhad yn y ddarpariaeth, bydd tuedd wedyn i ysgolion fod yn rhy ofalus gyda'r cyllid y maent wedi'i dderbyn. Felly, mae sicrwydd ynglŷn â chyllid yn hanfodol i alluogi'r math o gynllunio strategol mwy hirdymor, a'r math o ffocws cryfach ar flaenoriaethau a chanlyniadau sy'n cymryd ychydig o amser i gynllunio ar ei gyfer, y byddem yn dymuno i'n hysgolion fod yn anelu tuag atynt. Hefyd, dywedodd nifer o'r ysgolion a ymatebodd i'n harolwg fod yr ansicrwydd ynglŷn â chyfnod y cyllid wedi ei gwneud yn amhosibl iddynt gychwyn unrhyw brosiectau hirdymor, a'i fod yn effeithio ar eu gallu i bennu unrhyw dargedau strategol ar gyfer mynd i'r afael â thlodi a lleihau'r bwlch cyrhaeddiad.

This new two-year deal guarantees the funding for the scheme until 2017, which addresses this concern to an extent and enables schools to identify, and then focus on, their priorities over the next three academic years. It gives them an opportunity to plan. It gives them an opportunity to make the long-term changes that will have a lasting impact on the lives of those disadvantaged young people. It will also put schools in a stronger position to support those children who need it most—to identify them, to offer them that support, to carry that support through for a period of time, and to give them the stability of knowing that the support is going to be there for the next three academic years. I am therefore pleased that, through this deal, we have been able to be responsive to some of the concerns expressed by schools. That, in itself, will greatly help to enhance the impact of the pupil deprivation grant in our schools, day by day, week by week, year by year over the next three years.

Mae'r cytundeb dwy flynedd newydd hwn yn sicrhau'r cyllid ar gyfer y cynllun tan 2017, sy'n mynd i'r afael â'r pryder hwn i raddau ac yn galluogi ysgolion i nodi, ac wedyn canolbwyntio ar, eu blaenoriaethau dros y tair blynedd academaidd nesaf. Mae'n rhoi cyfle iddynt gynllunio. Mae'n rhoi cyfle iddynt wneud y newidiadau hirdymor a fydd yn cael effaith barhaol ar fywydau'r bobl ifanc ddifreintiedig hynny. Bydd hefyd yn rhoi ysgolion mewn sefyllfa gryfach i gefnogi'r plant hynny sydd ei angen fwyaf—gan nodi'r plant, cynnig y cymorth hwnnw iddynt, darparu'r cymorth hwnnw am gyfnod o amser, a rhoi'r sicrwydd meddwl iddynt y bydd y cymorth yn cael ei ddarparu dros y tair blynedd academaidd nesaf. Felly, rwy'n falch, drwy'r cytundeb hwn, ein bod wedi gallu ymateb i rai o'r pryderon a fynegwyd gan ysgolion. Bydd hynny, ynddo'i hun, yn gymorth mawr i wella effaith y grant amddifadedd disgyblion yn ein hysgolion, o ddydd i ddydd, o wythnos i wythnos, o flwyddyn i flwyddyn dros y tair blynedd nesaf.

Another additional and extremely welcome aspect of the budget deal is for the funding to be extended to the early years pupil deprivation grant, which will give extra support to disadvantaged pupils under the age of five. This grant will be worth £300 for each child and will benefit over 12,500 nursery school pupils across Wales. I am particularly pleased, because, when we first agreed a pupil deprivation grant for schools here in Wales, I did have correspondence from headteachers saying, and when I was meeting headteachers in my region they told me, that they really wished that they could extend that pupil deprivation grant down into the earliest years of their schools, because those very first moments of a school career sometimes have the greatest impact on the future outcomes of the children in their care.

Agwedd ychwanegol arall ar gytundeb y gyllideb, sydd i'w chroesawu'n fawr, yw'r ffaith fod y cyllid yn cael ei ymestyn i'r grant amddifadedd disgyblion yn y blynyddoedd cynnar, a fydd yn rhoi cymorth ychwanegol i ddisgyblion difreintiedig o dan bump oed. Bydd y grant hwn yn werth £300 ar gyfer pob plentyn a bydd yn cynorthwyo dros 12,500 o ddisgyblion ysgol feithrin ledled Cymru. Rwy'n arbennig o falch, oherwydd, pan gytunwyd ar grant amddifadedd disgyblion ar gyfer ysgolion yma yng Nghymru yn wreiddiol, cefais ohebiaeth gan benaethiaid yn dweud, ac wrth gyfarfod â phenaethiaid yn fy rhanbarth roeddynt yn dweud wrthyf, mai eu gwir ddymuniad oedd gallu ymestyn y grant amddifadedd disgyblion i flynyddoedd cyntaf eu hysgolion, oherwydd bod y cyfnodau cyntaf hynny mewn gyrfa ysgol weithiau'n cael yr effaith fwyaf ar ganlyniadau'r plant yn eu gofal yn y dyfodol.

The evidence here is not just anecdotal; there is plenty of good evidence to support this view. A number of studies have shown that the early years are among the most important in our lives and that they can be particularly significant when it comes to defining academic futures, not least in setting a precedent for a good educational experience. If your first experience of education is a positive one, that positivity will stay with you. If your first experience of education is a negative one, then that is a hard, hard habit to break.

Nid yw'r dystiolaeth yma yn anecdotaidd yn unig; mae digon o dystiolaeth dda i gefnogi'r farn hon. Mae nifer o astudiaethau wedi dangos bod y blynyddoedd cynnar ymhlith y rhai pwysicaf yn ein bywydau ac y gallant fod yn arbennig o arwyddocaol wrth ddiffinio dyfodol academaidd, yn enwedig wrth osod cynsail ar gyfer profiad addysgol da. Os yw eich profiad cyntaf o addysg yn un cadarnhaol, bydd yr agwedd gadarnhaol yn aros gyda chi. Os yw eich profiad cyntaf o addysg yn un negyddol, yna mae'n anodd iawn, iawn torri'r arfer hwnnw.

A consultation document published by the UK Government in the summer on the early years pupil premium stated that children's educational outcomes are a major predictor of their future life chances, and high-quality early education makes a difference to children's academic attainment, with research showing that high-quality pre-school education can improve results at key stage 2 by a measurable factor.

Nododd dogfen ymgynghori a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU yn ystod yr haf ar bremiwm disgybl y blynyddoedd cynnar fod canlyniadau addysgol plant yn rhagfynegydd pwysig o'u cyfleoedd bywyd yn y dyfodol, a bod addysg gynnar o ansawdd uchel yn gwneud gwahaniaeth i gyrhaeddiad academaidd plant, gyda gwaith ymchwil yn dangos bod addysg cyn ysgol o ansawdd uchel yn gallu gwella canlyniadau yng nghyfnod allweddol 2 gan ffactor mesuradwy.

Research undertaken by the Sutton Trust has suggested that there can already be a gap of up to 19 months in school readiness between the richest and the poorest children by the time a pupil starts at school full time at the age of five. These disparities can continue into adulthood, with only the US faring worse than the UK among all of the developed countries in the world with regard to the extent to which the future income of an individual is determined by that of their parents.

Mae gwaith ymchwil a wnaed gan Ymddiriedolaeth Sutton wedi awgrymu y gallai bwlch o hyd at 19 mis fodoli eisoes o safbwynt bod yn barod i fynd i'r ysgol rhwng y plant cyfoethocaf a'r plant tlotaf pan fydd disgybl yn dechrau yn yr ysgol yn llawnamser yn bump oed. Gall y gwahaniaethau hyn barhau ar ôl i blant dyfu'n oedolion, a dim ond yr Unol Daleithiau sydd â record waeth na'r DU o blith holl wledydd datblygedig y byd o safbwynt y graddau y mae incwm unigolyn yn y dyfodol yn cael ei benderfynu gan incwm ei rieni.

A previous report from the Social Mobility and Child Poverty Commission highlighted the importance of early education to a child's future development. High-quality early education makes a difference to children's academic attainment and high-quality pre-school provision has been shown to improve key stage 2 English results in England in the research done there. There is also proof that the benefits of pre-school provision are greater for pupils from disadvantaged backgrounds than for children from less disadvantaged backgrounds. So, the importance of embedding a good educational experience at the very first stage is well established. As I said, for that reason, I am absolutely delighted that we were able to agree the extension of the pupil deprivation grant to our younger pupils too.

Nododd adroddiad blaenorol gan y Comisiwn Symudedd Cymdeithasol a Thlodi Plant bwysigrwydd addysg gynnar i ddatblygiad plentyn yn y dyfodol. Mae addysg gynnar o ansawdd uchel yn gwneud gwahaniaeth i gyrhaeddiad academaidd plant ac mae gwaith ymchwil yn Lloegr wedi dangos bod darpariaeth cyn ysgol o ansawdd uchel yn gwella canlyniadau Saesneg cyfnod allweddol 2 yn Lloegr. Mae tystiolaeth hefyd bod manteision darpariaeth cyn ysgol yn fwy ar gyfer disgyblion o gefndiroedd difreintiedig nag ar gyfer plant o gefndiroedd llai difreintiedig. Felly, mae pwysigrwydd sicrhau profiad addysgol da yn ystod y cam cyntaf wedi'i hen sefydlu. Fel y dywedais, am y rheswm hwnnw, rwyf wrth fy modd ein bod wedi llwyddo i gytuno i ymestyn y grant amddifadedd disgyblion i'n disgyblion iau hefyd.

It is clearly unacceptable that children should be at a disadvantage compared to their peers before they have even started school, and it is absolutely right that we give children the best possible start in life through early intervention. That is why the early years pupil deprivation grant is all about that. We can, therefore, all agree, I think, that the introduction of the early years pupil deprivation grant is good news for our schools, is good news for parents, and is really good news for those children across the country. As I said, as a party, we were delighted that the Welsh Government examined the case that we put forward for extending the funding to the under-fives and accommodated this within the newly agreed budget.

Mae'n amlwg yn annerbyniol y dylai plant fod o dan anfantais o gymharu â'u cyfoedion cyn iddynt hyd yn oed ddechrau yn yr ysgol, ac mae'n gwbl gywir i ni roi'r cychwyn gorau posibl mewn bywyd i blant drwy ymyrraeth gynnar. Dyna pam y mae grant amddifadedd disgyblion y blynyddoedd cynnar yn ymwneud â hynny. Gallwn, felly, i gyd cytuno, rwy’n credu, bod cyflwyno grant amddifadedd disgyblion y blynyddoedd cynnar yn newyddion da i’n hysgolion, yn newyddion da i rieni, ac yn newyddion da iawn i'r plant hynny ledled y wlad. Fel y dywedais, fel plaid, roeddem wrth ein bodd bod Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr achos a gyflwynwyd gennym ar gyfer ymestyn y cyllid i blant dan bump oed, ac wedi cynnwys hynny yn y gyllideb sydd newydd ei chytuno.

Later in the debate today, we will look more closely at some of the scheme’s successes, as well as looking at areas where there is room for improvement and at what we need to take forward to implement in the next phase of the funding. We recognise, as stated in one of the amendments today, that the issue of assessing the pupil deprivation grant and the impact that it is having is a very pertinent one, and we would support that amendment because we would wish to see this policy properly and scientifically evaluated, as all policy areas ought to be. However, we hope that today’s debate will encourage a greater focus not only on how we can get the most out of the pupil deprivation grant, but also on how we can encourage schools to use the available guidance to maximise the impact that that grant will have for them and for the children in their care.

Yn ddiweddarach yn y ddadl heddiw, byddwn yn edrych yn fanylach ar rai o lwyddiannau'r cynllun, yn ogystal ag edrych ar feysydd lle mae lle i wella ac ar yr hyn y mae angen i ni fwrw ymlaen i’w weithredu yng ngham nesaf y cyllid. Rydym yn cydnabod, fel y nodwyd yn un o'r gwelliannau heddiw, bod y mater o asesu'r grant amddifadedd disgyblion a'r effaith y mae'n ei chael yn un perthnasol iawn, a byddem yn cefnogi'r gwelliant hwnnw oherwydd y byddem yn dymuno gweld y polisi hwn yn cael ei werthuso'n briodol ac yn wyddonol, fel y dylai ddigwydd yng nghyswllt pob maes polisi. Fodd bynnag, rydym yn gobeithio y bydd y ddadl heddiw yn hyrwyddo mwy o ffocws, nid yn unig ar sut y gallwn fanteisio i'r eithaf ar y grant amddifadedd disgyblion, ond hefyd ar sut y gallwn annog ysgolion i ddefnyddio'r canllawiau sydd ar gael i sicrhau y bydd y grant yn cael yr effaith fwyaf posibl ar eu cyfer nhw ac ar gyfer y plant yn eu gofal.

16:32

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I have selected the two amendments to the motion. I call on Alun Ffred Jones to move amendment 1 in the name of Elin Jones.

Rwyf wedi dethol y ddau welliant i'r cynnig. Galwaf ar Alun Ffred Jones i gynnig gwelliant 1 yn enw Elin Jones.

*Gwelliant 1—Elin Jones*

*Amendment 1—Elin Jones*

*Dileu popeth a rhoi yn ei le:*

*Delete all and replace with:*

*1. Yn nodi'r toriad mewn termau real o £56 miliwn yng nghyllideb addysg y flwyddyn hon sy'n cynnwys toriadau o £5 miliwn i'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion a £10.7 miliwn i'r cynllun prentisiaeth Recriwtiaid Newydd.*

*1. Notes the real term cut of £56m in this year's education budget which includes cuts of £5m to the School Effectiveness Grant and £10.7m to the Young Recruits apprenticeships scheme.*

*2. Yn nodi toriadau pellach o £26.4 miliwn i addysg yn y gyllideb ddrafft o'i chymharu â'r gyllideb atodol ar gyfer mis Mehefin 2014.*

*2. Notes further cuts of £26.4m in the draft budget to post-16 education compared with the supplementary budget for June 2014.*

*3. Yn credu bod Llywodraeth Cymru wedi mynd yn groes i ysbryd cytundebau blaenorol ar gyllidebau ac yn gwrthod y syniad o dincera â'r gyllideb tra bod diffygion sylfaenol yn parhau.*

*3. Believes that the Welsh Government has broken the spirit of previous budget deals and rejects budget tinkering while fundamental flaws remain.*

16:32

## Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Cynigiaf welliant 1.

I move amendment 1.

Rwy’n falch iawn o gael siarad i’r gwelliant a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Rydym yn awgrymu yn ein gwelliant y dylid dileu popeth a rhoi yn ei le:

I am very pleased to speak to the amendment tabled in the name of Elin Jones. We suggest in our amendment that we should delete all and replace it with:

‘Yn nodi'r toriad mewn termau real o £56 miliwn yng nghyllideb addysg y flwyddyn hon sy'n cynnwys toriadau o £5 miliwn i'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion a £10.7 miliwn i'r cynllun prentisiaeth Recriwtiaid Newydd.’

‘Notes the real term cut of £56m in this year's education budget which includes cuts of £5m to the School Effectiveness Grant and £10.7m to the Young Recruits apprenticeships scheme.’

Rydym hefyd:

We also note:

‘Yn nodi toriadau pellach o £26.4 miliwn i addysg yn y gyllideb ddrafft o'i chymharu â'r gyllideb atodol ar gyfer mis Mehefin 2014.’

‘further cuts of £26.4m in the draft budget to post-16 education compared with the supplementary budget for June 2014.’

ac

and believe

‘Yn credu bod Llywodraeth Cymru wedi mynd yn groes i ysbryd cytundebau blaenorol ar gyllidebau ac yn gwrthod y’—

‘that the Welsh Government has broken the spirit of previous budget deals and’

neu’n ymwrthod â’r—

reject

‘syniad o dincera â'r gyllideb tra bod diffygion sylfaenol yn parhau.’

‘budget tinkering while fundamental flaws remain.’

Gallwn ddadlau hyd Sul y pys ynglŷn â faint o arian sydd ar gael a lle y dylid dosrannu’r arian hynny, ond, yn gyntaf, mae’r toriadau o fewn y flwyddyn hon yn dangos methiant i gynllunio’n briodol. Mae wedi cythruddo staff a swyddogion a oedd eisoes wedi cynllunio ac yn gweithredu grant a oedd, mae’n debyg, â bwriad penodol iddo, ac mae’r diffyg dealltwriaeth sylfaenol hwn o’r hyn sy’n digwydd ar lawr gwlad yn rhywbeth y dylwn ymboeni yn ei gylch. Wedi’r cwbl, os yw’r Llywodraeth yn dechrau blwyddyn gyda bwriad penodol o wario arian mewn ffordd arbennig sydd, gobeithio, â deilliant penodol, yna nid yw’n arfer da i dynnu’r arian hwnnw yn ôl yn ystod y flwyddyn honno, yn ddirybudd, wrth gwrs, a heb drafodaeth, er mwyn llenwi bwlch yn rhywle arall. Mae’n dangos diffyg cynllunio ar raddfa ddifrifol iawn iawn.

We could argue until the cows come home about how much money is available and how that money should be allocated, but, first of all, the cuts within this year demonstrate a failure to plan appropriately. It has angered staff and officials who had already made plans and were implementing a grant that, it appears, has a specific intention, and this fundamental lack of understanding of what is happening on the ground is something that we should be truly concerned about. After all, if the Government starts a year with a specific intention of spending money in a particular way that, hopefully, will have a specific outcome, then it is not good practice to withdraw that funding in-year, without any warning, of course, and without any discussion, in order to fill a gap elsewhere. It shows a lack of planning on a very serious scale.

Yn anffodus, mae hwn wedi effeithio ar yr union ddisgyblion o gefndir difreintiedig y mae’r Llywodraeth a’r Democratiaid Rhyddfrydol am eu helpu. Mae’n rhaid i mi ddweud, er fy mod yn parchu sylwadau Eluned Parrott, mae’n sôn am blant o ardaloedd neu o gefndir difreintiedig, ac yna bu iddi sôn am ‘affluent families’. Yn fy ardal i, er enghraifft, lle bydd y manteision hyn yn dod i rai ysgolion yn unig, mae’n anodd disgrifio ysgolion cyffredin yn Llanllyfni, Bethesda neu Llanberis fel ysgolion sydd mewn ardaloedd ‘affluent’; nid ydynt—maent yn ardaloedd cymharol dlawd. Wrth gwrs, mae arfer yn y pentrefi hynny i fynd allan i weithio, ond mae’r cyflogau yn fychan ac mae’r cefndir yn rhyfeddol o debyg i lawer o ardaloedd a fydd yn elwa. Felly, rwy’n ymwrthod â hynny, a’r hyn sy’n bwysig yw ein bod yn sicrhau bod cysondeb yn yr addysg sydd yn cael ei gyflwyno ar draws y sbectrwm ac ym mhob ardal yn ddiwahân.

Unfortunately, this has an impact on the very pupils from disadvantaged backgrounds that the Government and the Liberal Democrats wish to assist. I have to say, while I respect the comments made by Eluned Parrott, she talks about children from disadvantaged areas or backgrounds, and then she mentioned ‘affluent families’. In my area, for example, where these benefits are going to accrue to some schools only, it is difficult to describe ordinary schools in Llanllyfni, Bethesda or Llanberis as schools that are in affluent areas; they are not—they are relatively poor areas. Of course, the people in those villages go out to work, but the salaries are small and the background is remarkably similar to that of many areas that will benefit. So, I do reject that, and what is important is that we ensure consistency in the education provided across the spectrum in all areas without differentiation.

O safbwynt y grant disgyblion difreintiedig hwn, wrth gwrs bydd croeso cyffredinol yn yr ysgolion a fydd yn elwa, ond y cwestiwn sylfaenol, ac rwy’n credu bod hwn yn rhan o’r drafodaeth a gawsom mewn dadl arall y prynhawn yma, yw: beth yw effaith a chanlyniadau’r gwariant hwn? Hyd yn hyn, nid wyf wedi gweld y dystiolaeth honno.

In terms of this pupil deprivation grant, of course there will be a general welcome in the schools that will benefit, but the fundamental question, and I think this is part of the discussion that we had in another debate this afternoon, is: what is the impact and results of this expenditure? To date, I have not seen that evidence.

16:36

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Have you actually checked where this pupil deprivation grant goes, because virtually every school in Wales will benefit in some way from this grant?

A ydych mewn gwirionedd wedi cadarnhau ble mae'r grant amddifadedd disgyblion hwn yn mynd, gan y bydd bron pob ysgol yng Nghymru yn elwa mewn rhyw ffordd ar y grant hwn?

16:36

## Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Bydd, ond mae wedi ei sylfaenu ar y rhai sydd yn derbyn cinio am ddim; dyna yw sail y peth. Mae prifathrawon yn dweud wrthyf nad yw hynny ynddo'i hun yn sail wyddonol i farnu pa rai sydd mewn angen. Y gwir amdani yw nad oes unrhyw dystiolaeth wrthrychol, hyd y gwn i—rwy'n barod i gael fy nghywiro—o effaith a chanlyniadau'r grant penodol hwn. Os wyf yn anghywir rwy'n barod i gael fy nghywiro. Y cwestiwn yw: a yw'n gwella cyrhaeddiad disgyblion? Dyna pam rwy'n gobeithio fod gan y Llywodraeth raglen werthuso ar waith er mwyn sicrhau bod yr arian sy'n cael ei wario yn dod â chanlyniadau yn ei sgîl, achos dyna fyddai'n cyfiawnhau'r gwariant, a bod yr ysgolion y mae'r grant yn effeithio fwyaf arnynt yn gweithredu rhaglenni sydd yn cael canlyniadau penodol.

They will, but it is based upon those in receipt of free school meals; that is its basis. Headteachers tell me that that in and of itself is not a scientific basis on which to determine who is in need. The truth is that there is no objective evidence, as far as I know—I am prepared to be corrected—of the impact and results of this specific grant. If I am wrong, I stand to be corrected. The question is: does it improve the attainment of pupils? That is why I hope that the Government has an evaluation programme in place in order to ensure that the money spent results in outcomes, because that is what would justify the expenditure, and that the schools where the grant has greatest effect implement programmes that have specific outcomes.

Mae dau faes arall yn wynebu toriadau, ac un ohonynt yw prentisiaethau. Mae llawer iawn o frolio wedi bod ar lwyddiant y rhaglenni prentisiaethau, ond rydym yn clywed Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru yn rhybuddio y bydd £11 miliwn yn cael ei golli, ac y bydd hynny'n arwain at golli cyfleoedd di-rif i bobl ifanc sydd angen y prentisiaethau hynny. Bydd effaith ddifrifol hefyd o ran y rhaglen Young Recruits, lle rydym yn deall y bydd 9,000 o bobl ifanc yn colli cyfleoedd.

There are two other areas facing cuts, and one of them is apprenticeships. There has been much talk of the success of the apprenticeship programmes, but we hear the National Training Federation in Wales warning that £11 million will be lost, and that will mean the loss of countless opportunities for young people who need those apprenticeships. There will also be a serious impact on the Young Recruits programme, where we understand 9,000 young people will be affected.

Manylion yw'r rhain ar un ystyr, ac eto y gwir amdani yw ei fod yn golygu bod pobl ifanc yn colli cyfle ar adeg pan maen nhw fwyaf angen cael hyfforddiant i sicrhau eu bod yn gallu mynd ymlaen yn y byd.

These are minutiae in one respect, but the truth is that it means that young people will lose out on an opportunity at a time when they most need training to ensure that they can progress in life.

16:38

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Suzy Davies to move amendment 2, tabled in the name of Paul Davies.

Galwaf ar Suzy Davies i gynnig gwelliant 2, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

*Gwelliant 2—Paul Davies*

*Amendment 2—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn nodi nad oes gwerthusiad ffurfiol o'r Grant Amddifadedd Disgyblion ar gael eto.*

*Notes that a formal evaluation of the Pupil Deprivation Grant is not yet available.*

16:38

## Suzy Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 2.

Cynigiaf welliant 2.

We will be opposing the motion today in order to improve the chances of a vote's being taken on the Welsh Conservative amendment. I am grateful to Eluned Parrott for the indication of the Liberal Democrats' voting intention on that.

Byddwn yn gwrthwynebu'r cynnig heddiw er mwyn gwella'r cyfle o gael pleidlais ar welliant y Ceidwadwyr Cymreig. Rwy'n ddiolchgar i Eluned Parrott am nodi sut mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn bwriadu pleidleisio ar hynny.

The self-congratulatory wording of part 1 of the motion has made it unnecessarily difficult to support anyway. It is not the role of the official opposition to fluff up budget arrangements that devote another round of money to a specific grant that has still to prove its effectiveness, and apparently at the cost of other spending targeted at improving attainment.

Mae geiriad hunan-ganmoliaethus rhan 1 o’r cynnig wedi ei gwneud yn ddiangen o anodd ei gefnogi beth bynnag. Nid rôl yr wrthblaid swyddogol yw brolio trefniadau cyllideb sy'n neilltuo cylch arall o arian i grant penodol nad yw wedi profi ei effeithiolrwydd eto, ac sydd, mae’n ymddangos, ar draul mathau eraill o wariant i geisio gwella cyrhaeddiad.

Eluned Parrott is right, though; we do not doubt the intention behind the introduction of the pupil deprivation grant, but this Assembly will be aware that after two years the preliminary evidence is that it is not universally being used for the purpose for which it was intended.

Mae Eluned Parrott yn gywir, fodd bynnag; nid ydym yn amau’r bwriad sy’n sylfaen i gyflwyno'r grant amddifadedd disgyblion, ond bydd y Cynulliad hwn yn ymwybodol, ar ôl dwy flynedd, bod y dystiolaeth ragarweiniol yn dangos nad yw'n cael ei ddefnyddio yn gyffredinol ar gyfer y diben y'i bwriadwyd.

The Children, Young People and Education Committee’s inquiry has already heard anecdotally that the pupil deprivation grant is not always spent in the most targeted way. It has sometimes been used to raise the attainment level of poorer performers, regardless of their background, rather than to raise the attainment levels of children from deprived backgrounds, regardless of their potential. It is an observation which has been made more formally by Estyn in its report of December 2013 and again in its report of May 2014 on pupil deprivation.

Mae ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg eisoes wedi clywed tystiolaeth anecdotaidd nad yw’r grant amddifadedd disgyblion yn cael ei wario bob amser yn y ffordd sydd wedi’i thargedu orau. Mae wedi cael ei ddefnyddio weithiau i godi lefel cyrhaeddiad y rhai sy’n perfformio’n waeth, waeth beth fo'u cefndir, yn hytrach nag i godi lefelau cyrhaeddiad plant o gefndiroedd difreintiedig, waeth beth yw eu potensial. Mae Estyn wedi arsylwi ar hyn yn fwy ffurfiol yn ei adroddiad ym mis Rhagfyr 2013 ac eto yn ei adroddiad ym mis Mai 2014 ar amddifadedd disgyblion.

You may well say, and I would understand if you did, ‘At least it is raising attainment’, but there are three problems with that response. The first, which has been alluded to already, is that the gap in attainment between children entitled to free school meals and those that are not remains stubbornly resistant to intervention, and it is here that the pupil deprivation grant should be making a visible difference, helping to close, between children of the same ability, a gap primarily due to their different backgrounds.

Gallwch ddweud, a byddwn yn deall pe baech yn dweud, 'O leiaf mae’n codi cyrhaeddiad', ond mae tair problem gyda'r ymateb hwnnw. Yn gyntaf, fel y cyfeiriwyd ato eisoes, mae’r bwlch mewn cyrhaeddiad rhwng plant sydd â hawl i brydau ysgol am ddim a'r rhai nad oes ganddynt hawl i brydau ysgol am ddim yn parhau i wrthsefyll ymyrraeth, ac yn y cyswllt hwn y dylai'r grant amddifadedd disgyblion fod yn gwneud gwahaniaeth gweladwy, gan helpu i gau, rhwng plant o'r un gallu, bwlch sydd i’w briodoli’n bennaf i’w cefndiroedd gwahanol.

The second problem with the PDG being used to raise the attainment of all lower achievers is that the good achiever from a deprived background is not then getting any help from this grant to become an excellent achiever from a deprived background. Members may remember that this is a particularly short-fuse issue for me, and I sense that Estyn inspectors are getting pretty exasperated by it too. Poverty is no barrier to being able and talented, but an unambitious education can mean that the ability and talent of a poor child can go unremarked, unchallenged and unrewarded. There is no greater agent of social mobility than an education that inspires you to excel and, in turn, inspires others in your community by your example.

Yr ail broblem o safbwynt defnyddio’r grant amddifadedd disgyblion i godi cyrhaeddiad pob un o’r cyflawnwyr isel yw nad yw cyflawnwr da o gefndir difreintiedig yn cael unrhyw gymorth gan y grant hwn wedyn i ddod yn gyflawnwr ardderchog o gefndir difreintiedig. Efallai y bydd aelodau'n cofio bod y mater penodol hwn yn codi fy ngwrychyn, ac rwy’n synhwyro ei fod yn achosi cryn rwystredigaeth i arolygwyr Estyn hefyd. Nid yw tlodi yn rhwystr i fod yn alluog ac yn dalentog, ond gall addysg anuchelgeisiol olygu nad yw gallu a thalent plentyn tlawd yn cael eu nodi, eu herio na’u gwobrwyo. Nid oes unrhyw gyfrwng symudedd cymdeithasol gwell nag addysg am eich ysbrydoli i ragori ac, yn ei thro, ysbrydoli pobl eraill yn eich cymuned drwy eich esiampl.

A determination to take on the lack of progress in supporting more able and talented children from poorer backgrounds has contributed to the Welsh Conservative thinking on how we might introduce some of the grammar school ethos and pedagogy into our comprehensive system, aimed at those children who would benefit from that style of learning. While some of you in this Chamber may well dismiss that out of hand, let us not forget the very first recommendation of that OECD report into improving schools in Wales, which said that to meet the learning requirements of its students and deliver equity and quality, schools need to

Mae awydd i fynd i’r afael â’r diffyg cynnydd wrth gefnogi plant mwy galluog a thalentog o gefndiroedd tlotach wedi cyfrannu at agwedd Ceidwadwyr Cymru at sut y gallem gyflwyno rhywfaint o ethos ac addysgeg yr ysgol ramadeg i'n system ysgolion cyfun, wedi'u hanelu at y plant hynny a fyddai’n elwa ar yr arddull dysgu hwnnw. Er y gall rhai ohonoch yn y Siambr hon wfftio hynny, gadewch i ni beidio ag anghofio argymhelliad cyntaf adroddiad yr OECD ar wella ysgolion yng Nghymru. Yn ôl yr adroddiad, er mwyn bodloni gofynion dysgu eu myfyrwyr a sicrhau tegwch ac ansawdd, mae’n rhaid i ysgolion

'set high expectations and promote the use of differentiated teaching.'

'osod disgwyliadau uchel a hyrwyddo'r defnydd o addysgu gwahaniaethol.'

Welsh schools need to move towards more personalised learning while still setting high expectations for every child, and I do not think that we yet have the evidence that the pupil deprivation grant is being targeted in a way that makes it easier for that personalised learning to benefit children from poorer backgrounds, particularly those who are more able and talented. However, I accept that it is not a case of either/or. Despite the attainment gap, we have a comparatively good level of equity within our school system. However, in Wales that has led to, and I quote, 'mediocrity', a word used by the author of the OECD report himself when the Children, Young People and Education Committee met him in person recently. So, all boats do still need to be raised, but the third problem I have with the PDG being used for that is this: this is what the school effectiveness grant is for. It is a rolling grant intended to go on beyond 2015 and initially worth about the same as the pupil deprivation grant. The OECD again recommended that Wales needs simple, financially stable and efficient mechanisms to deliver equity and quality. I think that the school effectiveness grant would fit that bill. However, the school effectiveness grant has been cut in favour of a scheme that relies entirely for its future on its identity as a bargaining chip in budget negotiations. I think that if the Welsh Government had faith in the PDG it would have given it the backing that it has given Flying Start: a long life, secure funding and belief in its long-term good, despite unpromising preliminary evidence. On that, I just want to finish by asking about the early years pupil premium and where that is going to fit in with the nursery funding element of Flying Start. I am just interested to know whether that will be a case of robbing Peter to pay Paul as well.

Mae angen i ysgolion Cymru symud tuag at ddysgu mwy personol gan barhau i osod disgwyliadau uchel ar gyfer pob plentyn, ac nid wyf yn credu ein bod wedi cael y dystiolaeth eto bod y grant amddifadedd disgyblion yn cael ei dargedu mewn ffordd sy'n ei gwneud yn haws i'r cyfryw ddysgu personol gynorthwyo plant o gefndiroedd tlotach, yn enwedig y rhai sy'n fwy galluog a thalentog. Fodd bynnag, rwy'n derbyn nad yw hwn yn achos o naill ai/neu. Er gwaethaf y bwlch cyrhaeddiad, mae gennym lefel gymharol dda o degwch yn ein system ysgolion. Fodd bynnag, yng Nghymru, mae hynny wedi arwain at, ac rwy'n dyfynnu, 'cyffredinedd', gair a ddefnyddiwyd gan awdur adroddiad yr OECD ei hun pan gyfarfu'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ag ef yn bersonol yn ddiweddar. Felly, mae angen codi pob cwch o hyd, ond y drydedd broblem sydd gennyf o ran defnyddio'r grant amddifadedd disgyblion am hynny yw hyn: dyma ddiben y grant effeithiolrwydd ysgolion. Mae'n grant treigl y bwriedir parhau ag ef y tu hwnt i 2015 ac sydd â'r un gwerth yn fras yn y lle cyntaf â'r grant amddifadedd disgyblion. Roedd yr OECD yn argymell eto bod Cymru angen mecanweithiau syml, ariannol sefydlog ac effeithlon i gyflwyno tegwch ac ansawdd. Rwy'n meddwl y byddai'r grant effeithiolrwydd ysgolion yn addas ar gyfer hynny. Fodd bynnag, mae'r grant effeithiolrwydd ysgolion wedi cael ei dorri i wneud lle am gynllun sy'n dibynnu'n gyfan gwbl am ei ddyfodol ar ei hunaniaeth fel darn bargeinio mewn trafodaethau ar y gyllideb. Rwy'n meddwl, pe bai gan Lywodraeth Cymru ffydd yn y grant amddifadedd disgyblion, y byddai wedi rhoi'r un gefnogaeth iddo ag y mae wedi'i rhoi i Dechrau'n Deg: bywyd hir, cyllid diogel a chred yn ei ddaioni hirdymor, er gwaethaf tystiolaeth ragarweiniol anaddawol. O ran hynny, rwyf am orffen drwy ofyn am bremiwm disgyblion y blynyddoedd cynnar a sut y bydd hwnnw'n cyd-fynd ag elfen ariannu meithrin Dechrau'n Deg. Hoffwn wybod a fydd hynny'n achos o ddwyn o'r naill law i dalu'r llall hefyd.

16:43

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

May I first of all disabuse Suzy Davies of her idea that the school effectiveness grant has been cut so as to fund the PDG? That is not the case. That cut is entirely separate to that budget provision. I will say that, if we do get a vote, we will support your amendment because we believe that this does need to be evaluated because evaluation can lead to improvement and the more improvement you can make the more effective it will be in helping the poorest pupils attain at the level they should be able to aspire to. With regard to Alun Ffred's contribution, I was a bit astonished by it because, of course, Plaid Cymru signed up to the pupil deprivation grant last year, and it was only a fit of pique this year that kept it from taking part in the budget talks so that it could sign up to it again for the next two years.

A gaf fi yn gyntaf gywiro Suzy Davies ynglŷn â'i syniad bod y grant effeithiolrwydd ysgolion wedi cael ei dorri er mwyn ariannu'r grant amddifadedd disgyblion? Nid yw hynny'n wir. Mae'r toriad hwnnw yn gwbl ar wahân i'r ddarpariaeth honno yn y gyllideb. Byddaf yn dweud, os ydym yn cael pleidlais, y byddwn yn cefnogi eich gwelliant oherwydd ein bod yn credu bod angen gwerthuso hyn oherwydd y gall gwerthusiad arwain at welliant, a po fwyaf o welliannau y gallwch eu gwneud, y mwyaf effeithiol y bydd hynny wrth helpu'r disgyblion tlotaf i gyrraedd y lefel y dylent allu ymgyrraedd ati. O ran cyfraniad Alun Ffred, cefais fy syfrdanu ganddo ychydig oherwydd, wrth gwrs, cefnogodd Plaid Cymru'r grant amddifadedd disgyblion y llynedd, a'r ffaith ei bod wedi pwdu eleni oedd yr unig reswm na chymerodd ran yn y trafodaethau ar y gyllideb fel y gallai ei gefnogi am y ddwy flynedd nesaf.

However, there has been an abundance of evidence published over the summer demonstrating the positive impact that the pupil premium in England has been having there and the added value it is bringing to the school lives of disadvantaged children across the country. These reports have included evaluations of the different ways in which the funding is being spent and of which ways are proving the most effective. It is important that, in Wales, we take note of these evaluations and use all the evidence available to us to advise schools accordingly so that they can put the funding to the best possible use. We urge the Welsh Government to ensure that schools receive the right level of guidance while retaining the autonomy to spend the funds as they see fit to help those poorest pupils.

Fodd bynnag, mae digonedd o dystiolaeth wedi'i chyhoeddi dros yr haf sy'n dangos effaith gadarnhaol y premiwm disgyblion yn Lloegr a'r gwerth ychwanegol sy'n deillio ohono i fywyd ysgol plant difreintiedig ledled y wlad. Mae'r adroddiadau hyn wedi cynnwys gwerthusiadau o'r ffyrdd gwahanol y mae'r arian yn cael ei wario'r a'r ffyrdd sydd fwyaf effeithiol. Mae'n bwysig ein bod ni, yng Nghymru, yn cymryd sylw o'r gwerthusiadau hyn ac yn defnyddio'r holl dystiolaeth sydd ar gael i gynghori ysgolion yn unol â hynny fel y gallant wneud y defnydd gorau posibl o'r arian. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod ysgolion yn derbyn y lefel gywir o ganllawiau ac yn cadw'r ymreolaeth i wario'r arian fel y gwelant orau i helpu'r disgyblion tlotaf.

It is vital that headteachers retain the freedom to use the funding in a way that provides the greatest benefit to the circumstances of those whom it is intended to support. It is commonly agreed that headteachers and their staff are best placed to make decisions about where and how money is spent in their schools, and we would certainly support that. It is also essential, however, that headteachers are able to make well-informed spending decisions through an evidence-based understanding of what works.

Mae'n hanfodol bod gan benaethiaid y rhyddid i ddefnyddio'r arian mewn ffordd sy'n darparu'r budd mwyaf i amgylchiadau'r rhai y bwriedir i'r arian eu cefnogi. Cytunir yn gyffredinol bod penaethiaid a'u staff yn y sefyllfa orau i wneud penderfyniadau ynglŷn â ble a sut y caiff arian ei wario yn eu hysgolion, a byddem yn sicr yn cefnogi hynny. Mae hefyd yn hanfodol, fodd bynnag, bod penaethiaid yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus ar wario drwy ddealltwriaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth o'r hyn sy'n llwyddo.

The education endowment foundation, the Sutton Trust, provides resources to help schools identify the most effective interventions, and all schools should be made aware of these resources and encouraged to adopt them.

Mae'r sefydliad gwaddol addysg, Ymddiriedolaeth Sutton, yn darparu adnoddau i helpu ysgolion i nodi'r ymyriadau mwyaf effeithiol, a dylai pob ysgol fod yn ymwybodol o'r adnoddau hyn a chael eu hannog i'w mabwysiadu.

There is an increasing number of best practice examples from schools in both England and Wales that have spent the pupil premium successfully. Common themes among such cases are: carefully ring-fencing funding so that they always spend it on target groups of children; never confusing eligibility for the pupil premium with low ability—the pupil premium must be spent on those who are most disadvantaged; fairly analysing which pupils were underachieving and why; using achievement data frequently to check whether interventions or techniques were working and making adjustments accordingly, rather than just using the data retrospectively to see whether something had worked; having a clear policy on spending the pupil premium agreed by governors and publicised on the school website; and, through careful monitoring and evaluation, demonstrating the impact of each aspect of their spending on the outcomes for pupils.

Mae nifer cynyddol o enghreifftiau o arfer gorau o ysgolion yng Nghymru a Lloegr sydd wedi gwario'r premiwm disgyblion yn llwyddiannus. Mae themâu cyffredin mewn achosion o'r fath yn cynnwys: clustnodi cyllid yn ofalus fel eu bod yn ei wario bob amser ar grwpiau o blant a dargedir; osgoi cymysgu cymhwyster ar gyfer y premiwm disgyblion â gallu isel—rhaid gwario'r premiwm disgyblion ar y rhai sydd fwyaf difreintiedig; dadansoddi mewn ffordd deg pa ddisgyblion a oedd yn tangyflawni a pham; defnyddio data cyrhaeddiad yn rheolaidd i weld a oedd ymyriadau neu dechnegau yn llwyddo a gwneud addasiadau yn unol â hynny, yn hytrach na dim ond defnyddio'r data yn ôl-weithredol i weld a oedd rhywbeth wedi llwyddo; cael polisi clir ar wario'r premiwm disgyblion y cytunwyd arno gan lywodraethwyr a'i gynnwys ar wefan yr ysgol; a, thrwy fonitro a gwerthuso gofalus, dangos effaith pob agwedd ar eu gwariant ar y deilliannau ar gyfer disgyblion.

With each new evaluation of the pupil premium scheme in England and the PDG in Wales, it is becoming apparent that these schemes are successfully fulfilling their remit of reducing the attainment gap. One of the best demonstrations of this is with the case studies provided by the pupil premium award winners of the last two years. Pakeman Primary School in London was the 2014 winner of the award. Based in an area of high deprivation, 85% of pupils were eligible for the pupil premium. The school took a multistrand approach, together with rigorous tracking and assessment procedures, so that any gaps in pupil learning were quickly identified and addressed. For example, they involved all staff in analysing the data and identifying pupils underachieving at any level; they made improvements to the day-to-day teaching by establishing a team leader model that addressed any school variances and increased the percentages of outstanding teaching; and there was an increase in the amount of learning time by improving punctuality and attendance and extending out-of-hours learning sessions. I have certainly seen some of that going on in the schools that I have visited, using the pupil deprivation grant for that. By the end of the last academic year, the gap between disadvantaged pupils and their peers at that school was reported to have significantly narrowed.

Gyda phob gwerthusiad newydd o'r cynllun premiwm disgyblion yn Lloegr a'r grant amddifadedd disgyblion yng Nghymru, mae'n dod yn amlwg bod y cynlluniau hyn yn cyflawni eu cylch gwaith i leihau'r bwlch cyrhaeddiad yn llwyddiannus. Un o'r pethau sydd wedi dangos hyn orau yw'r astudiaethau achos sy'n deillio o enillwyr gwobrau'r premiwm disgyblion dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Ysgol Gynradd Pakeman yn Llundain a enillodd y wobr yn 2014. Lleolir yr ysgol mewn ardal o amddifadedd uchel, gydag 85% o'r disgyblion yn gymwys i gael y premiwm disgyblion. Mabwysiadodd yr ysgol ddull gweithredu aml-agwedd, ynghyd â gweithdrefnau olrhain ac asesu trwyadl, er mwyn nodi a mynd i'r afael ag unrhyw fylchau mewn dysgu disgyblion yn gyflym. Er enghraifft, aethant ati i gynnwys yr holl staff yn y gwaith o ddadansoddi'r data a nodi disgyblion a oedd yn tangyflawni ar unrhyw lefel; gwnaethant welliannau i'r addysgu o ddydd i ddydd drwy sefydlu model arweinydd tîm a oedd yn mynd i'r afael ag unrhyw amrywiadau yn yr ysgol ac yn cynyddu'r canrannau o addysgu rhagorol; a chafwyd cynnydd yn y cyfanswm o amser dysgu drwy wella prydlondeb a phresenoldeb ac ymestyn sesiynau dysgu y tu allan i oriau ysgol. Rwyf yn sicr wedi gweld rhywfaint o hynny yn digwydd yn yr ysgolion rwyf wedi ymweld â hwy, gan ddefnyddio'r grant amddifadedd disgyblion ar gyfer hynny. Erbyn diwedd y flwyddyn academaidd ddiwethaf, nodwyd bod y bwlch rhwng disgyblion difreintiedig a'u cyfoedion yn yr ysgol honno wedi lleihau yn sylweddol.

In schools where the pupil premium appears to have had less of an impact, the following practices were often in place: not monitoring the quality and impact of interventions well enough, even where other monitoring was effective; not having an effective performance management system for teaching assistants and other support staff; and not having a clear audit trail for where the funding had been spent.

Mewn ysgolion lle ymddengys fod y premiwm disgybl wedi cael llai o effaith, roedd yr arferion canlynol ar waith yn aml: methu monitro ansawdd ac effaith ymyriadau yn ddigon da, hyd yn oed lle'r oedd gwaith monitro arall yn effeithiol; diffyg system rheoli perfformiad effeithiol ar gyfer cynorthwywyr addysgu a staff cymorth eraill; a diffyg trywydd archwilio clir ar gyfer ble y cafodd yr arian ei wario.

So, based on these case studies and lessons about what works best for schools, we encourage the Government to adopt a policy of open and effective information exchange, allowing schools to share best practice and access existing guidance. It is important that schools and, in turn, the Government are able to demonstrate where money is being spent and how and why it is spent as it was. Only then will we be able to properly demonstrate the positive impact that the pupil deprivation grant is having in Wales.

Felly, ar sail yr astudiaethau achos a'r gwersi hyn o safbwynt yr hyn sy'n gweithio orau i ysgolion, rydym yn annog y Llywodraeth i fabwysiadu polisi o gyfnewid gwybodaeth yn agored ac yn effeithiol, gan alluogi ysgolion i rannu arferion gorau a chael mynediad at arweiniad sydd eisoes yn bodoli. Mae'n bwysig bod ysgolion ac, yn ei thro, y Llywodraeth yn gallu dangos ble mae arian yn cael ei wario a sut a pham y mae'n cael ei wario yn y modd hwnnw. Dim ond wedyn y byddwn yn gallu dangos yr effaith gadarnhaol y mae'r grant amddifadedd disgyblion yn ei chael yng Nghymru.

16:48

## Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I very much welcome the increase in the pupil deprivation grant, as I think that this is a key measure to enable us to bridge the gap in attainment between poor, bright children and their peers.

Croesawaf y cynnydd yn y grant amddifadedd disgyblion yn fawr iawn, gan fy mod yn meddwl bod hyn yn fesur allweddol i'n galluogi i bontio'r bwlch mewn cyrhaeddiad rhwng plant tlawd, disglair a'u cyfoedion.

We can note that we do not yet have the evaluation that is being done by Ipsos MORI and WISERD, the Wales Institute of Social and Economic Research, Data and Methods, at Cardiff University. I for one will look forward to reading it. However, it is absolutely right that we continue to vest more and more money in the pupil deprivation grant and I salute the Government's commitment to that.

Gallwn nodi nad oes gennym y gwerthusiad eto sy'n cael ei gwblhau gan Ipsos MORI a WISERD, Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd. Byddaf i, o leiaf, yn edrych ymlaen at ei ddarllen. Fodd bynnag, mae'n hollol iawn ein bod yn parhau i glustnodi mwy a mwy o arian ar gyfer y grant amddifadedd disgyblion ac rwy'n canmol ymrwymiad y Llywodraeth i hynny.

It is certainly the Government's job to ensure that school governing bodies and school leaders are actually spending the pupil deprivation grant on the purpose for which it is given, which is to bridge that gap in attainment. We know from the EPPE evidence—effective pre-school and primary education—which I just want to remind you is a longitudinal study of 3,000 children between the ages of three and seven, that disadvantage in terms of language development is already well embedded in children by the age of two and that, unless you have high-quality early years education, that gap will continue to grow.

Yn ddiau, cyfrifoldeb y Llywodraeth yw sicrhau bod cyrff llywodraethu ysgolion ac arweinwyr ysgolion yn gwario'r grant amddifadedd disgyblion yn unol â'r diben y'i rhoddir, sef pontio'r bwlch hwnnw mewn cyrhaeddiad. Rydym yn gwybod o dystiolaeth EPPE—addysg cyn ysgol a chynradd effeithiol—sydd, os gaf fi'ch atgoffa, yn astudiaeth hydredol o 3,000 o blant rhwng tair a saith oed, bod anfantais o safbwynt datblygiad iaith eisoes wedi ymwreiddio mewn plant erbyn iddynt gyrraedd dwy oed ac, oni bai bod gennych addysg blynyddoedd cynnar o ansawdd uchel, bydd y bwlch hwnnw'n parhau i dyfu.

I met a rising three year old last week, whose diction was so poor he was not even able to clearly articulate his name. Such experiences are not uncommon for nursery teachers, and it is that high-quality, part-time nursery education that can reverse the otherwise increasing gap. Here, I would just like to highlight the importance of the European structural funds programme that intends to invest in higher-quality nursery staff, so that we can ensure that all our nursery education is of a very high quality, because this is absolutely key, in my view, to ensuring that we are tackling the gap in attainment.

Cyfarfûm â phlentyn tair oed yr wythnos diwethaf, yr oedd ei eirio mor wael nad oedd hyd yn oed yn gallu ynganu ei enw yn glir. Nid yw profiadau o'r math yn anghyffredin i athrawon meithrin, a gall addysg feithrin ran-amser o ansawdd uchel wrthdroi'r bwlch a fyddai'n cynyddu fel arall. Yma, hoffwn dynnu sylw at bwysigrwydd rhaglen y cronfeydd strwythurol Ewropeaidd sy'n bwriadu buddsoddi mewn staff meithrin o ansawdd uwch, fel y gallwn sicrhau bod ein holl addysg feithrin o safon uchel iawn, oherwydd mae hyn yn gwbl allweddol, yn fy marn i, i sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â'r bwlch mewn cyrhaeddiad.

I just wanted to spend a little bit of time drawing our attention to the link between early nutrition, social and emotional development and cognitive development scores. Work done by Demos makes it absolutely clear that there is a huge link between early years feeding and cognitive development. Those who eat regularly at three years old are 40% more likely to achieve the British Ability Scales construction test. By age seven, they are still 30% more likely to do that in maths. By the age of five, they are 46% more likely to make sufficient progress in maths. There is this huge link between what children are eating and their ability to concentrate and absorb the information that they are learning in school. We have to remind ourselves that 25% of children start school obese. This is a perfect storm in England, certainly, where the UK Government has dropped the Healthy Schools initiative, dropped school meal standards and dropped free swimming, and it is something that we really have an opportunity to do something about in Wales.

Roeddwn eisiau treulio ychydig o amser yn tynnu ein sylw at y cysylltiad rhwng datblygiad maeth, cymdeithasol ac emosiynol cynnar a sgoriau datblygiad gwybyddol. Mae gwaith a wnaed gan Demos yn ei gwneud yn gwbl glir bod cysylltiad enfawr rhwng bwydo yn y blynyddoedd cynnar a datblygiad gwybyddol. Mae'r rhai sy'n bwyta'n rheolaidd yn dair blwydd oed 40% yn fwy tebygol o lwyddo ym mhrawf adeiladu'r Graddfeydd Gallu Prydeinig. Erbyn saith oed, maent yn dal i fod 30% yn fwy tebygol o wneud hynny mewn mathemateg. Erbyn pump oed, maent yn 46% yn fwy tebygol o wneud cynnydd digonol mewn mathemateg. Mae cysylltiad enfawr rhwng yr hyn y mae plant yn ei fwyta a'u gallu i ganolbwyntio ac amsugno'r wybodaeth a ddysgant yn yr ysgol. Mae'n rhaid i ni atgoffa ein hunain bod 25% o blant yn dechrau'r ysgol yn ordew. Mae hon yn storm berffaith yn Lloegr, yn sicr, lle mae Llywodraeth y DU wedi dileu'r fenter Ysgolion Iach, wedi dileu safonau prydau ysgol ac wedi dileu nofio am ddim, ac mae'n rhywbeth y mae gennym gyfle gwirioneddol i wneud rhywbeth amdano yng Nghymru.

I really welcome the extension of the pupil deprivation grant to three and four-year-olds, because one of the things that it will enable us to do is ensure that children who arrive in school hungry do not go home hungry, and that the food that they get in school will nourish their brains and emotional development. That is one of the keys to ensuring that they are able to achieve according to their ability. I think that this is an excellent move forward in ensuring that we are targeting money at children at the earliest possible age, at the age of three, and that we are then in a much better position to tackle the gap in attainment that is already evident at that age.

Rwyf yn wir yn croesawu ymestyn y grant amddifadedd disgyblion i blant tair a phedair oed, oherwydd un o'r pethau y bydd yn ein galluogi i wneud yw sicrhau nad yw plant sy'n cyrraedd yr ysgol â chwant bwyd arnynt yn mynd adref â chwant bwyd arnynt, ac y bydd y bwyd a gânt yn yr ysgol yn faeth i'w hymennydd a'u datblygiad emosiynol. Dyna un o'r ffactorau allweddol i sicrhau eu bod yn gallu cyflawni yn unol â'u gallu. Rwy'n meddwl bod hwn yn gam ardderchog ymlaen wrth sicrhau ein bod yn targedu arian tuag at blant yn yr oedran cynharaf posibl, yn dair oed, ac ein bod ni wedyn mewn sefyllfa well o lawer i fynd i'r afael â'r bwlch mewn cyrhaeddiad sydd eisoes yn amlwg yn yr oedran hwnnw.

16:53 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Erbyn hyn, rwy'n gobeithio nad oes neb yn y sefydliad hwn sy'n credu nad oes angen inni wneud rhywbeth o blaid ein plant mwyaf difreintiedig, achos erbyn i'r plant hyn ddechrau yn yr ysgol, maent ryw 19 mis ar ei hôl hi o'u cymharu efo plant eraill. Erbyn iddynt gyrraedd lefel TGAU, mae eu cyrhaeddiad ryw 40% yn waeth. Felly, hwyrach, y rheswm dros y drafodaeth hon heddiw yw gweld a ydym yn ffyddiog bod y grant amddifadedd disgyblion yn gwella'r sefyllfa. Yn bendant, rydym ni o'r farn ei fod.

By now, I hope that there is nobody in this institution who believes that there is no need for us to do something for our most disadvantaged children, because by the time these children have started in school, they are some 19 months behind as compared with other children. By the time they reach GCSE level, their attainment is around 40% worse. So, perhaps there is a reason for this discussion, and that is to see whether we are confident that the pupil deprivation grant will improve the situation. Certainly, we are of the opinion that it does.

I roi ateb i Suzy Davies, mae digon o dystiolaeth yn Lloegr erbyn hyn. Mae Ofsted wedi cyhoeddi adroddiad, 'The Pupil Premium: how schools are spending the funding successfully to maximise achievement'. Rwyf am ddarllen un paragraff o'r adroddiad hwnnw er mwyn ceisio eich darbwyllo chi bod y buddsoddiad hwn yn werth chweil.

To give Suzy Davies an answer, there is enough evidence in England by now. Ofsted has published a report, 'The Pupil Premium: how schools are spending the funding successfully to maximise achievement'. I want to read one paragraph from that report in order to try to convince you that this investment is worth while.

'In 2012, the proportion of pupils attaining Level 4 or above, both in English and mathematics, rose overall. Mathematics came in line with the national average for the first time. In mathematics, pupils who were eligible for free school meals attained better than the same group nationally, and came much closer than before to the outcomes for all pupils nationally. In English, results also improved, and the attainment gap closed considerably.'

'Yn 2012, cododd cyfran y disgyblion sy'n cyrraedd Lefel 4 neu uwch, yn Saesneg a mathemateg, yn gyffredinol. Roedd y canlyniadau mewn Mathemateg yr un fath â'r cyfartaledd cenedlaethol am y tro cyntaf. Mewn mathemateg, roedd cyrhaeddiad disgyblion a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn well na chyrhaeddiad yr un grŵp yn genedlaethol, a daeth yn llawer agosach nag o'r blaen at y canlyniadau ar gyfer pob disgybl yn genedlaethol. Gwellodd y canlyniadau Saesneg hefyd, gyda'r bwlch cyrhaeddiad yn cau yn sylweddol.'

Nid fy marn i yw honno, ond barn Ofsted.

That is not my opinion, but that of Ofsted.

16:54 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Would you accept that that evidence is not formally available in Wales yet?

A fyddech yn derbyn nad yw'r dystiolaeth honno ar gael yn ffurfiol yng Nghymru eto?

16:54 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Na, achos cafodd y grant hwn ei gyflwyno yng Nghymru tua dwy flynedd ar ôl ei gyflwyno yn Lloegr.

No, because this grant was introduced in Wales around two years after it was introduced in England.

A bod yn deg i'r Llywodraeth, rwy'n credu ei bod wedi derbyn erbyn hyn nad yw'r canllawiau ar gyfer ysgolion yn hollol eglur. Mae canllawiau newydd wedi'u rhoi i'r ysgolion ac mae'r Gweinidog hefyd wedi apwyntio WISERD, y cyfeiriodd Jenny Rathbone ato, i gynnal astudiaeth. Dechreuodd honno ym mis Ebrill 2013 ac mae i'w chyhoeddi ym mis Mehefin 2015, a bydd wedyn yn bosibl inni weld yn union beth yw'r sefyllfa. Wrth gwrs, hefyd, mae'r Llywodraeth wedi gofyn i Estyn gynnwys ei farn am effeithiolrwydd y grant o fewn pob ysgol unigol yn rhan o'i system arolygu. Felly, rwy'n credu bod y dystiolaeth yno. Nid yw'r dystiolaeth mor aeddfed ag ydyw yn Lloegr, ond mae'n rhaid inni wneud rhywbeth, ac os ydym jyst yn aros am dystiolaeth bob tro, ni fyddwn yn gwneud dim. A dweud y gwir, mae'r sefyllfa yn gywilyddus, i feddwl ein bod ni, fel gwlad, yn barod i dderbyn sefyllfa lle mae'n plant mwyaf difreintiedig yn cael eu siawns mewn bywyd wedi'i gwtogi gan ein diffyg ni i wneud yn siŵr bod buddsoddiad.

To be fair to the Government, I think that it has now accepted that the guidance for schools is not entirely clear. New guidance has been passed to schools, and the Minister has also appointed WISERD, which Jenny Rathbone referred to, to undertake an investigation. That started in April 2013 and it is to be published in June 2015, and it will then be possible for us to see exactly what the situation is. Of course, in addition, the Government has asked Estyn to include its opinion on the efficiency of the grant within every individual school as part of its inspection framework. So, I do think that the evidence is there. The evidence is not as mature as it is in England, but we have to do something, and if we just keep waiting for evidence all the time, we will just be doing nothing. Truth be told, it is a shameful situation, to think that we, as a country, are prepared to accept a situation in which the most disadvantaged children are having their chance in life cut back because of our lack of action in ensuring that there is investment.

Rwy’n derbyn pwynt Alun Ffred ynglŷn â’r ffaith mai cinio ysgol am ddim yw’r unig fesur, ond gofynnodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am dystiolaeth o ran pa fesur arall y gellid ei ddefnyddio. Yr ateb a gawsom oedd bod y system yn amherffaith ond dyma’r unig fesur sydd gennym ar hyn o bryd.

I accept Alun Ffred’s point that free school meals are the only measure, but the Children, Young People and Education Committee asked for evidence in relation to what other measure could be used. The answer that we received was that this is an imperfect system but it is the only measure that we have at present.

Rwy’n credu bod angen i’r Llywodraeth fod yn ofalus ynglŷn â chwtogi ar grantiau yn ystod y flwyddyn, ac mae hynny’n rhan o’r ateb rwy’n gobeithio y cawn gan y Gweinidog. Rwy’n meddwl bod cyfrifoldeb arnom erbyn hyn i wneud yn siŵr bod yr arian hwn yn cael ei gyflwyno i’r ysgolion, a’i fod yn cael ei ddefnyddio gan yr ysgolion. Bydd mwy o fonitro yn y pen draw. Rwyf am ddweud mai’r unig gŵyn neu’r unig bryder sydd gennym fel grŵp yw’r ffaith bod cynghorau ar hyn o bryd sy’n ysgogi baich ar ysgolion unigol. Os ydym yn credu y byddant yn defnyddio’r grant amddifadedd disgyblion er mwyn rhoi rhyw fath o esgus neu gadarnhad eu bod yn cyrraedd gwariant ar gyfer yr ysgol gyfan drwy’r grant hwnnw, mae gennym broblem.

I do believe that the Government needs to be careful in relation to cutting the grant in-year, and that is part of the response that I hope that we will get from the Minister. However, I do think that we now have a responsibility to ensure that this funding is presented to schools and that it is used by the schools. There will be greater monitoring ultimately. The only complaint or concern that we have as a group is the fact that there are councils at present that are placing an additional burden on individual schools. If we believe that they are going to use the pupil deprivation grant as some sort of excuse or proof that they are reaching the expenditure for the whole school through that grant, then we have a problem.

Wrth edrych ymlaen at y flwyddyn hon, rydym i gyd yn gwybod bod setliad Llywodraeth Cymru yn un anodd. Mae’r setliad i’r cynghorau yn anodd. Mae perygl y bydd y cynghorau yn rhoi mwy o bwysau ar ysgolion ac yn trosglwyddo cyfrifoldebau i’r ysgolion sydd wedi bod hyd yn hyn yn gyfrifoldebau i’r cyngor. Rwy’n meddwl bod yn rhaid inni fod yn ofalus nad yw’r grant hwn yn cael ei ddefnyddio i roi rhyw fath o ryddhad i’r cynghorau. Rwy’n meddwl, hwyrach, fod gormod o ofyn ar ysgolion i brofi sut maent yn gwario’r arian hwn. Hwyrach y dylem roi mwy o bwysau ar gynghorau a’r consortia i wneud yn siŵr eu bod yn rhoi’r holl gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i’r plant mwyaf difreintiedig.

As we look forward to this year, we know that the Welsh Government settlement is a difficult one. The settlement for councils is a difficult one. There is a danger that councils will bring greater pressure to bear on schools, and will transfer responsibilities to schools, which have, up until now, been the responsibilities of the council. We have to be careful that this grant is not used as some sort of relief for those councils. I think that perhaps too many demands are being placed on schools to prove how they spend this funding. Perhaps we should place greater pressure on the councils and the consortia to ensure that they are giving all the support that they need to the most disadvantaged children.

16:58

## Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I am grateful for the opportunity to speak in this important debate today. I welcome the Welsh Government’s commitment to continue with the pupil deprivation grant in its most recent budget, and I am grateful to the Lib Dems for their support.

Rwy’n ddiolchgar am y cyfle i siarad yn y ddadl bwysig hon heddiw. Rwy’n croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i barhau â'r grant amddifadedd disgyblion yn ei chyllideb ddiweddaraf, ac rwy’n ddiolchgar i'r Democratiaid Rhyddfrydol am eu cefnogaeth.

It is crucial that we reduce the impact of poverty on educational attainment. It is the social justice aspect of the grant that is most important to me. It cannot be fair or acceptable that a talented learner does not achieve their potential because they are living in poverty.

Mae'n hanfodol ein bod yn lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol. Agwedd cyfiawnder cymdeithasol y grant sydd fwyaf pwysig i mi. Ni all fod yn deg nac yn dderbyniol nad yw dysgwr dawnus yn gwireddu ei botensial oherwydd ei fod yn byw mewn tlodi.

We are now in the third year of the pupil deprivation grant, and it has largely been welcomed by schools across Wales. I believe that the Welsh Government has been using the right approach in refining and targeting the grant’s approach more directly, by engaging with key stakeholders while at the same time holding them to account for effective day-to-day delivery. I also welcome the fact that the Welsh Government has sought to match the pupil deprivation grant with Communities First, as this ensures that the grant money benefits those areas—some of which, of course, are in my constituency—that need it most.

Rydym bellach yn nhrydedd flwyddyn y grant amddifadedd disgyblion, ac mae wedi cael ei groesawu i raddau helaeth gan ysgolion ledled Cymru. Rwy’n credu bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithredu’n gywir wrth fireinio a thargedu dull gweithredu’r grant yn fwy uniongyrchol, drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol ac ar yr un pryd sicrhau eu bod yn atebol am ddarpariaeth effeithiol o ddydd i ddydd. Rwyf hefyd yn croesawu'r ffaith fod Llywodraeth Cymru wedi ceisio cysylltu’r grant amddifadedd disgyblion â Chymunedau yn Gyntaf, gan fod hyn yn sicrhau bod yr arian grant o fudd i’r ardaloedd hynny—gyda rhai ohonynt, wrth gwrs, yn fy etholaeth i—sydd ei angen fwyaf.

Last year, my office wrote to all maintained infant, junior and primary schools in my constituency that the Welsh Government records showed as being in receipt of the grant. Some schools had a large number of pupils who were eligible for free school meals and/or who were looked-after children, and therefore they received a significant amount of grant assistance. Other schools in better-off areas received the minimum amount of grant assistance possible, as they had only one or two such pupils enrolled. Nonetheless, those who responded were very much supportive of the grant and about how it helped their schools. In particular, headteachers said that the grant was of a huge benefit to them when it came to targeting extra support for vulnerable pupils in terms of improving their literacy and numeracy skills, and we know how fundamental those skills are for any future learning. This was especially true of schools in Communities First areas.

Y llynedd, ysgrifennodd fy swyddfa i'r holl ysgolion babanod, iau a chynradd a gynhelir yn fy etholaeth a oedd, yn ôl cofnodion Llywodraeth Cymru, yn derbyn y grant. Roedd gan rai ysgolion nifer fawr o ddisgyblion a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim a / neu a oedd yn blant sy'n derbyn gofal, ac felly roeddynt yn derbyn swm sylweddol o gymorth grant. Roedd ysgolion eraill mewn ardaloedd mwy cefnog yn derbyn y lleiafswm posibl o gymorth grant, gan mai dim ond un neu ddau ddisgybl o'r fath a oedd ar eu cofrestr. Serch hynny, roedd y rhai a ymatebodd yn gefnogol iawn i'r grant ac i'r ffordd y mae'n helpu eu hysgolion. Yn benodol, dywedodd penaethiaid fod y grant o fudd mawr iddynt wrth fynd ati i dargedu cymorth ychwanegol ar gyfer disgyblion sy'n agored i niwed er mwyn gwella eu sgiliau llythrennedd a rhifedd, ac rydym yn gwybod pa mor bwysig yw'r sgiliau hyn ar gyfer unrhyw ddysgu yn y dyfodol. Roedd hyn yn arbennig o wir am ysgolion mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.

Areas of concern that headteachers raised with me included what they felt was an overly bureaucratic application procedure and the fact that the grant risked not finding its way to pupils who the school felt were vulnerable but were not eligible for free school meals. I would be grateful, therefore, if the Minister could clarify for me what the Welsh Government has done to address these concerns. Overall, however, schools that contacted me were supportive of the grant and want it to continue. I am pleased that the grant is extended now to those under the age of five, because, without any doubt, if education and learning is not enjoyed by those of such a very young age, then, of course, massive barriers and problems are created for future learning.

Roedd y meysydd pryder a gododd y penaethiaid yn cynnwys yr hyn sydd, yn eu barn hwy, yn weithdrefn rhy fiwrocrataidd ar gyfer cyflwyno cais, a'r ffaith fod perygl na fyddai'r grant yn cyrraedd y disgyblion sy'n agored i niwed ym marn yr ysgol, ond nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Byddwn yn ddiolchgar, felly, pe gallai'r Gweinidog egluro i mi'r hyn y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud i fynd i'r afael â'r pryderon hyn. Yn gyffredinol, fodd bynnag, roedd yr ysgolion a gysylltodd â mi yn cefnogi'r grant ac am iddo barhau. Rwy'n falch bod y grant yn cael ei ymestyn yn awr i'r rhai o dan bump oed, oherwydd, heb unrhyw amheuaeth, os nad yw addysg a dysgu yn cael eu mwynhau gan y rhai o oedran ifanc iawn o'r fath, yna, wrth gwrs, mae rhwystrau a phroblemau enfawr yn cael eu creu ar gyfer dysgu yn y dyfodol.

Dirprwy Lywydd, the pupil deprivation grant is a key Welsh Labour policy that has equality and social justice at its very heart. During my time in the Welsh Government, I was always keen to look at how education and employment were the best ways out of poverty, and the grant is a key plank in translating this ideal into action. Of course, we cannot look at it in isolation from other Welsh Government initiatives, such as Flying Start, as has been mentioned, primary school free breakfasts and the targeted education maintenance allowance. Yet, it is clear that the pupil deprivation grant is popular with schools and it is important that we continue to use it effectively so that the impact of poverty on educational attainment is reduced further.

Ddirprwy Lywydd, mae'r grant amddifadedd disgyblion yn un o bolisïau allweddol Llafur Cymru ac mae cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol yn gwbl greiddiol iddo. Yn ystod fy amser yn Llywodraeth Cymru, roeddwn bob amser yn awyddus i edrych ar sut mai addysg a chyflogaeth oedd y llwybrau gorau allan o dlodi, ac mae'r grant yn elfen allweddol wrth roi'r ddelfryd hon ar waith. Wrth gwrs, ni allwn edrych arno ar wahân i fentrau eraill Llywodraeth Cymru, megis Dechrau'n Deg, fel y nodwyd, brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd a'r lwfans cynhaliaeth addysg wedi'i dargedu. Eto i gyd, mae'n amlwg bod y grant amddifadedd disgyblion yn boblogaidd ymysg ysgolion ac mae'n bwysig ein bod yn parhau i'w ddefnyddio'n effeithiol fel bod effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol yn cael ei lleihau ymhellach.

17:02

## Ann Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I rise to take part in this debate and to welcome the pupil deprivation grant. It is something that I am not going to try to claim credit for. I will leave that to Kirsty—she is smiling over there—who will know, as others will know, that I have always advocated that some of our poorer schools should have had special attention. If this is what is going happen, I do not care who wants to claim it, as it means that the kids in my school will actually be getting what I wanted to happen.

Rwy'n codi i gymryd rhan yn y ddadl hon ac i groesawu'r grant amddifadedd disgyblion. Mae'n rhywbeth nad wyf yn mynd i geisio hawlio clod amdano. Gadawaf hynny i Kirsty—mae hi'n gwenu draw acw—a fydd yn gwybod, fel y bydd eraill yn gwybod, fy mod wedi argymell bob amser y dylai rhai o'n hysgolion tlotach fod wedi cael sylw arbennig. Os mai hyn sy'n mynd i ddigwydd, nid wyf yn poeni pwy sydd eisiau ei hawlio, gan ei bod yn golygu y bydd y plant yn fy ysgol yn cael yr hyn yr oeddwn am ei weld yn digwydd.

In my constituency, it is quite clear that the pupil deprivation grant has assisted those schools, some of which are in the most deprived areas of Wales. So, I want to add that to what Aled was saying about how we now take it forward in context. That is why I think that the one thing we can claim on this side is that we have agreed to spend 1% above what we offer in terms of education in the Welsh block grant to schools, and I think that that additional protection to school spending across the board is as significant, especially for those areas, as the uplift in the pupil deprivation grant. They also complement each other.

Yn fy etholaeth i, mae'n eithaf amlwg bod y grant amddifadedd disgyblion wedi cynorthwyo’r ysgolion hynny, y mae rhai ohonynt wedi’u lleoli yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Felly, rwyf am ychwanegu hynny at yr hyn a ddywedodd Aled ynglŷn â sut rydym yn mynd ag ef ymlaen yn awr mewn cyd-destun. Dyna pam rwy’n meddwl mai un peth y gallwn ei hawlio ar yr ochr hon yw ein bod wedi cytuno i wario 1% yn uwch na'r hyn rydym yn ei gynnig o ran addysg yng ngrant bloc Cymru i ysgolion, a chredaf fod ychwanegu at y broses o amddiffyn gwariant ar ysgolion yn gyffredinol mor arwyddocaol, yn enwedig ar gyfer yr ardaloedd hynny, â’r cynnydd yn y grant amddifadedd disgyblion. Maent hefyd yn ategu ei gilydd.

I understand that a full evaluation of the PDG is to be published next year, and that is important, especially at times when budgets are being challenged. We need to know that every single penny that goes into education is being spent in the right direction and is worth while. So, it will be in interesting to see what the official evaluation will be, because I think that many of us, including me, have done our own evaluations. I wrote to all the schools, and I think that most people have said that as well, and it is still not clear to me that some of those schools that have smaller cohorts of children on free school meals have not understood how the pupil deprivation grant can assist the learning of those children and have sought to spread it across the whole school. I think that some governing bodies still have to address those issues. It is not for tackling underachievement across the school. It is for giving those from the poorest communities the opportunity to start the race at the same level and at the same starting line as the children from other areas.

Deallaf fod gwerthusiad llawn o'r grant amddifadedd disgyblion i’w gyhoeddi’r flwyddyn nesaf, ac mae hynny'n bwysig, yn enwedig ar adeg pan fo cyllidebau yn cael eu herio. Mae angen i ni wybod bod pob ceiniog sy'n mynd i mewn i addysg yn cael ei wario yn y ffordd gywir a’i fod yn werth chweil. Felly, bydd yn ddiddorol gweld beth fydd casgliadau’r gwerthusiad swyddogol, oherwydd credaf fod llawer ohonom, gan gynnwys fi, wedi gwneud ein gwerthusiadau ein hunain. Ysgrifennais at yr holl ysgolion, ac rwy’n meddwl bod y rhan fwyaf o bobl wedi dweud hynny hefyd, ac nid yw'n amlwg i mi o hyd nad yw rhai o'r ysgolion hynny sydd â charfannau llai o blant ar brydau ysgol am ddim wedi deall sut y mae'r grant amddifadedd disgyblion yn gallu cynorthwyo dysgu’r plant hynny ac wedi ceisio ei ledaenu ledled yr ysgol gyfan. Rwy’n meddwl bod yn rhaid i rai cyrff llywodraethu fynd i'r afael â'r materion hynny. Nid mynd i'r afael â thangyflawni ledled yr ysgol yw diben y grant. Mae’n ymwneud â rhoi cyfle i’r rheini o'r cymunedau tlotaf gychwyn y ras ar yr un lefel ac ar yr un llinell gychwyn â’r plant o ardaloedd eraill.

Those of you who have heard me talk about education will perhaps forgive me when I say that it worries me when I hear what is coming out of Denbighshire County Council. Just this weekend, the leader of Denbighshire County Council said that those of us in the Welsh Government or the Assembly should stop interfering, that we should let them get on with it, and that there should be no statutory services to be protected. The last time that Denbighshire did that sort of ‘We will go it alone and we know what is best for our areas’ thing, we ended up with schools in special measures, and we ended up with a damning judgment by Estyn on the local authority and on the education authority—

Bydd y rhai ohonoch sydd wedi fy nghlywed yn siarad am addysg efallai yn maddau i mi pan ddywedaf ei bod yn fy mhoeni pan glywaf yr hyn sy'n cael ei ddweud yng Nghyngor Sir Ddinbych. Dim ond y penwythnos hwn, dywedodd arweinydd Cyngor Sir Ddinbych y dylai’r rhai ohonom yn Llywodraeth Cymru neu'r Cynulliad roi'r gorau i ymyrryd, y dylem adael iddynt fwrw ymlaen â’r gwaith, ac na ddylai unrhyw wasanaethau statudol gael eu diogelu. Y tro diwethaf i Sir Ddinbych fabwysiadu agwedd 'Byddwn yn gweithredu’n annibynnol ac rydym yn gwybod beth sydd orau ar gyfer ein hardaloedd', gwelsom ysgolion yn cael eu rhoi mewn mesurau arbennig, a chafwyd dyfarniad damniol gan Estyn ar yr awdurdod lleol ac ar yr awdurdod addysg—

17:05

## Llyr Gruffydd [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Do you not accept that local councillors might sometimes know what is best for their areas?

Onid ydych yn derbyn y gallai cynghorwyr lleol wybod weithiau beth sydd orau ar gyfer eu hardaloedd?

17:06 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, I do. However, when those who are elected to take the money from there—. What I do not like is the head of the paid service instructing his councillors as to which way they should send their budgets. For him to then say to the leader, 'Nobody should interfere,' is quite wrong. They are happy to take the grants, and they are happy to take the criteria from the grants and then want to do it. What happened in Denbighshire was that millions of pounds that should have been put into education were not put into education, which failed a generation of children. Denbighshire is now reaping the effects of that, as we see youth unemployment and young people not being able to get jobs because the money was not put into education at the time. It has improved, but it would not take it long to slip back down there. Therefore, I say to Denbighshire, quite clearly, 'Work with me. Work with those of us who were elected, because we all want the same thing.' I was elected to protect education. That was quite clear, and that is what I will do. That is why I think that the Minister needs to be aware of what is going on in local authorities, especially on the 1% uplift. More importantly, we need to maintain that the pupil deprivation grant is spent on those children who most need it, and that it gives them the start that we all want, so that they all start at the same level and they all move forward. We cannot have pupils coming to school who are not able to take advantage of all the things that are offered there. They might not be able, for example, to take part in after-school activities—either because their parents cannot afford to pay for them or because school transport does not allow them to. Those are the sorts of things that we have to address and that would give them the opportunity to move forward. Education is for everybody.

Ydw, rwy'n derbyn hynny. Fodd bynnag, pan fydd y rhai sy'n cael eu hethol i gymryd yr arian gan—. Yr hyn nad wyf yn ei hoffi yw pennaeth y gwasanaeth cyflogedig yn dweud wrth ei gynghorwyr pa ffordd y dylent anfon eu cyllidebau. Mae'n gwbl anghywir wedyn iddo ddweud wrth yr arweinydd, 'Ni ddylai neb ymyrryd'. Maent yn hapus i gymryd y grantiau, ac maent yn hapus i gymryd y meini prawf gan y grantiau ac yna maent am ei wneud. Yr hyn a ddigwyddodd yn Sir Ddinbych oedd na wariwyd miliynau o bunnoedd ar addysg a ddylai fod wedi eu gwario ar addysg, gan fethu cenhedlaeth o blant. Mae Sir Ddinbych yn gweld effeithiau hynny bellach, wrth i ni weld diweithdra ymhlith pobl ifanc a phobl ifanc yn methu cael swyddi gan na fuddsoddwyd yr arian mewn addysg ar y pryd. Mae wedi gwella, ond ni fyddai'n cymryd llawer o amser i lithro yn ôl i lawr yno. Felly, dywedaf wrth Sir Ddinbych, yn gwbl glir, 'Gweithiwch gyda mi. Gweithiwch gyda'r rhai ohonom a etholwyd, oherwydd rydym i gyd eisiau'r un peth.' Cefais fy ethol i amddiffyn addysg. Roedd hynny'n gwbl glir, a dyna beth fyddaf yn ei wneud. Dyna pam y credaf fod angen i'r Gweinidog fod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd mewn awdurdodau lleol, yn enwedig ynglŷn â'r cynnydd o 1%. Yn bwysicach, mae angen i ni sicrhau bod y grant amddifadedd disgyblion yn cael ei wario ar y plant sydd ei angen fwyaf, a'i fod yn rhoi'r dechrau iddynt y mae pob un ohonom am ei weld, fel eu bod i gyd yn dechrau ar yr un lefel ac yn symud ymlaen. Ni allwn gael disgyblion yn dod i'r ysgol nad ydynt yn gallu manteisio ar yr holl bethau sy'n cael eu cynnig yno. Efallai na fyddant, er enghraifft, yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl yr ysgol—naill ai oherwydd na all eu rhieni fforddio dalu amdanynt neu oherwydd nad yw cludiant ysgol yn caniatáu iddynt wneud hynny. Dyna'r mathau o bethau y mae'n rhaid i ni fynd i'r afael â hwy ac a fyddai'n rhoi cyfle iddynt symud ymlaen. Mae addysg ar gyfer pawb.

17:07 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister for Education and Skills, Huw Lewis.

Galwaf ar y Gweinidog Addysg a Sgiliau, Huw Lewis.

17:07 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

Deputy Presiding Officer, I begin by welcoming this debate today. There is a strong, consistent and pernicious relationship between entitlement to free school meals and school performance. As the level of free school meals entitlement increases, the level of performance decreases. The pupil deprivation grant has been put in place to help break down that relationship in order to allow all children to reach their potential, regardless of their background. Although it was only brought in in 2012, the pupil deprivation grant is already reaping dividends for our children. Schools are investing in staff training to build capacity in their workforce. They are investing in data-tracking systems to ensure that they can recognise the needs of vulnerable pupils. They are targeting interventions at areas where improvement is needed. In short, the pupil deprivation grant is putting the needs of these learners at the heart of the work of the school and giving teachers the resources that they need to make a real impact.

Ddirprwy Lywydd, rwyf am ddechrau drwy groesawu'r ddadl hon heddiw. Mae perthynas gref, gyson a niweidiol rhwng yr hawl i gael prydau ysgol am ddim a pherfformiad ysgolion. Wrth i lefel yr hawl i gael prydau ysgol am ddim gynyddu, mae lefel y perfformiad yn lleihau. Mae'r grant amddifadedd disgyblion wedi cael ei roi ar waith i helpu i dorri i lawr y berthynas honno fel bod pob plentyn yn gallu gwireddu ei botensial, beth bynnag fo'i gefndir. Er ei fod wedi bod ar waith ers 2012 yn unig, mae'r grant amddifadedd disgyblion eisoes yn dwyn ffrwyth ar gyfer ein plant. Mae ysgolion yn buddsoddi mewn hyfforddiant staff i ddatblygu gallu yn eu gweithlu. Maent yn buddsoddi mewn systemau olrhain data er mwyn sicrhau eu bod yn gallu nodi anghenion disgyblion sy'n agored i niwed. Maent yn targedu ymyriadau mewn meysydd sydd angen eu gwella. Yn fyr, mae'r grant amddifadedd disgyblion yn rhoi anghenion y dysgwyr hyn wrth galon gwaith yr ysgol ac yn rhoi'r adnoddau sydd eu hangen ar athrawon i wneud effaith wirioneddol.

Therefore, I would like to take this opportunity to welcome the support of the Liberal Democrats in reaching this groundbreaking, two-year funding agreement—the first time that such a thing has been achieved since devolution came along. Our commitment to sustain and increase the level of support to disadvantaged learners over the next two years will allow schools to be ambitious in planning how to bridge the attainment gap. Let me say this to Plaid Cymru here this afternoon: what these figures represent is essentially a quadrupling of the investment in the pupil deprivation grant since it was set up in 2012-13. To my mind, that is hardly 'tinkering' as Plaid Cymru would have it. This is not tinkering. What we are talking about here, in terms of some spends per head across Wales, is anything between a quarter and a third of an uplift in spend per head on these particular children. That is not tinkering; it is transformational, and my advice to Alun Ffred Jones—because I am sure that there are some nervous headteachers in the Llanberis area after his comments this afternoon and his obvious lack of support for the extra investment that they will be enjoying as a result of the uplift in the PDG—is to take a look rapidly at all areas in Wales. I can imagine no school in the area around Llanberis that would not do very well indeed from the uplift in the pupil deprivation grant.

Felly, hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i groesawu cefnogaeth y Democratiaid Rhyddfrydol wrth ddod i'r cytundeb ariannu arloesol hwn dros ddwy flynedd—y tro cyntaf i unrhyw beth fel hyn gael ei gyflawni ers dyfodiad datganoli. Bydd ein hymrwymiad i gynnal a chynyddu lefel y cymorth ar gyfer dysgwyr difreintiedig dros y ddwy flynedd nesaf yn galluogi ysgolion i fod yn uchelgeisiol wrth gynllunio sut i bontio'r bwlch cyrhaeddiad. Gadewch i mi ddweud hyn wrth Blaid Cymru yma'r prynhawn yma: yr hyn y mae'r ffigurau hyn yn ei gynrychioli mewn gwirionedd yw cynnydd o bedair gwaith yn y buddsoddiad yn y grant amddifadedd disgyblion ers iddo gael ei sefydlu yn 2012-13. Yn fy marn i, prin y gellir disgrifio hynny fel 'potsian' chwedl Plaid Cymru. Nid potsian mo hynny. Yr hyn rydym yn siarad amdano yn y fan hon, o safbwynt rhai mathau o wariant y pen ledled Cymru, yw rhwng chwarter a thraean o gynnydd mewn gwariant y pen ar y plant penodol hyn. Nid potsian mo hynny; mae'n gweddnewid bywydau, ac mae fy nghyngor i Alun Ffred Jones—oherwydd rwy'n siŵr bod rhai penaethiaid nerfus yn ardal Llanberis ar ôl ei sylwadau'r prynhawn yma a'i ddiffyg cefnogaeth amlwg i'r buddsoddiad ychwanegol y byddant yn ei fwynhau o ganlyniad i'r cynnydd yn y grant amddifadedd disgyblion—yw i edrych yn gyflym ar bob ardal yng Nghymru. Ni allaf ddychmygu unrhyw ysgol yn yr ardal o amgylch Llanberis na fyddai'n gwneud yn dda iawn yn sgîl y cynnydd yn y grant amddifadedd disgyblion.

This is the primary dysfunction, historically speaking, in Welsh education: how well these kids are doing, and how many of these children there are in the school system in Wales, compared with other parts of the UK. We crack this, and we crack Wales's future prospects in terms of economic prosperity, as well as the life chances of these individual young people. This is of central importance, and it is imperative that all political parties here, if they want to make criticism of this grant, that their criticism is informed and constructive.

Hon yw'r brif broblem, yn hanesyddol, gydag addysg yng Nghymru: pa mor dda y mae'r plant hyn yn ei wneud, a faint o'r plant hyn sydd yn y system ysgolion yng Nghymru, o gymharu â rhannau eraill o'r DU. Pe baem yn llwyddo i ddatrys hwn, byddem yn gwella rhagolygon ffyniant economaidd Cymru yn y dyfodol, yn ogystal â chyfleoedd bywyd y bobl ifanc unigol hyn. Mae hyn o bwysigrwydd canolog, ac mae'n hanfodol bod yr holl bleidiau gwleidyddol yma, os ydynt am feirniadu'r grant hwn, yn ei feirniadu mewn ffordd wybodus ac adeiladol.

It is a commitment—that is, our two-year commitment—that our raising attainment advocate Sir Alasdair MacDonald called for, and one that I am very pleased we have been able to deliver. Research shows us time and again that deprivation has an impact early in a child's development, and children from poor families may be up to a year behind their more affluent peers by the age of five. They do not have a chance from the very start. This is why we should all welcome the extension of the pupil deprivation grant to children under five. Evidence shows that early intervention can tackle the impact of deprivation, and, by extending the PDG in this way, we can really give these children the start in life that they all deserve.

Mae'n ymrwymiad—hynny yw, ein hymrwymiad dwy flynedd—y bu ein hyrwyddwr codi cyrhaeddiad, Syr Alasdair MacDonald, yn galw amdano, ac yn un rwyf wrth fy modd ein bod wedi gallu cyflawni. Mae gwaith ymchwil yn dangos i ni dro ar ôl tro bod amddifadedd yn cael effaith yn gynnar yn natblygiad plentyn, ac y gall plant o deuluoedd tlawd fod hyd at flwyddyn y tu ôl i'w cyfoedion mwy cefnog erbyn eu bod yn bump oed. Nid oes ganddynt gyfle o'r cychwyn cyntaf. Dyna pam y dylai pob un ohonom groesawu ymestyn y grant amddifadedd disgyblion i blant dan bump oed. Mae tystiolaeth yn dangos y gall ymyrraeth gynnar fynd i'r afael ag effaith amddifadedd, a, thrwy ymestyn y grant amddifadedd disgyblion yn y modd hwn, gallwn fynd ati o ddifrif i roi'r dechrau mewn bywyd y mae pob un o'r plant hyn yn ei haeddu.

I have noted the amendments tabled by Elin Jones. It is true to say that we faced a tough financial settlement in Wales and that difficult choices had to be made. As Minister, I have had to prioritise within my portfolio to minimise the impact of the cuts that we have faced, as they are passed to us by the UK Government. Across Welsh Government, decisions have been taken to best meet the needs of the Welsh people and to prioritise fearlessly. Reductions and prioritisation must be seen in this wider context, not just in education, but across all portfolios. We understand that simply providing funding will not make a difference in its own right, so we are committed, through our 'Rewriting the future' programme, to working across divisional and departmental boundaries to drive action in schools around four key themes: family and community engagement; early years; high-quality learning and teaching; and high expectations and aspirations. We want schools to be best equipped to spend the PDG in a way that will have most impact on children who are most in need, and we know that that is not a simple thing to do. I am working on providing schools with the tools they need to direct resources effectively. We have updated guidance, as has been mentioned, on the use of the PDG—the primary toolkit for schools, which will help to build effective family and community engagement—and we are working on further guidance to enrich the experience of deprived pupils in ways that will have a positive impact on their attainment and future prospects.

Rwyf wedi nodi'r gwelliannau a gyflwynwyd gan Elin Jones. Mae'n wir dweud ein bod wedi wynebu setliad ariannol anodd yng Nghymru a bod angen gwneud dewisiadau anodd. Fel Gweinidog, rwyf wedi gorfod blaenoriaethu o fewn fy mhortffolio i leihau effaith y toriadau rydym wedi'u hwynebu, wrth iddynt gael eu trosglwyddo i ni gan Lywodraeth y DU. Ledled Llywodraeth Cymru, mae penderfyniadau wedi cael eu gwneud i ddiwallu anghenion pobl Cymru a blaenoriaethu mewn ffordd eofn. Mae'n rhaid ystyried gostyngiadau a blaenoriaethu yn y cyd-destun ehangach hwn, nid yn unig mewn addysg, ond ym mhob portffolio. Rydym yn deall na fydd darparu cyllid yn unig yn gwneud gwahaniaeth ynddo ei hun, felly rydym wedi ymrwymo, drwy ein rhaglen 'Ailysgrifennu'r dyfodol', i weithio ar draws ffiniau is-adrannol ac adrannol i ysgogi camau gweithredu mewn ysgolion ar sail pedair thema allweddol: ymgysylltu â theuluoedd a chymunedau; y blynyddoedd cynnar; dysgu ac addysgu o ansawdd uchel; a disgwyliadau a dyheadau uchel. Rydym am i ysgolion fod yn y sefyllfa orau i wario'r grant amddifadedd disgyblion mewn ffordd a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar blant sydd fwyaf mewn angen, ac rydym yn gwybod nad yw hyn yn beth hawdd i'w wneud. Rwy'n gweithio ar ddarparu'r offer sydd ei angen ar ysgolion i gyfeirio adnoddau yn effeithiol. Rydym wedi diweddaru canllawiau, fel y crybwyllwyd, ar ddefnyddio'r grant amddifadedd disgyblion—y prif becyn cymorth ar gyfer ysgolion, a fydd yn helpu i ddatblygu ymgysylltiad effeithiol â theuluoedd a chymunedau—ac rydym yn gweithio ar ganllawiau pellach i gyfoethogi profiad disgyblion difreintiedig mewn ffyrdd a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar eu cyrhaeddiad a'u rhagolygon yn y dyfodol.

We also ensure that we recognise good practice and make it available to other schools through our Hwb online facility and through Learning Wales websites. We are committed to improving how our schools engage with deprived pupils, through giving schools the best guidance, but also by checking that our work is effective. I have worked with Estyn to develop guidance for inspectors, and this is an important development in terms of those who are concerned about whether the PDG is being used correctly out there. From this September, 2014, Estyn will inspect and assess schools as part of its work on how well they support pupils from low-income families and how effectively they make use of resources such as the PDG. So, as part of an inspection, this will be investigated and publicly known.

Rydym hefyd yn sicrhau ein bod yn cydnabod arfer da ac yn sicrhau ei fod ar gael i ysgolion eraill drwy ein cyfleuster ar-lein Hwb a thrwy wefannau Dysgu Cymru. Rydym wedi ymrwymo i wella sut y mae ein hysgolion yn ymgysylltu â disgyblion difreintiedig, drwy roi'r arweiniad gorau i ysgolion, ond hefyd drwy gadarnhau bod ein gwaith yn effeithiol. Rwyf wedi gweithio gydag Estyn i ddatblygu canllawiau ar gyfer arolygwyr, ac mae hwn yn ddatblygiad pwysig o safbwynt y rhai sy'n pryderu ynglŷn ag a yw'r grant amddifadedd disgyblion yn cael ei ddefnyddio'n gywir yn ymarferol. O fis Medi 2014 ymlaen, bydd Estyn yn arolygu ac yn asesu ysgolion fel rhan o'i waith ar ba mor dda y maent yn cefnogi disgyblion o deuluoedd incwm isel a pha mor effeithiol yw eu defnydd o adnoddau fel y grant amddifadedd disgyblion. Felly, bydd Estyn yn ymchwilio i'r pwnc hwn fel rhan o arolygiad, ac yn cyhoeddi'r canlyniadau.

I would also remind Members of the categorisation system, which I announced just a few days ago. Its first iteration, coming around in January 2015—so, not so very far away—will make it impossible for a school that lets down its school population on free school meals, be it ever such a small cohort—. They let down that group of young people and they will not access the higher level of categorisation. I would encourage every headteacher and chair of governors to take that on board immediately. No matter how small the cohort of free school meals children within your school, if you let them down and ignore their prospects, you will not enter the green categorisation for a school, no matter what the rest of the performance of the school looks like—and it may look fantastic on paper. That group of children has to be prioritised.

Byddwn hefyd yn atgoffa Aelodau am y system gategoreiddio, a gyhoeddais ychydig ddyddiau yn ôl. Bydd ei chylch cyntaf, sy'n cychwyn tua mis Ionawr 2015—nid yn bell i ffwrdd, felly—yn ei gwneud yn amhosibl i ysgol sy'n gadael i lawr ei phoblogaeth ysgol sy'n cael prydau ysgol am ddim, waeth pa mor fach yw'r garfan—. Os ydynt yn gadael i lawr y grŵp hwnnw o bobl ifanc, ni fyddant yn cael mynediad at y lefel uwch o gategoreiddio. Byddwn yn annog pob pennaeth a chadeirydd llywodraethwyr i ystyried hynny ar unwaith. Ni waeth pa mor fach yw'r garfan o blant sy'n cael prydau ysgol am ddim yn eich ysgol, os ydych yn eu gadael i lawr ac yn anwybyddu eu rhagolygon, ni fyddwch yn cyrraedd y categoreiddio gwyrdd ar gyfer ysgol, waeth beth yw gweddill perfformiad yr ysgol—a gallai edrych yn wych ar bapur. Mae'n rhaid blaenoriaethu'r grŵp hwnnw o blant.

We have also commissioned an independent evaluation, as has been said, by Ipsos MORI and Cardiff University of the PDG, the aims of which are to assess the grant's impact, how it is being interpreted and implemented and what impact it is having on pupil performance and school practice. A wealth of information will flow from that. As Paul Davies has noted in his amendment, the evaluation is not available yet, but there is not long to wait. It will be published, I anticipate, in the next few weeks, and I will be giving very careful consideration to its findings. I know that all concerned Members will be reading it with care.

Rydym hefyd wedi comisiynu gwerthusiad annibynnol, fel y dywedwyd, gan Ipsos MORI a Phrifysgol Caerdydd o'r grant amddifadedd disgyblion, er mwyn ceisio asesu effaith y grant, sut mae'n cael ei ddehongli a'i roi ar waith a pha effaith y mae'n ei chael ar berfformiad disgyblion ac arferion ysgolion. Bydd cyfoeth o wybodaeth yn deillio o hynny. Fel y mae Paul Davies wedi'i nodi yn ei welliant, nid yw'r gwerthusiad ar gael eto, ond nid oes rhaid i ni aros yn hir amdano. Bydd yn cael ei gyhoeddi, rwy'n rhagweld, dros yr wythnosau nesaf, a byddaf yn ystyried ei ganfyddiadau yn ofalus iawn. Gwn y bydd pob Aelod sy'n pryderu am hyn yn ei ddarllen yn ofalus.

I am determined that the attainment of our children in Wales should not be dictated by background or parental income. I believe that the pupil deprivation grant is a powerful tool in accomplishing that historic goal.

Rwy'n benderfynol na ddylai cyrhaeddiad ein plant yng Nghymru gael ei benderfynu gan gefndir neu incwm eu rhieni. Rwy'n credu bod y grant amddifadedd disgyblion yn adnodd pwerus i gyflawni'r nod hanesyddol hwnnw.

17:16 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Kirsty Williams to reply to the debate.

Galwaf ar Kirsty Williams i ymateb i'r ddadl.

17:16 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Members across the Chamber this afternoon for their contributions to the debate. May I start where the Minister left off? For much too long, the circumstances of a child's birth have dictated the course of the rest of their life. There is no escaping the fact that those children from our poorest families have not achieved what they are capable of achieving, through no fault of their own. It is simply not acceptable to me that a child's future life chances are dictated not by their own innate ability, but by the size of their mum and dad's bank balance.

Diolchaf i'r Aelodau ar draws y Siambr y prynhawn yma am eu cyfraniadau at y ddadl. A gaf fi ddechrau yn y man lle gorffennodd y Gweinidog? Am gyfnod rhy hir o lawer, mae amgylchiadau genedigaeth plentyn wedi pennu cwrs weddill ei fywyd. Mae'n amhosibl gwadu'r ffaith nad yw'r plant o'n teuluoedd tlotaf wedi cyflawni'r hyn y gallant ei gyflawni, heb fod unrhyw fai arnynt hwy. Nid yw'n dderbyniol i mi o gwbl bod cyfleoedd bywyd plentyn yn y dyfodol yn cael eu pennu nid gan ei allu cynhenid ei hunan, ond gan faint cyfrif banc ei fam a'i dad.

That is not just a tragedy for them, but a tragedy for our nation. One of the things that has held our country back is the fact that we have historically been a nation of low skill levels. That has had an impact on our economic success. If we are to change that, we need to ensure that all of our children, regardless of their background, achieve in school and gain the qualifications they need to access the world of work and to provide for themselves and their families. I believe that the pupil deprivation grant is a serious attempt to allow our poorest children to have the opportunities that all Welsh children should have.

Nid yn unig y mae hon yn drasiedi iddynt hwy, mae'n drasiedi i'n cenedl hefyd. Un o'r pethau sydd wedi llesteirio ein gwlad yw'r ffaith ein bod wedi bod yn genedl lefelau sgiliau isel yn hanesyddol. Mae hynny wedi cael effaith ar ein llwyddiant economaidd. Os ydym am newid hynny, mae angen i ni sicrhau bod pob un o'n plant, o ba gefndir bynnag, yn cyflawni yn yr ysgol ac yn ennill y cymwysterau sydd eu hangen arnynt er mwyn cael mynediad i'r byd gwaith a darparu ar gyfer eu hunain a'u teuluoedd. Rwy'n credu bod y grant amddifadedd disgyblion yn ymgais ddifrifol i ganiatáu i'n plant tlotaf gael y cyfleoedd y dylai pob plentyn yng Nghymru eu cael.

Just to reiterate to Alun Ffred the points that my colleague Peter Black made, unlike other schemes in previous administrations, where underachievement was looked at in a grant for which only some schools were eligible, depending on their proportion of free school meals pupils, this money follows the child, regardless of where they are. If you are a poor child in a rich community, you will get this money in a way that previous schemes would not allow you to benefit. Those levels of poverty were simply hidden within a wider area. Alun Ffred, next year, Gwynedd local authority will gain £1.8 million of pupil deprivation grant to assist in the education of the poorest children there.

I ailadrodd i Alun Ffred y pwyntiau a wnaeth fy nghyd-Aelod, Peter Black, yn wahanol i gynlluniau eraill gan weinyddiaethau blaenorol, lle y cafodd tangyflawniad ei ystyried mewn grant roedd rhai ysgolion yn unig yn gymwys amdano, gan ddibynnu ar gyfran eu disgyblion prydau ysgol am ddim, mae'r arian hwn yn dilyn y plentyn, waeth ble y bo. Os ydych yn blentyn tlawd mewn cymuned gyfoethog, byddwch yn cael yr arian hwn mewn ffordd na fyddai cynlluniau blaenorol yn eich galluogi i fanteisio arni. Yn syml iawn, roedd y lefelau hynny o dlodi yn cael eu cuddio mewn ardal ehangach. Alun Ffred, y flwyddyn nesaf, bydd awdurdod lleol Gwynedd yn cael £1.8 miliwn o grant amddifadedd disgyblion i gynorthwyo addysg y plant tlotaf yno.

Alun Ffred is right: sometimes, eligibility for free school meals is not the perfect measure, but it is the only measure that we have. There are some things that local authorities could do better to ensure that all of those families that are entitled to free school meals actually take them up. For instance, in my own county, we do not have a cashless system; pupils are still being exposed to the potential stigma of being identified by their peers as receiving free school meals. There are things that we can do to encourage people to take them up when they are not already doing so.

Mae Alun Ffred yn gywir: weithiau, nad cymhwyster ar gyfer prydau ysgol am ddim yw'r mesur perffaith, ond dyna'r unig fesur sydd gennym. Mae rhai pethau y gallai awdurdodau lleol eu gwneud yn well i sicrhau bod pob teulu sydd â hawl i brydau ysgol am ddim yn mynd ati i'w hawlio. Er enghraifft, yn fy sir fy hunan, nid oes gennym system ddi-arian parod; mae disgyblion yn dal i fod yn agored i'r stigma posibl o gael eu hadnabod gan eu cyfoedion fel plant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim. Mae pethau y gallwn eu gwneud i annog pobl i'w hawlio os nad ydynt yn gwneud hynny eisoes.

Suzy Davies talked about anecdotal evidence that the grant was not being spent on the things it should be. We have lots of anecdotal evidence that it is. Therefore, what is absolutely crucial, and this is the reason why we will support the Conservative amendments today, is that there is a rigorous evaluation of this grant. We want this grant to work, and to help to make it work, we want to ensure that it is being used correctly by individual schools and local education authorities, and we need to ensure that that evaluation is used as a driver to improve the administration of the grant. As Peter Black said, we are not fearful of that evaluation. We welcome it as a tool to ensure that the grant works properly.

Siaradodd Suzy Davies am dystiolaeth anecdotaidd nad oedd y grant yn cael ei wario ar y pethau y dylai gael ei wario arnynt. Mae gennym lawer o dystiolaeth anecdotaidd ei fod yn cael ei wario ar y pethau cywir. Felly, yr hyn sy'n gwbl hanfodol, a dyma'r rheswm pam y byddwn yn cefnogi gwelliannau'r Ceidwadwyr heddiw, yw bod y grant hwn yn cael ei werthuso'n drylwyr. Rydym am i'r grant hwn weithio, ac er mwyn helpu i wneud iddo weithio, rydym am sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio'n gywir gan ysgolion unigol ac awdurdodau addysg lleol, ac mae angen i ni sicrhau bod y gwerthusiad yn cael ei ddefnyddio fel sbardun i wella'r broses o weinyddu'r grant. Fel y dywedodd Peter Black, nid ydym yn ofni'r gwerthusiad hwnnw. Rydym yn ei groesawu fel dull o sicrhau bod y grant yn gweithio'n gywir.

I welcome very much the comments that Jenny Rathbone made in support of the grant. She also made some very valuable comments about the role of nutrition in schools. She is absolutely right to say that, and that is why my colleagues in England are pursuing free school meals for all infant pupils.

Croesawaf yn fawr iawn y sylwadau a wnaeth Jenny Rathbone o blaid y grant. Mae hi hefyd yn gwneud rhai sylwadau gwerthfawr iawn ynglŷn â rôl maeth mewn ysgolion. Mae hi'n llygad ei lle wrth ddweud hynny, a dyna pam y mae fy nghydweithwyr yn Lloegr yn ymgyrchu o blaid prydau ysgol am ddim ar gyfer pob disgybl babanod.

As Aled Roberts says, if we wait for a perfect system, we will do nothing and we will let another cohort of children down. That is why we must act now.

Fel y dywed Aled Roberts, os ydym yn aros am system berffaith, ni fyddwn yn gwneud unrhyw beth a byddwn yn gadael carfan arall o blant i lawr. Dyna pam mae'n rhaid i ni weithredu nawr.

Jeff Cuthbert says that this is a Labour idea. That is not quite how I remember the conversation with the First Minister, but I am not about to divulge those budget negotiations in the Chamber. [Interruption.] Let us be absolutely clear: what I do share with the First Minister is a determination to break the link between poverty and poor levels of attainment. If I can do that by working across parties, I will do it. As Ann Jones rightly says, it is not about me, it is not about my party or, indeed, Labour; it is about the children who we need to do right by. Ann also made a very important point that it is not just these kinds of divides within school that we have to look at. For instance, opportunities to study a musical instrument, opportunities to access extracurricular activities, whether that is school trips to other parts of Wales or sporting opportunities, are also important things in levelling the ground for our poorest children. The pupil deprivation ground does not necessarily identify those. We need to be mindful of them and we need set ourselves the task of looking at what else we can do to broaden equality of opportunity for all aspects of a child's school life.

Mae Jeff Cuthbert yn dweud mai syniad Llafur yw hwn. Nid fel yna yn union rwy'n cofio'r sgwrs â'r Prif Weinidog, ond nid wyf am ddatgelu'r trafodaethau hynny ar y gyllideb yn y Siambr. [Torri ar draws.] Gadewch i ni fod yn gwbl glir: yr hyn rwy'n ei rannu â'r Prif Weinidog yw penderfyniad i dorri'r cysylltiad rhwng tlodi a lefelau cyrhaeddiad gwael. Os gallaf wneud hynny drwy weithio ar draws y pleidiau, fe'i gwnaf. Fel y mae Ann Jones yn gywir i'w ddweud, nid yw'n ymwneud â mi, nid yw'n ymwneud â'm mhlaid i, nac, yn wir, y Blaid Lafur; mae'n ymwneud â'r plant y mae angen i ni weithredu er eu budd. Pwynt pwysig arall a gododd Ann yw nad dim ond rhaniadau o'r fath mewn ysgolion y mae angen i ni eu hystyried. Er enghraifft, mae cyfleoedd i astudio offeryn cerdd, cyfleoedd i gael mynediad at weithgareddau allgyrsiol, boed yn deithiau ysgol i rannau eraill o Gymru neu'n gyfleoedd chwaraeon, hefyd yn bwysig wrth sicrhau tegwch ar gyfer ein plant tlotaf. Nid yw'r grant amddifadedd disgyblion yn nodi'r rheini o reidrwydd. Mae angen i ni fod yn ymwybodol ohonynt ac mae angen i ni osod y dasg i ni ein hunain o edrych ar beth arall y gallwn ei wneud i ehangu cyfle cyfartal ym mhob agwedd ar fywyd ysgol y plentyn.

The Minister is right; I believe that the pupil deprivation grant offers the opportunity for us to transform the lives of our poorest pupils. However, it is not just about making sure that they achieve the average, Suzy; it is also about making sure that they achieve what they are capable of achieving. This is not just a grant about low attainment; it is a grant to ensure that those children thrive in their educational careers, whatever they are capable of doing, and meet their full potential. That is what schools should be doing—ensuring that the grant is used in those very ways.

Mae'r Gweinidog yn iawn; rwy'n credu bod y grant amddifadedd disgyblion yn cynnig y cyfle i ni weddnewid bywydau ein disgyblion tlotaf. Fodd bynnag, mae'n ymwneud â mwy na dim ond sicrhau eu bod yn cyflawni'r cyrhaeddiad cyfartalog, Suzy; mae hefyd yn ymwneud â sicrhau eu bod yn cyflawni'r hyn y maent yn gallu ei gyflawni. Nid yw'r grant hwn yn ymwneud â chyrhaeddiad isel yn unig; mae'n grant i sicrhau bod y plant hynny yn ffynnu yn eu gyrfaoedd addysgol, beth bynnag y maent yn gallu ei wneud, a'u bod yn gwireddu eu potensial yn llawn. Dyma briod waith yr ysgolion—sicrhau bod y grant yn cael ei ddefnyddio yn yr union fodd hwnnw.

I welcome what the Minister said about ensuring that Estyn will report vigorously on how schools use this grant. I was also very pleased to hear the Minister mention the commitment in the reformed banding system not to allow schools that let this cohort of children down off the hook. There have been examples in the past of schools, and perhaps even educational authorities, which, just because they have done well by the majority of the children in their area, have allowed cohorts of children to slip under the radar. This system has to come to an end, and the reform of the banding system will hold all schools accountable to ensure that they do well not just by the children who, regardless of the school that they were in, would thrive, but by the poorest children, who rely on that school, because sometimes that is where they find the only people they have to rely on, to give them what they need for a successful life.

Croesawaf yr hyn a ddywedodd y Gweinidog am sicrhau y bydd Estyn yn adrodd yn gadarn ar sut y mae ysgolion yn defnyddio'r grant hwn. Roeddwn hefyd yn falch iawn o glywed y Gweinidog yn sôn am yr ymrwymiad yn y system fandio ddiwygiedig i beidio ag esgusodi ysgolion sy'n gadael y garfan hon o blant i lawr. Cafwyd enghreifftiau yn y gorffennol o ysgolion, ac efallai hyd yn oed awdurdodau addysg, sydd, dim ond oherwydd eu bod wedi helpu'r rhan fwyaf o blant yn eu hardal i lwyddo, wedi methu tynnu sylw at garfannau o blant. Mae'r system hon wedi dod i ben, a bydd diwygio'r system fandio yn golygu bod pob ysgol yn atebol am sicrhau bod yr holl blant yn llwyddo, nid yn unig y plant a fyddai'n ffynnu ym mha ysgol bynnag y byddent yn ei mynychu, ond hefyd y plant tlotaf, sy'n dibynnu ar yr ysgol honno, oherwydd weithiau dyna le maent yn dod o hyd i'r unig bobl y gallant ddibynnu arnynt i roi iddynt yr hyn sydd ei angen ar gyfer bywyd llwyddiannus.

17:23

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? There is objection, therefore I defer voting until voting time, which now follows.

Y cynnig yw cytuno ar y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad, felly rwy'n gohirio pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio, sy'n dilyn nawr.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Votes deferred until voting time.*

17:23

# Cyfnod Pleidleisio

# Voting Time

Y

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

## Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Before I conduct the vote, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not.

Cyn i mi gynnal y bleidlais, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nac oes.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5593](#)

[Result of the vote on motion NDM5593](#)

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 29, Yn erbyn 19, Ymatal 0.*

*Motion agreed: For 29, Against 19, Abstain 0.*

17:24

# Dadl Fer: Adfywio Trefol 2.0—Creu Cymunedau Trefol a Chanol Trefi Cynaliadwy

# Short Debate: Urban Regeneration 2.0—Creating Sustainable Urban Communities and Town Centres

Y

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

## Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will those Members who are leaving the Chamber please do so quickly and quietly?

A fydd yr Aelodau hynny sy'n gadael y Siambr wneud hynny'n gyflym ac yn dawel os gwelwch yn dda?

I ask Keith Davies to speak on the topic he has chosen.

Gofynnaf i Keith Davies siarad ar y pwnc y mae wedi'i ddewis.

17:25 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Llywydd. I am pleased to have the opportunity this afternoon to lead a short debate on creating sustainable urban communities in town centres. Time has been given to Janet Finch-Saunders and Peter Black to contribute.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n falch o gael y cyfle'r prynhawn yma o arwain dadl fer ar greu cymunedau trefol cynaliadwy yng nghanol trefi. Mae amser wedi cael ei neilltuo i Janet Finch-Saunders a Peter Black gyfrannu.

Where are we now and what can we do? Newspaper reports this morning have made my debate all the more topical. Based on the retail quality index produced by Harper Dennis Hobbs, Llanelli has not performed favourably in comparison to other retail centres across the UK. You can see the front page of today's Evening Post that I am holding up, which says:

Beth yw'r sefyllfa bresennol a beth y gallwn ni ei wneud? Mae fy nadl hyd yn oed yn fwy amserol o ystyried adroddiadau'r papurau newydd y bore yma. Yn seiliedig ar y mynegai ansawdd manwerthu a luniwyd gan Harper Dennis Hobbs, nid yw Llanelli wedi perfformio'n ffafriol o'i gymharu â chanolfannau manwerthu eraill ledled y DU. Rwy'n dal i fyny tudalen flaen rhifyn heddiw'r Evening Post, sy'n dweud:

'Town centre named second worst in UK'.

'Canol y dref yn cael ei henwi'r waethaf ond un yn y DU'.

In my opinion, it escalates the importance of today's debate and what I will outline. Far from ignoring the headline, we must ensure its place at the top of our agendas, as it has always been with me. Bear in mind, however, the very recent investment. The Labour-led council in Carmarthenshire has injected £60 million into the town centre through its Big 5 projects, and there is also the contribution made by private investor, New River, to ensure that the St. Elli Centre is increasing footfall and that the shopping experience is more varied. Llanelli is diverse in its offer and distinct. Our recipe for success is in bringing together those strands under a clear and strategic structure: a local brand with a streamlined purpose —'Urban Regeneration 2.0'. The title gives a straightforward summary of my direction. Yet, as all good discussion does, it throws up more questions. There is seldom a voice to dispute that consumer habits have changed in recent years, from where and how we shop to where we live and how we travel. Speed, convenience and technology have now influenced and changed the way people live and shop. We are in the era of globalisation. Ignore it at your peril. The internet is having a powerful effect on the high street. Some predict the share of online retail will rise to 21.5% by 2018.

Yn fy marn i, mae hynny'n cynyddu pwysigrwydd y ddadl heddiw a'r hyn y byddaf yn ei amlinellu. Yn hytrach nag anwybyddu'r pennawd, mae'n rhaid i ni sicrhau ei fod ar frig ein hagendâu, fel y mae wedi bod bob amser o'm safbwynt i. Cofiwch, fodd bynnag, am y buddsoddiad diweddar iawn. Mae'r cyngor a arweinir gan y Blaid Lafur yn Sir Gaerfyrddin wedi buddsoddi £60 miliwn yng nghanol y dref drwy ei 5 prosiect mawr, ac mae'r buddsoddwr preifat, New River, wedi gwneud cyfraniad hefyd i sicrhau bod Canolfan Siopa Santes Elli yn cynyddu nifer yr ymwelwyr a bod y profiad siopa yn fwy amrywiol. Mae'r hyn sy'n cael ei gynnig gan Lanelli yn amrywiol ac yn unigryw. Mae ein rysáit ar gyfer llwyddo yn ymwneud â dwyn ynghyd yr elfennau hynny o dan strwythur clir a strategol: brand lleol gyda diben syml—'Adfywio Trefol 2.0 '. Mae'r teitl yn crynhoi fy nhrywydd yn syml. Eto i gyd, fel sy'n wir am bob trafodaeth dda, mae'n codi mwy o gwestiynau. Byddai'r rhan fwyaf o bobl yn derbyn bod arferion defnyddwyr wedi newid dros y blynyddoedd diwethaf, o ble a sut rydym yn siopa i ble rydym yn byw a sut rydym yn teithio. Erbyn hyn, mae cyflymder, cyfleustra a thechnoleg wedi dylanwadu ar, a newid, sut mae pobl yn byw ac yn siopa. Rydym yn byw yn yr oes globaleiddio. Gwae chi os ydych yn ei hanwybyddu. Mae'r rhyngrwyd yn cael effaith bwerus ar y stryd fawr. Mae rhai yn rhagweld y bydd y gyfran o fanwerthu ar-lein yn codi i 21.5% erbyn 2018.

How can we change the present situation? How can urban retail centres across Wales capitalise and stem the tide of internet shopping and change consumer habits? Vibrant town centres can play a vital part, as do transport links, workforce mobility and affordable housing. People's pace and style of life are changing—a trend magnified in urban communities. Where does that leave the traditional town-centre role and the communities that surround it? If we want to fill that demand, we must first create it. But how do we go about that? The basics, as I say, are realising the shifting dynamics. The offer that we must make in attracting people to the town centre needs to cover various groups and various visit purposes. Despite the speedy dynamics of generation Y, offers need to be all-encompassing. It is currently Welsh History Month in the 'Western Mail'. Pieces that I have read examine the balance between preserving historical identity in towns and meeting the development needs of their populations. This is where creative ideas come into play, creating a strong local brand, engaging with the community to not just live but shop locally and providing an integrated, low-cost, high-quality transport system.

Sut y gallwn newid y sefyllfa bresennol? Sut y gall canolfannau manwerthu trefol ledled Cymru fanteisio ar, ac atal y cynnydd mewn siopa ar y rhyngrwyd a newid arferion defnyddwyr? Gall canol trefi bywiog wneud cyfraniad hanfodol, yn yr un modd â chysylltiadau trafnidiaeth, symudedd y gweithlu a thai fforddiadwy. Mae cyflymder a ffordd o fyw pobl yn newid—tuedd sy'n fwy amlwg mewn cymunedau trefol. Ble mae hynny'n gadael rôl canol trefi traddodiadol a'r cymunedau cyfagos? Os ydym am fodloni'r galw hwnnw, mae'n rhaid i ni ei greu yn gyntaf. Ond sut ydym yn mynd ati i wneud hynny? Yr elfen sylfaenol, fel y dywedais, yw cydnabod bod y ddeinameg yn symud. Mae angen i'r cynnig y mae'n rhaid i ni ei wneud i ddenu pobl i ganol y dref gynnwys gwahanol grwpiau ac ymweliadau at ddibenion gwahanol. Er gwaethaf deinameg gyflym cenhedlaeth Y, mae angen i gynigion fod yn hollgynhwysol. Mae'n Fis Hanes Cymru ar hyn o bryd yn y 'Western Mail'. Mae'r darnau rwyf wedi'u darllen wedi archwilio'r cydbwysedd rhwng cadw hunaniaeth hanesyddol mewn trefi a diwallu anghenion datblygiad eu poblogaethau. Dyma le mae syniadau creadigol yn bwysig, gan greu brand lleol cryf, ymgysylltu â'r gymuned i siopa'n lleol yn ogystal â byw'n lleol a darparu system drafnidiaeth integredig, gost-isel o ansawdd uchel.

As a member of the Enterprise and Business Committee also, I feel that our report is reflective. Town-centre regeneration requires a sophisticated, integrated and sustainable approach, in short: regulation, persuasion, conversion. Public, private and voluntary sector partnerships should be the vehicle for change. How do we structure that? I feel that city regions are an opportune chance to implement this agenda. Reducing the burden on local authorities, city region boards can take a more strategic view. Their region-wide remit is a platform to create town centres and urban developments that have a different offer. With these boards steering things, we can create a strong local brand, guiding local authorities on complementing and not competing with town centres by creating a sub-panel on the board specifically for town centres and neighbouring urban communities within those regions. Minister, acknowledging the relative youth of the city region idea, I know that your vision is a strategic one.

Fel aelod o'r Pwyllgor Menter a Busnes hefyd, rwy'n teimlo bod ein hadroddiad yn un myfyriol. Mae angen dull gweithredu soffistigedig, integredig a chynaliadwy er mwyn adfywio canol trefi, yn fyr: rheoleiddio, perswadio, addasu. Dylai partneriaethau sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol fod yn gyfrwng ar gyfer newid. Sut ydym yn strwythuro hynny? Rwy'n teimlo bod dinas-ranbarthau yn gyfle da i weithredu'r agenda hon. Wrth leihau'r baich ar awdurdodau lleol, gall byrddau dinas-ranbarthau gymryd golwg fwy strategol. Mae eu cylch gwaith ledled y rhanbarth yn llwyfan i greu canol trefi a datblygiadau trefol sydd â chynnig gwahanol. Gyda'r byrddau hyn wrth y llyw, gallwn greu brand lleol cryf, gan arwain awdurdodau lleol i ategu canol trefi yn hytrach na chystadlu â hwy drwy greu is-banel ar y bwrdd ar gyfer canol trefi a chymunedau trefol cyfagos yn y rhanbarthau hynny yn benodol. Weinidog, gan gydnabod bod y cysyniad o ddinas-ranbarth yn gymharol newydd, rwy'n gwybod bod eich gweledigaeth yn un strategol.

Llanelli, as we know, was built around heavy industry. The town centre and surrounding communities flourished first in line with coal mining, then tinplate and then steelworks. Today, it is home to a central market and a mix of independent traders and large companies. It has historical buildings like Llanelly House, as well as a major regeneration from Carmarthenshire County Council's Big 5 projects, including a new theatre and cinema, benefiting from European funding. The existing proposals for an independent cinema and fine dining have worked quite well in Llanelli. Yet, it is fair to say that Llanelli town centre still has its challenges.

Adeiladwyd Llanelli, fel y gwyddom, o gwmpas diwydiant trwm. Ffynnodd canol y dref a'r cymunedau cyfagos ar yr un pryd â'r gwaith glo yn gyntaf, wedyn ar yr un pryd â thunplat ac yna gwaith dur. Heddiw, mae'n gartref i farchnad ganolog a chymysgedd o fasnachwyr annibynnol a chwmnïau mawr. Mae ganddi adeiladau hanesyddol fel Plas Llanelly, yn ogystal â gwaith adfywio sylweddol 5 prosiect mawr Cyngor Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys theatr a sinema newydd, sy'n elwa ar gyllid Ewropeaidd. Mae'r cynigion presennol ar gyfer sinema annibynnol a bwyty moethus wedi gweithio'n gymharol dda yn Llanelli. Eto i gyd, mae'n deg dweud bod canol tref Llanelli yn dal i wynebu heriau.

Since the creation of the Trostre retail park, footfall is diverted away from the town centre. Add the current economic climate, empty shops and competition from elsewhere, and conditions on the ground are fast changing. However, exciting projects are under way in town centres across Wales. Two Welsh Government funding streams are being developed: business improvement districts and Vibrant and Viable Places.

Mae sefydlu parc manwerthu Trostre wedi tynnu siopwyr o ganol y dref. O ystyried yr hinsawdd economaidd bresennol, siopau gwag a chystadleuaeth o lefydd eraill ar ben hynny, mae'n glir bod amodau ar lawr gwlad yn newid yn gyflym. Fodd bynnag, mae prosiectau cyffrous ar y gweill yng nghanol trefi ledled Cymru. Mae dwy ffrwd gyllido Llywodraeth Cymru yn cael eu datblygu: ardaloedd gwella busnes a Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid.

Reliable, accessible and affordable transport is another central pillar. It holds up multiple avenues—railway, bus and car. It is a central focus of the city region and I look forward to proposals to develop the transport links. Llanelli station is a gateway to the town, yet, like Swansea and other towns and cities, the station is not in the centre. There is a clear need for a seamless transport link.

Mae trafnidiaeth ddibynadwy, hygyrch a fforddiadwy yn sylfaen ganolog arall. Mae'n cynnal llwybrau lluosog—rheilffordd, bws a char. Mae'n ganolbwynt canolog i'r ddinas-ranbarth, ac edrychaf ymlaen at gynigion i ddatblygu'r cysylltiadau trafnidiaeth. Mae gorsaf Llanelli yn borth i'r dref, ac eto, yn debyg i Abertawe a threfi a dinasoedd eraill, nid yw'r orsaf yn y canol. Mae angen clir ar gyfer cyswllt trafnidiaeth di-dor.

What about free parking? That is part of the draw of out-of-town centres. Last Christmas, the council offered free parking after 10.00 am in the centre of Llanelli. The car park was full— I saw it for myself. The number of people shopping in Llanelli, I would have said, had doubled, if not trebled, in that session before Christmas because of the free parking.

Beth am barcio am ddim? Mae hynny'n rhan o apêl canolfannau y tu allan i'r dref. Y llynedd, cynigiodd y cyngor barcio am ddim ar ôl 10:00 am yng nghanol Llanelli. Roedd y maes parcio yn llawn—gwelais hynny drosof fy hun. Roedd nifer y bobl yn siopa yn Llanelli, byddwn wedi dweud, wedi dyblu, os nad treblu, yn y cyfnod hwnnw cyn y Nadolig oherwydd y parcio am ddim.

In many parts of my constituency, reliance on public transport is high. We need, therefore, to be innovative in our proposals for transport. Consideration must be made of changing work patterns, and the cost of transport. Integrated transport proposals need more exploration and scrutiny than the time that I have today. To keep it short, I believe that there is merit in exploring the Transport for London oyster-card model, especially where there is a cluster of urban centres where people go to and fro to work or college. Having talked earlier about local branding, perhaps we could call it, in west Wales, 'the cockle card'. That sounds quite good to me.

Mewn sawl rhan o fy etholaeth, mae llawer o bobl yn dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus. Mae angen, felly, i ni fod yn arloesol yn ein cynigion ar gyfer trafnidiaeth. Mae'n rhaid ystyried patrymau gwaith newidiol, a chost trafnidiaeth. Mae angen archwilio a chraffu mwy ar gynigion trafnidiaeth integredig na'r amser sydd gennyf heddiw. I'w gadw'n fyr, credaf fod rhinwedd mewn ystyried model cerdyn wystrys Trafnidiaeth ar gyfer Llundain, yn enwedig lle mae clwstwr o ganolfannau trefol lle mae pobl yn mynd yn ôl ac ymlaen i'r gwaith neu'r coleg. Ar ôl siarad yn gynharach am frandio lleol, efallai y gallem ei alw, yng ngorllewin Cymru, 'y cerdyn cocos'. Mae hynny'n swnio'n eithaf da i mi.

A safe presence on our streets is another variable in the equation. I have two comments here. Seventy-four of the additional 500-strong force of police community support officers that were pledged by our Welsh Labour Government operate in the Dyfed-Powys area. I have spoken before about going out on the beat with them, seeing their interaction and how they work with local people and, really, they are an added bonus to the town. What I reiterate today is how their presence on our streets boosts feelings of safety, and their interaction with vulnerable communities is priceless. Drawing from the success in Swansea, I hope that this is something that Llanelli town centre can consider as part of its BID campaign. Secondly, I want to pick up on the idea of town centre communities—living above and around the shops in the high street, together with Shop Local campaigns, are a sure way to inject vibrancy.

Mae presenoldeb diogel ar ein strydoedd yn newidyn arall yn y darlun. Mae gen i ddau sylw yma. Mae saith deg pedwar o'r 500 o swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu ychwanegol a gafodd eu haddo gan ein Llywodraeth Lafur Cymru yn gweithio yn ardal Dyfed-Powys. Rwyf wedi siarad o'r blaen am fynd allan ar y strydoedd gyda nhw, gweld eu rhyngweithio a sut y maent yn gweithio gyda phobl leol ac, mewn gwirionedd, maent yn fonws ychwanegol i'r dref. Yr hyn rwy'n ei ailadrodd heddiw yw sut y mae eu presenoldeb ar ein strydoedd yn hybu teimladau o ddiogelwch, ac mae eu rhyngweithio â chymunedau sy'n agored i niwed yn amhrisiadwy. Yn sgîl y llwyddiant yn Abertawe, rwy'n gobeithio bod hyn yn rhywbeth y gall canol tref Llanelli ei ystyried fel rhan o'i hymgyrch BID. Yn ail, rwyf am gyfeirio at y syniad o gymunedau canol tref—byw uwchben ac o gwmpas y siopau yn y stryd fawr, ynghyd ag ymgyrchoedd Siopwch yn Lleol, sy'n ffordd sicr o hyrwyddo bywiogrwydd.

Let met turn to ideas. Our shopping list is nothing without structure, but what should the essential ingredients be? Have you been to Mumbles, Llandeilo, Narberth or Cowbridge? They all have a strong flavour of quality independent retailers and they create a different offer—a local brand with a huge reach; complement, not competition.

Gadewch i mi droi at syniadau. Nid yw ein rhestr siopa yn ddim byd heb strwythur, ond beth ddylai'r cynhwysion hanfodol fod? A ydych wedi bod i'r Mwmbwls, Llandeilo, Arberth neu'r Bont-faen? Mae gan bob un ohonynt flas cryf o fanwerthwyr annibynnol o ansawdd ac maent yn creu cynnig gwahanol—brand lleol gwahanol gyda chyrhaeddiad enfawr; ategu, nid cystadlu.

Across several work streams here—Government, committees and cross-party groups—we are well acquainted with the needs and challenges of small businesses. I welcome Business Wales in Dafen, Llanelli; it is a one-stop shop for small and medium-sized enterprises. Llanelli has seen several quality stores opening of late. What I want to explore further is the entrepreneurial psyche, entrenching a culture of encouraging SME start-ups. In certain instances, perhaps pop-up shops are a way to offer a new taste, with of course the caveat of a suite of measures encouraging permanency. Town centre fairs and markets have also worked, and we have recently hosted a successful weekend festival called Retro Fest. The challenge will be to regularise such events to maintain interest and enthusiasm.

Ar draws sawl ffrwd waith yma—Llywodraeth, pwyllgorau a grwpiau trawsbleidiol—rydym yn gyfarwydd iawn ag anghenion a heriau busnesau bach. Rwy'n croesawu Busnes Cymru yn Nafen, Llanelli; mae'n siop un stop ar gyfer busnesau bach a chanolig. Mae sawl siop o safon wedi agor yn Llanelli yn ddiweddar. Yr hyn rwyf am ei archwilio ymhellach yw'r ysbryd entrepreneuraidd, gan sefydlu diwylliant o hybu busnesau bach a chanolig newydd. Mewn rhai achosion, gallai siopau gwib gynnig blas newydd, gyda, wrth gwrs, y cafeat o gyfres o fesurau i'w hannog i aros yn barhaol. Mae ffeiriau a marchnadoedd canol y dref wedi llwyddo hefyd, ac yn ddiweddar rydym wedi cynnal gŵyl benwythnos lwyddiannus o'r enw Retro Fest. Yr her fydd trefnu digwyddiadau o'r fath yn rheolaidd er mwyn cynnal diddordeb a brwdfrydedd.

To conclude, what do professional touches do? They bind it all together. I want to maximise the strategic ability of city regions, creating vibrant town centres within the region that complement, not compete. We can learn from competitors elsewhere, from what they do best and the themes of best practice that run through. Through the whole remit of the city region idea, we can also incorporate transport, housing and workforce developments—together enhancing the prosperity of urban communities.

I gloi, beth y mae cyffyrddiadau proffesiynol yn ei wneud? Maent yn rhwymo'r cyfan at ei gilydd. Rwyf am fanteisio'n llawn ar allu strategol dinas-ranbarthau, gan greu canol trefi bywiog yn y rhanbarth sy'n ategu, nid yn cystadlu. Gallwn ddysgu gan gystadleuwyr mewn mannau eraill, o'r hyn y maent yn ei wneud orau a'r themâu arferion gorau cyffredin. Drwy gylch gwaith cyfan y syniad o ddinas-ranbarth, gallwn hefyd gynnwys trafnidiaeth, tai a datblygiadau'r gweithlu—sydd gyda'i gilydd yn gwella ffyniant cymunedau trefol.

Minister, the majority of this comes under your portfolio. I know that your vision for the city region boards is a strategic one, and I ask that you consider all that I have outlined in their future direction, including a town centre sub-panel. I know that some issues cross ministerial portfolios and I would ask you to raise these in discussions with Cabinet colleagues. I have welcomed the Welsh Labour Government investment in Llanelli: the BID, Vibrant and Viable Places, the one-stop shop and CFAP. Those are merely the most recent. Strategy is key. It is also a wide concept that encompasses a range of factors, some unpredictable and uncertain. There is enough collaboration and good practice in Wales, and I want to channel that to create a strong and distinct local brand. Together with planning, leadership and a holistic attitude, we can achieve the influencing of hearts and minds needed to develop vibrant and sustainable urban communities and town centres.

Weinidog, mae'r rhan fwyaf o hyn yn perthyn i'ch portffolio. Gwn fod eich gweledigaeth ar gyfer y byrddau dinas-ranbarthau yn un strategol, ac rwy'n gofyn i chi ystyried popeth a amlinellais wrth bennu eu cyfeiriad yn y dyfodol, gan gynnwys is-banel canol y dref. Gwn fod rhai materion yn croesi portffolios gweinidogol a byddwn yn gofyn i chi godi'r rhain mewn trafodaethau â chydweithwyr yn y Cabinet. Rwyf wedi croesawu buddsoddiad Llywodraeth Lafur Cymru yn Llanelli: yr AGB, Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid, y siop un stop a'r Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol. Dim ond y diweddaraf yw'r rheini. Mae strategaeth yn allweddol. Mae hefyd yn gysyniad eang sy'n cwmpasu amrywiaeth o ffactorau, rhai ohonynt yn anrhagweladwy ac yn ansicr. Mae digon o gydweithio ac arferion da yng Nghymru, ac rwyf am sianelu hynny i greu brand lleol cryf ac unigryw. Ar y cyd â chynllunio, arweiniad ac agwedd gyfannol, gallwn lwyddo i ddylanwadu ar galonnau a meddyliau er mwyn datblygu cymunedau trefol a chanol trefi bywiog a chynaliadwy.

17:36

## Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I fully recognise what you said about footfall in town centres and communities falling by a fifth, while internet shopping and vacancy rates are rising every year. People think that, because that is a recession, now is not a good time for people to go into business. I can actually dispute that. Recently, we have seen voluntary redundancies and now is a good time for people to pursue a hobby that they want to turn into an ambition, into a small cottage business.

Rwy'n cydnabod yn llawn yr hyn a ddywedasoch ynglŷn â'r ffaith fod nifer yr ymwelwyr â chanol trefi a chymunedau trefol wedi disgyn gan un rhan o bump, tra bod cyfraddau siopa ar y rhyngrwyd a siopau gwag yn codi bob blwyddyn. Mae pobl yn meddwl, gan fod hynny'n dirwasgiad, nad yw hwn yn amser da i bobl gychwyn busnesau. Gallaf anghytuno â hynny mewn gwirionedd. Yn ddiweddar, rydym wedi gweld diswyddiadau gwirfoddol ac mae'n amser da ar hyn o bryd i bobl ddatblygu diddordeb y maent am ei droi'n uchelgais, gan sefydlu busnes bach.

While the business model is changing, the support that is required is not. Business rates continue to be the single biggest headache, with current rateable values sometimes exceeding the rentable values. Minister, while I appreciate that you are not responsible for the actual funding, it is fair to say that the Government initiative to allow the temporary business rates support has been a good initiative, but it is temporary, and businesses say to me, 'How long is this going to last?' These are people who want to start up new businesses, so I would ask whether you could provide some assurance that that support might be forthcoming in the future.

Er bod y model busnes yn newid, nid felly'r cymorth sydd ei angen. Mae ardrethi busnes yn parhau i achosi'r problemau mwyaf, gyda gwerthoedd trethiannol cyfredol weithiau yn fwy na'r gwerthoedd rhentadwy. Weinidog, er fy mod yn sylweddoli nad ydych yn gyfrifol am y cyllid gwirioneddol, mae'n deg dweud bod menter y Llywodraeth i ganiatáu'r cymorth ardrethi busnes dros dro wedi bod yn fenter dda, ond mae'n fenter dros dro, ac mae busnesau yn dweud wrthyf, 'Am faint o amser y mae hyn yn mynd i bara?' Mae'r rhain yn bobl sydd am sefydlu busnesau newydd, felly byddwn yn gofyn a fyddai modd i chi roi rhywfaint o sicrwydd y gallai cymorth fod ar gael yn y dyfodol.

Another issue that is quite a serious one is that discretionary rate relief is allowed for businesses that are struggling, and not many businesses in our communities are aware of this. I have raised it previously and, again, I would really like for you to liaise with the Minister to ensure that, among our businesses that may be struggling, local authorities raise awareness that this support is available, because, too often, it is held onto by the local authorities and not passed over to the businesses that need it.

Mater eithaf difrifol arall yw'r ffaith fod rhyddhad ardrethi yn ôl disgresiwn yn cael ei ganiatáu ar gyfer busnesau sy'n ei chael yn anodd, ac nid yw llawer o fusnesau yn ein cymunedau yn ymwybodol o hyn. Rwyf wedi ei godi o'r blaen ac, unwaith eto, byddwn yn wir yn hoffi i chi gysylltu â'r Gweinidog i sicrhau, ymysg ein busnesau a allai fod yn ei chael yn anodd, bod awdurdodau lleol yn codi ymwybyddiaeth bod y cymorth hwn ar gael, oherwydd, yn rhy aml, mae'r awdurdodau lleol yn dal eu gafael arno yn hytrach na'i drosglwyddo i'r busnesau sydd ei angen.

17:38

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

May I say at the start that I rather like Llanelli town centre, but, unfortunately, I continue to do my shopping in Swansea, Neath, Port Talbot and Bridgend in my region, rather than travel across the bridge? I thank Keith very much for bringing this debate forward today, because I think that you have made some very important points, particularly about the importance of footfall in terms of reinvigorating the town centre. I think that the issue about parking is a key one, because the growth of out-of-town shopping centres has driven trade out of town centres. The downside as well is that a lot of these out-of-town shopping centres have been built to generate income to build facilities, like the Scarlets stadium, Liberty Stadium and the Cardiff stadium. To an extent, local authorities have been encouraging out-of-town shopping centres to develop those facilities, and that is something that is expected, but also has had a big impact on town centres.

A gaf fi ddweud ar y dechrau fy mod yn hoffi canol tref Llanelli, ond, yn anffodus, rwy'n parhau i wneud fy siopa yn Abertawe, Castell-nedd, Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr yn fy rhanbarth i, yn hytrach na theithio dros y bont? Rwy'n ddiolchgar iawn i Keith am ddod â'r ddadl hon gerbron heddiw, oherwydd credaf eich bod wedi gwneud rhai pwyntiau pwysig iawn, yn enwedig am bwysigrwydd nifer yr ymwelwyr wrth adfywio canol trefi. Rwy'n credu bod parcio yn fater allweddol, gan fod twf canolfannau siopa y tu allan i'r dref wedi cynyddu masnach y tu allan i ganol trefi. Yr anfantais hefyd yw bod llawer o'r canolfannau siopa y tu allan i'r dref wedi cael eu hadeiladu i greu incwm er mwyn adeiladu cyfleusterau, fel stadiwm y Scarlets, Stadiwm Liberty a stadiwm Caerdydd. I raddau, mae awdurdodau lleol wedi bod yn annog canolfannau siopa y tu allan i'r dref i ddatblygu'r cyfleusterau hynny, ac mae hynny i'w ddisgwyl, ond mae wedi cael effaith fawr ar ganol trefi hefyd.

I think that we have got to get people living in town centres again, to reinvigorate them, so that they are alive, not just during the day, but in the evenings as well. We have to find ways of attracting private investment in to build them up. I have been on the periphery in Swansea of attempts to develop Swansea city centre since the 1980s, and we have always missed the opportunity, because the return that retailers demand on these developments is very large, and we have always just missed that window. How you get those retailers and how you get your timing right is very important, and certainly we need to find new ways of getting that investment into the town centres and city centres to try to get new shops and premises there and get more people into them to use them.

Rwy'n meddwl bod yn rhaid i ni gael pobl yn byw mewn canol trefi unwaith eto, i'w hadfywio, fel eu bod yn fyw, nid yn unig yn ystod y dydd, ond gyda'r nos hefyd. Mae'n rhaid i ni ddod o hyd i ffyrdd o ddenu buddsoddiad preifat i'w datblygu. Rwyf wedi bod ar y cyrion yn Abertawe o ymdrechion i ddatblygu canol dinas Abertawe ers y 1980au, ac rydym wedi colli'r cyfle bob amser, oherwydd bod yr enillion y mae manwerthwyr yn mynnu eu cael ar y datblygiadau hyn yn fawr iawn, ac rydym wedi colli'r ffenestr honno bob tro. Mae'r broses o gael gafael ar y manwerthwyr hynny a sicrhau bod eich amseriad yn iawn yn bwysig iawn, ac yn sicr mae angen i ni ddod o hyd i ffyrdd newydd o sicrhau'r buddsoddiad hwnnw mewn canol trefi a chanol dinasoedd er mwyn ceisio denu siopau ac adeiladau newydd yno a denu mwy o bobl i'w defnyddio.

17:39

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call the Minister for Communities and Tackling Poverty to reply to the debate—Lesley Griffiths.

Galwaf ar y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi i ymateb i'r ddadl—Lesley Griffiths.

17:39 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer, and thank you, Keith Davies, for bringing forward this very important and timely short debate in advance of a statement to the Chamber on town centre regeneration next Tuesday.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd, a diolch i chi, Keith Davies, am gyflwyno'r ddadl fer hon, sy'n bwysig ac yn amserol iawn, cyn datganiad i'r Siambr ar adfywio canol trefi ddydd Mawrth nesaf.

In Wales, we have towns and cities of all shapes and sizes that have their origins in a rich and diverse past. From market towns to fishing ports, and from centres of industry to key transport hubs, whatever their origins, town centres are dynamic places providing communities with an important range of employment, goods and services. They are the focus of cultural, recreational and leisure activities for residents, surrounding communities and visitors. The numerous businesses within town centres provide a valuable contribution to the local economy, both directly and indirectly.

Yng Nghymru, mae gennym drefi a dinasoedd o bob lliw a llun sydd â'u gwreiddiau mewn gorffennol cyfoethog ac amrywiol. O drefi marchnad i borthladdoedd pysgota, ac o ganolfannau diwydiant i ganolfannau trafnidiaeth allweddol, beth bynnag eu cefndir, mae canol trefi yn lleoedd deinamig sy'n darparu amrywiaeth bwysig o gyflogaeth, nwyddau a gwasanaethau ar gyfer cymunedau. Maent yn ganolbwynt i weithgareddau diwylliannol, adloniant a hamdden ar gyfer trigolion, cymunedau cyfagos ac ymwelwyr. Mae'r busnesau niferus yng nghanol trefi yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at yr economi leol, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol.

As Members will be aware, we now have a number of significant threats to town centres. The development of out-of-town retail parks, the emergence of online shopping, and the simple changing of shopping habits, all of which Keith referred to, have helped to accelerate a decline in the vibrancy of many of our town centres. Out-of-town developments have been looked at with administrations attempting to address this through planning policy, by directing mixed-use developments in, and adjacent to, existing urban areas with good accessibility by public transport. However, in an age of increased car ownership, out-of-town parks have clearly delivered what consumers want—all of which only serves to highlight the challenge of reinventing what town centres can offer. It is that town centre offering that we have recently begun to look at supporting through all of the programmes at my disposal.

Fel y gŵyr yr Aelodau, mae gennym bellach nifer o fygythiadau sylweddol i ganol trefi. Mae datblygiad parciau manwerthu y tu allan i'r dref, ymddangosiad siopa ar-lein, a’r ffaith fod arferion siopa wedi newid, fel y cyfeiriodd Keith atynt, wedi helpu i gyflymu dirywiad ym mywiogrwydd llawer o’n canol trefi. Rhoddwyd ystyriaeth i ddatblygiadau y tu allan i'r dref ac mae gweinyddiaethau wedi ceisio mynd i'r afael â hyn drwy bolisïau cynllunio, drwy gyfeirio datblygiadau defnydd-cymysg mewn ardaloedd trefol presennol a’r llefydd cyfagos y mae’n hawdd eu cyrraedd ar drafnidiaeth gyhoeddus. Fodd bynnag, mewn oes o gynnydd mewn perchnogaeth ceir, mae’n amlwg bod parciau y tu allan i'r dref wedi darparu’r hyn y mae defnyddwyr ei eisiau—sy’n amlygu’r her anodd o ail-greu’r hyn y gall canol trefi ei gynnig. Rydym wedi dechrau ceisio cefnogi’r hyn sydd gan ganol y dref i’w gynnig yn ddiweddar, gan ddefnyddio'r holl raglenni sydd ar gael i mi.

You have referred to the Vibrant and Viable Places programme, much of which is looking to address deficiencies in our town centres. As town centres contract, we need to find alternative use for vacant properties and sites that become available. We are funding such opportunities through VVP. You will be aware, Keith, of the significant investment that that is bringing in Llanelli, which is indeed addressing this issue. Just earlier this afternoon, I heard, during your oral question to the Minister for finance, her praising of the regeneration of Llanelli town.

Rydych wedi cyfeirio at y rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid, ac mae llawer ohoni’n ymwneud â mynd i'r afael â diffygion yng nghanol ein trefi. Wrth i ganol trefi grebachu, mae angen i ni ddod o hyd i ddefnydd arall ar gyfer eiddo a safleoedd gwag sydd ar gael. Rydym yn ariannu cyfleoedd o'r fath drwy’r rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid. Byddwch yn ymwybodol, Keith, o'r buddsoddiad sylweddol sy’n dod i Lanelli yn sgîl hynny, sydd yn wir yn mynd i'r afael â'r mater hwn. Dim ond yn gynharach y prynhawn yma, clywais, yn ystod eich cwestiwn llafar i'r Gweinidog cyllid, ei chanmoliaeth ar gyfer y gwaith o adfywio tref Llanelli.

As towns change we can explore how to consolidate retail in more focused areas and locate housing and local services in town centres. As Peter Black mentioned, I am a big advocate for housing within a town centre. I always have been, and it is something that I will certainly be looking at at the beginning of my portfolio. I think that this also includes increasing opportunities to consider the role of leisure and the night-time economy as part of a town’s offer, as a destination for residents and visitors. Again, VVP is facilitating such developments.

Wrth i drefi newid gallwn ni archwilio sut i atgyfnerthu manwerthu mewn ardaloedd mwy penodol a lleoli tai a gwasanaethau lleol yng nghanol trefi. Fel y dywedodd Peter Black, rwy’n gefnogol iawn i gael tai yng nghanol y dref. Rwyf wedi cefnogi hyn erioed, ac mae'n rhywbeth y byddaf yn sicr o’i ystyried ar ddechrau fy mhortffolio. Rwy'n credu bod hyn hefyd yn cynnwys cynyddu cyfleoedd i ystyried rôl hamdden a'r economi gyda'r nos fel rhan o gynnig tref, fel cyrchfan ar gyfer trigolion ac ymwelwyr. Unwaith eto, mae’r rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid yn hwyluso datblygiadau o'r fath.

We have developed other programmes to assist, as Keith acknowledged, such as business improvement districts being rolled out. We also have town centre partnerships. We recently held the high street support campaign. I will refer to it next Tuesday, but I will mention one of my first visits in my new portfolio. I visited Blaenavon town centre where, just 10 years ago, 26 shops were boarded up. Now, there are no shops boarded up. There are lots of independent businesses and shops flourishing on the high street in Blaenavon.

Rydym wedi datblygu rhaglenni eraill i gynorthwyo, fel y cydnabu Keith, fel cyflwyno ardaloedd gwella busnes. Mae gennym bartneriaethau canol y dref hefyd. Yn ddiweddar, gwnaethom gynnal ymgyrch gefnogi'r stryd fawr hefyd. Byddaf yn cyfeirio ati ddydd Mawrth nesaf, ond byddaf yn sôn am un o'm hymweliadau cyntaf yn fy mhortffolio newydd. Ymwelais â chanol tref Blaenafon lle, dim ond 10 mlynedd yn ôl, roedd 26 o siopau â'u ffenestri wedi'u byrddio. Yn awr, nid oes unrhyw siopau â'u ffenestri wedi'u byrddio. Mae llawer o fusnesau a siopau annibynnol yn ffynnu ar y stryd fawr ym Mlaenafon.

I share with all of my Cabinet colleagues a determination to deliver deeper and broader partnership working across all our policy areas. This will be key to successful regeneration. Janet Finch-Saunders referred specifically to business rates, which I will take up when developing our policies with my ministerial colleagues.

Rwy'n rhannu'r un penderfyniad â phob un o'm cydweithwyr yn y Cabinet i ddarparu gwaith partneriaeth dyfnach ac ehangach ledled ein holl feysydd polisi. Bydd hyn yn allweddol i adfywiad llwyddiannus. Cyfeiriodd Janet Finch-Saunders yn benodol at ardrethi busnes, a byddaf yn ystyried y mater hwn wrth ddatblygu ein polisïau gyda'm cydweithwyr gweinidogol.

I do welcome the opportunity today to reiterate the Welsh Government's commitment to safeguarding and regenerating our town centres. However, in reiterating our commitment to taking action at a national level, I would like to emphasise the importance of action at a local level. In terms of the examples that both Keith and Peter gave about free parking being used—and it was very good to hear of the success of such a policy over Christmas in Llanelli—you need to look at such schemes at a local level. Crucially, as far as our town centres are concerned, we must make sure that our regeneration efforts, focused on our town centres, link with the needs of the communities living in and around those town centres. Our vision of town centres as thriving hubs of sustainable communities will not be achieved by a one-size-fits-all approach to the development of those town centres. That is why the link between town centre regeneration and Communities First is extremely important and a key part of VVP. The recent reshuffle has made that aspect of my work all the more prominent.

Rwy'n croesawu'r cyfle heddiw i ailddatgan ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddiogelu ac adfywio canol ein trefi. Fodd bynnag, wrth ailddatgan ein hymrwymiad i weithredu ar lefel genedlaethol, hoffwn bwysleisio pwysigrwydd gweithredu ar lefel leol. O safbwynt yr enghreifftiau o ddefnyddio parcio am ddim y cyfeiriodd Keith a Peter atynt —ac roedd yn dda iawn clywed am lwyddiant polisi o'r fath dros y Nadolig yn Llanelli—mae angen i chi edrych ar gynlluniau o'r fath ar lefel leol. Yr hyn sy'n hollbwysig, o safbwynt canol ein trefi, yw sicrhau bod ein hymdrechion adfywio, sy'n canolbwyntio ar ganol ein trefi, yn gysylltiedig ag anghenion y cymunedau sy'n byw yng nghanol y trefi hynny a'r cyffiniau. Ni fydd ein gweledigaeth o ganol trefi sy'n ganolfannau ffyniannus o gymunedau cynaliadwy yn cael ei gwireddu drwy ddefnyddio un dull unffurf o ddatblygu'r canol trefi hynny. Dyna pam y mae'r cysylltiad rhwng adfywio canol trefi a Chymunedau yn Gyntaf yn hynod o bwysig ac yn rhan allweddol o raglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid. Mae'r ad-drefnu diweddar wedi gwneud yr agwedd honno ar fy ngwaith hyd yn oed yn fwy amlwg.

We also believe that the infrastructure and physical improvements need to be seen in a wider context of social regeneration; for example, tackling worklessness, ensuring community safety, and improving health and wellbeing. Therefore, our response to developing twenty-first century town centres needs to be shaped by the communities that they serve. Each town is facing similar issues but has its own unique challenges that require bespoke solutions. We need to work closely with local people to design those solutions. Janet Finch-Saunders referred to now being a good time to turn that hobby into a business and, again, in Blaenavon I met two women who had done just that. It was great to see women taking their dreams, if you like, forward. It was good to see their businesses doing so well on the high street.

Rydym hefyd yn credu bod angen ystyried y gwelliannau seilwaith a ffisegol mewn cyd-destun ehangach adfywio cymdeithasol; er enghraifft, mynd i'r afael â bod heb waith, sicrhau diogelwch cymunedol, a gwella iechyd a lles. Felly, mae angen i'n hymateb i ddatblygu canol trefi sy'n addas i'r unfed ganrif ar hugain gael ei lunio gan y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Mae pob tref yn wynebu problemau tebyg ond mae ganddynt eu heriau unigryw eu hunain sy'n gofyn am atebion pwrpasol. Mae angen i ni weithio'n agos gyda phobl leol er mwyn cynllunio'r atebion hynny. Cyfeiriodd Janet Finch-Saunders at y ffaith fod hwn yn amser da i droi diddordeb yn fusnes ac, unwaith eto, ym Mlaenafon cyfarfûm â dwy fenyw a oedd wedi gwneud hynny. Roedd yn wych gweld menywod yn rhoi eu breuddwydion, os mynnwch chi, ar waith. Roedd yn dda gweld eu busnesau yn gwneud mor dda ar y stryd fawr.

In a climate of reducing budgets across the public sector and beyond, we need to be even more creative with our interventions to maximise the impact from our limited resources. I know that Members here share our passion and enthusiasm for the future of our towns and today’s short debate will help to inform and shape our view of how we look ahead with our policies and priorities. I hope that I have reassured Members that the development of twenty-first century town centres is a key priority for this Welsh Government. I do look forward to debating this further during my oral statement next Tuesday. Diolch.

Mewn hinsawdd lle mae cyllidebau’n lleihau ledled y sector cyhoeddus a thu hwnt, mae angen i ni fod hyd yn oed yn fwy creadigol gyda'n hymyriadau i sicrhau’r budd mwyaf o'n hadnoddau cyfyngedig. Gwn fod yr Aelodau yma yn rhannu ein hangerdd a’n brwdfrydedd ar gyfer dyfodol ein trefi a bydd y ddadl fer heddiw yn helpu i lywio a llunio ein barn ar sut rydym yn edrych ymlaen â'n polisïau a'n blaenoriaethau. Gobeithio fy mod wedi rhoi sicrwydd i Aelodau bod y gwaith o ddatblygu canol trefi sy’n addas i’r unfed ganrif ar hugain yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru. Rwy’n edrych ymlaen at drafod hyn ymhellach yn ystod fy natganiad llafar ddydd Mawrth nesaf. Diolch.

17:46

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Minister. That brings today's proceedings to a close.

Diolch i chi, Weinidog. Daw hynny â thrafodion heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 17:46.*

*The meeting came to a close at 17:46.*